

Rhaglen Gyflawn



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR SWAIDESTRAF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR SWAIDESTRAF SIROL
wrecsam

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD MERCHER, 13EG GORFFENNAF, 2022

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679256

Rhodrijones1@gwynedd.llwy.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2022)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Councillor Ieuan Williams	Anglesey County Council
Councillor Gill German	Denbighire County Council
Cynghorydd Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Beca Brown	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Claire Armitstead	Secondary School Representative
Richard Collet	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr
Heather Loveridge	Yr Eglwys yng Nghymru

Swyddogion Heb Bleidlais

Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Claire Homard	Cyngor Sir y Fflint
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd
Rhys Howard Hughes	Anglesey County Council
Karen Evans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Geraint Davies	Cyngor Sir Ddinbych

Swyddogion yn bresennol

Rhodri Jones	Awdurdod Lletyol
Dewi Morgan	Awdurdod Lletyol
Sion Huws	Awdurdod Lletyol
Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Bethan Eleri Roberts	Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE
Gareth Williams	Bwrdd Ymgynghorol GwE
Graham Boase	Cyngor Sir Ddinbych

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022-2023.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2022-2023.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau o absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16.02.2022 fel rhai cywir.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022 GWE

14 - 120

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

8. CYNLLUN BUSNES GWE 2021-2022 - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 4

121 - 168

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

9. CYFRIFON GWE 2021-2022 - ALLDRO REFENIW

169 - 173

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

10. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2021-2022

174 - 214

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

- 11. ARCHWILIO CYMRU - CYNLLUN ARCHWILIO 2022 GWE** 215 - 224

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

- 12. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2021-2022** 225 - 236

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

- 13. CYNLLUN BUSNES GWE 2022-2023** 237 - 256

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

- 14. COFRESTR RISG** 257 - 261

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

- 15. CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION: FFRAMWAITH AR GYFER
GWERTHUSO, GWELLA AC ATEBOLRWYDD** 262 - 266

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

- 16. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO
MEWNOL 2022-23** 267 - 278

I dderbyn Gwybodaeth o'r adroddiad a nodi unrhyw sylwadau.

CYD-BWYLLGOR GWE – 16/02/22

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion Heb bleidlais: Dr Lowri Brown (Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd) a Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol:

GwE – Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Marc Berw Hughes (Uwch Arweinydd – Cynradd) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad).

Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol – Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Cyhoeddiadau'r Rheolwr Gyfarwyddwr

- Croesawyd Dewi Morgan, olynnydd Dafydd Edwards, i'r cyfarfod fel y Swyddog 151, ac fe'i llongyfarchwyd ar ei benodiad i'r swydd.
- Dymunwyd yn dda i Annwen Morgan, Prif Weithredwraig Arweiniol GwE, ar ei hymddeoliad, a diolchwyd iddi am ei gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd.
- Cyfeiriwyd at farwolaeth ddiweddar Aled Roberts, y Comisiynydd Iaith, oedd hefyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol GwE, a chydymdeimlwyd â'i deulu yn eu profedigaeth.
- Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf y cyfnod presennol o'r Cyd-bwyllgor, a diolchwyd i'r aelodau am eu gwaith dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Nodwyd hefyd y dymunai staff GwE ddiolch i bawb yn y Cyd-bwyllgor am yr arweiniad a'r gefnogaeth a roddwyd yn ystod y cyfnod. Eglurwyd na fyddai'r Cynghorwyr Meirion Jones a Cemlyn Williams yn ail-sefyll etholiad ym mis Mai. Diolchwyd i'r ddau am eu cefnogaeth a'u harweiniad yn ystod y cyfnod yma, a dymunwyd y gorau iddynt ar eu hymddeoliad o wleidyddiaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hymrwymiad ac am y cydweithio dros y 5 mlynedd ddiwethaf, ac yn arbennig i'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r tîm. Dymunodd yn dda i'r ddau aelod fyddai'n ymdeol ym mis Mai, a hefyd i bawb arall fyddai'n ail-sefyll etholiad.

1. YMDDIHEURIADAU

Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Richard Collet (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych) a Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar y 10fed o Dachwedd, 2021 yn gywir.

5. CYLLIDEB GWE 2021-22 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid yn diweddarau'r aelodau ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22. Roedd yr adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.

Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r bwriad i wneud defnydd o £100,000 ychwanegol yn erbyn y pennawd grant gwella ysgolion cyffredinol, eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Bod y tanwariant dros y 2 flynedd ddiwethaf, yn ystod y pandemig, ychydig dros £250,000, ac yn ddelfrydol, y dymunid symud yn ôl tuag at y sefyllfa hynny, gan fod angen i'r arian fod yn yr ysgolion.
- Bod yr ysgolion yn wynebu heriau trawsffurfio sylweddol ar hyn o bryd, gyda dyfodiad y cwricwlwm newydd, yr uchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, Rhaglen Trawsnewid ADY a'r gwaith sylweddol sydd angen ei gwblhau ym maes asesiadau, ynghyd ag ystyriaethau llesiant ac arweinyddiaeth.
- Mai un o'r heriau yn wynebu ysgolion ar hyn o bryd oedd prinder athrawon llanw. Fodd bynnag, golygai hyn fuddsoddi yn y tymor hwy, fel bod gan yr ysgolion yr adnodd ariannol i gynllunio'r prif flaenoriaethau hyn o fewn eu cynlluniau datblygu ysgolion. Gan hynny, wrth i'r pandemig gilio, byddai mwy o gyflenwad yn dod ar gael, fel bod modd i'r ysgolion adeiladu mwy o gapasiti i mewn i'w strwythurau cynllunio i wneud y newidiadau hynny.

6. CYLLIDEB SYLFAENOL 2022-23

PENDERFYNIAD

Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2022/23 fel y'i chyflwynir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Trafodaeth

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno cyllideb sylfaenol GwE 2022/23 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a chyfraniadau ariannol yr awdurdodau (Atodiad 2). Gwahoddwyd y Cyd-bwyllgor i fabwysiadu'r gyllideb sylfaenol.

Awgrymwyd bod swm y balansau, sef agos i £600,000, yn ymddangos yn uchel, a holwyd a oedd y swyddogion yn gyfforddus gyda hynny. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Bod y ffigwr ychydig llai na £300,000 2 flynedd yn ôl, sef tua hanner y swm presennol. Yn bersonol, byddai'n dymuno dod â'r ffigwr yn ôl i lawr i'r lefel honno,

a byddai hynny'n eithaf rhwydd i'w wneud drwy roi arian i gefnogi blaenoriaethau i roi capasiti i ysgolion.

- Y byddai'n rhaid gwneud yn siŵr wedyn bod yr isadeiledd a'r strwythurau y tu ôl i hynny mewn lle, er mwyn sicrhau gwerth am yr arian ychwanegol yna ar lefel ysgol, ar lefel awdurdod, ac wedyn ar lefel rhanbarth.
- Yn sgil y cynnydd presennol mewn chwyddiant, bod angen ystyried beth sy'n swm darbodus i'w gadw wrth gefn, gan gofio hefyd y rhagolygon cynnar bod cyllideb 2023/24 am fod yn fwy heriol, o bosib'. Hefyd, er na dderbyniwyd y gyllideb grantiau gan Lywodraeth Cymru hyd yma, roedd y naratif cychwynol yn sôn am doriad eithaf sylweddol i'r pwll grantiau, ond heb weld y manylion, nid oedd yn glir eto beth fyddai effaith hynny.
- Petai'r gyllideb grantiau yn cywedd yn eithaf tebyg i'r sefyllfa eleni, yna gyda chynghor ar yr hyn sy'n ddarbodus o ran chwyddiant, byddai'r gwahaniaeth yna yn dod â ni yn ôl i oddeutu'r 2-3%, neu i'r sefyllfa fel ag yr oedd 2 flynedd yn ôl. Dyna'r nod, os nad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma, yna yn sicr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Nododd y Cadeirydd fod yr ansicrwydd ynglŷn â chwyddiant cyflogau athrawon ym mis Medi hefyd yn gost anhysbys y byddai'n rhaid ei gyfarch o falansau, yn hytrach na thorri gwasanaethau, a'i bod felly bob amser yn ddoeth cadw rhywfaint o arian wrth gefn.

7. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2021-22 GWE – ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

Trafodaeth

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo a derbyn adroddiad monitro chwarter 3 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-22 GwE.

Mynegwyd pryder ynglŷn â chapasiti yn wyneb y cynnydd yn nifer ymweliadau Estyn, a'r angen i ddeall sut yn union fyddai'r drefn newydd yn gweithio, ac effaith Covid ar hynny, o gofio bod dysgwyr a gafodd eu heffeithio'n uniongyrchol gan y pandemig bellach wedi cyrraedd oed arholiad. Holwyd pryd fyddwn ni'n gwybod faint ar ei hól hi mae'r dysgwyr, a faint o ystyriaeth fydd Estyn yn ei roi i hynny.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Bod y 2 flynedd ddiwethaf, heb arolygiadau ffurfiol, wedi rhoi cyfle i'r system anadlu a thyfu a chydweithio ar wella gwahanol bethau, yn arbennig yng nghyddestun trawsffurfiol y prif faterion polisi.
- O ran sut fyddai'r drefn newydd yn gweithio, nid ffurf yr arolygiadau oedd y brif ystyriaeth, eithr y diwylliant, a sut i reoli hynny oll mewn ffordd deg a chyfiawn ar draws y gyfundrefn, wrth i wahanol bobl fynd o ysgol i ysgol.
- Y disgwyliad y byddai yna bwysau sylweddol ar y system wrth symud ymlaen, a byddai'r arolygiadau cyntaf ym mis Medi yn allweddol o safbwynt gweld a yw'n fwrriad gan Estyn edrych ar y cyd-destun ai peidio.
- Gyda phob ysgol yn cael 10 diwrnod yn unig o rybudd o arolwg, byddai'r sefyllfa'n wahanol iawn i'r 2 flynedd ddiwethaf, a dyma lle'r oedd y cydweithio'n bwysig. Roedd yna weithdrefnau mewn lle rhwng GwE a'r awdurdodau lleol, ond gyda dwbl yr arolygiadau, byddai yna gost hefyd yn nhermau adnoddau dynol.

Nodwyd bod llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o benaethiaid ysgolion, ac i annog dirprwy benaethiaid, ac ati, i ymgeisio am swyddi penaeithiaid, ond holwyd a fyddai'n rhaid ystyried ymgeiswyr o dros y ffin i lenwi rhai o'r swyddi, ac os felly, pa gefnogaeth gychwynnol fyddai ar gael i sicrhau bod y bobl hynny yn llwyr ymwybodol o'r newidiadau enfawr sy'n digwydd ym maes addysg yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Nad oedd ganddo lawer o bryder ynglŷn â'r niferoedd, ond hytrach y diffyg cyfle i roi cynllunio olyniaeth ar waith dros y 2 flynedd ddiwethaf, gan y bu'n rhaid canolbwyntio'n llwyr ar gynnal, yn hytrach na datblygu, addysg.
- Y byddai'r gwaith o gefnogi'r sawl sydd ag uchelgais i fod yn bennaeth, a phenaethiaid newydd, yn un o'r prif flaenoriaethau wrth symud ymlaen.

8. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y DAITH DDIWYGIO TYMOR YR HYDREF 2021

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r blaenoriaethau lefel uchod a nodwyd.

Trafodaeth

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyl yn cyflwyno gwybodaeth i'r Cyd-bwyllgor yng nghyd-destun ble mae ysgolion ac UacCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt roi sylw i'r agenda adfywio a diwygio, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE fel rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor yr hydref 2021. Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r blaenoriaethau lefel uchel a nodwyd.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli ei bod hi a'r prif swyddogion yn llwyr gefnogol i'r daith ddiwygio, a'u bod yn ddiolchgar am y trosolwg cynhwysfawr gan y Rheolwr Gyfarwyddwr a'i dîm, a'r mewnbwn gan swyddogion eraill hefyd i gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ynghylch y manylion o gwmpas y cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm.

Nodwyd bod yna lawer o elfennau heriol ar droed ar hyn o bryd, ond holwyd a oedd yna unrhyw beth y dylai'r Cyd-bwyllgor fod yn arbennig o wyladwrus yn ei gylch ar y pwynt yma. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Bod angen i bawb fod yn ymwybodol o'r shifft sylweddol o gwricwlwm cenedlaethol, lle mae pawb yn weddol unffurf yn ei ddilyn, i gwricwlwm sy'n cael ei arwain gan bwrpas, ac sy'n gwricwlwm lleol, a pha mor bwysig ydyw bod y llywodraethwyr ac arweinyddiaeth yr ysgolion yn arwain y cynnig yma yn eu cymunedau, ac i'w disgyblion, ac yn cyfathrebu hynny'n glir.
- O bosib, na lawn sylweddolwyd pa mor bwysig yw rôl yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn diffinio'r arlwy maen nhw'n dymuno ei roi i'r disgyblion er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn llwyddo yn eu milltir sgwâr.
- Mai her arall i'r gwleidyddion, ac i'r swyddogion, oedd bod yr arlwy am fod yn wahanol o ysgol i ysgol, ac y byddai'r gwaith o gymharu ysgolion hefyd yn digwydd ar lefel ychydig yn wahanol.
- Ei bod yn ofynnol i'r arweinyddiaeth fod yn glir o ran beth yw'r rhesymeg dros eu cynnig hwy yn lleol. Roedd cymunedau yn hollol wahanol i'w gilydd yn ieithyddol ac o ran diwydiant, ayb. Roedd yna bethau creiddiol fyddai'n gyffredin, ond pethau eraill fyddai'n gwneud y cynnig yn y gwahanol ardaloedd yn unigryw, ac

yn benodol ac yn bersonol i'r disgyblion hynny, a'u taith hwy tuag at fyd gwaith, addysg neu hyfforddiant.

- Bod gennym waith i addysgu ein hunain, a gwaith i'r swyddogion, yn eu hadroddiadau craffu, i egluro a rhoi cyd-destun i'r newid mewn diwylliant a'r gwahaniaeth fyddai yna mewn cynnig o ysgol i ysgol.

Mynegwyd pryder ynglŷn â gallu'r seilwaith i ymdopi â'r holl bwysau wrth symud ymlaen, e.e. o ran y cwricwlwm a'r Rhaglen Trawsnewid ADY, a holwyd a ddylem fod yn gwthio nôl ychydig, ac yn datgan nad yw'n 'fusnes fel arfer' yn y maes addysg. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Bod yna flaenoriaethau a gytunwyd ar lefel genedlaethol, ac sy'n rhaid eu mabwysiadu ar lefel leol. Cytunid bod yna densiwn, a rôl GwE oedd cynorthwyo'r ysgolion i wella a rhoi pethau mewn lle, fel nad oedd mabwysiadu'r trawsnewid yn digwydd rhwng 31 Awst ac 1 Medi, a'i fod yn hytrach, yn digwydd dros gyfnod o 2-3-4 blynedd.
- Bod y shift yn Rhaglen Trawsnewid ADY yn sylweddol ac yn rhoi'r baich ar lefel ysgol, ac wrth ddod â phopeth ynghyd, roedd yn allweddol bod y gwasanaethau cefnogol ar y blaen o ran anghenion yr ysgol, ac yn paratoi ar gyfer y camau nesaf.
- Gan fod y pandemig wedi cael mwy o ardrawiad ar rai ysgolion nag eraill, roedd yn bwysig ein bod yn torri'r elfennau hyn i lawr i rannau llai, er mwyn caniatáu i ysgolion sydd mewn sefyllfaoedd gwahanol ymdopi.
- Y byddai penderfyniad Estyn i ddyblu nifer yr arolygiadau a lleihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod yn cyflwyno lefel uwch o bryder i mewn i'r system.
- Bod GwE yn trafod gyda'r Llywodraeth ynglŷn â'r diffiniad o 'barodrwydd'. Roeddem yn barod i ymrwymo ar gyfer mis Medi yn y sector uwchradd, ond roedd angen adeiladu ansawdd y cynnig i mewn i hynny, fel bod modd cynnig rhywbeth gwell na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- O gymryd popeth at ei gilydd, arweinyddiaeth, llesiant a gofalu am reolwr canol ac uwch reolwyr mewn ysgolion, yn ogystal â chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol, roedd pobl dan straen sylweddol. Byddai'r agenda wedi bod yn heriol heb y pandemig, ond gyda'r pandemig, roedd yn eithriadol o heriol, a dyna pam bod yr elfen gefnogol mor bwysig.
- Y cwestiwn pwysig i'w ofyn oedd, pan fo'r rheoleiddiwr yn gofyn i'r ysgolion brofi beth maen nhw wedi wneud, sut mae'r naratif yn edrych mewn gwirionedd, a pha mor empathig fydd hynny, o ystyried cyd-destun y 2 flynedd ddiwethaf?

Nodwyd, er ei bod yn werthfawr cael cwricwlwm lleol sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned leol, mai'r elfen allweddol yn hyn oll fyddai'r arweinyddiaeth gyfunol rhwng arweinyddion a llywodraethwyr ysgolion, er sicrhau cysondeb wrth i ddysgwyr drosglwyddo o'r sector cynradd i'r uwchradd. Fel arall, gallai problemau enfawr godi wrth i blant o nifer o ysgolion cynradd gwahanol gyrraedd Blwyddyn 7, ond heb fod wedi cael yr un profiadau a chyfleoedd i ddatblygu'r un set o sgiliau.

Nodwyd bod y prif swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gynorthwyo'r penaethiaid i fod mor barod â phosib' ar gyfer 1 Medi, ac yn cyfleu'r neges yn gyson i'r Llywodraeth ac i Estyn nad yw'n 'fusnes fel arfer' yn y maes addysg. Eglurwyd y rhoddwyd cyfleoedd i benaethiaid ymgysylltu ar adeg ac ar gyflymder sy'n gyfleus iddynt o fewn yr amserlen a osodwyd ar gyfer cychwyn Medi. Ychwanegwyd bod penaethiaid yn teimlo'n rhwystredig oherwydd, er gwaethaf y materion sylweddol ar y gorwel, roeddent yn cael eu tynnu yn ôl yn barhaus i ymdrin â materion gweithredol dydd i ddydd yn sgil y pandemig, yn arbennig yr heriau o safbwynt rheoli ymddygiad disgyblion o ganlyniad i'r trawma a achoswyd gan y pandemig.

Nodwyd bod GwE yn gwneud gwaith ardderchog wrth barhau i gefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd.

Nodwyd nad parodrwydd y proffesiwn ar gyfer y cwricwlwm newydd oedd yr unig bryder, eithr parodrwydd y dysgwyr hefyd, a mynegwyd pryder na thrafodwyd hyn ar lefel genedlaethol. Eglurwyd bod y 2 flynedd o darfu ar addysg wedi effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol disgyblion, a'u gallu i dderbyn addysg wyneb yn wyneb. Bwriadai'r prif swyddogion barhau i drafod hyn gyda'r Llywodraeth, ac roedd hefyd yn fater i'w gadw mewn golwg pan fydd Estyn yn arolygu.

9. ADOLYGU STRWYTHUR Y TÎM BUSNES

PENDERFYNIAD

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi caniatâd i'r gwasanaeth symud ymlaen gyda'r newidiadau i sicrhau cynhwysedd priodol.**
- **Cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyd-bwyllgor ar yr adeg briodol ar ganlyniadau'r ail-strwythuro.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y bwriad i ail-strwythuro Tîm Busnes GwE. Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi caniatâd i'r gwasanaeth symud ymlaen gyda'r newidiadau i sicrhau cynhwysedd priodol.

10. CYFLAWNI'R DAITH I WEITHREDU'R CWRICWLWM – CYMORTH I YSGOLION

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r gweithgareddau arfaethedig fel yr amlinellir.

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y cymorth sydd ar gael i ysgolion dros y ddau dymor nesaf i'w galluogi i weithredu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r gweithgareddau arfaethedig a amlinellwyd.

Holwyd a ddisgwyliid bod y safon yn eithaf cyson ar draws yr ysgolion. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Arweinydd – Cynradd:-

- Bod rhaid derbyn bod pob ysgol mewn lle gwahanol ar y siwrne, gyda rhai angen mwy o gefnogaeth nag eraill, ond trwy'r arlwy yma, gobeithid sicrhau bod yr elfennau statudol yn eu lle erbyn mis Medi, gyda phob ysgol wedi cael y gefnogaeth a'r cyfle i fynd drwy'r broses.
- Bod hyn hefyd yn rhoi cyfle i bob ysgol gychwyn ar y daith gynllunio, ac edrych ar y meysydd datblygu hyfforddiant. Roedd llawer o ysgolion wedi cychwyn ar y gwaith yma eisoes, a byddai'n rhoi pob ysgol mewn lle i fedru dechrau ym Medi.
- Bod rhaid cofio mai dechrau'r siwrnai yn unig fydd hyn, ac y bydd yna llawer o ailymweld a llawer o gefnogaeth ar gael fel bod ysgolion yn gallu addasu a chael y cwricwlwm mewn lle yn briodol dros y blynyddoedd i ddod.

Nodwyd, er gwaethaf yr anawsterau dros y 2 flynedd ddiwethaf, y gobeithid bod y gwaith wedi'i gyflawni fel na wynebir gormod o heriau rhwng hyn a mis Medi. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Er bod yna le i roi'r dimensiwn lleol, bod yna broses ffurfiol y mae'n rhaid i bawb fynd drwyddi i gyrraedd y pwynt, ac mai prif fwriad y gyfres nesaf o weithdai fyddai rhoi'r rhwydwaith diogelwch o gwmpas yr ysgolion, fel bod pawb yn glir o ran cyflawni'r pethau sydd angen bod yn barod.
- Bod y cwestiwn o ansawdd angen sylw, fel yn y blynyddoedd a fu, ond byddai yna heriau lleol iawn, ac roedd angen i ni i gyd ystyried beth yw'r gymuned rydym yn byw oddi fewn iddi. Roedd yna gymuned i'r ysgol, ond roedd y gymuned ysgol yna yn byw o fewn cymuned awdurdod hefyd, ac roedd yna drafodaeth gorfforaethol o gwmpas arweinyddiaeth y cwricwlwm a'r cyfeiriad strategol y dymunai'r cyngor ei ddilyn hefyd. Gan hynny, roedd rhaid peidio meddwl bod ysgolion mewn gwagle yn gweithredu eu dymuniadau eu hunain, ac roedd yn ofynnol iddynt weithio o fewn yr is-adeiledd yma hefyd.

Nodwyd mai'r her fwyaf yw'r trosglwyddo o flwyddyn 6-7, a sut mae'r ysgolion yn mynd i ymdopi â hynny o ran dalgylchoedd lleol. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Bod hon yn her ar fwy nag un lefel, oherwydd, er mwyn gosod y weledigaeth yn ei chymuned, ei bod yn ofynnol i'r gymuned o 3-18 oed gael y weledigaeth, neu bydd yna linyddau gwahanol yn dod i mewn.
- I gymhlethu'r sefyllfa, roedd yna rai ysgolion lle mae eu dalgylchoedd naturiol yn croesi, a hefyd disgyblion yn symud o ysgol i ysgol o un pen Gogledd Cymru, neu sir, i'r llall, neu'n dod i mewn o unrhyw ardal arall.
- Bod cwestiwn ai gwybodaeth neu sgiliau sy'n cael eu trosglwyddo, ac os y ddau beth, sut wedyn mae cymhathu'r disgybl newydd yna i'w gymuned newydd?
- Er y gellid cynllunio pontio mewn cymuned, roedd pontio traws-cymuned yn rhywbeth tra gwahanol eto, ac roedd ymarferoli'r weledigaeth gwricwlaidd yn mynd i esgor ar nifer o heriau newydd a gwahanol.

Nodwyd bod gwydnwch y dysgwyr sy'n gwneud y symudiad a'r ganran uwch o blant sydd wedi dadrithio o'r gyfundrefn addysg yn sgil y pandemig yn elfen arall fydd yn creu heriau.

Holodd y Cadeirydd a ddylai'r sector uwchradd ohirio gweithredu'r cwricwlwm newydd am flwyddyn er mwyn sicrhau cymesuredd rhwng yr hyn mae ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd yn gynnig. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Bod llawer o'r ysgolion uwchradd wedi dweud ar ddechrau'r flwyddyn academaidd bresennol y byddent yn dymuno cyflwyno'r cwricwlwm yn 2022, ond bellach wedi ail ystyried ac yn debygol o'i gyflwyno'n swyddogol o Fedi 2023.
- Bod y cwricwlwm newydd yn mynd i fod yn newid trawsffurfiol sylweddol iawn, ac i hynny ddigwydd mewn dyfnder, bod angen amser i ail-ymweld â'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiad, gan drosi hynny i gynllun cwricwlwm fydd yn darparu arweiniad i'r ysgolion ar sut, a beth, i'w gynllunio.
- Bod y proffesiwn wedi'i lethu gan y pwysau o gadw'r ysgolion yn agored, ac wrth i fis Medi agosáu, dylid ystyried, ar y naill law, beth sydd i'w ennill drwy ruthro i newid y drefn eleni? Ar y llaw arall, ni ddymunid i'r ysgolion gollu momentwm, yn enwedig gan y bydd y cylch arolygu yn cychwyn ym Nhymor yr Haf 2022.
- Y credid bod angen trafodaeth gyda'r ysgolion yn unigol, gan eu bod mewn sefyllfaoedd gwahanol.
- O ystyried y pwysau ar yr ysgolion dros y 2 flynedd ddiwethaf yn rheoli'r blynyddoedd arholiad, bod angen trafodaeth lawn ynglŷn â pha mor barod ydynt ar gyfer 2022, gan ystyried oni fyddai'n well defnyddio'r amser i aeddfedu eu meddyliau ar gyfer 2023.

Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol cynnal sesiwn briffio ar y cwricwlwm newydd ar gyfer yr aelodau newydd yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai.

11. LLYTHYR I'R GWEINIDOG ADDYSG YNGHYLCH CYFRES GYMWYSTERAU 2021-22 A'I YMATEB

PENDERFYNIAD

Nodi'n ffurfiol gynnwys y llythyr.

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor nodi'n ffurfiol gynnwys llythyr a anfonwyd at y Gweinidog Addysg ar 12 Ionawr, 2022, ar ran y Cyd-bwyllgor, ynghylch cyfres gymwysterau eleni. Gofynnwyd hefyd i'r Cyd-bwyllgor ystyried oes angen unrhyw ohebiaeth bellach â'r Gweinidog Addysg ar hyn o bryd yn dilyn ei ymateb i'r llythyr.

Nodwyd, er gwaethaf penderfyniad y Llywodraeth i asesu drwy arholiadau eleni, bod llawer, os nad y mwyafrif o ysgolion, yn teimlo nad oedd hynny'n briodol yn yr amgylchiadau.

Nododd y Cadeirydd fod pawb yn rhannu'r pryderon hyn, gan nodi y byddai'n ddiddorol gweld pa sicrwydd fydd y Gweinidog Addysg yn gallu rhoi i'r aelodau yn ei gyfarfod gyda hwy yn dilyn y cyfarfod hwn.

Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r llythyr a anfonwyd at y Gweinidog Addysg ar ran yr aelodau, a nodwyd ei fod yn adlewyrchu'r cydweithio aeddfed o fewn GwE.

12. CYTUNDEB RHANNU GWYBODAETH AM DDISGYBLION Y RHANBARTH

PENDERFYNIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ynglŷn â'r cytundeb rhannu gwybodaeth am ddisgyblion sy'n bodoli rhwng yr awdurdodau lleol a GwE.

13. CALENDR CYFARFODYDD 2022-23

PENDERFYNIAD

- Cymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- Awdurdodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr i symud y cyfarfod a raglenwyd eisoes ar gyfer Mai eleni i ddechrau Mehefin, os oes angen, mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Rheoli, yn ddibynnol ar y sefyllfa o safbwynt ail-ddyrannu'r portffolios addysg yn yr awdurdodau yn dilyn yr etholiad.
- Awdurdodi Cadeirydd 2022/23 i wneud newidiadau i'r calendr yn Atodiad 1, os oes angen.

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar galendr cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod, ac awdurdodi'r Cadeirydd i wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor eisoes wedi'i raglennu ar gyfer mis Mai eleni, ond o bosib' y byddai angen ystyried ei symud i ddechrau Mehefin, yn ddibynnol ar y sefyllfa o safbwynt ail-ddyrannu'r portffolios addysg yn yr awdurdodau yn dilyn yr etholiad.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu mewnbwn dros y 5 mlynedd ddiwethaf, ac i'r swyddogion gwasanaeth democratiaeth a'r cyfieithwyr am eu gwasanaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30yb a daeth i ben am 11.10yb.

CADEIRYDD



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Testun: Adroddiad Blynyddol GwE 2021-22

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2021-22 i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

2.2 Mae Adroddiad Blynyddol GwE eleni yn amlinellu sut mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Ynghlwm mae'r adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o'r meysydd canlynol:

- Cefndir a chyd-destun

- Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod y Pandemig: gwneud gwahaniaeth
- Gwerthuso effaith ein gwaith
- Cefnogi ysgolion gyda'u paratoadau at y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru
- Cefnogi a gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth
- Y Gymraeg
- Llesiant
- Ymgysylltu â Chymheiriaid
- Materion busnes
- Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023

3.2 Yn yr adroddiad, disgrifir sut mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau tuag at y Daith Ddiwygio a Cwricwlwm i Gymru, ac wrth wella ansawdd yr addysgu ac arweinyddiaeth.

3.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd GwE ac yn adnabod y blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2022-2023. Mae ein hamcanion strategol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol, ac adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu trwy broses hunan arfarnu'r gwasanaeth. Cytunwyd ar y blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer 2022-2023 gyda'r Cyd-bwyllgor ar 16 Chwefror 2022.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-2022.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau ar y cynllun y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â'r Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2021-22 a dogfennau ategol:

- ATODIAD 1: Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod Pandemig COVID
- ATODIAD 2: Effaith y ffrydiau gwaith
- ATODIAD 3: Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio - Tymor yr Hydref 2021
- ATODIAD 4: Strategaeth Rhanbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr
- ATODIAD 5: Data Rhanbarthol Cynllun Busnes
- ATODIAD 6: Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Cadarnhaf fod cyfrifoldeb ar Reolwr Gyfarwyddwr GwE, yn unol â'r cytundeb rhwng-awdurdod, i gyflwyno adroddiad ar berfformiad y Gwasanaeth i'r Cyd- Bwyllgor a'r Cynghorau yn flynyddol.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o waith GwE yn ystod 2021/22. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021 - 2022



CYNNWYS

1. Cefndir a chyd-destun
2. Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod y Pandemig: gwneud gwahaniaeth
3. Gwerthuso effaith ein gwaith
4. Cefnogi ysgolion gyda'u paratodau at y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru
5. Cefnogi a gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth
6. Y Gymraeg
7. Llesiant
8. Ymgysylltu â Chymheiriaid
9. Materion busnes
10. Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023

DOGFENNAU ATEGOL:

- **ATODIAD 1:** Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod Pandemig COVID
- **ATODIAD 2:** Effaith y ffrydiau gwaith
- **ATODIAD 3:** Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio - Tymor yr Hydref 2021
- **ATODIAD 4:** Strategaeth Ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr
- **ATODIAD 5:** Data Rhanbarthol Cynllun Busnes
- **ATODIAD 6:** Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023

1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Mae Adroddiad Blynyddol GwE am eleni yn amlinellu sut mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg, addasu, a chydweithio'n effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny ar draws sectorau yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad y sefydliad. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud un-rhyw benderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys trafod-aethau gweithredol ar agor ysgolion yn ddiogel yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol am ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Yn yr adroddiad, disgrifir hefyd sut mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratodau tuag at y Daith Ddiwygio a Cwricwlwm i Gymru, ac wrth wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae adran 8 yn amlinellu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd GwE. Bydd y Bwrdd Rheoli yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethiant yn barhaus ac mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd a rhannwyd cyfres o adroddiadau â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys barn ysgolion, staff ac awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion rhanbarthol. Ym mhob adroddiad, disgrifir ansawdd y ddarpariaeth a nodir y meysydd i'w gwella er mwyn gyrru'r agenda dysgu yn ei blaen.

Noda'r adroddiad hefyd y blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2022-2023. Nodir gweledigaeth gyffredinol GwE yn y cynllun busnes tair blynedd ac fe'i cryfheir ymhellach yn y cynllun busnes blynyddol.

2. RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID: GWNEUD GWAHANIAETH

Amlinellir yn Atodiad 1 sut mae'r gwasanaeth cyfan wedi'i ail-bwrpasu amryw o weithiau i fodloni gofynion diwygiedig ein rhanddeiliaid yn ystod pandemig Covid. Dyma fu ein gwahanol rolau ers diwedd mis Mawrth 2020:

- Cefnogi llesiant a datblygiad arweinwyr
- Arwain o'r canol ac arweinyddiaeth ochrol
- Dysgu Proffesiynol ystyrlon
- Arweinyddiaeth Gydwethredol
- Modelu
- Rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid

Bu pwyslais cryf ar foddelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyswllt

rheolaidd iawn â Phenaethiaid i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i weithredu'n effeithiol, a hefyd fel cyfrwng i gefnogi eu llesiant. Darparwyd rhagor o gefnogaeth ar gyfer llesiant uwch arweinwyr trwy gyfres o weithdai a gweminarau a oedd yn cefnogi eu gwytnwch yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cynhaliodd staff GwE ymweliadau bug-eiliol wyneb yn wyneb hefyd ar ran yr Awdurdodau Lleol ac hefyd wrth i ysgolion ail-agor yn Nhyrnor y Gwanwyn 2021 wedi'r ail gyfnod clo.

Mae GwE yn ystyried ei hun fel sefydliad partneriaeth, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen. Gweithiodd GwE yn effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Bu'n gweithio'n gyson hefyd gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd hefyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.

Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws Gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe aw-durdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau ath-rawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig COVID. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.

Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Un agwedd nodedig ar y gwaith hefyd fu natur benodol a phwrpasol y cymorth i athrawon ac ysgolion. Rydym wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clys-tyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seil-iedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn eg-wyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.

Targedwyd cynhaliaeth glir i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cefnogwyd mewn amrywiol ffyrdd yr ysgolion hynny sydd wedi cael y cyfnod clo a'r cyfnod dilynol yn anodd oherwydd bod staff yn gorfod hunan ynysu. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminar-au, rhannu deunyddiau ac adnoddau. Yn ogystal, staff GwE yn arwain yn uniongyrchol neu'n addysgu yn uniongyrchol mewn ysgolion, neu'n darparu dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.

Neilltuwyd llawer o amser ac egni i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymchwilio i arfer-ion rhyngwladol er mwyn dysgu am egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol a'u sefydlu. Bu GwE yn darparu cymorth ymarferol i arweinwyr i'w galluogi i ystyried eu dull cynllunio ysgol gyfan o ddarparu dysgu o bell a dysgu cyfunol, mireinio a gwerthuso'u darpar-iaeth esblygol a chynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ble gall disgyblion fod yn yr ysgol ac/neu gartref yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae hyn wedi cefnogi ysgolion i gael tros-olwg strategol gwell o'u darpariaeth.

Mae llawer o ysgolion yn cydnabod y bu ymgysylltiad rhieni yn ffactor allweddol wrth sicrhau darpariaeth dysgu o

bell/dysgu cyfunol effeithiol. Bu GwE a'r Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydnabod y bu heriau gweithredol oedd yn newid o ddydd i ddydd, ble bu'n rhaid cynllunio ar gyfer llw o sefyllfaoedd gan gynnwys carfanau o ddysgwyr yn hunan ynysu neu unigolion/grwpiau bach o ddysgwyr a staff yn hunan ynysu. Ceir llawer o enghreifftiau o sut y llwyddodd ysgolion i reoli'r sefyllfaoedd dyrys hyn yn dda, gyda strategaethau ysgol gyfan pendant. Parhaodd GwE a'r Awdurdodau Lleol i gefnogi ysgolion, gan ddefnyddio clystyrau a rhwydweithiau o ysgolion i gefnogi ei gilydd a rhannu adnoddau a strategaethau. Mae gan ysgolion yn rhanbarth GwE gasgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer pob grŵp oedran a gellir mynd at yr adnoddau hyn drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru>

Mabwysiadodd GwE hefyd ddull cyflymu dysgu rhanbarthol, gan weithio ar dair haen oedd yn cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, gyda'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gym-orth aciwt. Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Roedd y rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol.

3. GWERTHUSO EFFAITH EIN GWAITH

Mae'n bwysig bod ysgolion a'r holl bartneriaid yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Heb ddealltwriaeth o'r fath, mae'r system yn annhebygol o weithredu'n effeithlon nac yn effeithiol. Mae yna hefyd fwy o debygolrwydd o wrthdaro rhwng y gwahanol gyrff, gan dynnu egni a ffocws o'r nod sylfaenol o welliant parhaus er budd dysgwyr. Yn y pen draw, trwy weithio mewn partneriaethau, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, y bydd GwE, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid a staff ysgolion yn cael yr effaith fwyaf o ran gwella ysgolion yn barhaus.

Mae ymchwil y sefydliad sy'n dysgu yn dangos, er mwyn i wella ysgolion wneud gwahaniaeth, fod gan bawb o fewn y sefydliad ran i'w chwarae i sicrhau newid cadarnhaol mewn unigolion, sefydliadau a chynnydd dysgwyr. Ystyrir bod effaith i'w briodoli i ymyriad, darn o gefnogaeth, neu weithgaredd dysgu proffesiynol sy'n dylanwadu ar welliant ac yn gwneud gwahaniaeth pan fo'r amodau'n iawn. Gallai hyn gynnwys newidiadau yng ngwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad unigolion neu grwpiau. Gall y newidiadau hyn ddigwydd yn y tymor byr, canolig neu hir a dylent effeithio ar newid sefydliadol a chanlyniadau. Gellir diffinio effaith fel newidiadau sy'n digwydd i unigolion, i grwpiau diffiniedig e.e. arweinwyr, ymarferwyr a sefydliadau yn eu cyfanrwydd, yr effaith yn y pen draw fydd sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gynnydd dysgwyr.

Mae GwE yn defnyddio amrywiaeth o fodolau ac arolygon i ystyried effaith, yn seiliedig ar ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol, e.e. model Kirkpatrick, ac ati, yn ogystal â gweithio ar y cyd â'n partneriaid strategol Addysg Bellach. Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) i sefydlu systemau mwy effeithiol i werthuso effaith ein gwaith.

Mae'r broses werthuso hon yn llywio cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn galluogi GwE i ddatblygu a gwella'r cymorth presennol i ysgolion a chyflwyno rhaglenni dysgu proffesiynol ar draws y rhanbarth yn y dyfodol. Mae mesur effaith yn faes yr ydym yn ei gryfhau'n barhaus i wella ein prosesau gwerthuso a chynllunio

GWNEUD GWAHANIAETH

Mae'r berthynas golegol effeithiol a'r dull arwain rhanbarthol ar y cyd rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE wedi sicrhau'r canlynol:

- Cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.

- Cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ysgolion ar lefel clwstwr/fforwm
- Dull gweithredol ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogaeth i les arweinwyr ysgolion trwy ddysgu proffesiynol, cyfathrebu clir a rheolaidd.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, h.y. ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.

Yng Ngogledd Cymru, ein diffiniad ni o effaith yw'r gwahaniaeth a wnawn i:

- Gyflawni ein gwerthoedd ac ymddygiad
- Datblygu diwylliant o gydweithio a rhannu
- Hyrwyddo system sy'n hunan wella
- Dylanwadu ar les a chyflawniad dysgwyr
- Datblygu gwytnwch a gwella lles Penaethiaid
- Grymuso ysgolion i gael mwy o berchnogaeth ar gyfeiriad eu taith
- Cynyddu dealltwriaeth ymarferol o ddylunio, cynllunio, asesu a chynnydd o ran y cwr-icwlwm
- Gwella dealltwriaeth ac ymwneud â'r 12 egwyddor addysgegol
- Datblygu mwy o allu i arloesi a chyflwyno arferion addysgu sy'n seiliedig ar dystiol-aeth
- Gwella sgiliau digidol o fewn y gweithlu i wella'r addysgeg

Amlinellir prif effaith gwaith GwE yn ystod pandemig Covid-19 isod:

- Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Mae cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr/fforwm wedi sicrhau cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Dull gweithredu rhanbarthol a lleol clir ar waith ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu clir a rheolaidd.
- Rhoi canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.
- Mae ysgolion a lleoliadau wedi datblygu ar amryw o bwyntiau twf i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn gyffredinol, mae ganddynt:
 - broffesiwn addysgu sy'n fwy medrus ac yn gallu addasu;
 - mwy o ffocws a phwyslais ar les dysgwyr a staff;
 - gwell cymhwysedd digidol ymysg staff, disgyblion a rhieni;
 - dull dysgu ac addysgu mwy cyfunol;
 - partneriaethau gwell efo rhieni.

Dyma ddeilliannau eraill a'r effaith:

- Darparu cyfathrebu effeithiol drwy gyfrwng un pwynt cyswllt (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant) ar gyfer arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.
- Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes prinder staff.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen. Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.
- Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.
- Canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Mae gan ysgolion fynediad i doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol.

- Modelau dysgu o bell/dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y rhanbarth.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theu-luoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.
- Defnydd mwy cadarn o TGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.
- Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan ddigidol ar gyfer datblygiad proff-esiynol.
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag AauLL a rhoi cymorth amserol i unrhyw ysgol.
- Ar y cyd â'r ALL, sicrhau bod y broses o benodi ymgeiswyr am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion yn briodol a theg.
- Swyddogion GwE/ALI yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a GwE.
- Dull rhanbarthol a lleol clir yn weithredol ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddiben-ion.
- Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.
- Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod ar gyfer anghenion y dyfodol.
- Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwys o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru i sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda CaBan i sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydabod rhagoriaeth mewn ysgolion.

Gellir gweld effaith ein ffrydiau gwaith yn Atodiad 2.

4. CEFNOGI YSGOLION GYDA'U PARATOADAU AT Y DAITH DDIWYGIO A'R CWRICWLWM I GYMRU

Y DAITH DDIWYGIO

Mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau tuag at y Daith Ddiwygio a Cwr-icwlwm i Gymru ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn bodloni amrywiol ang-henion ysgolion yn ystod y pandemig.

Mae Cymru wedi ymrwymo i agenda diwygio uchelgeisiol er mwyn gwireddu cwricwlwm sy'n gweddnewid. Mae'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru, sydd yn seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru (CiG) newydd, yn rhoi ffordd gadarnhaol i symud ymlaen wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau'r pandemig. Mae nifer o syniadau arweiniol wrth wraidd hyn:

- Dylai'r cwricwlwm a'r dysgu, yr addysgu a'r asesu sydd yn gysylltiedig lifo o'r pedwar diben clir a gytunwyd yn genedlaethol ac a ddilynir yn lleol.
- Dylai'r dibenion hynny alluogi ein plant ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; yn unigolion iach, hyderus.
- Dylai'r dysgu ddatblygu'n raddol tuag at y pedwar diben hynny yn ystod amser pobl ifanc mewn addysg yn yr ysgol.
- Dylai athrawon ac ysgolion gael mwy o ryddid i gyflawni'r dibenion hynny mewn ffyrdd sydd yn gallu bodloni

anghenion a nodweddion y bobl ifanc a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae rhai goblygiadau pwysig yn deillio o'r syniadau sylfaenol hyn:

- Dylai fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol sefydlu cysondeb yn genedlaethol o ran pwrpas a gweithredu, gan adael lle i wneud penderfyniadau yn lleol am agweddau allweddol ar ddysgu ac addysgu.
- Dylai'r cwricwlwm fod yn broses ble mae cydweithio rhwng athrawon, ysgolion a buddiannau ehangach.
- Ni ddylai atebolrwydd lesteirio ansawdd na chulhau cwmpas y dysgu. Ble bynnag bosibl, dylai wella ansawdd nid sicrhau ansawdd cul.
- Dylid barnu llwyddiant y rhaglen ddiwygio yn erbyn y graddau y mae'n arwain at ddysgu gwell a mwy perthnasol i bobl ifanc, ac i safonau cyflawniad uchel. Dylai an-sawdd y dysgu a natur safonau ymwneud â'r graddau y mae'r dibenion cytûn yn cael eu cyflawni yn ymarferol i'r holl bobl ifanc.

Yn naturiol, mae effaith y pandemig wedi dylanwadu ar sut y gall ysgolion a lleoliadau symud ymlaen â'r diwygio. Mae angen iddynt ail-sefydlu perthnasedd y pedwar diben arweiniol i bobl ifanc Cymru. Mewn amryw o ffyrdd, mae'r pandemig wedi golygu bod y pedwar diben hynny yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen wrth i ysgolion geisio meithrin hyder eu pobl ifanc ac ail danio eu hawydd i ddysgu. Bu'n rhaid i ysgolion feddwl yn ddwys am yr hyn sydd yn bwysig o ran dysgu mewn cyfnodau o darfu ar addysg, ac mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn ymdopi'n dda â'r prawf hwnnw. Gyda'r pandemig, bu'n rhaid newid natur y dysgu a'r addysgu, yn enwedig felly y ffyrdd y gall technoleg ddigidol gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu'n fwy annibynnol.

Mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill, Estyn a Llywodraeth Cymru i osod y disgwyliadau sydd ar ysgolion a lleoliadau o safbwynt diwygio wrth i ni symud tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn [Cwricwlwm i Gymru: Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm](#). Yn y ddogfen hon, cydnabyddir hefyd yr her y mae Covid-19 yn parhau i'w rhoi i bob ysgol o fewn y strategaeth adnewyddu a diwygio.

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi cyflwyno profiadau dysgu ac addysgu ystyrlon trwy ddull dysgu cyfunol creadigol. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol.

Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu'n sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda adfywio a diwygio.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau i baratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae'r adroddiad yn Atodiad 3 - 'Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio' yn amlinellu ble roedd ysgolion ac UCD arni yn ystod Tymor yr Hydref 2021 wrth iddynt roi sylw i'r agenda adnewyddu a diwygio ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion.

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf.

Atodir ein 'Strategaeth Ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr' (Atodiad 4) sy'n gosod cyfeiriad strategol ein gwaith am y cyfnod nesaf. Trwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob disgybl yng Ngogledd

Cymru yn elwa ar ddarpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n Hunedau Cyfeirio Disgyblion.

Y CWRICWLWM I GYMRU (CiG) NEWYDD

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Mae GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen efo'u cynlluniau presennol i weithredu'r cwricwlwm newydd efo Blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn parhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

Y tu hwnt i 2023, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru fesul blwyddyn a dyfernir y cymwysterau cyntaf sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y flwyddyn academaidd 2026-27, fel y bwriadwyd. Bydd diwygio cymwysterau yn chwarae rhan greiddiol yn llwyddiant y cwricwlwm a bydd GwE yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru dros y flwyddyn nesaf i helpu i siapia set o gymwysterau o'r safon uchaf sy'n cyd-fynd ag athroniaeth y cwricwlwm newydd.

Yn rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru newydd, mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol sydd yn cyfuno pob agwedd ar y diwygio ehangach, gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bwriad y cynnig hwn ar draws y rhanbarth yw cefnogi holl ymarferwyr ysgolion, a chanolbwyntir yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr efo'r themâu hyn:

- Arwain Newid
- Arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm newydd
- Datblygu gweledigaeth a rennir
- Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm - i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu
- Arwain Addysgeg
- Creu amser a lle i ddysgu'n broffesiynol

Bwriadwyd i'r cynnig dysgu proffesiynol hwn ddechrau yn nhymor y Gwanwyn 2020, ond rhoddwyd saib arno oherwydd blaenoriaethau Covid-19 yn naturiol. Wrth drafod â Phenaeth-iaid ar draws GwE, ail-gydiwyd yn y dysgu proffesiynol yn rhithiol ym mis Ionawr 2021 gyda'r sesiwn ar Arwain Newid. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn rhai clwstwr ac yn gall-uogi i grwpiau llai o ysgolion cynradd, a'u hysgol uwchradd leol, i drafod y Cwricwlwm i Gym-ru ar draws y continwmm 3 i 16. Ar draws y rhanbarth, bu 832 o uwch arweinwyr yn y ses-iynau Arwain Newid hyn. Er mwyn cydnabod y ffaith bod ysgolion yn ail agor i bob dysgwr ym mis Mawrth a mis Ebrill, rhoddwyd saib ar y sesiynau Dysgu Proffesiynol unwaith eto ym mis Mawrth 2021.

Yn dilyn trafodaethau efo'r Cyfarwyddwyr Addysg drwy Fwrdd Rheoli GwE, cynhaliwyd cyf-res o weithdai ymgynghori ym mis Ebrill 2021 ym mhob Awdurdod Lleol i wrando ar farn Penaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a'r ffordd orau i ail-gydio. Bu dros 300 o Benaeth-iaid yn rhan o'r ymgynghori.

Yn ôl y sylwadau:

- Mae penaethiaid cynradd ac uwchradd yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gydweith-io ar draws y sectorau i

gefnogi'r continwmm 3 i 16;

- Mae'r holl arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynnal momentwm y dysgu proffes-iynol ond maent yn cydnabod her yr amseriad oherwydd y pwysau a'r heriau ar hyn o bryd;
- Arweinwyr yn awyddus i weithio gyda GwE er mwyn cael cyfraniad arbenigwyr all-anol lle bo'n briodol;
- Arweinwyr yn cydnabod bod hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â'r cynnig dysgu proffes-iynol yn allweddol er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol.

Er mwyn cefnogi'r ail-gydio â'r gwaith Cwricwlwm i Gymru, trefnwyd sesiwn cynllunio arweinyddiaeth arall ar gyfer pob clwstwr unigol ar draws y rhanbarth i feithrin cynhwysedd clystyrau i gydweithio ar draws gofynion y daith ddiwygio yn ei chyfanrwydd a ffurfio cynllun gweithredu cytûn i bob clwstwr. Yn rhan o hyn, hwylusodd bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant sesiynau ble cafodd ysgolion mewn clwstwr gyfle i gydweithio er mwyn cynllunio'n strategol i weithredu'r cwricwlwm. Bu mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a sensitif o ran amseriad y sesiynau hyn yn agwedd allweddol ar y trafodaethau rhwng GwE, yr awdurdod lleol ac ysgolion. Adnabwyd gweithgareddau i gefnogi'r paratodau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Defnyddio technoleg i gyd-ddatblygu cynlluniau datblygu a gwefannau i sicrhau bod y ddeialog yn parhau a bod Uwch Arweinwyr yn gallu parhau â'r gwaith hwn, yn sgil trafodaethau yn ôl ar lefel ysgol unigol.

Mae cymorth pellach ar gael i ysgolion gan gynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' sydd wedi'u hysgrifennu gan dîm GwE, yn rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol efo'r Athro Graham Donaldson. Rhannwyd a mireiniwyd y papurau hyn, sydd yn edrych ar agweddau allweddol ar daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, drwy ymgynghori â phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor.

Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol, mae cymorth ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Gellir cael y cymorth hwn ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, gan gynnwys cymorth unigryw ble bydd angen.

Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi, dylai pob ysgol fod wedi:

- cwblhau dylunio cwricwlwm lefel uchel i fodloni gofynion statudol
- datblygu dealltwriaeth a rennir o'r hyn sydd yn bwysig o ran cynnydd mewn sgiliau a gwybodaeth
- datblygu dealltwriaeth gyffredin ysgol gyfan o gynnydd ac asesu
- cael enghreifftiau o gynllunio er mwyn treialu, gan gynnwys asesu dysgwyr
- adnabod cyfleoedd cynyddol ar gyfer deialog proffesiynol ar draws y continwmm 3-16

Er mwyn galluogi ysgolion i gyrraedd disgwyliadau, bydd cynnig GwE dros dymor y Gwanwyn a'r Haf yn cynnwys cefnogi pob ysgol i ddatblygu:

- dylunio cwricwlwm ysgol gyfan a datganiad cwricwlwm lefel uchel
- cynllunio MDaPh effeithiol
- polisi ac arferion asesu ysgol gyfan

Fel gwaith paratoi ar gyfer y cynnig dysgu proffesiynol, mae staff GwE wedi datblygu arweiniad a modelau enghreifftiol ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgol gyfan, cynllunio cwricwlwm ac asesu er mwyn helpu arweinwyr ac athrawon wrth iddynt baratoi at weithredu'r cwricwlwm. Mae'r adnoddau, y modelau a'r deunyddiau enghreifftiol wedi'u cymeradwyo yn llawn gan yr Athro Graham Donaldson.

Bydd y Rhwydweithiau Cwricwlwm Rhanbarthol a Lleol yn defnyddio'r canllawiau a'r adnoddau wrth iddynt barhau i hyrwyddo ac annog gweithio mewn partneriaeth ar draws y gyfundrefn. Bydd hyn yn fodd i ysgolion gael mynediad at lyfrgell gyfoethog o adnoddau a chymorth wrth iddynt fynd ati i ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm lleol ac unigryw eu hunain.

Bydd mewnbyn parhaus gan staff GwE yn sail i waith y rhwydweithiau, gan sicrhau, felly, bod hyn yn fenter

wirioneddol gydweithredol.

Cynhaliwyd y gyfres gychwynnol o weithdai yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, i gefnogi ysgolion drwy'r broses o ddylunio'r cwricwlwm. Ffocws y gweithdai oedd creu datganiad cwricwlwm lefel uchel, gyda'r sail resymegol yn seiliedig ar gyd-destun lleol.

Mae'r gweithdai yn tywys arweinwyr ysgolion trwy wahanol fodelau dylunio ac yn darparu enghreifftiau amrywiol o ddatganiadau cwricwlwm. Bydd y rhwydweithiau dylunio cwricwlwm rhanbarthol a lleol yn datblygu'r modelau hyn ymhellach, gan ddarparu amrywiaeth eang o enghreifftiau i ysgolion eu hystyried wrth iddynt fynd ati i ddylunio cwricwlwm a llunio datganiadau. Unwaith bydd sail resymegol a datganiad ysgol mewn lle, bydd ysgol yn gallu dechrau ar y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm newydd.

Pan fydd y gweithdai dylunio cwricwlwm wedi'u cynnal, gall ymarferwyr ar draws y rhanbarth gael mynediad at ddsygu proffesiynol ar gynllunio Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn effeithiol. Bydd y sesiynau hyn yn paratoi arweinwyr ac athrawon at addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf ym mis Medi. Bydd y cynnig yn parhau trwy gydol 2022/23, gan ddatblygu ar y dysgu a ddaw i'r amlwg wrth gyflwyno am y tro cyntaf.

Bydd y gweithdai yn rhoi trosolwg o egwyddorion cynllunio cyn gweithio trwy fodelau cynllunio amrywiol. Bydd y gweithdai yn edrych ar:

- Ddatganiadau seiliedig ar ymholi neu gwestiynau fel sail i'r cynllunio
- Ystyriaethau cynllunio i'r athro
- Syniadau am weithgareddau
- Camau cynnydd ac ystyriaethau asesu
- Modelau cynllunio gwahanol, hynny yw, modelau disgyblaethol, amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol, integredig

Lluniwyd enghreifftiau amrywiol o fodelau cynllunio ar gyfer pob sector a phob un o'r chwe MDApH. Bydd y modelau hyn yn cael eu rhannu ag ysgolion a'u defnyddio gan y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fel sail i sicrhau bod modelau ychwanegol yn cael eu creu. Bydd hyn yn creu rhagor o gapasiti yn y system.

Y trydydd maes cymorth a ddarperir dros y ddau dymor nesaf yw polisi ac arferion asesu ysgol gyfan. Mae cynnydd dysgwyr yn agwedd allweddol sydd yn gyffredin i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm newydd. Cynhelir cyfres o weithdai i roi trosolwg i ysgolion o'r canllawiau cenedlaethol ac edrych ar egwyddorion asesu a chynnydd dysgwyr. Yn rhan o'r sesiynau hyn, caiff ysgolion fynediad at fodelau ac enghreifftiau o asesu, gan gynnwys system olrhain cynnydd wedi'i dylunio a'i chreu gan staff GwE. Unwaith eto, bydd y Rhwydwaith Asesu Rhanbarthol a Lleol yn datblygu'r gwaith hwn ac yn cynnig llawer o bwytiau cyfeirio i ysgolion eu harchwilio wrth ystyried polisiau ac arferion asesu.

Darperir matrices o gymorth GwE i bob ysgol, yn manylu ynghylch y cynnig dysgu proffesiynol sydd ar gael i'w cefnogi i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei wireddu yn eu hysgolion. Gall ysgolion ddewis pa feysydd cymorth sydd yn briodol iddynt, a chael mynediad i amrywiaeth eang o adnoddau, modelau ac enghreifftiau.

RHWYDWEITHIAU CWRICWLWM I GYMRU

Mae GwE yn parhau i hwyluso rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar lefel ranbarthol a lleol. Gweithia'r Rhwydweithiau mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALL yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDApH effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Ddiwygio.

Ym mis Mehefin 2021, gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol i gyfrannu at raglen gymorth barhaus GwE i ysgolion yn y meysydd a ganlyn:

- Dylunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan
- Cynnydd ac Asesu
- Datgloi potensial un o'r MDApH

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Y Celfyddydau Mynegiannol

Yn ystod tymor yr Haf 2021, mynegodd 300 o athrawon ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o'r rhwydweithiau. Ym mis Medi a mis Hydref 2021, gofynnodd lawer mwy o ysgolion am gael bod yn rhan o'r rhwydweithiau lleol. Bellach, mae mwy na 700 o ymarferwyr o leoliadau ysg-ol ar draws y rhanbarth wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r gwaith hwn.

Trwy'r rhwydweithiau, caiff ymarferwyr:

- gyfleoedd i rwydweithio gyda chyd-weithwyr ysgolion yn lleol ac yn rhanbarthol
- dyfnhau dealltwriaeth o broses dylunio'r cwricwlwm
- cyfleoedd i gyd-lunio a rhannu enghreifftiau o gynllunio'r cwricwlwm yn lleol
- datblygu a rhannu enghreifftiau o asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru

Mae'r holl ddeunyddiau a recordiadau o'r cyfarfodydd rhanbarthol ar gael i bob ysgol ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, ynghyd ag adnoddau ac enghreifftiau o'r gwaith dylunio a chynllunio. Ar ben hyn, bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt ar gael i gynnig cymorth unigryw ar lefel ysgol a chlwtwr/cynghrair.

5. CEFNOGI A GWELLA ANSAWDD YR ADDYSGU A'R ARWEINYDDIAETH

Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn adnabod eu hysgolion yn dda iawn, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strateg-aethau, polisiau a phrosesau eglur iawn ar waith ar gyfer gwella ysgolion ac a ddeallir gan yr holl randdeiliaid. Mae gweithdrefnau grymus ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol i osod cyfeir-iad a dwyn y gwasanaeth rhanbarthol i gyfrif. Mae rôl benodol y gwasanaeth mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i'r holl randdeiliaid.

Mae GwE yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio data a gwybodaeth ansoddol yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cyrraedd blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdodau Lleol.

ARWEINYDDIAETH

Mae GwE yn darparu arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ac yn targedu cynhaliach i ysgolion yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae trefniadau cadarn ar waith ble mae arweinwyr ysgolion yn cydweithio i gefnogi'r naill a'r llall mewn clyst-tyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd ac yn chymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb cyn-yddol am daith welliant ei gilydd.

Yn ystod 2021, wrth ymateb i'r peilot cenedlaethol i gefnogi ysgolion sydd yn achosi pryder drwy'r model amlasiantaethol, adolygwyd y gweithdrefnau a'r strwythurau ar gyfer cefnogi, monitro a herio ysgolion. Y bwriad oedd sicrhau y gallai pob ysgol gael cymorth safonol yn amserol er mwyn symud ar hyd y llwybr 'dymunol' ar y cyflymdra gofynnol. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol yn cynnwys swyddogion o bob awdurdod, ynghyd ag ym-gynghorwyr GwE, i yrru'r gwaith.

Ar gyfer yr ysgolion hynny'n sy'n perfformio'n gyson gryf neu'n gryf yn gyffredinol, rhoddir sylw i welliannau drwy gydweithio â cymheiriaid, drwy Raglen Dysgu Proffesiynol generig yr ALL/GwE, camau gweithredu a rhaglenni dysgu proffesiynol a nodir yn y Cynllun Datblygu Ysgol a thrwy gyfrwng Cynlluniau Cefnogaeth unigryw GwE. Dyma sut y gweithredwyd gyd-a'r ysgolion uwchradd yn 2021-22. Er hynny, pan amlygir pryder gan weithdrefnau'r Awdur-dod/

GwE, targedir cynhaliaeth ddwysach drwy'r dull amlasiantaethol.

O fewn y strwythur diwygiedig, bydd grŵp amlasiantaethol o uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol a staff GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybod-aeth a thystiolaeth fel bod pryderon yn cael eu hadnabod yn fuan. Mabwysiadwyd trothwyon a sbardunau i sicrhau cysondeb wrth adnabod pryderon mewn perthynas â safonau, dysgu ac addysgu, asesu, arweinyddiaeth, cynhwysiant neu faterion rheolaethol. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth gytûn a chysondeb gweithredu, trefnwyd hyfforddiant i bob swyddog ac ymgynghorydd. Unwaith y gwelir bod ysgol yn achosi pryder, bydd y swyddog arweiniol, yr Ar-weinydd Craidd a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt yn gweithio gyda thîm arwein-yddiaeth yr ysgol i ddatblygu cynllun cefnogaeth holistaidd 360. Mae'r grŵp amlasiantaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun holistaidd a'r gwaith monitro yn digwydd yn effeithiol. Mae trefniadau ar waith i adolygu cynlluniau yn rheolaidd, a'u haddasu ble mae hynny'n briodol. Ble bydd pryderon yn codi am ddiffyg cynnydd neu gyflymdra cynnydd, gweithredir i uwch gyfeirio'r rhain i sylw'r Pennaeth Addysg drwy gyfarfodydd y Bwrdd Safonau Ansawdd fel y gwneir penderfyniad priodol i weithredu pwerau statudol neu beidio.

Wrth i wybodaeth lifo'n rheolaidd rhwng swyddogion ac ymgynghorwyr GwE, sicrhawyd gweithredu effeithiol o fewn y strwythurau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng adrannau ac asiantaethau perthnasol er mwyn ystyried unrhyw ysgolion eraill sy'n agos at y trothwy ac ystyried ymyrryd yn gynnar.

Mae gan GwE a'r Awdurdodau Lleol weithdrefn effeithiol i gefnogi ysgolion gyda'u gwaith hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Caiff ysgolion eu herio'n gadarn ar ansawdd eu prosesau hunan arfarnu, a thrwy eu hymweliadau bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cefnogi ysgolion yn effeithiol i gryfhau eu prosesau arfarnu, fel craffu ar waith, arsylwi gwersi a theithiau dysgu yn effeithiol. Mae bron pob ysgol wedi llwyddo i barhau i werthuso ansawdd eu darpariaeth drwy gydol y cyfnod Covid-19 gan ddefnyddio amrywiaeth o ffyn-onellau gwybodaeth a thystiolaeth, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ag ysgolion eraill a swyddog cyswllt GwE.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi casglu barn rhanddeiliaid yn effeithiol drwy holiaduron i ddisgyblion a rhieni, galwadau ffôn neu sgysiau ag unigolion. Ar sail y canfyddiadau hyn, mae'r rhan fwyaf wedi addasu a gwella eu darpariaeth yn sylweddol.

Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE i gefnogi datblygiad arweinwyr ar draws y 'Llwybr Arweinyddiaeth'. Caiff gwybodaeth am eu cynnydd eu rhan-nu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Drwy'r cydweithio a'r cyfathrebu hwn, sicrheir y gall yr Awdurdodau Lleol adnabod anghenion datblygu a thargedu rhagor o gynhaliaeth os oes angen.

Addaswyd yr holl raglenni arweinyddiaeth i'w cyflwyno'n rhithiol. Mae athrawon wedi dangos ymrwymiad teilwng iawn i ddatblygu eu harferion a'u sgiliau arwain yn ystod y cyfnod Covid-19.

Mae cydweithio effeithiol i gefnogi penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro. Mae'r rhag-len yn cynnwys arlwy gyfoethog o hyfforddiant rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ysgol er mwyn paratoi penaethiaid i allu gwneud eu gwaith yn llwyddiannus fel penaethiaid, gan gyn-nwys sesiynau briffio ar reoli cyllid, diogelu, diogelwch safle ymysg elfennau rheolaethol eraill (gwahoddir penaethiaid ac arweinwyr profiadol hefyd). Mae gan bob pennaeth newydd fentor sydd yn bennaeth profiadol a llwyddiannus i ddarparu cymorth cadarn ar faterion rheolaethol lleol mewn perthynas â'u gwaith fel penaethiaid. Golyga hyn fod penaethiaid newydd yn cael cymorth amserol a phrydlon ac amryw o ffynonellau cymorth, fel y bo angen, yn ogystal â chyfleoedd da i ddatblygu eu gwybodaeth a dyfnhau eu sgiliau yn y rôl.

Darperir arlwy gyfoethog o ddatblygiad proffesiynol i gymorthyddion dysgu drwy'r rhaglenni cenedlaethol, h.y. y Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu. Mae'r LIDCD yn cynnwys rhag-len 'Sefydlu', 'Cymorthyddion wrth eu gwaith', a'r 'Darpar CALU', sy'n arwain at asesiad statws CALU. Yn yr un modd â'r rhaglen Arweinyddiaeth i athrawon, mae'r rhaglenni hyn yn annog unigolion i fod yn ymarferwyr myfyriol sy'n gwerthuso eu harferion yn erbyn y 'Safon-au Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu.'

Addaswyd yr holl raglenni CALU i'w cyflwyno'n rhithiol, newid a groesawyd yn fawr gan gymorthyddion dysgu. Rhoddwyd y rhaglen 'Sefydlu' ar ffurf rhestr chwarae Addaswyd y rhaglen 'Cymorthyddion wrth eu gwaith' yn ystod 2021-22 i'w gyflwyno'n rhithiol.

Lluniwyd rhaglen Darpar CALU genedlaethol yn 2020 sydd bellach ar ei bedwerydd cylch. Wedi gwblhau'r rhaglen Darparu CALU newydd, a bodloni gofynion cymwysterau llythren-nedd a rhifedd, gall cymorthyddion dysgu wneud cais am asesiad statws CALU.

Wrth i'r Awdurdodau Lleol a GwE gydweithio, gwelwyd cymorth cynhwysol iawn yn cael ei ddarparu i arweinwyr ysgolion er mwyn sicrhau bod eu lleoliadau yn ddiogel i ddychwelyd iddynt wedi'r cyfnod clo cyntaf. Mabwysiadwyd dull gweithredu rhanbarthol ar draws y rhan-barth i greu adnodd pwrpasol ar ffurf dangosfwrdd hylaw iawn. Mae'r dangosfwrdd hwn yn rhoi canllawiau cadarn iawn i arweinwyr ar adnabod peryglon posibl wrth gynllunio ar gyfer plant, staff a rhanddeiliaid eraill wrth ddychwelyd i'r ysgol. Ar ben hyn, rhydd yr adnodd hwn ganllawiau trylwyr iawn i ysgolion ar sut i leihau'r peryglon a nodir - drwy gasglu'r holl ddog-fennau canllaw perthnasol mewn un lle o dan penawdau fel Diogelwch, Safle a Chyfleuster-au, Staffio, ymysg penawdau eraill.

Mae cydweithio effeithiol ar lefel clwstr yn y cynradd ac yn y gynghrair uwchradd yn gryf-der yn y rhanbarth. Mae'r holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sy'n Ymgynghorwyr Cyswllt yn yr ysgolion cynradd yn brofiadol ac wedi bod yn cefnogi clystyrau penodol am gyfnod estynedig. Golyga hyn fod gan y gwasanaeth rhanbarthol a'r awdurdodau lleol bellach adna-byddiaeth drylwyr o gryfderau ac anghenion ysgolion penodol a chlystyrau/grwpiau o ysgol-ion. Ceir nifer o enghreifftiau ar draws y dalgylch sy'n dangos bod systemau a phrosesau ar gyfer cydweithio yn aeddfedu ymysg ysgolion er mwyn rhannu arbenigedd ymysg ysgolion a lleihau llwyth gwaith wrth ymateb i'r Daith Ddiwygio. Ar y gorau, mae'r cydweithio yn gweld arweinwyr o bob haen yn cyfarfod yn gyson i drafod a rhannu arferion da, yn cydweithio mewn ffordd strwythuredig gan lwyddo i ddatblygu amrywiaeth eang o feysydd fel Cwric-wlwm i Gymru, addysgeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, digidol a phontio cynradd-uwchradd. Mae'r cydweithio hwn wedi arwain at wella profiadau a deilliannau dysgwyr.

Mae'r Penaethiaid a'r staff a fu'n rhan o'r rhaglen i gyd yn gytûn y bu'r broses hon yn sylfaen gref iddynt allu cydweithio a rhannu adnoddau dros y cyfnodau clo. Nodwyd hefyd ei bod yn sylfaen gref i ddatblygu darpar arweinwyr ymysg yr hwyluswyr gwelliant.

ADDYSGU

Mae ansawdd yr addysgu'n gyffredinol gadarn ar draws y sectorau ac mae gweithredu pwr-pasol yn digwydd i wella a chysoni ble gwelir amryfuseddau. Mae GwE wedi gweithredu'n gadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd y dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod Covid-19 a chyn hynny. Ers cychwyn y cyfnod clo, bu'r rhanbarth yn weithredol yn ei chefnogaeth i ysgolion. Darparwyd a rhannwyd ystod eang o ddeunyddiau a modelau saf-onol dysgu o bell a chyfunol drwy lwyfannau digidol megis 'Google Classroom' a Chanolfan Cefnogaeth GwE. Canolfan Cefnogaeth GwE. Mae'r gwaith wedi tynnu ar ganfyddiadau ymchwil i arferion rhyngwladol effeithiol yn y maes.

Mae'r cydweithio mewn clystyrau a chynghreiriau i gyd-ddatblygu a rhannu adnoddau ac ar-ferion llwyddiannus yn y maes hwn wedi bod yn gryfder yng Ngwynedd ac yn tystio i'r ber-thynas waith gadarn sydd ar waith rhwng rhanddeiliaid. Mae penaethiaid wedi gwerthfawrogi cyfraniadau'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt a swyddogion yr Awdurdod o ran darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaethau. Bu hwyl-uso cyfarfodydd clwstr a chynghreiriol yn allweddol i rannu syniadau ac arferion da ar gyfer datblygu eu darpariaeth dysgu o bell a chyfunol. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Darparwyd hefyd ystod o ganllawiau ac adnoddau o safon uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, a gweithiwyd hefyd â Mike Gershon i hwyluso mynediad rhieni i ddeunyddiau safonol fel eu bod hwythau'n gallu cefnogi eu plant. Mae ymateb cadarnhaol wedi bod i ddeunyddiau 'Helpu Eich Plentyn i Ddysgu', 'Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu' ac i'r adnodd 'Adolygu Hefo Mike'. Mae'r ystod o strategaethau adolygu hefyd

wedi dylanwadu ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr CA4 a 5 ar gyfer arholiadau eleni.

Dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwneud defnydd effeithiol iawn o ganllawiau ac arweiniad ar ddarparu addysg o bell ac addysg gyfunol gan gynnwys cynllunio arferion adalw a dysgu llwyddiannus wrth i'r dysgwyr ddychwelyd i ddyddu wyneb yn wyneb. Bu ffocws priodol hefyd ar draws ysgolion yr Awdurdod hefyd i adnabod gwaelodlin wedi i'r dysgwyr ddychwelyd ac i weithredu cynlluniau pwrpasol mewn ymateb i unrhyw fylchau yn y dysgu.

Dros y cyfnod, mae GwE wedi cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu gyfunol a dysgu o bell, ac wedi rhannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpar-iaethau effeithiol i leihau amrywiaethau. Mae trafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr ac athrawon dros y cyfnod, prosesau craffu ar waith dysgwyr (boed hynny ar y safle neu'n rhithiol) ac mewn rhai enghreifftiau, ymuno mewn teithiau dysgu, oll wedi arwain at gyflwyno profiad-au gwerthfawr a phwrpasol i'r ystod gallu a hynny dan amgylchiadau anodd a heriol iawn. Mae tystiolaeth glir hefyd bod nifer uwch o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio'r dechnol-eg yn fwy hyderus i gefnogi'r dysgu. Mae hwn yn un o'r manau twf allweddol.

Cafodd y Rhaglen Dysgu Carlam effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol a lles wedi i blant ddychwelyd i addysg ffurfiol yn dilyn y cyfnod clo. Roedd pob ysgol wedi sicrhau eu bod yn cynnal gweithgarwch asesu mewnol er mwyn adnabod effaith y cyfnod clo ar les a dysgu'r plant, boed hynny'n asesiad meintiol neu'n ansoddol. Er mai lleiafrif bychan o rieni a theu-luoedd na fuodd yn ymgymryd â thasgau a gweithgareddau yn ystod y cyfnod clo, cyfran-nodd hyn at sefyllfa ble roedd disgyblion angen cefnogaeth carlam ar ôl dychwelyd i'r dos-barth. Ym marn athrawon, cafodd y cyfnod clo effaith ar hyder a lles y mwyafrif o ddisgyb-lion, gydag ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn dirywio. Gyrrwyd y gwaith carlam yn llwydd-iannus gan arweinwyr ysgolion yn dilyn adnabod safonau gwaelodlin.

Mae pob ysgol wedi gwneud defnydd pwrpasol o'r amryfal grantiau a'r rhan fwyaf wedi cyf-logi neu ymestyn oriau athrawon neu gymorthyddion er mwyn targedu grwpiau ac unigolion ym meysydd llythrennedd, rhifedd a lles. Darparwyd arweiniad a chanllawiau gan GwE, gyda nifer dda o ysgolion yn manteisio ar hyfforddiant penodol megis sesiynau lles 'Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma' (TIS), hyfforddiant SAFMEDS, Headsprout, Elklan.

Mae ysgolion yn gyffredinol wedi ymateb yn gadarn dda i'r her ac yn gallu tystio bod cyn-nydd a gwelliannau amlwg yn safonau sgiliau sylfaenol llawer o'r disgyblion oedd wedi eu tar-gedu drwy'r cynlluniau carlam hyn.

Mae'r ysgolion yn parhau i ddarparu strategaethau ymyrraeth effeithiol i ddisgyblion, e.e. drwy sesiynau dysgu manwl dyddiol, sesiynau SAFMEDS i ddatblygu sgiliau darllen/sillafu Cymraeg a Saesneg, sesiynau Tric a Chlic i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfnod Syl-faen, gweithgareddau TIS penodol, cynnal grwpiau Maethu, Talkabout, neu Mind Mechanics. Mae pob ysgol yn cydnabod bod y gwaith targedu manwl hwn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a hyder disgyblion ac mae nifer dda yn nodi iddynt weld disgyblion bregus yn llwyddo i ymdopi'n well gyda heriau dosbarth prif lif a heriau cymdeithasol amrywiol.

Mae arweiniad dwys wedi'i gyflwyno i gefnogi ysgolion gyda'u paratodau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Yn ganolog i'r gwaith hwn mae'r ffocws ar addysgeg a'r 12 egwyddor. Ers mis Medi 2021, mae'r gwasanaeth a chynrychiolwyr o'r ysgolion wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda'r Athro Graham Donaldson i fynd trwy'r broses o ddyfnhau dealltwriaeth yng-lŷn â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, hyrwyddwyd cydweithio llwyddiannus sy'n golygu bod ysgolion wedi gallu cyd-gynllunio enghreifftiau a modelau i'w rhannu ar draws y rhanbarth.

Mae prosiect rhanbarthol ymchwil gweithredol asesu ffurfiannol GwE a Shirley Clarke wedi bod yn un o gonglfeini'r rhaglen dysgu proffesiynol ers Tachwedd 2017 gydag ysgolion yn ymgysylltu â'r prosiect mewn 3 haen, dros gyfnod o 4 blynedd (Haen 3 wedi bod dros ddwy flynedd oherwydd cymhlethdodau Covid-19). Mae arfarniad o effaith uniongyrchol y prosiect ar ysgolion y rhanbarth yn nodi:

- effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu mewn dosbarthiadau ac ar safonau cyrh-aeddiad lles disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a'u datblygiad fel dysgwyr annibyn-nol.
- athrawon wedi dyfnhau dealltwriaeth o addysgeg effeithiol a hynny ar sail ymchwil lleol a rhyngwladol eang a chyfredol. Maent hefyd wedi datblygu'n arweinwyr add-ysgu yn eu hysgolion a thu hwnt.
- athrawon wedi ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol yn eu hysgolion, ac wedi cydweithio'n broffesiynol ac arloesi'n hyderus. O ganlyniad, mae'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu.
- ffocws cryfach ar addysgeg effeithiol mewn cydweithio clwstwr ar yr ynys.
- cyfraniadau amlwg at wella parodrwydd a pharatoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd e.e. ffocws cynyddol i'r pedwar diben, y 12 egwyddor addysg-egol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y safonau proffesiynol i arweinwyr ac ath-rawon, dibenion asesu ac egwyddorion cynllunio.
- ysgolion wedi gwneud defnydd da ac effeithiol o egwyddorion a strategaethau asesu ffurfiannol mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- rhieni wedi dod i ddeall mwy am asesu ffurfiannol wrth gefnogi eu plant gartref, e.e., pwerau dysgu, deilliannau dysgu, meini prawf llwyddiant ac adborth llafar.

Mae ffocws cyson wedi bod hefyd ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd y ddarpariaeth wa-haniaethol ar draws yr ystod gallu. Mae sefydlu Rhwydwaith Cydlynwyr MATH uwchradd yn un enghraifft benodol o'r gwaith hwn. Mae arweiniad a chefnogaeth benodol wedi bod i feith-rin gwell dealltwriaeth a hyder ymysg cydlynwyr i arwain ar y maes yn draws-ysgol ac i ddat-blygu eu prosesau a'u systemau o ran adnabod, tracio a chefnogi'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr Cyflwynwyd mewnbyn hefyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau cenedlaethol traws-gonsortia yn y maes. Fel grŵp, maent yn cydweithio i sicrhau dealltwr-iaeth gyffredin a sut i sicrhau lefel her briodol yn y cynllunio a sut i hyrwyddo strategaethau adalw ac adolygu. Mae'r adborth o'r ysgolion dan sylw wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i arfarnu'r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar safonau cyflawniad.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cydweithio'n effeithiol gydag arbenigwr allanol i ddarparu dat-blygiad proffesiynol o'r radd flaenaf i ddatblygu arddulliau effeithiol o wahaniaethu ac ar ddefnyddio trafodaeth yn effeithiol yn y dosbarth. Mae hyn wedi arfogi staff i wneud defnydd grymus o arddulliau amrywiol megis tacsonomi, cwestiynu effeithiol, modelu a sgaffaldio i gynllunio gwahaniaethu effeithiol i ymateb i anghenion cyffredinol (universal) yr amrediad o ddysgwyr yn y dosbarth. Mae'r rhaglen hon wedi ei darparu ar dair haen - sesiynau penodol ar gyfer cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol fel bod modd iddynt gefnogi athrawon yn eu hysgolion yn llwyddiannus; sesiynau ar gyfer cymorthyddion i'w grymuso wrth iddynt ym-drin â dysgwyr a'u cefnogi yn y dosbarth ynghyd â sesiynau i athrawon dosbarth i ddatblygu darpariaeth wahaniaethol gyfoethog ac i wella'r defnydd o drafodaeth i gefnogi hynny.

Mae ystod o rwydweithiau a fforymau yn weithredol hefyd i gefnogi arweinwyr ar bob lefel i fod yn arwain yn fwy hyderus ac effeithiol ar addysgeg. Yn yr uwchradd, er enghraifft, sefyd-lwyd Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu ar gyfer uwch arweinwyr. Mae tystiolaeth bod y cyd-weithio yn y rhwydwaith wedi bod yn gryfder neilltuol ac wedi bod yn allweddol i sicrhau cys-ondeb gweithredu ym maes dysgu ac addysgu yn y pum ysgol uwchradd. Er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu dros y cyfnod clo, rhoddwyd ffocws penodol ar gefnogi'r arweinwyr i ym-ateb i effaith y pandemig ar ddysgu ac addysgu. Gweithiodd y rhwydwaith oddi fewn i bara-medrau ac egwyddorion cyffredin gyda'r nod o sicrhau bod profiadau pob plentyn y gorau y gallant fod. Fel rhan o'r gefnogaeth gan GWE i'r rhwydwaith, rhoddwyd arweiniad ar Ddysgu o Bell a Dysgu Cyfunol a rhannwyd adnoddau er mwyn cefnogi'r ysgolion gyda'r gwaith.

Drwy gyfrwng y rhwydwaith, ymatebwyd i anghenion dysgu proffesiynol er mwyn gwireddu'r egwyddorion a sicrhawyd bod hyfforddiant digidol yn weithredol. Yn ogystal â hyn, datblyg-wyd adnoddau a rhannwyd arferion llwyddiannus. Gwelwyd effaith yr hyfforddiant a'r cyd-weithio hwn ar hyder yr athrawon i addasu eu dulliau addysgu i weddu i wahanol sefyll-faoedd, yn y profiadau eang oedd ar waith ac yn ansawdd a diwyg yr adnoddau a ddarpar-wyd i'r disgyblion.

Llwyddwyd i werthuso effaith y gweithredu yn ystod y pandemig drwy sicrhau mynediad ar-weinwyr i Google Classroom i wirio ansawdd darpariaeth adrannol; cyfarfodydd rhithiol rheolaidd rhwng UDA a staff er mwyn trafod ac addasu unrhyw raglenni gwaith/gwersi; ym-ateb i lais y dysgwyr/holiaduron; fforymau a chyngor disgyblion. Roedd galwadau ffôn rheol-aidd gyda'r cartrefi yn elfen gref o'r gweithredu tîm oedd ar waith mewn ysgolion a chanfydd-iadau yn arwain at weithredu dilynol neu addasu darpariaeth dysgu ac addysgu yn ôl yr ang-en. Drwy gydol y cyfnod, mae'r ysgolion wedi gwahodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i ymuno ag ymarferion craffu a theithiau dysgu. Yn ystod cyfnodau clo a dysgu cyfunol, rhoddwyd mynediad o bell i ddogfennau addysgu a gwaith disgyblion. Mae adroddiadau gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cyfeirio at effaith gadarnhaol y gweithredu ar y ddar-pariaeth.

Mae'r sylw'r rhwydwaith i ddysgu ac addysgu yn parhau gyda'r ffocws cyfredol ar ddat-blygu'r 12 egwyddor addysgegol fel rhan o'r paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mae'r rhwydweithiau pynciol hefyd wedi bod yn weithredol ar gyfer y pynciau craidd yn yr uwchradd. Mae ffocws y gwaith wedi bod ar gefnogi arweinwyr canol i arwain y dysgu a'r addysgu; ar hwyluso a chefnogi cydweithio cymheiriol ac ar rymuso prosesau a gweithdref-nau arfarnu a chynllunio gwelliannau; ar feithrin gwell dealltwriaeth o gynllunio ac addysgeg yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd; ar wella rhaglenni ymyrraeth ym meysydd llythren-nedd a rhifedd ynghyd â chefnogi agweddau penodol ar baratoi ar gyfer arholiadau ac ases-iadau CA4 a CA5. Caiff gwaith y rhwydweithiau ei werthfawrogi'n fawr gan arweinwyr uwch-radd a gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau safonol sydd wedi eu cyd-ddatblygu a'u car-trefu ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, safweoedd Tanio [Gwyddoniaeth], MathsCymru [Ma-themateg], Y Pair [Cymraeg] a Herio [Saesneg].

Mae effaith y gwaith rhwydweithiol i'w weld ar sawl lefel ac ar draws ystod o agweddau:

- arweinwyr canol wedi'i huwchsgilio mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o fethodoleg ac ansawdd cynllunio e.e. strategaethau adalw, strategaethau i wella gwaith llafar ac ysgrifennu, defnydd o offerynnau technegol i feithrin sgiliau pynciol ac ati.
- arweinwyr canol wedi meithrin gwell dealltwriaeth a gwybodaeth o'r 12 egwyddor a'r paratoi tuag at y cwricwlwm newydd.
- arferion da wedi cael eu rhaedru ac yn cael eu mabwysiadu'n eang. Nifer sylweddol o arweinwyr wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd i rannu syniadau a datblyg-iadau ac i gael cefnogi ei gilydd yn broffesiynol.
- defnydd cynyddol o ddeunyddiau llyfrgell ddigidol Canolfan Cefnogaeth GwE ac o'r safweoedd pynciol i wella profiadau i ddysgwyr, paratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau a pharatoi rhaglenni ymyrraeth bwrpasol.
- cynnydd yn lefel hyder arweinwyr ac athrawon yn eu sgiliau digidol.
- arweinwyr yn fwy hyderus oddi fewn i brosesau pennu rhagfynegiadau, asesiadau a graddau.
- targedu effeithiol i hyrwyddo sgiliau llafaredd y Gymraeg e.e. prosiect 'Ein Llais Ni'.

Yn ychwanegol i'r rhwydweithiau a'r fforymau, mae cefnogaeth benodol ar gael i bob ysgol uwchradd unigol ac mae'r targedu hwn wedi arwain at welliannau amlwg mewn sawl achos. Mae cynnwys Cynllun Cefnogaeth ysgol unigol yn seiliedig ar anghenion penodol yr ysgol ei hun sy'n deillio o'i hunan arfarniad ac sy'n destun blaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Mae cefnogaeth i wella agweddau ar ddysgu ac addysgu yn ganolog i'r cynlluniau hyn. Cânt eu llunio ar y cyd â'r uwch dimau rheoli a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant. Mae'r ber-thynas a'r cydweithio rhwng ysgolion a GwE yn gryf iawn a gwelir effaith gadarnhaol i'r gefn-ogaeth ar sawl agwedd ar waith yr ysgolion.

Yn y sector cynradd mae gan bob un o'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt brofiad helaeth o weithio gydag ysgolion penodol dros gyfnod estynedig o amser. Mae hyn wedi ar-wain at adnabyddiaeth gadarn o gryfderau ac anghenion gwella - ar lefel ysgol unigol a chlwstwr. Mae enghreifftiau niferus o gefnogaeth bwrpasol ac effeithiol i ysgolion ar wella agweddau penodol ar ddysgu ac addysgu.

Mae tystiolaeth gadarn bod y pecyn cefnogaeth ar gyfer disgyblion 3-8 oed boed ar lefel ysgol unigol, clwstwr neu awdurdod, yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn ogystal â lleihau amryw-iadau o fewn yr ysgolion. Mae'r gefnogaeth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o eg-wyddorion ac addysgeg Y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyd-fynd â chanllawiau 'Galluogi Dysgu'

ac 'Addysgeg' Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pecyn cefnogaeth yn cynnwys cynnig proffesiynol i UDA, athrawon a chymorthyddion disgyblion 3-8 oed ar ffurf rhwydweithiau tymhorol, rhag-len hyfforddiant rhanbarthol a hyfforddiant wedi'i deilwra i glystyrau. Mae'r ffocws yn bennaf ar ddatblygu agweddau o'r addysgeg, addysgu a lles o fewn profiadau dysgu ymarferol a hol-istaid ynghyd â hyfforddi ymarferwyr i ddatblygu eu rolau fel hwyluswyr dysgu effeithiol. Mae gan bob ymarferydd fynediad at y cynnig proffesiynol a'r adnoddau sy'n cefnogi'r dysgu drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE. Mae llawer o ysgolion o fewn yr Awdurdod yn defnyddio'r gweminarau mewn cyfarfodydd staff a HMS i uwchsgilio'r gweithlu. Mae tystiolaeth o ysgol-ion yn nodi bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth (profiadau dysgu ac addysgu) ac ar ddeilliannau disgyblion.

Ers 2019, mae'r cynnig proffesiynol yn cynnwys ymarferwyr B13 er mwyn adeiladu ar rai o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn CA2 fel paratoad ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Bu i'r cynnig proffesiynol barhau drwy gydol y cyfnod clo gyda'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio i dargedu'r agweddau hynny y bu i ysgolion eu hadnabod fel rhai a oedd angen eu blaenor-iaethu yn sgil Covid-19, e.e. sgiliau cyfathrebu disgyblion ac iechyd a lles. Roedd y ffocws ar ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn addysgeg ddatblygiadol addas. Mae tystiolaeth o effaith y rhaglen gefnogaeth hon yn cynnwys:

- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut y mae'r egwyddorion addysgegol (gan gynnwys 12 egwyddor CiG) yn cysylltu â'i gilydd i greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- mae ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblyg-iad ac sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chym-deithasol).
- ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- ymarferwyr yn ystyried nid yn unig yr amgylchedd dysgu ffisegol, ond hefyd yr hin-sawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial.
- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd arsylwi yn eu hymarfer bob dydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion; caniatáu i ymarferwyr ganfod y dulliau a ffafirir gan blant a phobl ifanc o ran dysgu, a'r modd gorau o'u hysgogi i gyfranogi yn y broses ddysgu; canfod y dysgwyr hynny sydd ef-allai angen cymorth ychwanegol i'w helpu i gyflawni eu potensial yn llawn.
- mae ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn rhoi modd iddynt gynllunio dar-pariaeth sydd yn cefnogi ymrwymiad a mwynhad dysgwyr yn eu dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud i gam nesaf y dysgu.
- ymarferwyr yn deall bod angen i asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i gwreiddio mewn arferion o ddydd i ddydd, mewn modd anweladwy o fewn y dysgu a'r addysgu.

Yn gyffredinol, mae arsylwadau Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a chanfyddiadau arolyg-iadau Estyn ble'n berthnasol, yn nodi bod y rhaglen gefnogi'n cael effaith gadarnhaol ar an-sawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gydag ymarferwyr yn gwneud gwell defnydd o arsylwadau a strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu i all-uogi cynnydd.

Pan gyfyd pryder am ysgol gynradd, cytunir ar Gynllun Cefnogaeth penodol a phwrpasol gydag arweinwyr yr ysgol a'r Awdurdod. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u haddasu'n unol â'r gofyn. Yn hanesyddol, mae'r ysgolion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o ganlyniad i'r ymyrraeth benodol.

Ar draws y ddwy sector, mae cefnogaeth ac arweiniad o ansawdd wedi'i gyflwyno i wella an-sawdd y cynllunio a'r ddarpariaeth mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Yn ychwanegol i'r arlwy dysgu proffesiynol, mae ysgolion unigol wedi cael cymorth unigol ac mae effaith yr ymyrraethau i'w gweld yn ansawdd a safonau'r sgiliau mewn amryw o ysgol-ion, yn lefel hyder athrawon ac yn y cynnydd a welir mewn cydweithio rhwng ysgolion. Mae'r arlwy o arweiniad a chefnogaeth i ysgolion yn cynnwys arweiniad ar gynllunio i gyd-lynwyr Llythrennedd/Rhifedd/CD; cefnogaeth i ANG gyda chyflwyno gwersi effeithiol, cefn-ogaeth benodol i ddatblygu llafaredd er mwyn gwella sgiliau mathemategol a gwyddonol; ar-weiniad i wella lefel yr her yn y cynllunio; dyfnhau sgiliau mathemategol a gwella sgiliau dar-llen lefel uwch. Caiff y rhaglen ei chyfoethogi ymhellach gan gyfarfodydd tymhorol y rhwyd-weithiau perthnasol. Dros y cyfnod Covid-19 hefyd, bu cydweithio agos gydag ysgolion i ddatblygu deunyddiau a phecynnau dysgu o bell i gefnogi ysgolion i ddatblygu

sgiliau syl-faenol dysgwyr. Mae effaith y gwaith wedi ei gofnodi mewn sawl adroddiad arfarnol ac yn yr adborth a dderbyniwyd gan arweinwyr ysgolion.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor ac arbenigwyr ym maes ymchwil, datblygwyd adnoddau, rhaglenni a phecynnau i gefnogi hyfedredd darllen yn y ddwy iaith. Hefyd bu cydweithio ar ddeunyddiau SAFMEDS i gefnogi sgiliau rhifedd. Mewn amryw o ysgolion, gwelir bod y rhaglenni hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ruglder darllen dysgwyr ac ar hyder athrawon a staff cefnogi i ddarparu.

Darparwyd sesiynau briffio byw i benaethiaid ac arweinwyr ar sut i wneud defnydd effeithiol o'r asesiadau cenedlaethol mewn darllen a rhif a bu i hyn gynyddu dealltwriaeth a hyder wrth iddynt fynd ati i fesur cynnydd dysgwyr unigol dros y cyfnod.

Yn yr uwchradd, rhoddwyd ffocws penodol ar gefnogi rhaglenni dysgu carlam a darparu ad-noddau ymyrraeth yn CA3 ac arweiniad ar strategaethau i wella ymgysylltu gyda rhieni. Yn ychwanegol, datblygwyd pecyn cymorth (toolkit) Llythrennedd sy'n cefnogi gwaith cynllunio a sgaffaldio cyfleoedd ar gyfer darllen ac ysgrifennu ac sy'n helpu i ddysgu a datblygu geirfa ynghyd â deunyddiau adolygu ac adalw. Mae'r rhain wedi eu rhannu ag ysgolion trwy gyf-rwng safwe Tanio a Chanolfan Cefnogaeth GwE. Mae hyn wedi arwain at raglenni ymyr-raeth o well ansawdd ac mae ysgolion yn adrodd i hyn arwain at gynydd yn rhuglder a hy-der dysgwyr ac at well dealltwriaeth ymysg staff o sut i fynd ati i sgaffaldio a chynllunio.

Yn y maes Cymhwysedd Digidol, mae'r cynnig dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb i ddatblygu'r dysgu a'r addysgu ac i wella cymhwysedd digidol y dysgwyr. Yn dilyn yr hyfforddiant a gynigwyd, bu cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n mewngofnodi i Hwb yn fisol.

Mewn ymateb i'r pandemig cynhaliwyd cyfres o weminarau a hyfforddiant ar-lein yn canol-bwyntio ar ddefnyddio llwyfannau dysgu yn effeithiol i gynnal y dysgu a'r addysgu trwy gyf-nodau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Yn ddiweddar, darparwyd Rhaglen Hwyluswyr Digidol ble roedd pob clwstwr yn enwebu unigolyn, sef Pencampwr Digidol, i gydweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol a GwE i ddat-blygu arweinyddiaeth strategol o'r maes digidol yn y clwstwr. Mae clystyrau wedi dechrau ail-gydio yn y rhaglen drwy enwebu hwylusydd i'w cynrychioli. Mae mwyafrif y clystyrau wedi ffurfio gweithgor i oruchwylio'r datblygiadau digidol ac i ymgorffori cymhwysedd digidol yn llawn fel rhan o Gwricwlwm i Gymru.

Darparwyd cefnogaeth benodol hefyd i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu mewn pynciau STEM. Mae STEM Gogledd yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan grant Ewropeaidd (ESF) sy'n gweithredu ar draws siroedd Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Dechreuodd y prosiect yn 2019, a'i brif nod yw ysbrydoli, annog a chefnogi pobl ifanc i ddilyn pynciau STEM yn yr ysg-ol, a'u hannog i barhau i astudio a dilyn gyrfa yn y maes. Mae'r prosiect yn defnyddio mentor-iaid Gyrfa Cymru sydd wedi'u hyfforddi i ddarparu arweiniad a chymorth STEM i fyfyrwyr ar sail 1-1 ac mewn grŵp, ac yn rhedeg ochr yn ochr â safle Hwb STEM Gogledd sydd hefyd yn fan cyfeirio ar gyfer gyrfaedd, prentisiaethau a chyrisiau ôl-16.

Mae hefyd yn ymgysylltu â grwpiau o ddisgyblion i herio stereoteipiau a hyrwyddo cyfle cyf-artal i ferched yn arbennig, gan eu hannog i ymgysylltu â phrosiectau STEM eraill ESF megis Technocamps. Mae STEM Gogledd hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gydag athrawon i gefnogi STEM wrth iddynt baratoi i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, a'u cefnogi hefyd i inte-greiddio Gyrfaedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn y cwricwlwm. Mae Miller Res-earch Audit wedi cynnal gwerthusiad llawn o'r prosiect a rhyddhawyd yr adroddiad terfynol yn ddiweddarach yn 2022 ar ôl ymgynghori â'r holl randdeiliaid. Yn seiliedig ar ein hymwneud ag ysgolion dros y cyfnod, ceir tystiolaeth gadarn o effaith gadarnhaol y prosiect ar draws ystod eang o agweddau. Nodwyd y manylion mewn adroddiad cynhwysfawr.

6. Y GYMRAEG

EIN LLAIS NI

Prosiect cydweithredol (wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru) yn datblygu arferion a strat-egaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhwng ysgolion GwE, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill yw Ein Llais Ni. Bwriad y prosiect yw:

- Canolbwyntio ar ddatblygu llafaredd Cymraeg dysgwyr mewn cyd-destun cyfoes sy'n berthnasol i Gymru.
- Plethu strategaethau addysgu llafaredd traddodiadol gyda strategaethau digidol.
- Rhoi'r pwyslais ar gynnig profiadau 'byw' sy'n berthnasol i fywyd go-iawn.
- Datblygu addysgeg sy'n plethu'n naturiol i egwyddorion cynllunio a gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru.
- Datblygu athrawon fel ymchwilwyr gweithredol - myfyrio ar ymchwil gyfoes, modelu'r strategaethau ar waith ac arfarnu llwyddiant.
- Athrawon yn rhannu astudiaethau achos o'r hyn sydd wedi ei gweithio'n dda.
- Cynhyrchu gwerthusiad o'r prosiect a chyfeirlyfr i athrawon gan ymchwilwyr o Brif-ysgol Bangor.
- Datblygu pecyn cefnogol ar gyfer dysgu proffesiynol.

Rhodddwyd cyfle i bob ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog y rhanbarth fod yn rhan o'r prosiect, a chafodd y 100 o ysgolion a ymgeisiodd eu derbyn. Bu i'r Awdurdodau a GwE annog ysgolion drwy fforymau strategol a chysylltiadau uniongyrchol i ddatgan diddordeb.

Mae'r athrawon sydd wedi ymrwymo i'r prosiect yn datblygu'n effeithiol fel athrawon sy'n ymchwilwyr gweithredol ac yn dechrau rhannu eu canfyddiadau hyd yma. Maent oll yn gweithio tuag at gyflwyno astudiaeth achos erbyn diwedd Tymor yr Haf 2022 yn manylu ar lwyddiant strategaethau i hyrwyddo a hybu sgiliau llafar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r rhwydwaith wedi cael cyfleoedd i rannu eu profiadau a'u had-borth yn gadarnhaol o ran effaith gynnar treialu'r strategaethau yn eu dosbarthiadau. Maent wedi gwerthfawrogi clywed gan ysgolion eraill gan gynnwys derbyn syniadau a'u haddasu i'w dosbarthiadau nhw.

Mae GwE a Phrifysgol Bangor wedi cydweithio ar ddatblygu adnoddau cefnogol **cynhwys-fawr iawn** i'r athrawon er mwyn eu cynorthwyo gyda'r ymchwil. Mae hyn yn cynnwys:

- **Gwefan Ein Llais Ni** - holl gyflwyniadau o'r gynhadledd lansio gychwynnol, papurau a dogfennau ymchwil, enghreifftiau o arfer lwyddiannus, awgrymiadau ar gyfer addysgu a dysgu, mynediad i *Drysorfa Llais 21 (CCD)*, astudiaethau achos, enghreifftiau o raglenni ac apiau di-gidol ar gyfer hybu gwaith llafar etc.
- **Podleisiau** - cyfres o sgysiau yn ymwneud â llafaredd a dwyieithrwydd.
- **Newyddlenni** - rhannu diweddariadau gyda'r ysgolion ar unrhyw ddatblygiadau gan gynnwys ymat-eb i gwestiynau ac enghreifftiau gan ysgolion.
- **Gweminarau** - cyfres o sesiynau sy'n hybu'r defnydd o arfau digidol i gefnogi a chyfoethogi gwaith llafar.
- **Rhwydweithiau** - cyfle i rannu gwybodaeth a phrofiadau drwy gydol y flwyddyn.
- **Sesiynau Ar Alw** - cyfnod anffurfiol i unrhyw ysgol sy'n rhan o'r prosiect ei fynychu er mwyn trafod eu gwaith a derbyn diweddariadau.
- **Ymchwil** - mewnbyn gan ymchwilwyr profiadol i'r ymchwil cysylltiedig ac unrhyw argymhellion defnyddiol i gefnogi dewisiadau'r athrawon wrth gynllunio ar gyfer y gwaith.

O'r cyswllt uniongyrchol gydag athrawon sy'n rhan o'r prosiect naill ai mewn galwadau ffôn/*Teams* ymgysylltiol, mewn cyfarfodydd ar alw neu ystafelloedd trafod yn y rhwydweithiau, nodwyd fod bod yn rhan o'r prosiect wedi caniatáu ffocws penodol a llwyddiannus ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando Cymraeg, sydd wedi gweld dirywiad yn dilyn y cyfnodau clo, a bod cynllunio'n fwriadus ar gyfer cynnydd yn y sgiliau hynny'n dechrau dwyn ffrwyth yn enwedig o ran brwdfrydedd a hyder tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r prosiect hefyd wedi codi hyder yr athrawon i fod yn datblygu dulliau digidol, mwy cyfoes i ddatblygu sgiliau llafar sy'n cyplysu'n effeithiol gyda'r broses asesu ffurfiannol, yn enwedig yr agwedd o fyfrio ar waith a gwella ansawdd y siarad. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn dangos brwdfrydedd tuag at gwblhau eu tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyswllt cryf rhwng y prosiect a pharatoadau ar gyfer y *Cwricwlwm i Gymru* ac mae'r agwedd Gymreig, lle mae anogaeth i ysgolion gynnig profiadau 'byw' yn rhoi pwrpas a chyd-destun lle mae'r dysgwyr yn gweld yr iaith y tu hwnt i furiau'r dosbarth ac yn weithredol yn eu cymuned. Mae'r gweminarau digidol wedi arfogi'r athrawon yn effeithiol gyda syniadau ar gyfer cynllunio i gyfoethogi'r gwaith llafar gan ddefnyddio rhaglenni neu apiau perthnasol ac wedi cynnig awgrymiadau a syniadau ar gyfer gwella ansawdd y siarad a'r gwrando..

GWAITH CLWSTWR

Darparwyd cyllid i ddatblygu sgiliau Cymraeg a Chymraeg anffurfiol y gweithlu pob blwyddyn ers tair blynedd, yn uniongyrchol i gystyrau er mwyn cefnogi ysgolion i gynnal gweithgar-eddau Siarter Iaith a chefnogi unrhyw aelod o staff i ddatblygu sgiliau iaith ar y lefel briodol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a buddiol gyda swyddogion awdurdod lleol er mwyn cyd-weithio ar y gefnogaeth i ysgolion. Mae cytundeb ar egwyddorion rhaglen waith y cydgysyllt-wyr clwstwr er mwyn cynllunio ar gyfer arian grant y Gymraeg. Llwyddwyd i gael cysondeb gweithredu ar draws y Gogledd.

Bydd y cydgysylltwyr yn cynllunio ac yn diweddarau taenlen 'dangosfwrdd' yn bwrpasol ar gyfer arian y Gymraeg drwy ymgynghori â swyddogion yr Awdurdod Lleol er mwyn casglu gwybodaeth am gynllunio, costau ac adrodd ar gynnydd. O ganlyniad i'r cydweithio agos, mae'r broses yn mynd rhagddi'n llyfn ac yn bwrpasol a'r cyllid wedi'i ddyrannu i'r 54 clwstwr yn 2021-22. Mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, ac yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r cydgysylltwyr yn adrodd ar gynnydd ac effaith er mwyn enghreifftio arferion da ac adnabod y camau nesaf ar gyfer datblygu.

Y SIARTER IAITH

Mewn rhai clystyrau, addaswyd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn naill ai oherwydd heriau staffio, neu oherwydd na fu'n bosib gweithredu fel y bwriadwyd. Serch hynny, mae enghreifftiau rhagorol ble cafodd dysgwyr profiadau cyffrous o gynllunio a phar-atoi ar gyfer datblygu'r defnydd o'r Gymraeg e.e. cydweithio â llawer o artistiaid i gynnal gwahanol weithgareddau fel cyfansoddi anthemau ysgol, cyfansoddi alawon newydd, gemau iaith, creu podlediadau i ddatllygu'r ardal leol. O ganlyniad, datblygwyd ymdeimlad o falchder mewn hunaniaeth Gymreig ac ysbrydoliaeth i siarad Cymraeg. Ceir enghreifftiau hefyd ble mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cydweithio'n llwyddiannus, gydag un adran Gym-raeg mewn ysgol uwchradd yn gosod heriau cerddorol i ysgolion cynradd y clwstwr. Mae'r cydgysylltwyr wrthi'n diweddarau'r wybodaeth ar gynnydd ac effaith ar eu 'dangosfwrdd' clwstwr, gan ystyried y camau nesaf wrth gynllunio ar gyfer arian 2022-23.

DATBLYGU SGILIAU IAITH Y GWEITHLU

Cafodd y Ganolfan Iaith Genedlaethol ddata am hyfforddiant ar-lein Croeso. Yn dilyn trafod-aethau â Llywodraeth Cymru, cynigiwyd y cwrs y Gymraeg mewn Blwyddyn i ysgolion am y flwyddyn academaidd nesaf. Cynhelir cyfarfodydd misol â Canolfan Bedwyr a Canolfan Dysgu Cymraeg (Prifysgol Bangor) i hyrwyddo cyrsiau parod a chydweithio ar ddatblygu cyrsiau penodol i Awdurdodau neu ymarferwyr addysg e.e. cwrs i gymorthyddion dysgu.

7. LLESIANT

Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn. Bu pwyslais ar amrywiaeth o agweddau ar yr agenda llesiant e.e. gwytnwch, addasu i amgylchedd sydd yn newid, myfyrdod personol, dysgu gweithredol ac ati.

Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi sicrhau cyswllt rheolaidd â Phennaeth eu hysgolion cyswllt, a hynny er mwyn cefnogi eu lles a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol. Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, cynigiwyd cyfres o weithdai i arweinwyr ysgolion a swyddogion addysg.

GDD

Gweithredwyd y strategaeth GDD ranbarthol ar draws y rhanbarth gyda phob ysgol/lleoliad yn manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol digidol, Meddwl yn Wahanol, yn ychwanegol at gefnogaeth gan yr YCG. Mae pob ysgol/lleoliad yn defnyddio'r dangosfwrdd GDD fel tystiolaeth o gronfeydd.

Mae tystiolaeth bod y cyllid ychwanegol dan reolaeth y consortia yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r prosiectau dysgu carlam ychwanegol yn unol â'r tîm ymchwil yn CIEREI/iechyd a lles ysgol gyfan a thargedu cynhaliaeth. Mae'r GDD yn cyd-fynd â chefnogi dull gweithredu ysgol gyfan tuag at les a thargedu cynhaliaeth/ymyraethau. Elfen GDD Blynyddoedd Cynnar y strategaeth ranbarthol - cyflwynwyd nifer o sesiynau Talk Boost i ysgolion targed; Mae wyth ysgol wedi cael yr hyfforddiant hyd yma. Rydym hefyd wedi datblygu ffurflen monitro blynyddol ALL sydd yn dangos sut y bwriedir defnyddio'r grant yn unol â'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir..

GDD PMG A LLESIANT

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau'r broses o newid diwylliant/ethos a meddyl-fryd yr ysgol drwy fframwaith ysgol gyfan Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS)/Dull Adferol ac Annog.
- Mae bron pob ysgol wedi bod ar hyfforddiant DP TIS ysgol gyfan ar draws y rhan-barth.
- Mae bron pob ysgol wedi bod mewn o leiaf un o'n sesiynau DP ar Lesiant.
- Mae pob clwstwr ble mae nifer uchel o PMG wedi bod ar y DP TIS neu Rhestr Wirio Arsylwi.
- Mae mwy o bolisiau a strategaethau sydd yn seiliedig ar berthynas mewn ysgolion o ganlyniad i'r DP TIS.
- Mae tystiolaeth o ddatblygu arferion cydweithredol rhwng ysgolion/clystyrau/CAMHS a gwasanaethau plant.
- Mwy o leoliadau yn hyderus i ddefnyddio ystod o fesurau effaith ac arfarnu o saf-bwynt lles.
- Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio yn gryfach gyda'r awdurdodau lleol ac lechyd o ran y targedu cynhaliaeth a'r cymorth cyffredinol.
- Cwblhawyd y mapio Rhanbarthol ac ALL ar gyfer Llesiant.
- Mwy o ysgolion yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar niwro-wyddoniaeth yn y dysgu a'r addysgu, gyda
 - Staff yn fwy hyderus yn eu dulliau
 - Dysgwyr yn gallu hunan-reoleiddio/myfyrio ar eu hymddygiad a'u teim-ladau yn well.
 - Newidiadau mewn Ymddygiad Dysgwyr a Gwaharddiadau
 - Agweddau at ddysgu wedi newid - dysgwyr a staff
 - Dysgwyr yn hapusach yn yr ysgol
- Pecyn TIS ymarferol i ysgolion ei ddefnyddio drwy'r dull cyffredinol
- Ffurfiwyd Rhwydwaith Cymuned sy'n Ystyriol o Drawma/Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n dod ag addysg a gwasanaethau plant ynghyd i gefnogi dysgwyr.
- Staff yn defnyddio 'Lle i fyfyrion' a sesiynau cymorth.
- Mae'r GDD PMG yn cyd-fynd â'r ffocws ysgol gyfan a CiG gyda bron pob clwstwr wedi cwblhau'r dangosfwrdd.
- Mae pob ALL/ysgol wedi manteisio ar y Cynnig DP i Arweinwyr Dynodedig.
- Gwelwyd cynnydd yn yr ysgolion sydd â PMG sydd wedi manteisio ar ein Cynnig Dysgu Proffesiynol.
- Cefnogwyd ysgolion/lleoliadau i weithredu'r dysgu proffesiynol yn y cwricwlwm a'r addysgeg yn ogystal â'r ymyraethau ychwanegol.
- Cynhaliwyd 3 sesiwn DP i ANG ar draws y rhanbarth i fod yn wybodus am drawma a gwreiddio arferion yn y dysgu a'r addysgu.
- Dyfarnwyd statws TIS i dair ysgol gynradd yn y rhanbarth.
- Mae gennym ddau hyfforddwr sydd yn gymwys i gyflwyno hyfforddiant TIS ysgol gyfan yn y Gymraeg.
- Dros y misoedd diwethaf, mae'r YCG wedi cyflawni statws ymarferydd TIS ac wedi plethu eu sgiliau a'u gwybodaeth â'u rôl cefnogi ysgolion.

8. YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Mae'r cymorth i ysgolion unigol gan GwE yn parhau ac yn cryfhau drwy'r cynghreiriau rhwng ysgolion a'r Rhaglen

Partneriaeth sy'n adlewyrchu eu prosesau cyfoethogi ansawdd.

Cyn y pandemig COVID, cytunwyd ar set ranbarthol o egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. I'r pwrpas hwn, rhannwyd model adolygu cymheiriaid (sef y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion [SPP]) â rhanddeiliaid, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Darparwyd hyfforddiant a chymorth cyson i holl YCG GwE ar adolygu cymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn mis Mawrth 2022, mae 29 YCG wedi'u hyfforddi i fod yn adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r RhPY. Cafodd holl staff GwE hyfforddiant adnewyddu ar y Rhaglen ar 17 Medi, 2021. Ar 4 Hydref 2021, hyfforddwyd 13 YCG i gyflwyno'r rhaglen, ac yn sgil rhaglen o arsylwi hyfforddiant gallant bellach gyflwyno hyfforddiant RhPY (SPP) i ysgolion a chlystyrau. Golyga hyn, erbyn mis Mawrth 2022, bod gan 21 YCG y gallu i gyflwyno'r Rhaglen yn llwyddiannus.

Erbyn mis Mawrth 2022, mae 18 clwstwr/cynghrair (105 ysgol) wedi cael hyfforddiant SPP, ac maent eisoes wedi cynnal adolygiad gan gymheiriaid, neu wrthi'n paratoi ar gyfer hynny yn ystod tymor yr Haf/dechrau tymor yr Hydref, 2022. Hyfforddwyd cant a chwe deg un o Benaethiaid/uwch arweinwyr i fod yn adolygwyr cymheiriaid ar draws y rhanbarth. Hyfforddwyd cant a phum deg pedwar o uwch arweinwyr/arweinwyr canol ac athrawon hyfedr i fod yn 'hwyluswyr gwelliant'. Fel hyn, bu modd i arweinwyr ac athrawon elwa o addysg broffesiynol o safon uchel a bydd yn cyfrannu at wella capasiti arweinyddol ar draws y rhanbarth. Cafodd yr haen gyntaf o ysgolion a chlystyrau cynradd sydd yn rhan o'r Rhaglen hyfforddiant ar ddechrau tymor yr Haf, 2021. Oherwydd effaith y pandemig, cynigiwyd hyfforddiant ychwanegol i'r ysgolion hynny hyfforddi staff ychwanegol a chodi eu capasiti i gwblhau'r gwaith ym mis Ionawr 2022. Cyflwynwyd yr hyfforddiant diweddaraf i ysgolion/clystyrau uwchradd sydd yn rhan o'r Rhaglen yn ystod mis Mawrth 2022. Cwblhaodd bob ysgol arbennig yn y rhanbarth yr hyfforddiant llawn yn ystod tymor yr Haf, 2021.

Mae rhaglen ar gael sydd yn cynnig hyfforddiant ar y Rhaglen i'r 407 o ysgolion yn y rhanbarth a'r Unedau Cyfeirio. Bwriedir hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-22, ac yn 2022-23. Bydd y Rhaglen yn cyd-fynd â gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i arfarnu eu cynnydd wrth weithredu'r daith ddiwygio. I'r pwrpas hwn, lluniwyd cyfres o gwestiynau myfyrio gyda phwyslais ar y daith ddiwygio, i gyd-fynd â'r broses gymheiriaid.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Mynegodd gyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth ddiddordeb, oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Yn ystod mis Mawrth 2022, cafodd 33 o ysgolion hyfforddiant a threfnwyd i weddill y clystyrau gael hyfforddiant yn ystod tymor yr Haf/Hydref 2022. Nodwyd tri chlwstwr/chynghrair i gael eu cynnwys mewn astudiaeth achos ar ymchwil i effaith y Rhaglen yn 2022-23.

9. MATERION BUSNES

DATBLYGU STAFF

Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau cyson yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

RHEOLI PERFFORMIAD AC ATEBOLRWYDD

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

GWERTH AM ARIAN

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cyn-llunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cyn-llun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

COFRESTR RISG

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddar'u'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

10.BLAENORIAETHAU CYNLLUN BUSNES 2022-2023

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill

fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau mewn ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Fe'i hystyrir o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i fod yn cyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodolau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu effeithiol gan gymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation'.

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella.

'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin capasiti ar draws y rhanbarth i wynebu heriau y diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws clystyrau o ysgolion. Er mwyn cefnogi ysgolion ymhellach, mae GwE wedi datblygu'r cysyniad o greu cerrig milltir tymhorol drwy system rheoli gwybodaeth G6. Mae'r rhain oll yn rhoi cyfle i bob ysgol fyfyr. Mae gweithgarwch ac effaith hyn yn cael ei rannu, a chaiff y camau nesaf eu hadnabod drwy drafodaeth broffesiynol barhaus efo YCG.

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. O ystyried disgwyliadau'r system a gweithio ar y cyd â phartneriaid, adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion.

Dyma ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gwelliant yn 2022-2023:

EIN HAMCANION STRATEGOL

- 1. Cwricwlwm ac Asesu** - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr
- 2. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion
- 3. Arweinyddiaeth** - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol
- 4. Ysgolion cryf a chynhwysol** yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant
- 5. Cefnogi system sy'n hunan wella** - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson
- 6. Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Y pedwar diben a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt

baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.


Bwriad ein blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gwelliant yn 2022-2023 a amlinellir isod yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben (Atodiad 6 - Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023).

Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau manwl y gwasanaeth, sydd yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.

EIN BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL AM 2022-2023

DYSGU PROFFESIYNOL

PWYNTIAU
CYNNYDD



Cydweithredu

Sefydliad sy'n Dysgu

Cyfoethogi Ansawdd

Datblygu arweinyddiaeth a chefnogi llesiant y gweithlu

CYFOETHOGI



Cydweithio • Dysgu • Llwyddo

-  0300 500 8087
-  post@gwegogledd.cymru
-  www.GwEGogledd.Cymru
-  [@GwEGogleddCymru](https://twitter.com/GwEGogleddCymru)





Tud. 46

RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID

GWE WORK PROGRAMME AND SUPPORT TO SCHOOLS DURING THE COVID PANDEMIC



- Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailbwrpasu sawl gwaith er mwyn diwallu gofynion diwygiedig y rhanddeiliaid.
- Whole service has been repurposed several times to meet the revised requirements of stakeholders.

Gwahanol rolau ers diwedd mis Mawrth 2020

- **Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr – Atebolrwydd a monitro**
- **Arwain o'r canol ac arweinyddiaeth ar draws**
- **Dysgu proffesiynol ystyrlon**
- **Arweinyddiaeth gydweithredol**
- **Modelu**
- **Rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid**

Our different roles since the end of March 2020

- **Supporting the wellbeing and development of leaders - Accountability and monitoring**
- **Leading from the middle and lateral leadership**
- **Meaningful Professional Learning**
- **Collaborative leadership**
- **Modelling**
- **Managing stakeholder expectations**

Gwaith a wnaed ers mis Mawrth 2020

Cam 1: Cyn y cyfnod clo

- Cytuno ar strategaeth gyfathrebu â Chyfarwyddwyr y chwe awdurdod lleol.
- Cyswllt ffôn rheolaidd â phob ysgol drwy'r YCG i gefnogi penaethiaid i gadw ysgolion ar agor a lleddfu pryderon.
- Lleoli staff GwE mewn ysgolion ac UCD, ble roedd angen, i'w cefnogi i aros ar agor.
- Lleoli staff GwE yn yr awdurdodau i'w cefnogi gyda gwasanaethau hanfodol.
- Timau GwE yn llwytho adnoddau cychwynnol ar Google Classroom penodol i gefnogi ysgolion ddechrau cynllunio ar gyfer dysgu o bell.

Work undertaken between March 2020 – present

Phase 1: Pre-lockdown

- Communication strategy agreed with Directors of six local authorities.
- Regular phone contact with each school through SIA to support head teachers to keep schools open and assuage concerns.
- Deploy GwE staff in schools and PRUs where identified to support them to stay open.
- Deploy GwE staff in the authorities to support them with essential services.
- GwE teams upload initial resources to a designated Google classroom to support schools with initial planning for distance learning.

Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo

- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag ysgolion er mwyn sicrhau iechyd a lles y staff a'r disgyblion.
- Parhau i gefnogi ysgolion neu Hybiau unigol ble roedd prinder staff yno.
- Uwch sgilio staff GwE o ran dysgu'n ddigidol.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion ddechrau cefnogi dysgu o bell mewn ysgolion.
- Cefnogi ysgolion gyda Dysgu o Bell a chynhyrchu fideos defnyddiol ar 'Sut i....' fel bod athrawon yn gallu datblygu ac amrywio eu dulliau dysgu o bell.

Phase 2: Supporting schools at the beginning of lockdown

- Keeping regular contact with schools in order to ensure health and wellbeing of both staff and pupils.
- Continuing to support individual schools or Hubs when there was a shortage of staff to attend.
- Upskilling of GwE staff for digital learning.
- Developing guidance, support and learning resources for schools to begin to support distance learning in schools.
- Supporting schools with Digital Learning and producing useful 'How To' videos so that teachers can develop and vary their distance learning methodology.

Cam 3: Dysgu o Bell

- Datblygu **canllawiau dysgu o bell** i ysgolion ar y cyd â rhanbarthau eraill.
- Ar y cychwyn, llwytho deunyddiau a syniadau priodol ar Google Classrooms ar gyfer pob Cyfnod Allweddol.
- Cymorth fel bod athrawon ac arweinwyr yn gallu gweithredu yn unol â'r arferion gorau wrth greu a defnyddio adnoddau dysgu ar-lein.
- Datblygu modelau DP effeithiol o fewn GwE a'u rhannu'n genedlaethol a'u mabwysiadu gan bob rhanbarth.
- Annog ysgolion, arweinwyr ac athrawon i rannu adnodau ar draws y gyfundrefn ac annog ysgolion i ddefnyddio Hwb i rannu eu dulliau gweithredu, eu cynlluniau a'u hadnoddau dysgu.
- Sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad cyfartal at ddysgu ac adnoddau dysgu.
- Pob YCG wedi cael DP priodol ar yr hyn yw DP effeithiol.

Phase 3: Distance Learning

- Developed **distance learning guidance** for schools in collaboration with other regions.
- Initially, google classrooms populated with appropriate materials and ideas for all Key Stages to refer to.
- Support to enable leaders and teachers to act in line with best practice in creating and using online learning resources.
- Effective DL Models were developed in GwE and were shared nationally and adopted by all regions.
- Schools, leaders and teachers were encouraged to share resources across the system and to encourage schools to use Hwb to share their approaches, plans and learning resources.
- Ensured all learners have an equitable access to learning and learning resources.
- All SIAs to have appropriate PL as to what makes effective DL.

Cam 4: Cefnogi ysgolion i ail agor

- Cydweithio â'r chwe Awdurdod Lleol.
- Sefydlu trefn gyfathrebu glir efo rhanddeiliaid allweddol.
- Cyfarfod yn wythnosol â'r Cyfarwyddwyr a'r Deilyddion Portffolio Addysg.
- Creu Fframwaith Polisi a Dangosfwrdd.
- Modelu asesiad risg i bob sector.
- Adnabod rolau rhanbarthol a lleol o ran cefnogi dysgwyr bregus.
- Uwch sgilio staff GwE i gefnogi arweinwyr ysgolion yn y meysydd hyn.

Phase 4: Supporting schools to re-open

- Joint work with 6 Local Authorities.
- Establish clear lines of communication with key stakeholders.
- Weekly meetings with Directors and Education portfolio holders.
- Created a Policy Framework and Dashboard.
- Modelled risk assessment for each sector.
- Regional and local roles identified in supporting Vulnerable learners.
- Upskilled GwE staff to support school leadership in these areas.

Cam 5: Dysgu Cyfunol

- Uwch sgilio tîm GwE gyda gwaith ymchwil rhyngwladol ar ddysgu cyfunol.
- Plethu'r Cwricwlwm i Gymru yn naturiol â'r arferion presennol.
- Unedau aml-ddisgyblaethol i atgyfnerthu a datblygu sgiliau.
- GAC/Cymwysterau/Arholiadau

Phase 5: Blended Learning

- Upskilling of GwE team with international research on blended learning.
- Naturally blending CfW into current practice.
- Multi disciplinary units to consolidate and develop skills.
- CAGs / Qualifications / Exams

Cam 6 Dysgu ar Garlam

- Triongl o angen;
- Lles corfforol;
- Lles emosiynol;
- Llythrennedd a rhifedd;
- Sail y dystiolaeth.

Phase 6 Accelerated Learning

- Triangle of need;
- Physical well being;
- Emotional well being;
- Literacy and numeracy;
- Evidence base.

Cam 7

Cymorth cyfunol i ysgolion ac ALL

- Canolfan Cefnogaeth GwE
- Adborth o'r 'cyfnod gweithredol' gan ysgolion. Rhannu arferion gorau.
- Cynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, ar wahanol lefelau.
- Symud yr agenda dysgu yn y cyfnod nesaf. Cefnogi ysgolion o ran DC – cynllunio a'r ddarpariaeth
- Cefnogi Arweinyddiaeth / Penaethiaid – atgyfnerthu hyder ac adeiladu gwytnwch i'r system.
- Dysgu Proffesiynol
- Cefnogi ALL (cynhwysedd)
- Lles dysgwyr
- Cyfathrebu a chydweithio

Phase 7

Blended support to schools and LAs

- GwE Support Centre
- Feedback from 'operational period' from schools. Shared good practice.
- Planning for different scenarios, on several levels.
- Moving the learning agenda forwards in the next phase. Support schools as regards BL – planning and provision.
- Support for Leadership/Head teachers – restoring confidence and resilience building within the system.
- Professional Learning
- LA Support (capacity)
- Pupil wellbeing
- Communication and collaboration

Cydweithio â Chymheiriaid

- Datblygu ar fuddsoddiad cryf mewn gwaith a chydweithio clwstwr.
- Hwyluso cydweithio clwstwr o fewn sector, ac ar draws sector, i gefnogi ysgolion drwy'r pedwar cam.
- Hwyluso cyfarfodydd i arweinwyr dysgu ac addysgu a rhwydweithiau pynciol i drafod dulliau dysgu o bell a chyfunol (math PISA).
- Cydweithio â phenaethiaid a Swyddogion yr ALL drwy gyfarfodydd fforymau strategol.
- Cydweithio â swyddogion yr ALL drwy grŵp safonau lleol.
- Hwyluso gwaith i gyd-lunio modelau dysgu cyfunol.
- Cydweithio â phartneriaid yn yr haen ganol.
- Arwyddo Memorandwm Dealltwriaeth rhwng GwE a Phrifysgol Bangor.

Peer Collaboration

- Building on strong investment in cluster working and collaboration.
- Facilitation of sector and cross-sector cluster collaboration to support schools through the four phases.
- Facilitation of meetings for teaching and learning leads and subject networks to discuss distance and blended learning approaches (PISA style).
- Collaboration with head teachers and LA Officers via strategic forum meetings.
- Collaboration with LA officers via local standards group.
- Facilitation of co-construction of blended learning models.
- Collaboration with middle tier partners.
- MoU between GwE and Bangor University signed off.

Ein rôl ni wrth symud ymlaen:

- **Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr – Atebolrwydd a monitro**
- **Arwain o’r canol ac arweinyddiaeth ar draws**
- **Dysgu proffesiynol ystyrlon**
- **Arweinyddiaeth gydweithredol**
- **Modelu**
- **Rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid**

Our role in going forward:

- **Supporting the wellbeing and development of leaders - Accountability and monitoring**
- **Leading from the middle and lateral leadership**
- **Meaningful Professional Learning**
- **Collaborative leadership**
- **Modelling**
- **Managing stakeholder expectations**

Canllawiau ac adnoddau

- Google Classroom
- Cymorthyddion
- Grŵp Dychwelyd i'r Ysgol rhanbarthol
 - Aseidiadau Risg
 - Dangosfwrdd
 - Lles
 - AD
 - Cyfathrebu
- Weminarau
- Gwefan DC
- Dysgu Carlam

Guidance and resources

- Google Classroom
- Support staff;
- Regional return to School Group;
 - Risk assessments;
 - Dashboard;
 - Well being;
 - HR
 - Communication
- Webinars;
- BL Website
- ALP

Dysgu Proffesiynol

- Canllawiau DC a DoB
- Rhaglen waith GwE
- Rhwydweithiau Dysgu ac Addysgu a phynciol
- Hyfforddiant i'r Clystyrau
- Cwricwlwm i Gymru

Professional Learning

- DL and BL guidance;
- GwE work programme;
- Teaching and Learning and subject Networks;
- Training for clusters
- Curriculum for Wales

Cyfathrebu

- Un i un gyda phennaeth;
- Clwstwr;
- Bwrdd Rheoli;
- Fforymau Penaethiaid;
- BAS;
- Aelodau Etholedig;
- Cyd Bwyllgor;
- Bwletin a'r wefan.

Communication

- One to one with HT;
- Cluster;
- Management Board;
- HT fora;
- LAQB;
- Elected members;
- Joint Committee;
- Bulletin and website.

Gwahaniaeth a wnaed

- Mae ysgolion yn datblygu ymhellach fel ysgolion sy'n hunan wella, gyda dealltwriaeth ddyfnach o gyd-ymdrech i wella dysgu ac addysgu.
- Mae ysgolion yn datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu trwy gydweithio mewn gwaith ymchwil, gweithredu dealltwriaeth gyffredin a chysondeb mewn cynllunio a chyflwyno'r egwyddorion addysgegol mewn ysgolion ar draws y continwmm 3-16 o fewn clystyrau.
- Codi safonau dysgu ac addysgu mewn ysgolion a sylfaen gadarn ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.
- Gweledigaeth gytûn ar gyfer addysgeg mewn lle yn y clystyrau, sy'n cyfrannu at gyflawni'r 4 Diben.
- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut mae'r egwyddorion addysgegol yn berthnasol i'w gilydd wrth greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblygiad ac sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).
- Mae ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- Ymarferwyr i ystyried nid yn unig y manau ffisegol ond hefyd yr hinsawdd emosiynol sy'n helpu dysgwyr i gyflawni eu potensial.
- Disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac yn datblygu eu sgiliau metawybyddol.
- Mae gan lais y disgybl fwy o rôl yn y dysgu a'r addysgu.
- Gall disgyblion wneud cysylltiadau er mwyn datrys problemau go iawn, cyfoethog a gwreiddiol, gan ddefnyddio eu sgiliau meddwl yn feirniadol a meddwl yn greadigol.

Ffrwd waith – Aseu Ffurfiannol

Gwahaniaeth a wnaed

- Mae ysgolion sydd yn cymryd rhan wedi datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu, wedi gwneud ymchwil weithredu a chael cyfleoedd gwerthfawr i gydweithio ag ysgolion ar draws y rhanbarth.
- Mae gan athrawon ddealltwriaeth ddyfnach o addysgeg effeithiol yn seiliedig ar ymchwil helaeth a chyfoes, yn lleol ac yn rhyngwladol.
- Negeseuon cyson am egwyddorion addysgu effeithiol.
- Effaith gadarnhaol ar annibyniaeth dysgwyr, eu lles a'u hagweddau at ddysgu.
- Effaith gadarnhaol ar yr hinsawdd ddysgu, ansawdd y dysgu a'r addysgu.
- Wedi gwneud cyfraniad sylweddol i barodrwydd ysgolion a'u paratodau at y Daith Ddiwygio a'r CiG.

Ffrwd waith – Aseu Ffurfiannol ac Aseu

Gwahaniaeth a wnaed

- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd arsylwi yn eu harferion dyddiol er mwyn:
 - gwella dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion
 - gweld ym mha ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi dysgu, a sut orau i'w cymell i gymryd rhan yn y broses ddysgu.
 - adnabod y dysgwyr hynny gallai fod arnynt angen mwy o gymorth i'w helpu i gyflawni eu llawn botensial.
- Mae ymarferwyr yn deall yn well bod arsylwadau effeithiol yn rhoi modd iddynt gynllunio darpariaeth briodol sydd yn cefnogi mwynhad dysgwyr yn eu dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud i gam nesaf y dysgu.
- Gwell dealltwriaeth bod angen i'r aseu fod yn broses barhaus sydd yn rhan o arferion pob dydd, mewn ffordd ble na ellir ei gwahaniaethu rhwng y dysgu a'r addysgu.



Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol GwE a Shirley Clarke

Gweithredu, Effaith ac Esblygu Arferion



GWE

Cydwethlo - Dysgu - Llwyddo
Collaborating - Learning - Succeeding

Tud. 63

Nodau

- ▶ Datblygu arbenigedd ar draws y rhanbarth i gydweithio ar addysgeg a hunan welliant.
- ▶ Codi safonau mewn addysgu a sicrhau addysgu o safon uchel yn gyson ar draws ac o fewn ysgolion.
- ▶ Datblygu timau o athrawon i fod yn ymchwilwyr gweithredol
- ▶ Diweddarau athrawon am ganfyddiadau ymchwil cyfoes
- ▶ Cefnogi athrawon wrth iddynt adolygu ac addasu eu harferion, datblygu eu hyder a'u harbenigedd i arwain eraill.
- ▶ Rhannu a dathlu llwyddiannau ac awch athrawon am addysgu
- ▶ Hyn oll wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru a'r daith ddiwygio genedlaethol.

Y weledigaeth / cynllun

Haen 1 (mis Hydref 2017 – Tachwedd 2018)

27 o ysgolion – 54 o athrawon

Timau Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol dan arweiniad Shirley Clarke

Haen 2 (mis Medi 2018 – Medi 2019)

Timau Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol dan arweiniad Haen 1 a GwE gan ddilyn gwaith Shirley Clarke

Haen 3 (mis Medi 2019 – Medi 2020)

Gweddill ysgolion y rhanbarth.

Timau Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol dan arweiniad Haenau 1 a 2 a GwE gan ddilyn gwaith Shirley Clarke.

Niferoedd

89% o ysgolion y rhanbarth

- 96% Cynradd
- 80% Uwchradd
- 70% Arbennig

	Ysgolion	Athrawon
Haen 1	27	54
Haen 2	193	386
Haen 3	140	261
CYFANSWM	360	701

Meysydd Ymchwil – dros flwyddyn

Meddylfryd twf, 'pwerau dysgu', diagram parthau dysgu

Partneriaid Trafod

Cwestiynu Gwybodaeth Flaenorol

Bwriadau Dysgu – allan o gyd-destun, pa bryd i'w cyflwyno, cofnodi, penagored a chaeedig

Meini Prawf Llwyddiant – disgyblion yn cyd-lunio, MPLI caeedig (gorfodol) a phenagored (dewis), dangos beth yw rhagoriaeth.

Adborth – ar lafar ac ysgrifenedig, cyn, yn ystod ac ar ôl gwrs.

Cael gwared â grwpio yn ôl gallu

Cael gwared â gwobrwyo cymharol

Lleihau llwyth gwybyddol

Mesur Effaith

Defnyddiwyd data ansoddol a meintiol i werthuso effaith ymchwil weithredu athrawon

Athrawon prosiect;

Trafodaeth mewn cyfarfodydd adolygu strwythuredig

Trafodaethau gydag Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yr ysgol

Holiaduron

Cydweithio â Phrifysgol Bangor:

Gweinyddwyd 3 holiadur

- Arferion sy'n seiliedig ar Dystiolaeth
- Dealltwriaeth a hyder athrawon gyda strategaethau asesu Ffurfiannol
- Holiadur adborth disgyblion

Ymchwil Myfyriwr PhD - ysgolion Haen 2 - defnyddio persbectif economeg iechyd i arfarnu'r ymchwil weithredu rhanbarthol.

Estyn - ar gyfer Haenau 1 a 2. Maes Arolygu 2 - (Lles ac Agweddau at Ddysgu) a Maes Arolygu 3 (Addysgu a Phrofiadau Dysgu)

Ffrwd waith – Datblygu Addysgeg yn ystod y cyfnod clo (Dysgu Digidol)

Gwahaniaeth a wnaed

Mwy o ysgolion yn defnyddio ystod o wasanaethau digidol i gefnogi dysgu ac addysgu, a gwelir mewn tystiolaeth gychwynnol bod y gwell defnydd yn ystod y cyfnod clo wedi'i gynnal ers dychwelyd i ysgolion.

Mewn ymateb i'r pandemig cynhaliwyd cyfres o weminarau a chynhyrchwyd hyfforddiant ar-lein yn canolbwyntio ar ddefnyddio llwyfannau dysgu yn effeithiol i gefnogi dysgu ac addysgu trwy gyfnodau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn dilyn yr hyfforddiant, bu cynnydd o 326% ar gyfartaledd yn nifer y dysgwyr sydd yn mewngofnodi i Hwb bob mis. Mae cynnydd o 341% yn y nifer o weithiau y mae pob dysgwr yn defnyddio Hwb ar gyfartaledd bob mis o gymharu â chyn Covid. Yn *'Google Workspace for Education'* 2021 gwelwyd cynnydd o 904% mewn data mewngofnodi. Yn 2022, hyd yma, mae'r cyfartaledd dal yn 771% uwchlaw lefelau cyn-pandemig, sy'n awgrymu bod y llwyfannau hyn yn parhau i gael eu defnyddio yn rheolaidd mewn ysgolion.

- Fideos cymorth anghydamserol - cyfanswm o 9,693 wedi gwyllo
- Cyfanswm nifer y defnyddwyr sydd wedi cymryd rhan mewn cyrsiau anghydamserol ar-lein - 948
- Cyfartaledd Ch3 ar gyfer defnyddio Hwb yn y rhanbarth - 98.3%

Nifer yr enghreifftiau effeithiol wedi'u huwchlwytho ar Ganolfan Cefnogaeth GwE (Ysgol i Ysgol)- [Canolfan Cefnogaeth GwE - Ysgol i Ysgol](#)

Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r dudalen - 27,576

Nifer yr adnoddau defnyddiol wedi'u huwchlwytho ar Ganolfan Cefnogaeth GwE [Canolfan Cefnogaeth GwE](#)

Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r dudalen - 123,690

Cyfanswm nifer y lawrlwythiadau - 23,067

Ffrwd waith – Aseu

Gwahaniaeth a wnaed

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion y rhanbarth yn rhan o sgwrs ddatblygol ar adolygu prosesau aseu a'u datblygu
- Mae nifer bach o ysgolion yn treialu cofnod cynnydd.

Ffrwd waith – MATH

Gwahaniaeth a wnaed

- Mwy o ffocws ar anghenion disgyblion MATH
- Ysgolion yn defnyddio dulliau Dysgu ac Addysgu addas i MATH ac sydd yn ddefnyddiol i bob disgybl.
- Mwy o fanwl gywirdeb o ran dulliau addysgegol mewn ysgolion.
- Mireinio dealltwriaeth o'r hyn yw her mewn Dysgu ac Addysgu, a'r hyn nad ydyw.
- Rhoi strategaethau addysgu ymarferol i athrawon yn seiliedig ar ymchwil diweddar
- Sicrhau bod her ac uchelgais uchel yn bwydo i ddatblygu'r CiG.

Ffrwd waith – Gwahaniaethu

Gwahaniaeth a wnaed

- Cafodd ysgolion fynediad i adnoddau dwyieithog ar wahaniaethu yn rhoi sylw i ystod o anghenion dysgu.
- Cafodd ysgolion gymorth parhaus i wreiddio a datblygu yn ôl anghenion eu hysgolion.
- Cmorth ychwanegol i adrannau'r Gymraeg a Saesneg yn sicrhau dyfnder a ffocws

Ffrwd waith – Datblygu Addysgeg yn ystod y cyfnod clo (Dysgu o Bell, Dysgu Cyfunol a Dysgu Byw)

Gwahaniaeth a wnaed

- Gwell dealltwriaeth o sut gall addasiadau i strwythurau'r diwrnod ysgol gael eu datblygu ymhellach i gefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd.
- Mae llais y disgybl a'r rhiant wedi cyfrannu at fonitro ymgysylltiad a llesiant. Mae ysgolion wedi ymateb yn well i adborth ac addasu eu darpariaeth yn briodol.
- Dull cyfunol effeithiol o ddysgu o bell, gan gynnwys dysgu byw, wedi'i ddefnyddio yn y rhan fwyaf o ysgolion. Amrywiaeth o ddulliau ar waith, gan gynnwys cyflwyniadau fideo wedi'u recordio, ystafelloedd trafod, cwisiau ar-lein a chyfleoedd i gael cyfnodau astudio annibynnol er mwyn cymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae ysgolion yn parhau i ddatblygu hyn, er mwyn datblygu ymhellach y dysgu a'r addysgu.
- Mae YCG wedi cefnogi ysgolion i arfarnu eu darpariaeth a chynllunio ar gyfer adeiladu ar lwyddiannau i ddatblygu'r CiG.
- Esblygu cynnig DP GwE - recordiadau o bob sesiwn DP rhithwir yn cynnig hyblygrwydd a mynediad i holl aelodau staff ysgolion.

Ffrwd waith – Esblygu a Chryfhau Ymgysylltu â Chymheiriaid

Gwahaniaeth a wnaed

- Cryfhau cydweithredu ar bob lefel ar draws y rhanbarth
- Mwy o berchenogaeth o fewn partneriaethau o daith wella pob ysgol
- Mwy o barodrwydd a hyder i rannu arferion rhwng ysgolion, clystyrau a chynghreiriau

- Nifer yr ysgolion / clystyrau yn cymryd rhan yn y rhaglen: 105/18
- Nifer yr Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd: 161
- Nifer yr Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 154
- Nifer yr ysgolion / clystyrau ar gyfer yr haen nesaf: 154/20

Tud. 72

Ffrwd waith – ADY

Gwahaniaeth a wnaed

- Datblygu cydweithio effeithiol rhwng Cydlynwyr ADY.
- Mae ysgolion yn llwyr ymwybodol o'r gofynion Trawsnewid.
- Gall ysgolion adnabod yn effeithiol feysydd ar gyfer datblygiad pellach o ran gweithredu'r trawsnewid.

Ffrwd waith – Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (Lles)

Gwahaniaeth a wnaed

- Mae bron pob ysgol/lleoliad wedi cael hyfforddiant undydd ysgol gyfan ar arferion Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS). Mae mwy na 120 o ysgolion wedi mynd ymlaen i gwblhau'r Diploma 11 diwrnod. O ganlyniad, mae ysgolion bellach yn defnyddio dull yn seiliedig ar niwro-wyddoniaeth yn y dysgu a'r addysgu. Mae staff yn fwy hyderus yn eu dulliau ac mae disgyblion yn gallu hunanreoleiddio a myfyrio ar eu hymddygiad a'u teimladau yn well (elfen allweddol er mwyn lleihau straen peryglus a lliniaru llwybr salwch meddwl gydol oes.)
- Y ni yw'r rhanbarth cyntaf yn y wlad i ddatblygu rhwydwaith Cymuned sy'n Wybodus am Drawma, sy'n dwyn ynghyd addysg a sectorau eraill sy'n gweithio'n holistaidd gyda phlant.
- Efurfiwyd rhwydweithiau o ymarferwyr i gynnig goruchwyliaeth a chymorth ffurfiol, chan gymheiriaid, i ddatblygu lles a gallu staff.
- Mae gennym athrawon sy'n hyfforddi i fod yn hyfforddwyr er mwyn datblygu gallu ymhellach, a gwreiddio iaith ac arfer gyffredin ar draws y rhanbarth a Chymru. Mae gennym hefyd 16 ffilm fer yn arddangos arfer effeithiol ac effaith.

Ffrwd waith – Llesiant Arweinwyr/Staff

Gwahaniaeth a wnaed

- Mae'r holl arweinwyr sydd wedi cymryd rhan yn y peilot wedi croesawu'r cyfle i gael chwe sesiwn myfyriol.
- Mae bron pawb, 17 o 20 o gyd-weithwyr ar gam cychwynnol y cynnig, wedi gofyn am sesiynau dilynol ac mae rhestr aros bellach ar gyfer y cynnig.

Ffrwd waith – Cymorth Llesiant Cyffredinol

Gwahaniaeth a wnaed

- Cyllid i gyd-fynd er mwyn datblygu arferion cydweithredol gwell.
- Mwy o leoliadau yn hyderus i ddefnyddio ystod o fesurau effaith ac arfarnu o ran lles.
- Cyfathrebu a chydweithio cryfach ar waith gyda'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol.
- Mae ystod o adnoddau/canllawiau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gael i gefnogi ysgolion gyda modelau llesiant a'r cynnig dysgu proffesiynol.

Ffrwd waith – Cefnogi Rhieni

Gwahaniaeth a wnaed

- Mae'n rhoi modd i rieni chwarae rhan allweddol o ran darparu cyfleoedd dysgu yn y cartref ac o ran cysylltu'r hyn a ddysga plant yn yr ysgol â'r hyn sy'n digwydd mewn llefydd eraill.
- Mae'n datblygu ar y rhan gynyddol y bu rhieni yn ei chwarae yn ystod pandemig COVID ac yn adnodd gwerthfawr i ysgolion os bydd cyfnod clo arall.

Ffrwd waith – Cefnogi Cymorthyddion Dysgu gyda'u haddysgu

Gwahaniaeth a wnaed

- Mwy o gymorthyddion dysgu yn ymwneud â datblygiad proffesiynol.
- Mae *Google Classroom* wedi codi ymwybyddiaeth cymorthyddion dysgu o'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt ac arwain at gynnydd yn y niferoedd sydd ar y rhaglenni cenedlaethol yn y rhanbarth. Mae hefyd yn adnodd gwerthfawr i ysgolion ar gyfer dyddiau HMS pe bai cyfnod clo arall.
- Gwell ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm newydd a'r gallu i gefnogi disgyblion.
- Sefydlu - o ganlyniad i newid dull cyflwyno'r hyfforddiant hwn bu i niferoedd ddyblu yn ystod 2020-21 i dros 100.
- Darpar CALU - codi sgiliau proffesiynol yn arwain at statws CALU, gyda dros 85% yn ennill y statws ar ddiwedd Cylch 1.

Gwahaniaeth a wnaed

- O ganlyniad i sefydlu a chyflwyno'r prosiect cydweithredol 'Ein Llais Ni' (rhwng GwE a Phrifysgol Bangor), mae gan athrawon sy'n rhan o'r prosiect well dealltwriaeth bellach o bwysigrwydd cynllunio pwrpasol i wella cyfleoedd ac ansawdd sgiliau siarad a gwrando dysgwyr. Mae hyn hefyd wedi datblygu sgiliau ymchwil weithredu athrawon a gwella eu defnydd o dystiolaeth er mwyn dewis dulliau addysgu llwyddiannus a phenodol ar gyfer eu dysgwyr.
- O ganlyniad i weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor, ymhlith eraill, lluniwyd ac arfarnwyd rhaglenni ymyrraeth cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar dystiolaeth (darllen, deall iaith ac adnabod geirfa).
- Trwy rymuso trafodaeth a chydweithio ag awdurdodau lleol, mae trefniadau a gweithgareddau yn ymwneud â'r cynlluniau clwstwr i gefnogi'r Gymraeg wedi dyfnhau a datblygu yn effeithiol. Mae tystiolaeth gadarn bod cydweithio a chyd-ddatblygu wedi arwain at gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ar draws sectorau ac ym mhob cyd-destun ieithyddol.
- Cafwyd ymrwymiad llawn i'r cyrsiau Sabothol ac mae hyn wedi datblygu hyder athrawon ymhellach i siarad Cymraeg a'u hysbrydoli i ddal ati i ddatblygu eu sgiliau.
- Mae staff GwE yn parhau i gael gwersi Cymraeg yn wythnosol ac maent yn dod yn fwy hyderus ac wedi ymrwymo'n llawn i fynychu cwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn ddechrau mis Ebrill.

Ffrwd waith: Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: Y Rhaglen Cyflymu Dysgu

Prosiectau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS):

- **Prosiect Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR):** Ffocws yr adnoddau hyn yw defnyddio addysgu ar sail tystiolaeth a strategaethau datblygu rhuglder i helpu disgyblion i wella eu sgiliau darllen sylfaenol. Cofrestrodd 42 ysgol ar gyfer yr hyfforddiant yn nhymor y gwanwyn 2021-22. Gwahoddir pob ysgol yn awr i fynychu pedwar sesiwn cymorth i weithredu o bell ym mis Tachwedd 2021, Ionawr, Mawrth a Mai 2022, a gallant gysylltu â'r tîm ymchwil i gael unrhyw gymorth yn y cyfamser. Mae datblygu'r deunyddiau Cymraeg ymhellach hefyd ar y gweill, gan eu gwneud yn gydnaws â'r datblygiadau mwyaf diweddar yn yr adnoddau Saesneg. Gwahoddir ysgolion hefyd i ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar yn ogystal â chadw golwg ar ddefnydd rhieni o'r deunyddiau rhuglder hyn gartref. Mae 103 o athrawon wedi defnyddio'r adnoddau *Google Classroom* dwyieithog.
- **Prosiect Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL):** Rhaglen addysgu 8-wythnos yw RILL y gellir ei chyflwyno naill ai o bell neu yn yr ysgol. Y bwriad yw helpu i gynnal ac/neu wella sgiliau darllen a sillafu i blant ag anawsterau llythrennedd, neu ddim, ac mae'n targedu sgiliau craidd ar gyfer llythrennedd ar lefel gair (ymwybyddiaeth ffonolegol, geirfa, darllen a sillafu geiriau). Yn 2021 fe wnaethom ddatblygu fersiwn ddwyieithog o RILL. Mae 54 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant ym mis Medi 2021, y rhan fwyaf ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae 31 ysgol a 55 athro wedi cael hyfforddiant RILL hyd yma. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn, rydym yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol ar hyn o bryd i gefnogi athrawon. Rydym hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (er enghraifft, tiwtorialau a fideos esboniadol), gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau efo'r tîm ymchwil/athrawon eraill.
- **Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR) :** Mae hyn yn barhad o'n prosiectau gweithredu Headsprout hir sefydlog. Mae rhaglen darllen a darllen a deall cynnar Headsprout yn ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth i helpu dysgwyr mewn ysgolion cynradd sy'n cael trafferthion darllen. Bwriad y prosiect yw helpu ysgolion a rhieni i ddefnyddio rhaglenni Headsprout yn effeithiol. Mae 63 ysgol wedi defnyddio'r cymorth hwn er 2020. Mae hyn yn cynnwys dros 700 yn gwyllo'r fideos cymorth i athrawon a rhieni ac yn ymweld â'r ganolfan adnoddau. Ymunodd 74 athro â'r rhwydwaith cymorth Hwb, ac mae llawer o'r rhain yn arbenigwyr llythrennedd ac/neu ADY.

Ffrwd waith: Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: Y Rhaglen Cyflymu Dysgu

Prosiectau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS):

- **Adolygiadau Tystiolaeth** : Mae'r pedwar adolygiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth gyfredol ar gyfer ystod o raglenni ac ymyraethau a ddefnyddir yn gyffredin. Ar gyfer pob rhaglen, cyflwynir ystod o wybodaeth ymarferol sy'n ddefnyddiol i arweinyddion ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth ar effeithlonrwydd, cost, gofynion o ran hyfforddiant a chysylltiadau â'r cwricwlwm. Mae'r adolygiadau hyn i'w gweld ar Ganolfan Gefnogaeth GwE ac fe'u hyrwyddir fel rhan o Brosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP) Llywodraeth Cymru.
- **Cymorth rhifedd SAFMEDS**: Mae *Say All Fast Minute Every Day Shuffled* (SAFMEDS) yn strategaeth addysgu yn seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd i helpu disgyblion i wella'u rhuglder a'u cynnydd mewn mathemateg. Ffocws yr adnoddau hyn yw defnyddio addysgu ar sail tystiolaeth a strategaethau datblygu rhuglder i helpu disgyblion i wella eu sgiliau rhif sylfaenol. Mae gan y strategaethau sylfaen ymchwil ddamcaniaethol gadarn ochr yn ochr â thystiolaeth gadarnhaol o dreialon effeithiolrwydd. Gellir defnyddio'r strategaeth yn y dosbarth, ar-lein neu gartref. Cynhyrchwyd yr adnoddau SAFMEDS a ganlyn a'u rhannu ag ysgolion: Sesiynau galw heibio misol i ysgolion rhanbarthol; Hyfforddiant pwrpasol i ysgolion rhanbarthol ac UauCD; Hyrwyddo SAFMEDS drwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE; Creu adnoddau dwyieithog; Tiwtorial SAFMEDS ar-lein; Gwefan unigryw i SAFMEDS; Cyflwyniad i hyfforddiant Addysgu Manwl; Cardiau gaiff eu dal â llaw ar gyfer Cam Ychwanegol SAFMEDS er mwyn ymestyn yr ymdriniaeth o'r Fframwaith Rhifedd; Comisiynwyd creu deunyddiau Dysgu newydd - gellir defnyddio'r rhain fel darpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol, gan dargedu ymarfer adalw rheolaidd a datblygu rhuglder.

- **Prosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP):** Mae 11 clwstwr (41 ysgol) wedi'u recriwtio ar gyfer y prosiect hwn, o bob un o'r chwe Awdurdod Lleol. Cafwyd cyfarfod lansio ym mis Rhagfyr 2021, ac mae'r tîm ymchwil wrthi'n dosbarthu'r arolwg gwaelodlin i ysgolion cyn ein bod yn dechrau sesiynau gydag ysgolion o fis Chwefror hyd Mehefin 2022. Rydym wedi cyflwyno dwy sesiwn dystiolaeth 'elfennau hanfodol' i ysgolion yn 2022, sef 'defnyddio modelau rhesymeg' a 'defnyddio adolygiadau tystiolaeth'.
- **Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP):** Ar hyn o bryd mae 42 ysgol yn rhan o brosiect NPEP, sy'n cynnwys 11 ysgol arweiniol a 31 ysgol bartner ar draws pob ALL. Mae GwE yn parhau i weithio gyda staff Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr i gefnogi'r ysgolion hyn mewn cyfarfodydd bob hanner tymor a rhoi mewnbwn ar ddulliau ymchwil a gwerthuso. Rydym yn cyfarfod â'r ysgolion hyn yn rheolaidd i gefnogi eu gwaith ymholi a gwerthuso.
- **Datblygu model ar gyfer ymchwil cydweithredol gydag ysgolion:** Dau bapur ymchwil wedi'u derbyn i gael eu cyhoeddi eleni:
 - ❑ Owen, K., Watkins, R. C. and Hughes, J. C. (2022). From Evidence-Informed to Evidence-Based: An Evidence Building Framework for Education. *Review of Education*,
 - ❑ Pegram, J., Watkins, R. C., Hoerger, M. and Hughes, J. C. (2022). Assessing the Range and Evidence-Base of Interventions in a Typical School Cluster. *Review of Education*

Trosolwg Byr

- Gwahoddwyd pob ysgol i fod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Cymru rhanbarthol a lleol. Dangosodd **300+** ddiddordeb erbyn Gorffennaf 2021, a chododd hyn i **700+** erbyn mis Hydref 2021.
- Erbyn mis Mawrth 2022, mae **733** o aelodau o blith ysgolion, YCG GwE, cyd-weithwyr o'r ALL, a staff CABAN.
- Sefydlwyd **49** rhwydwaith - 6 MDaPh, dylunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu.
- Sefydlwyd trefn gyda chyfarfodydd rhanbarthol misol ble mae'r Athro Graham Donaldson yn bresennol ac yn cynnig arweiniad/sylwadau - ffocws y cyfarfodydd yw disgwyliadau fel y'u gosodir yn **Cwricwlwm i Gymru: Y Gwaith at gyflwyno**
- Bydd pob cyfarfod lleol ar draws y chwe ALL yn cyfarfod bob mis rhwng y cyfarfodydd rhanbarthol.
- Mae cyfathrebu yn agwedd allweddol ar rannu gwaith â phob ysgol drwy YCG GwE, y wefan, diweddariadau rheolaidd mewn fforymau Penaethiaid.
- Sefydlwyd isadeiledd TEAMS ble mae gan bob rhwydwaith rhanbarthol a lleol rhywle penodol ble gallant rannu gwaith a chydweithio
- Gwireddir strategaeth GwE o ran cefnogi arweinwyr ac athrawon i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a chydweithio.

Gwahaniaeth a wnaed

- Gyda **117-130** o aelodau rhanbarthol yn cyfarfod bob mis, mae dealltwriaeth o fframwaith ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi **dyfnhau'n sylweddol**.
- Yn ôl cadeiryddion rhanbarthol, sydd yn ymarferwyr ysgol, mae eu **hyder a'u perchnogaeth wedi codi** o ran sefydlu sianeli cyfathrebu lleol, arwain trafodaethau mewn fforymau lleol ac ar draws clystyrau o ysgolion.
- Mae **mwyafrif o ysgolion** yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau dylunio a chynllunio'r cwricwlwm.
- **Nifer cynyddol o ymweliadau â'r wefan** i gael gafael ar ddeunyddiau ac enghreifftiau sydd wedi'u rhannu gan rwydweithiau ac ysgolion - 3923 o ymweliadau â'r dudalen Rhwydweithiau o fewn Cwricwlwm i Gymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022.
- **Mwyafrif o ddefnyddwyr a chyfathrebu ar draws TEAMS** ble mae unigolion o fewn rhwydweithiau yn rhannu negeseuon allweddol ac enghreifftiau o rannu pellach o fewn eu clystyrau a'r cynghreiriau uwchradd.
- **Hyder yn y system** bod strategaeth glir a thryloyw i ymateb i'r gofynion statudol erbyn Medi 2022.

Gweithdai Cwricwlwm i Gymru

- Cynhaliwyd sesiynau Arwain Newid ym mis Chwefror 2021 gyda 30 o sesiynau a 732 o ymarferwyr UDA yn bresennol.
- 54 sesiwn yn ystod mis Mehefin-Gorffennaf 2021 ar weledigaeth a rennir, cynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm (108 awr o ddysgu proffesiynol).
- Y % sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu ragor ym mis Mehefin/Gorffennaf oedd 80.3%
- Mynychodd 1155 y sesiynau = 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion.
- Mae gan bob clwstwr fynediad at ddolen i wefan benodol efo padledi a dogfennau cydweithredol sydd yn ganolfan adnoddau ganolog i waith DP, cofnodi trafodaethau ac adnabod meysydd ar gyfer mwy o drafodaethau lleol (enghreifftiau ar gael).

Gweithdai Dylunio Cwricwlwm

- Y gynulleidfa darged oedd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rhithwir dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 101 o aelodau UDA uwchradd, 504 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 16 ac 8 consortia arall/Estyn yn bresennol
- Defnyddiodd lawer o'r UDA y sesiynau hyn i gael mwy o staff i ymuno â'r weminar i drafod.
- Cafodd bob ysgol fynediad at y deunydd hwn a chynhaliwyd sesiynau dilynol efo YCG yn y rhan fwyaf o ysgolion/clystyrau
- Gall rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol fwydo i ddysgu proffesiynol gydag enghreifftiau o grynodedau cwricwlwm lefel uchel ac egwyddorion dylunio yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru: y daith at gyflwyno

Gweithdai Cynnydd ac Asesu

- Y gynulleidfa darged oedd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rhithwir dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 141 o aelodau UDA uwchradd, 620 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 18 ac 11 consortia arall/Estyn yn bresennol.
- Mae Rhwydweithiau CiG yn bwydo i enghreifftiau a rennir ar bwrpas asesu, ynghyd â Phenaethiaid yn rhannu eu profiadau.
- Cafwyd adborth cadarnhaol iawn - "Roedd y sesiwn yn taro'r hoelen ar ei phen!" "Cyflwynwyd negeseuon gwych mewn ffordd glir a syml".
- Mae'r holl ddeunyddiau a'r recordiadau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE - xxx o ymweliadau.

Gweithdai egwyddorion cynllunio i ddilyn mis Ebrill 2022 (aildrefnwyd yn sgil sylwadau gan ysgolion o ran eu capasiti)

Camau nesaf rhaglen DP genedlaethol drawsranbarthol ar gyfer CiG i'w rhannu ym mis Ebrill.

Gwahaniaeth a wnaed

1. **Lefelau ymwneud yn uwch** ar draws y rhanbarth ymysg aelodau UDA ac athrawon er haf 2021 - **pob ysgol** yn ymwneud â'r cynnig DP.
2. Aelodau UDA ac athrawon yn **fwy hyderus** o ran deall egwyddorion y fframwaith CiG ac wrth gynllunio i gyrraedd y gofynion statudol newydd.
3. Mae pob YCG yn rhan o ddeialog broffesiynol gyson ag aelodau UDA ar draws pob ysgol fel dilyniant i'r cynnig DP lleol, ac yn cynnig DP unigryw i anghenion ysgolion unigol lle bo'n briodol.
4. **Mwy o ysgolion** 'ar drac' i fodloni'r gofynion statudol newydd erbyn mis Medi 2022 (adroddiad chwe cham).
5. Mae nifer cynyddol o enghreifftiau o Uwch Arweinwyr mewn ysgolion yn defnyddio adnoddau DP i ymwneud ymhellach â'r holl staff e.e. arwain newid.
6. Mae rhaglen glir ar gyfer dysgu proffesiynol rheolaidd i YCG gyda'r Athro Graham Donaldson wedi arwain at wella dealltwriaeth a chodi hyder ar draws y tîm - gan arwain at gyd-weithwyr cynradd ac uwchradd yn dod i ddeall y continwwm 3-16 yn well (#sesiynau ac oriau).
7. **Drwy rannu negeseuon integredig** ar draws y tîm, gall yr YCG ddilyn hyn mewn dosbarthiadau ac ystafelloedd athrawon e.e. DP CiG - llawer o enghreifftiau o ysgolion yn rhannu eu gweledigaeth ac yn defnyddio map ffordd i gynllunio blaenoriaethau gweithredu ar gyfer 2020-21, gwaith dilynol ar ddylunio cwricwlwm lefel uchel.

Ffrwd waith – DYSGU PROFFESIYNOL

Camau nesaf y rhaglen DP genedlaethol drawsranbarthol i'w rhannu ym mis Ebrill – e.e. ffocws ar gynnydd, cynllunio strategol yn 2022 a'r tu hwnt

Uwch Arweinwyr

Arweinwyr Canol, Athrawon

Beth ydym ni'n ei olygu wrth gynnydd?

Deall y fframwaith CiG/MDaPh

Sut ydym ni'n dylunio cynnydd lefel uchel/modelau gwahanol

Beth ydym ni'n ei olygu wrth gynnydd?

Cynllunio strategol ar gyfer datblygu cwricwlwm Medi 2022 a'r tu hwnt

Cynllunio ar gyfer cynnydd o fewn disgyblaethau/MDaPh

Dylunio elfennau mandadol ac ehangach

Cynllunio gwahanol fodolau cwricwlwm

Dylunio cwricwlwm ar draws y continwrm 3-16

Cynllunio ar gyfer sgiliau trawsgwricwlaidd

Dibenion asesu o fewn y CiG

Cynllunio ar gyfer sgiliau cyfannol

Rôl asesu o fewn atebolrwydd

Cynllunio ar gyfer themâu trawsgwricwlaidd

Gwerthuso CiG o fewn eich ysgolion

Cynllunio ar gyfer ehangder a dyfnder cynyddol ar draws 3-16

CiG mewn ysgolion llai

Cynllunio ar gyfer yr Egwyddorion Cynnydd o fewn MDaPh

Dibenion asesu

Rôl ymchwil ac ymholi mewn cynllunio cwricwlwm

Data i ddangos ymgysylltiad yn ystod tymor yr haf 2021 – gweledigaeth/cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm 1 a 2

Tud. 84

Cod ALI	Awdurdod Lleol	Nifer o Ysgolion	Nifer wedi Mynychu 3 sesiwn	% wedi Mynychu 3 sesiwn	Nifer heb fynychu dim un sesiwn	% heb fynychu sesiwn	Nifer wedi Mynychu 1 neu fwy o sesiynau	%wedi Mynychu 1 neu fwy o sesiynau	Nifer wedi Mynychu 2 neu fwy o sesiynau	%wedi Mynychu 2 neu fwy o sesiynau
660	Ynys Môn	46	34	73.9%	4	8.7%	42	91.3%	37	80.4%
661	Gwynedd	96	49	51.0%	10	10.4%	86	89.6%	69	71.9%
662	Conwy	60	31	51.7%	5	8.3%	55	91.7%	49	81.7%
663	Sir Ddinbych	54	18	33.3%	16	29.6%	38	70.4%	26	48.1%
664	Sir y Fflint	77	26	33.8%	15	19.5%	62	80.5%	45	58.4%
665	Wrecsam	68	28	41.2%	14	20.6%	54	79.4%	43	63.2%
	Cyfanswm	401	186	46.4%	64	16.0%	337	84.0%	269	67.1%

Ffrwd waith – Datblygu Arweinyddiaeth

Gwahaniaeth a wnaed

- Mae arweinwyr ysgolion ar bob lefel sydd yn cymryd rhan yn y rhaglenni Arweinyddiaeth yn fwy hyderus yn gyffredinol ac mae ganddynt well dealltwriaeth o arweinyddiaeth effeithiol. Mae aelodau yn datblygu yn arweinwyr hunan fyfyrion sy'n arddangos cymhwysedd, arloesedd, disgwiliadau uchel, nodau clir a'r gallu i ddatblygu a dylanwadu ar eraill.
- Mae pob Rhaglen yn arwain at aelodau yn datblygu rhwydweithiau cydweithio â chymheiriaid proffesiynol a chlòs, a fydd yn eu helpu i gyfrannu ar lefel clwstwr ac yn rhanbarthol i'r agenda diwygio cenedlaethol.
- Trwy gwblhau 'Tasgau Datblygu Arweinyddiaeth' ysgol gyfan i wella agweddau ar waith eu hysgolion, mae aelodau wedi datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth ac mae ganddynt gyfrifoldeb penodol o fewn eu sefydliadau i yrru gwelliant ysgol gyfan.
- Trwy gyfrannu i yrru blaenoriaethau yn eu hysgolion mae aelodau'r rhaglenni yn atebol am weithgarwch gwella. Yn ogystal, gallant hunan arfarnu eu gweithredoedd personol yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth, gan feithrin cyfrifoldeb personol am eu datblygiad proffesiynol eu hunain.
- Trwy fyfyrion beirniadol ac ystyried effaith eu gweithredoedd, mae unigolion yn gallu dangos sut y mae dilyn y rhaglenni nid yn unig yn datblygu eu sefydliadau ond hefyd yn eu datblygu fel arweinwyr.

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: 98

Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr: 61

Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP): 72

Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro: 37

Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol: 17

CYFANSWM: 285

Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio

TYMOR YR HYDREF 2021





CYNNWYS

PWRPAS YR ADRODDIAD	3
MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH	4
BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD	4
PRIF GANFYDDIADAU	6
SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD	6
SECTOR UWCHRADD GAN GYNNWYS YSGOLION ARBENNIG PERTHNASOL AC UCD	13
CRYNODEB O GYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GWE I YSGOLION	19



PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu pwrpasol trwy ddull dysgu cyfunol llawn creadigedd. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu i fod yn sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda adfywio a diwygio.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau i baratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt roi sylw i'r agenda adfywio a diwygio ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021.

Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

Cynnydd disgyblion

Sectorau cynradd ac arbennig

- *Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn mesur cynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu?*
- *Beth yw'r wybodaeth ddaw allan o'r data crynodol neu ansoddol hwn?*

Sector uwchradd gan gynnwys ysgolion arbennig perthnasol ac UCD

- *Sut mae ysgolion uwchradd wedi defnyddio Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer TGAU a Safon Uwch i gwblhau hunan arfarniad er mwyn cefnogi gwelliant parhaus?*

Cwricwlwm i Gymru (CiG)

- *Beth yw blaenoriaethau CiG yr ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?*
- *Beth yw'r blaenoriaethau clwstwr ar gyfer CiG yn nhymor yr Hydref?*
- *Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol CiG?*
 - *Arwain newid*
 - *Datblygu gweledigaeth a rennir.*
 - *Diwygio'r Cwricwlwm*
- *Beth fydd rôl a chyfraniad eich YCG ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?*
- *Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu cynllunio cwricwlwm yn eich ysgol ac ar draws eich clwstwr?*

Diwygio ADY a Chynnydd tuag at Weithredu

- *Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?*
- *Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?*

Dysgu Proffesiynol

- *A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?*



Tud. 88



Atebolrwydd

- Sut ddylai atebolrwydd edrych?
- Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?
- Sut fydd adrodd yn edrych?

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi **Cynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion**.

Crynoir y meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach a'r blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel isod:

MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am gymorth yn y meysydd canlynol er mwyn datblygu:

- Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru - yn enwedig dylunio a chynllunio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh);
- Dulliau asesu a'r cysyniad o gynnydd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd;
- Gweithredu'r 12 Egwyddor Addysgegol er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu, gwahaniaethu ac asesu ffurfiannol;
- Defnyddio prosesau gwella ansawdd, gan gynnwys defnyddio data ansoddol a meintiol fel tystiolaeth i gefnogi gwelliant;
- Cryfhau cydweithio clwstwr cynradd ymhellach a pharhau i sefydlu a hwyluso cynghreiriau uwchradd i gytuno ar egwyddorion a swyddogaethau eu gwaith cydweithredol;
- Sefydlu a datblygu adolygu gan gymheiriaid ymhellach drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP);
- Gwella sgiliau'r Gymraeg, llafaredd yn enwedig;
- Cryfhau'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd/arbennig a datblygu continwmm 3 i 16;
- Gwella ymgysylltiad rhieni i gefnogi'r dysgu;
- Cefnogi ysgolion uwchradd i baratoi am arholiadau Haf 2022 a'u trefniadau wrth gefn pe byddai mwy o darfu.

BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD

Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn:

1. Sicrhau y bydd pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm ac yn rhoi sylw i ofynion mandadol/statudol ar gyfer ei gyflwyno yn 2022 neu 2023 (opsiwn sector uwchradd).

Cefnogir hyn trwy:

- Ddarparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol gydag arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm;
 - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
 - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant i ymateb yn effeithiol i'r arweiniad a nodir yn y Rhaglen Dysgu Proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
 - Sicrhau bod pob lleoliad yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi crynodeb i randdeiliaid allweddol o'u cwricwlwm a'u trefniadau asesu fel yr amlinellir yn 'Y Daith at Gyflwyno'.
2. Gweithredu prosesau sy'n rhoi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod gan ysgolion y lefel briodol o gymorth a her er mwyn gwella.



3. Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid yn enwedig o fewn cyngheiriaid uwchradd i gryfhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant.
4. Cefnogi'r Awdurdodau Lleol i gyflwyno Trawsnewid ADY drwy ddarparu Dysgu Proffesiynol i wella'r dysgu a'r addysgu.



Tud. 90



PRIF GANFYDDIADAU

SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD

MESUR CYNNYDD DYSGWYR

- *Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn mesur cynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu?*
- *Beth yw'r wybodaeth ddaw allan o'r data crynodol neu ansoddol hwn?*

Mae bron pob ysgol gynradd ac arbennig wedi rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ac yn gweithredu amryw o gynlluniau/gweithgareddau fel 'Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma', 'Pass', Grwpiau Anogaeth, 'Talkabout', 'Mind Mechanics', Therapi Lego, a 'Tyfu drwy'r Tymhorau'. Fel hyn, maent wedi gallu cynnal ac olrhain lles eu disgyblion yn well. Ceir llawer o enghreifftiau o arferion da ar draws y rhanbarth ble datblygwyd dull effeithiol o fonitro lles. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion sydd wedi cwblhau asesiad gwaelodlin o les dysgwyr i weld pwy sy'n fregus i ddysgu ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Cefnogwyd rhai ysgolion gan brifysgolion i gynnal ymchwil ar sut orau i adnabod anghenion lles. O ganlyniad, maent wedi gallu adnabod unigolion a grwpiau o ddysgwyr i gael yr ymyrraeth fwyaf priodol fel 'ELSA'. Hyfforddwyd athrawon a staff ysgolion mewn amrywiaeth o ymyrraethau arbenigol, e.e. ymarferwyr iechyd meddwl, 'Tyfu drwy'r Tymhorau', a Meddwlgarwch. Defnyddir cwnsela ysgol, 'NICOS' a Seicolegwyr Addysg yn effeithiol hefyd mewn llawer o ysgolion. Nid oes amheuaeth bod lles disgyblion yn dal yn flaenoriaeth uchel i'r rhan fwyaf o ysgolion wrth iddynt barhau i roi sylw i effaith COVID ar eu disgyblion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae bron pob ysgol wedi parhau â'u systemau asesu mewnol i olrhain cynnydd. Mae'r systemau tracio ac asesu hyn yn cynnwys:

- Tracio perfformiad yn sgil ymyrraethau unigol;
- Defnyddio sgorau safonedig o brofion cenedlaethol;
- Defnyddio profion darllen a sillafu fel profion darllen 'Salford' a phroffion sillafu 'Youngs';
- Cynnal profion 'CAT 4';
- Cynnal asesiadau mathemateg 'White Rose' er mwyn llywio'r cynllunio;
- Cynnal asesiadau gwaelodlin yn y Meithrin a'r Derbyn;
- Defnyddio Incerts i dracio lefelau o'r gwaelodlin ymlaen;
- Nodiadau tracio athrawon unigol yn effeithiol;
- Athrawon yn cadw cofnodion 'Read, Write, Inc';
- Arweinwyr yn defnyddio 'Building Blocks', 'Maestro' a 'Taith 360';
- Ysgolion yn dechrau defnyddio adnodd tracio GwE ar gyfer tracio cynnydd Meysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru;
- Defnyddio holiaduron lles fel 'PASS' a 'Boxhall';
- Defnyddio portffolios disgyblion ar gyfer safoni a chymedroli.

Nododd llawer o ddisgyblion bod y cymorth a'r berthynas agos â theuluoedd yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yn barod i ddysgu wedi'r cyfnod clo. Er hynny, roeddent hefyd yn cydnabod yr heriau gyda disgyblion ieuengaf yr ysgol a'r unigolion mwyaf bregus.

Felly mae amrywiad sylweddol yn ôl ysgolion, o ran cynnydd disgyblion. Yn ôl llawer o ysgolion cynradd, gwneir cynnydd da ar y cyfan tra bod eraill yn nodi cynnydd cyfyngedig gan garfanau o ddisgyblion. Mae llawer o ysgolion wedi gweithredu cynlluniau targedu i gefnogi grwpiau o ddisgyblion fel y bo'n briodol. Er enghraifft, cytunir bod y cyfnod clo wedi cael mwy o effaith ar ben isaf yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi'r angen i flaenoriaethu cymorth yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando disgyblion. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi tueddu i 'ddal fyny' yn gynt ar ôl dychwelyd wedi'r cyfnod clo. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi'r angen i ddal ati i ganolbwyntio ar wella sgiliau



Tud. 91



echddygol manwl disgyblion, gan gynnwys cyflwyno gwaith, rhyngweithio cymdeithasol, stamina ysgrifennu a dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cydnabod yr angen i wella sgiliau llafaredd Cymraeg disgyblion.

Mae bron pob ysgol yn parhau i gyflwyno strategaethau ymyrraeth effeithiol i ddisgyblion e.e. drwy sesiynau dysgu manwl dyddiol, sesiynau 'SAFMEDS' i ddatblygu sgiliau darllen/sillafu Cymraeg a Saesneg, sesiynau Tric a Chlic i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ôl bron pob ysgol, mae'r targedu ymyrraeth wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i fonitro cynnydd dysgwyr o wahanol grwpiau fel dysgwyr bregus, hawl i Brydau Ysgol am Ddim (PYD), disgyblion ADY, Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cymorth priodol a phwrpasol i'r disgyblion hyn ac maent yn gweld effaith y gwaith hwn drwy eu prosesau asesu. Dywedant fod disgyblion bregus yn gallu delio'n llawer gwell yn y dosbarth prif lif a gydag amrywiol heriau cymdeithasol.

CWRICWLWM I GYMRU (CiG)

• *Beth yw blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru yr ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?*

Mae gan bob ysgol gynradd flaenoriaethau CDY yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru yn 2021-22, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â Rheoli Perfformiad Penaethiaid. Mae'r blaenoriaethau hyn yn unol â'r daith dysgu proffesiynol genedlaethol a'r daith at gyflwyno, ac yn cynnwys agweddau ar ddatblygu gweledigaeth, ymglyfarwyddo â chynnwys a chynllunio a threialu.

Trwy gydol tymor yr Hydref, roedd enghreifftiau o'r hyn a roddwyd ar waith gan ysgolion cynradd ac arbennig rhanbarthol yr awdurdod yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar Bedwar Diben y cwricwlwm newydd, e.e. disgyblion yn disgrifio beth maent yn ei olygu iddyn nhw, staff yn edrych (archwilio) ble rhoddir sylw i'r rhain yn y ddarpariaeth bresennol. Mae gan bob ysgol gynradd bellach fynediad at 'Fframwaith Asesu Ansawdd' GwE sy'n cefnogi ysgolion cynradd gyda'r archwiliad hwn, mae lleiafrif o ysgolion cynradd eisoes wedi dechrau defnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol.
- Treialu gyda chynllunio, e.e. cyfeirio at Feysydd Dysgu a Phrofiad yn y cynllunio ac amlygu'r ymdriniaeth;
- Datblygu taflenni gwybodaeth/gohebiaeth i rieni, yn dweud wrthynt am y Cwricwlwm i Gymru;
- Addysgu pynciau ac ail-labelu llyfrau yng nghyd-destun y Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Treialu gyda'r datganiadau o gynnydd mewn cynllunio;
- Mae staff yn mynychu dysgu proffesiynol perthnasol;
- Mae arweinwyr yn ystyried ffyrdd o dracio ac asesu'r Cwricwlwm i Gymru;
- Diweddarau llywodraethwyr yn rheolaidd, a llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn y Cwricwlwm i Gymru;
- Datblygu themâu a thopigau ysgol gyfan sy'n briodol;
- Cynnwys llais y disgybl yn y cynllunio;
- Archwilio yn erbyn adnodd tracio Egwyddorion Addysgegol GwE;
- Ail-ymweld ag adborth a gwaith asesu ffurfiannol;
- Parhau i ddatblygu dysgu yn yr awyr agored - gwreiddio lles trwy brofiadau cyffrous a diddorol yn yr awyr agored;
- Parhau i ganolbwyntio ar les, gan gynnwys dysgwyr a'u teuluoedd a lles staff;
- Gweithredu mentrau ffitrwydd corfforol;
- Parhau i ddatblygu sgiliau digidol.

Mae bron pob ysgol wedi dechrau paratoi i weithredu'r cwricwlwm newydd, h.y. mae'r Pedwar Diben a'r 12 Egwyddor Addysgegol wedi cael sylw priodol a bellach yn rhan naturiol o'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu.



Tud. 92



Ar draws y rhanbarth, mae amryw o enghreifftiau o arferion blaengar gydag amrywiol ffyrdd o gynllunio themâu, tasgau a gweithgareddau i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd. Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydweithio'n dda ac yn rhannu arferion llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio darpariaeth Dysgu Proffesiynol addas i ddatblygu dysgu ac addysgu effeithiol gan ystyried egwyddorion a gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi trefnu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gyfoethogi'r dysgu, yr addysgu a'r addysgeg i gefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru ymhellach.

Mae bron pob ysgol wedi cynllunio eu gwariant grant i gefnogi'u gwaith tuag at fodloni gofynion statudol Medi 2022. Ar y cyfan, neilltuwyd y gwariant hwn i wella cymarebau staffio, targedu disgyblion, prynu adnoddau ychwanegol a rhyddhau staff i fynd i hyfforddiant.

• **Beth yw blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru y clwstwr yn ystod Tymor yr Hydref?**

Mae'r rhan fwyaf o glystyrau ar draws y rhanbarth yn gweithio'n dda ac yn wirioneddol cydweithio. Cryfhawyd y cydweithio hwn yn ystod y cyfnod clo pan oedd y clystyrau yn cyfarfod yn rheolaidd ar-lein.

Mae clystyrau ar draws y rhanbarth wedi cytuno ar amrywiaeth o flaenoriaethau. Dyma nhw:

- Sicrhau bod gan bob aelod staff ym mhob ysgol yn y clwstwr ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion sy'n sail iddo;
- Datblygu ymhellach yr agweddau addysgegol a sut mae'r rheiny'n trosglwyddo i arferion dosbarth;
- Datblygu cynllunio cwricwlwm lefel uchel;
- Archwilio addysgeg a model dysgu ar sail ymholiad ar gyfer yr agwedd Gymraeg ar y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Datblygu hyfforddiant Profiadau Dysgu yn yr Awyr Agored a rhoi'r egwyddorion a'r fethodoleg ar waith.

Mae bron pob arweinydd ysgol wedi cydweithio a chyd-lunio blaenoriaethau a gosod cyfeiriad ar gyfer datblygiadau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac yn dechrau dangos effaith, e.e. mae fformat cynllunio clwstwr ar gael, sesiynau gweledigaeth clwstwr, newyddlenni clwstwr ac ati.

Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn datblygu'n dda mewn rhai ardaloedd; er hynny, mae effeithiolrwydd hyn yn amrywio o'r naill glwstwr i'r llall ar hyn o bryd. Mae gan arweinwyr mewn rhai clystyrau fwy o waith i'w wneud i greu a chytuno ar weledigaeth a chyfeiriad penodol i'r clwstwr. Yn gyffredinol, megis dechrau mae'r clystyrau o ran cynllunio ar gyfer cwricwlwm 3-16 a rennir, sy'n cynnwys gwella trosglwyddo. Dyma'r cam nesaf i lawer o glystyrau. Tymor nesaf, mae llawer yn bwriadu:

- Rhannu syniadau a modelau ar gyfer dylunio cwricwlwm, gan gynnwys cyswllt â'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru lleol;
- Rhannu cynlluniau ar gyfer grwpiau oedran tebyg rhwng ysgolion;
- Rhannu testunau/themâu i gefnogi gwaith pontio 3-16, gan gynnwys gwaith ar sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd;
- Dechrau datblygu dull asesu cyffredin;
- Dechrau datblygu ieithoedd modern 3-16.

Mae deuddeg clwstwr cynradd a phob ysgol arbennig wedi cael hyfforddiant adolygu cymheiriaid i gefnogi eu taith tuag at welliant. Yn ystod tymor yr Hydref, mae 33 clwstwr arall, yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol a 6 UCD, wedi gwneud cais i gymryd rhan mewn adolygu cymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.



- **Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru?**
 - **Arwain newid**
 - **Datblygu gweledigaeth a rennir**
 - **Diwygio'r Cwricwlwm**

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac arbennig, mae arweinwyr wedi defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol i ddatblygu sgiliau staff wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mewn ysgolion eraill, mae YCG wedi ailgyflwyno'r adnoddau i arweinwyr, ac maent yn bwriadu eu defnyddio yn nhymor y Gwanwyn. Ble defnyddiwyd yr adnoddau hyn yn effeithiol, mae arweinwyr wedi cynllunio ffyrdd ymarferol a diddorol i ddefnyddio adnoddau rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru e.e. papurau procio, cyflwyniadau PowerPoint a gweminarau, trwy gyfarfodydd staff wythnosol, gyda'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn aml yn cefnogi.

Bu'r rhan fwyaf o Benaethiaid ar yr holl weithdai Cwricwlwm i Gymru gan gyfrannu'n dda at y broses, a rhoi safbwyntiau gofalus. Mae llawer yn gweithredu'r dull hwn o'r dysgu proffesiynol yn eu hysgolion, er enghraifft, ysgrifennu at randdeiliaid i ddatblygu gweledigaeth wirioneddol leol; a chael grwpiau o randdeiliaid i gyfrannu at ddatblygu gweledigaeth gyffredin. Mae llywodraethwyr yn rhan fawr o'r broses hon ac yn wybodus iawn yn gyffredinol, ac yn dechrau arwain newid cwricwlwm yn eu hysgolion.

- **Beth fydd rôl a chyfraniad eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?**

Ar draws y rhanbarth, mae arweinwyr ysgolion wedi gofyn am y canlynol gan yr YCG:


- Cymorth gyda chyfarfodydd staff ar adnoddau GwE a Chanolfan Cefnogaeth GwE;
- Cymorth gyda hunan arfarnu a chynllunio gwelliant;
- Cymorth gyda monitro datblygiadau'r cwricwlwm;
- Cymorth a chynngor ar asesu a chynnydd a sut i gynllunio ar gyfer y rhain;
- Cymorth unigryw i staff lle bo'n briodol;
- Cymorth i ddatblygu cynllun y clwstwr ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
- Cymorth ar gyfer cynllunio a phontio 3-16;
- Hwyluso prosiectau'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion;
- Rhannu enghreifftiau a modelau o sut i ddylunio'r cwricwlwm;
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau o'r rhwydweithiau rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen;
- Gofal bugeiliol parhaus.

- **Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dylunio cwricwlwm**
 - **yn eich ysgol?**
 - **ar draws eich clwstwr?**

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion yn y rhanbarth gynlluniau i ddatblygu dylunio cwricwlwm drwy gydol y flwyddyn academaidd, drwy eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chamau'r daith ddiwygio ranbarthol a chenedlaethol. Bydd staff yn parhau i ailwampio eu cwricwlwm yn unol â'r rhain wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Er hynny, mae dylunio'r cwricwlwm yn dal yn faes allweddol i gael cymorth ac arweiniad.

Nododd ysgolion fod athrawon wedi treialu dulliau cynllunio i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, a'u bod yn parhau i wneud hynny drwy:

- Gynllunio ar fformatau newydd, gan gynnwys cyfeiriadau at y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r Pedwar Diben;
- Mae testunau ysgol gyfan wedi'u cynllunio yn cynnwys y cwricwlwm lleol;
- Mae testunau a themâu yn cynnwys cynllunio ar gyfer llais y disgybl - yn enwedig ar ddechrau testunau



Tud. 94



newydd;

- Gweithgareddau trochi i ennyn diddordeb dysgwyr yn eu testunau a'u themâu newydd;
- Cynllunio yn ystyried y sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol a themâu trawsgwricwlaidd;
- Datblygu'r amgylchedd dysgu i gefnogi gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys datblygu dysgu yn yr awyr agored yn sylweddol, sydd o berthnasedd i'r ardal leol;
- Parhau i ddatblygu dysgu digidol.

Mae'r rhan fwyaf o glystyrau yn bwriadu datblygu dull cynllunio cyffredin ar gyfer cynnydd 3-16 yn ystod tymor y Gwanwyn.

Mae llawer o ysgolion eisoes wedi datblygu systemau ar gyfer cydweithio mewn timau a chyd-arbrofi ag arferion a rhannu'r rhai llwyddiannus wrth gynllunio ar gyfer dyfodiad y cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith a wnaed i werthuso'r defnydd o'r 12 Egwyddor Addysgegol hefyd yn sylfaen effeithiol i'r gwaith hwn.

• **Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?**

Mae 228 o ysgolion cynradd ac arbennig a 533 o ymarferwyr yn rhan o'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae'r rhwydweithiau wedi sefydlu system i rannu'r gwaith ar lefel ranbarthol a lefel awdurdod lleol. Trwy hyn a thrwy gydweithio â chyd-weithwyr clwstwr mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, mae ysgolion eisoes yn gwella eu dealltwriaeth o feysydd penodol y Cwricwlwm i Gymru, ac maent eisoes yn dechrau rhannu syniadau a chynllunio. Drwy gydol y tymor, buont yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau a dulliau cyffredin ac maent wedi datblygu dysgu drwy weithio gyda chydweithwyr eraill mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill o fewn yr awdurdod ac ar draws y rhanbarth.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

• **Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?**

Lluniwyd blaenoriaethau clwstwr i ddatblygu ADY ym mhob clwstwr, ac mae ysgolion wrthi'n mireinio ac yn perchnogi'r blaenoriaethau hyn.

Ymddengys bod y rhan fwyaf o ysgolion yn ymateb yn llwyddiannus, ar y cyfan, i'r ddeddf a'r gofynion statudol ar draws y rhanbarth ac yn diweddarau aelodau staff yn rheolaidd ar ddatblygiadau.

Mae rôl y Cydgysylltydd ADY (CGADY) mewn ysgolion yn datblygu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio cerrig milltir G6 i adolygu cynnydd yr ysgol a gweld a oes agweddau pellach sydd angen sylw, ac mae'r gweddill wrthi'n cwblhau'r gwaith hwn cyn diwedd tymor yr Hydref.

Mae staff ADY allweddol wedi cael hyfforddiant 'Eclipse' ac maent yn barod i ddatblygu'r system ar draws yr ysgol.

Dyma enghreifftiau o flaenoriaethau ysgolion ar gyfer y tymor hwn:

- Diweddarau polisïau i adlewyrchu diwygio ADY, pan fyddant ar gael gan yr Awdurdod Lleol;
- Mae treialu gyda Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn digwydd - bydd gan ddysgwyr newydd Gynllun Datblygu Unigol;
- Bydd gan bob plentyn broffil un-dudalen erbyn diwedd y tymor
- CGADY, llywodraethwyr ac athrawon i gael dysgu proffesiynol perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant ysgol gyfan mewn arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion [PCP] ac 'Eliesha'.
- Bydd ysgolion yn diweddarau teuluoedd ar eu hawliau i apêl a thribiwnlys;
- Parhau i weithredu darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu mewn clystyrau;



Tud. 95



- Datblygu'r arfer o blant yn cynllunio ac yn cyd-lunio eu cyfarfodydd adolygu eu hunain ar batrwm CDU.

DYSGU PROFFESIYNOL

- *A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?*

Mae pob ysgol wedi ymrwmo i ddysgu proffesiynol ar gyfer datblygu staff ar y daith tuag at y Cwricwlwm i Gymru ac maent yn dilyn amserlen genedlaethol a rhanbarthol. Rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fydd yn gyrru'r gwaith hwn.

Ar y cyfan, mae cynlluniau Dysgu Proffesiynol ysgolion yn cyd-fynd yn bwrpasol â'u prosesau Rheoli Perfformiad. Fel hyn, gallant sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd datblygiadol sy'n ymateb i ofynion blaenoriaethau'r ysgol mewn ffordd effeithiol a strwythuredig.

Mae nifer o enghreifftiau o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu ac uwch sgilio staff. Mae rhai enghreifftiau penodol yn golygu uwch sgilio'r gweithlu i gefnogi lles disgyblion drwy'r diploma 'Ysgolion sy'n wybodus ynghylch Trawma', 'Tyfu drwy'r Tymhorau', 'ELSA' a 'MAPA'. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i roi sylw i ddatblygu agweddau Asesu ar gyfer Dysgu hefyd drwy fynychu hyfforddiant Shirley Clarke. Mae mwy na chant o ysgolion wedi ymrwmo i ddatblygu sgiliau llafaredd Cymraeg drwy brosiect Ein Llais Ni. Erys datblygu arweinyddiaeth yn flaenoriaeth drwy Raglenni Datblygu Arweinyddiaeth GwE.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr, athrawon ac aelodau staff yn cymryd rhan yn dda mewn dysgu proffesiynol, ac yn y rhan fwyaf o ysgolion rhennir gwybodaeth â chyd-weithwyr yn dilyn cyfleoedd hyfforddiant. Nodir dysgu proffesiynol yn glir ym mron pob ysgol drwy'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae llawer o arweinwyr wedi gofyn am gymorth i gynllunio a datblygu eu sgiliau eu hunain a sgiliau staff drwy:

- Gymorth gan yr YCG mewn cyfarfodydd staff, yn enwedig gyda datblygiadau Cwricwlwm i Gymru;
- Datblygiad parhaus staff drwy raglenni cenedlaethol a rhanbarthol, e.e. Cymorthyddion Dysgu, Athrawon Newydd Gymhwys (ANG), Arweinyddiaeth, ac ati;
- Gweithio mewn clwstwr ac ar y cyd;
- Rhwydweithiau rhanbarthol a lleol;
- Cymorth gyda datblygu cynllunio 3-16 ar draws y clwstwr.

ATEBOLRWYDD

- *Sut ddylai atebolrwydd edrych?*
- *Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?*
- *Sut fydd adrodd yn edrych?*

Mae bron pob Pennaeth cynradd yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd a manwl ar gyfer llywodraethwyr. Llunnir y rhain drwy hunan arfarniad ysgol gyfan. Mae gweithdrefnau atebolrwydd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys plant a rhieni. Mae gan lawer o ysgolion amserlen fonitro ddrafft ar waith, yn gysylltiedig â blaenoriaethau Cynlluniau Datblygu Ysgol, sy'n cynnwys ystod o strategaethau monitro megis:

- Teithiau dysgu disgyblion a staff;
- Craffu ar lyfrau;
- Cyfweiliadau ac holiaduron;
- Arsylwi gwersi yn unol â rheoli perfformiad;
- Arsylwi cymheiriaid a thrioedd.



Tud. 96



Bydd gwaith clystyrau gyda'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn datblygu monitro clwstwr ymhellach, ac yn cyfrannu at ddatblygu cyd-atebolrwydd ar draws y clwstwr. Caiff y ddarpariaeth ADY ei monitro drwy hunan arfarnu yn erbyn cerrig milltir 'G6' a thrwy'r grŵp clwstwr ADY.

Mae'r pandemig wedi llesteirio gallu arweinwyr i ddatblygu monitro ac atebolrwydd y tymor hwn, ac nid yw llawer eto wedi gweithredu prosesau craffu ar lyfrau a rheoli perfformiad yn llawn yn eu hysgolion hyd yma.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn flaenoriaeth allweddol i bob ysgol eleni, a chaiff ei monitro drwy brosesau hunan arfarnu a monitro. Yn ychwanegol, bydd yr agweddau clwstwr ar y blaenoriaethau hyn yn cael eu monitro mewn cyfarfodydd clwstwr rheolaidd a bydd yr YCG cyswllt yn rhan o'r trafodaethau.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn sicrhau bod eu hathrawon yn atebol am addasu, mireinio ac arbrofi efo'r addysgu ac yn ystyried egwyddorion a gofynion Cwricwlwm i Gymru drwy gyfarfodydd staff rheolaidd a gweithdrefnau arsylwi gwersi. O wneud hyn, bydd arweinwyr yn sicrhau cysondeb cyflymder wrth ymateb i'r daith ddiwygio ar draws eu hysgolion ac yn annog unigolion i fod yn arbrofi gyda strategaethau dysgu ac addysgu newydd a rhoi cynnig arnynt.

Mae nifer fawr o ysgolion yn sicrhau cyfleoedd i staff rannu'u gwaith drwy sgysiaau proffesiynol penodol e.e. mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn helpu wrth sicrhau cysondeb ac adnabod yr arferion gorau.

Mae pob ysgol yn adrodd i lywodraethwyr a rhanddeiliaid ar y daith ddiwygio gan gynnwys effaith unrhyw weithredu neu dreialu dros y flwyddyn newydd.



Tud. 97



SECTOR UWCHRADD GAN GYNNWYS YSGOLION ARBENNIG PERTHNASOL AC UCD

GRADDAU A BENNIR GAN GANOLFANNAU AR GYFER TGAU A SAFON UWCH 2021

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021), cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortïwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.' Cadarnhaodd hefyd y 'bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus'. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn am ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion i fyfyrion ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'

Sicrhaodd bob ysgol a lleoliad bod gweithdrefnau mewnol yn bodloni'r gofynion ar gyfer dyfarnu cymwysterau a nodwyd gan Cymwysterau Cymru a CBAC yn 2021 ar gyfer y drefn Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Cyflwynwyd cynlluniau asesu - ac yn sgil gwneud addasiadau mewn rhai achosion - derbyniwyd pob un gan y corff dyfarnu. Cymrodd bob ysgol a lleoliad ran yn y sesiynau rhag-baratoi a gynhaliwyd gan y rhanbarth efo Cymwysterau Cymru a CBAC.

Adroddodd lawer o ysgolion bod Penaethiaid a staff wedi elwa o'r cydweithio o fewn eu cynghrair uwchradd i ymateb i ddisgwyliadau cenedlaethol a datblygu polisiau a phrosesau ar lefel ysgol. Llwyddodd hyn i sicrhau cysondeb a dealltwriaeth gyffredin.

Gofalodd bob ysgol rannu'r canllawiau gan y cyrff dyfarnu yn gyflym ac yn glir ymysg y staff dysgu, a gofyn am eglurhad pan roedd angen. Gan mwyaf - defnyddiodd yr ysgolion asesiadau a chynlluniau marcio cymeradwy CBAC yn llawn i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer y Graddau a Bennwyd. Sicrhaodd bob ysgol bod trefniadau mynediad priodol i ddysgwyr ag ADY, a rhoddwyd ystyriaeth arbennig ble'n briodol. Defnyddiodd bob ysgol ymarferion gweithdrefnau cymedroli mewnol i gefnogi gwaith cymedroli a safoni asesiadau. Aeth amryw o ysgolion ati i ddatblygu ar eu gwaith drwy gynghreiriau lleol gan ddefnyddio cymedroli traws-ysgol i gefnogi safoni mewnol. Dyma oedd yr achos ble mai un athro oedd yn dysgu pynciau neu ble roedd timau pynciol yn fach; nid oedd cymaint o angen mewn timau mwy o fewn ysgolion mwy.

Yn ystod y broses, roedd cryfder cyffredinol yn yr ysgolion o ran cyfleu a rhannu polisiau a disgwyliadau efo rhieni (drwy ohebiaeth ysgrifenedig a sesiynau briffio rhithiol). Roedd hyn yn gryfder arbennig ym mhrosesau'r ysgolion ac yn rhoi tryloywder i ysgolion am berfformiad presennol yn erbyn targedau a deilliannau disgwyliedig.

Roedd dysgu o bell effeithiol yn gymorth i'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiad ddychwelyd i'r ysgol ym mis Ebrill 2021.

Roedd rhai problemau gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr. Gwelwyd bod dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn grŵp oedd yn achosi 'pryder' o safbwynt ymgysylltu a chynnydd. Mae perfformiad grwpiau o ddysgwyr, ac yn enwedig disgyblion PYD, yn dal yn flaenoriaeth i nifer o ysgolion.

Cynyddodd graddau A*-A yn sylweddol. Yn ôl llawer o ysgolion, roedd hyn i'w briodoli i ddiwydrwydd dysgwyr a'r defnydd effeithiol o adnoddau cenedlaethol a roddwyd iddynt i'w paratoi am yr asesiadau. Yn ogystal, roedd llawer o ddysgwyr wedi elwa o gael llai o ddeunyddiau a chynnwys i'w hadolygu, llai o



Tud. 98



amser rhwng adolygu ac asesu fel eu bod nhw'n cofio'r dysgu i raddau mwy, llai o asesiadau ac asesiadau a gyflwynwyd o flaen llaw i ddisgyblion drwy wefan CBAC.

Aeth y rhan fwyaf o ysgolion ati i ddadansoddi amrywiad mewnol gan ddefnyddio llwyfannau technoleg gwybodaeth gan ddatblygu adolygiad cyffredinol o raddau myfyrwyr unigol yn erbyn eu proffiliau blwyddyn blaenorol. Edrychodd lawer o ysgolion yn agos ar eu gweithdrefnau gosod targedau a chasglu data i sicrhau cysondeb arferion. Roedd gosod targedau yn aml yn seiliedig ar ragamcanion FFT/sgôr CATS ac asesiadau mewnol. Defnyddiwyd 'ALPS' hefyd i gefnogi'r gwaith casglu data ac arfarnu ar lefel Chweched Dosbarth. Mewn llawer o ysgolion, gweithredir i roi sylw i faterion sydd wedi codi mewn rhai adrannau ble nad oedd y sylfaen ar gyfer dyfarnu graddau cyn gryfed neu ble gwelwyd anghysondebau. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio i sicrhau y bydd adrannau yn barod i gyflwyno sail dystiolaeth gref o asesiadau os bydd angen cynnal prosesau tebyg eleni.

Mae amryw o ysgolion wedi nodi bod lefelau llythrennedd yn isel ymysg grwpiau o ddysgwyr ac maent yn gweithredu i gefnogi a gwella hyn. Mae'n amlwg bod y cyfnodau clo wedi effeithio ar sgiliau Cymraeg dysgwyr, yn enwedig y rheiny o aelwydydd di-Gymraeg ac mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

CWRICWLWM I GYMRU (CiG)

• *Beth yw eich blaenoriaethau CiG fel ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?*

Ar ddechrau tymor yr Hydref, nododd bron i'r cyfan o'r 54 ysgol uwchradd/pob oed eu bwriad i gorffori'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n gynyddol anodd i gadw at yr amserlenni y maent wedi'u gosod i'w hunain oherwydd y pandemig. Mae llawer wedi cael anhawster yn ystod y tymor hwn oherwydd absenoldebau staff a diffyg llanw. Gall y trefniadau ar gyfer arholiadau'r Haf hefyd lesteirio ymhellach eu gallu i fynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022. Os bydd y pandemig yn parhau i amharu ar waith ysgolion wedi'r Nadolig, byddem yn rhagweld bod canran gynyddol o ysgolion uwchradd yn mynd ati i adolygu eu sefyllfa ac oedi tan 2023, o bosibl. Mae angen i ysgolion gadarnhau trefniadau efo Llywodraeth Cymru erbyn 8 Ebrill 2022.

Bu sicrhau bod cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn cael blaenoriaeth yn her i'r rhan fwyaf o ysgolion sydd mewn categori statudol dilyniant gan Estyn. Parheir i roi blaenoriaeth i gefnogi'r ysgolion hyn yn effeithiol.

Ym mron pob ysgol, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac mae camau gweithredu ar gyfer tymor yr Hydref yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol a nodir yn y ddogfen ddiwygiedig 'Cwricwlwm i Gymru: y daith at 2022'. Mae pob ysgol wedi nodi bod angen i staff, yn nhymer yr Hydref, ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fframwaith y Cwricwlwm a sicrhau bod athrawon yn cynllunio cynnydd o fewn/ar draws MDaPh a sgiliau trawsgwricwlaidd. Y tymor hwn, mae llawer o'r pwyslais ar ddatblygu dylunio'r cwricwlwm, dadbacio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ac ar draws y camau cynnydd. Rhannwyd prosesau posibl a enghreifftiwyd yn y rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol â staff yn y rhan fwyaf o ysgolion i gefnogi'u cynllunio.

Dyma rai o'r blaenoriaethau CiG a nodwyd gan ysgolion uwchradd:

- cynllunio cynnydd mewn sgiliau trawsgwricwlaidd a themâu trawsbynciol;
- dylunio cwricwlwm lefel uchel;
- cynllunio a gweithredu'r MDaPh;
- asesu a chynnydd;
- datblygu ymhellach y 12 egwyddor addysgegol a dysgu digidol;



Tud. 99



- cynnwys y gymuned, yn enwedig gyda dysgu yn yr awyr agored;
 - gweithgareddau llais y disgybl yn cyfrannu at gynllunio datblygiadau;
 - mae'r adnoddau yn cefnogi ethos y cwricwlwm newydd a datblygiad sgiliau;
 - datblygu ar waith clwstwr gydag ysgolion cynradd partner a gweithio tuag at bontio llyfn yn y dysgu.
- **Beth yw eich blaenoriaethau CiG fel clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?**

Y tymor hwn, mae bron pob ysgol uwchradd wedi cydweithio â'u clystyrau cynradd i gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhan fwyaf o glystyrau wedi ail-ymweld â'u gweledigaeth ac wedi rhannu'u profiadau â rhwydweithiau rhanbarthol a lleol GwE. Mewn clystyrau eraill, mae athrawon uwchradd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd y clwstwr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg neu gydweithio'n effeithiol i ganolbwyntio ar sut i gyfleu cwricwlwm sy'n ddi-dor a ble mae cynnydd yn cael ei ddeall a'i ategu yn eu cynlluniau dysgu.

Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn datblygu'n dda mewn rhai ardaloedd; er hynny, nid yw hyn yn gyson ar draws y rhanbarth a bydd angen targedu cynhaliaeth ymhellach i sicrhau ymgysylltiad effeithiol ar bob lefel. Mae gan arweinwyr uwchradd mewn rhai clystyrau waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn well â chreu a chytuno ar weledigaeth gyffredin a chyfeiriad penodol i'r clwstwr.

Mae'r rhain ymysg blaenoriaethau clwstwr Cwricwlwm i Gymru a nodwyd gan ysgolion uwchradd:

- Datblygu cynlluniau pontio effeithiol;
 - Cynllunio gweithgareddau pontio sy'n cyd-fynd â dylunio Meysydd Dysgu a Phrofiad;
 - Canolbwyntio ar Gamau Cynnydd 2-4 a'r continwrm 3-16;
 - Edrych ar ddata a throsglwyddo gwybodaeth am ddysgwyr - beth sydd angen ei drosglwyddo a'i ddeall;
 - ble nad yw ymgysylltiad wedi datblygu digon hyd yma, gweithredu i symud ymlaen ar hyn;
 - Rhannu a datblygu elfen gyffredin i weledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad;
 - Edrych ar dulliau asesu y gellir eu defnyddio yn y dysgu a'r addysgu; sut i werthuso cynnydd;
 - Diwrnod hyfforddiant ar y cyd i rannu cynlluniau a chynnydd;
 - Datblygu gwaith ar feysydd cyffredin yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, gwaith ar y cyd ar ysgolion sy'n wybodus ynghylch trawma, dulliau addysgegol gydag leithoedd Tramor Modern; dulliau cyffredin gyda sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.
 - Cynllunio diwrnod hyfforddiant clwstwr ar y cyd i ganolbwyntio ar y cwricwlwm;
 - Datblygu dull ymchwil sy'n seiliedig ar ymholi i'r clwstwr gyda chymorth y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.
- **Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru?**
- **Arwain newid**
 - **Datblygu gweledigaeth a rennir**
 - **Diwygio'r cwricwlwm**

Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar adeg prysur iawn i ysgolion uwchradd a oedd wrthi'n paratoi i ddyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Felly, roedd lefel yr ymgysylltu yn amrywio ar draws y rhanbarth. Bu'r rhan fwyaf o ysgolion ar o leiaf un o'r sesiynau hyn a defnyddiodd lawer recordiadau o'r hyfforddiant maes o law. Rhannodd lawer o ysgolion yr adnoddau ag aelodau'r UDA; roedd hyn yn heriol i rai a rhoddwyd ail gynnig arni yn ystod tymor yr Hydref gyda chymorth yr YCG a'r sesiynau wedi'u recordio. Defnyddiwyd rhai adnoddau, e.e. y rheiny sy'n ymwneud â'r weledigaeth neu ddylunio'r cwricwlwm, yn effeithiol mewn ysgolion. Mewn un ysgol, er enghraifft, arweiniodd bob aelod o'r uwch staff weithdy gyda'r corff dysgu cyfan, mewn ysgol arall, rhannwyd a thrafodwyd canfyddiadau gydag uwch dimau arwain i lywio penderfyniadau. Mae llawer o ysgolion yn dal i ddefnyddio elfennau o'r cymorth hwn, er enghraifft defnyddio'r ap cynllunio taith, a defnyddio'r syniadau creu gweledigaeth i werthuso'r ddarpariaeth



bresennol yn erbyn y weledigaeth.

- **Beth fydd rôl a chyfraniad eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?**
- Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi annog staff dynodedig i fod yn rhan o'r rhwydweithiau rhanbarthol/lleol Cwricwlwm i Gymru ac wedi cefnogi a hwyluso'r gwaith.
- Mae YCG wedi cefnogi datblygiadau unigryw Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion drwy roi arweiniad a chyfrannu at hyfforddiant a chyfarfodydd yn ôl anghenion a chynhwysedd yr ysgol.
- Mae Arweinydd Craidd/YCG yn cefnogi datblygiadau a dylunio'r cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd a'r clystyrau.
- Mae YCG pynciol wedi cefnogi Penaethiaid Pynciau Craidd gyda chynllunio Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh). O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth arweinwyr canol o'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac ystyriaethau cynllunio wedi gwella.
- Mae timau YCG yn parhau i gyflwyno dysgu proffesiynol i staff, yn cyfrannu at ddiwrnodau datblygiad proffesiynol ac yn cefnogi gwaith y timau MDaPh i ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Mae YCG yn cefnogi uwch arweinwyr a llywodraethwyr i ddiweddarau cynlluniau ysgol gyfan ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd o 2022.
- Mae YCG yn codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael ac a ddatblygir ac a rennir drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE.
- **Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dylunio cwricwlwm**
 - yn eich ysgol?
 - ar draws eich clwstwr?

Mae pob ysgol yn mynd ati'n wahanol i 'ddylunio'r' cwricwlwm newydd. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn edrych yn agos ar ddatblygu gweledigaeth glir; mae rhai wedi edrych ar adnoddau cynllunio'r cwricwlwm ac wedi gofyn i adrannau gynllunio cynlluniau newydd gyda chyd-destunau gwreiddiol a sgiliau fel elfennau allweddol; mae eraill yn mynd i'r afael â'r cwricwlwm drwy edrych yn wahanol ar addysgeg. Mae rhai wedi newid strwythurau staffio neu wedi penodi staff ychwanegol i gefnogi mentrau allweddol. Mae rhai wedi canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu cyd-destunau lleol a gwreiddiol i gefnogi'r dysgu. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o ysgolion wedi datblygu a gwreiddio dulliau addysgeg a dilyniant sgiliau effeithiol. Mae modd datblygu ar ddysgu mewn technoleg newydd ac addysgeg ddigidol er mwyn cefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd.

Mae rhai ysgolion yn datblygu ar waith y gweithdai consortiwm a gynhaliwyd yn yr Haf ac yn edrych yn agos ar ddylunio'r cwricwlwm, yn treialu mwy o waith mewn meysydd rhyngddisgyblaethol, ar draws Gwyddoniaeth a Thechnoleg neu ddeilliannau integredig mewn Celf Mynegiannol. Mae un ysgol wedi penodi athro ar gyfer lles ac wrthi'n datblygu cwricwlwm unigryw i'r ysgol yn y maes hwnnw. Mae eraill yn edrych ar ddyraniadau'r cwricwlwm drwy lens feirniadol ac yn gofyn beth sy'n addas i'r diben i ddysgwyr wrth symud ymlaen. Mae gan rai ysgolion gyfarfodydd Cwricwlwm i Gymru penodol i ddisodli'r cyfarfodydd adrannol hanesyddol. Mae mwy o bwyslais mewn ysgolion ar weithio ar draws adrannau. Mae rhai ysgolion wedi symud i ailstrwythuro eu staffio ar sail y MDaPh.

Mae rhai ysgolion hefyd yn edrych ar elfennau cwricwlwm eraill, e.e. sgiliau trawsgwricwlaidd, sgiliau cyffannol, themâu trawsbynciol a mapio cysylltiadau ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ysgolion yn manteisio ar gynnis GwE ac yn defnyddio arbenigedd y consortiwm i gefnogi hyn. Rhennir syniadau ar draws ysgolion drwy rwydweithiau rhanbarthol a lleol. Er hynny, mae dylunio'r cwricwlwm yn dal yn faes allweddol i gael cymorth ac arweiniad.



Tud. 101



- ***Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?***

Mae pob ysgol wrthi'n dilyn hyfforddiant a gweithgareddau datblygu dan arweiniad y consortiwm. Ar hyn o bryd, mae 44 ysgol uwchradd (88%) a 197 o athrawon uwchradd yn rhan o'r rhwydweithiau. Mae'r pedair ysgol 3-16 oed yn rhan gyda 22 o ymarferwyr yn cyfrannu.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

- ***Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?***

Yn ôl y rhan fwyaf o ysgolion, maent yn symud ymlaen yn dda tuag at weithredu. Yn y rhan fwyaf, mae ymwybyddiaeth dda iawn o'r diwygiadau a'r newidiadau a ddaw i'w canlyn ymysg staff a llywodraethwyr.

Dyma flaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY yng Nghymru mewn ysgolion uwchradd:

- Datblygu rôl y Cydgysylltydd ADY (CGADY) i fod yn arweinydd strategol;
- Adolygu a gorffen polisiau perthnasol;
- Sefydlu a chadarnhau gweithdrefnau hawl i apêl a rhannu efo rhieni;
- Datblygu arbenigedd a hyfforddiant ymhellach ymysg staff dysgu a chymorth;
- Datblygu darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu sy'n rhoi modd i ddysgwyr wneud cynnydd waeth beth yw eu man cychwyn;
- Datblygu gwahaniaethu a'r ddarpariaeth gyffredinol;
- Parhau i ddatblygu'r Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion;
- Mynd ati i werthuso gwybodaeth arweinwyr ac ymarferwyr a'u defnydd o'r uchod i weld pa mor dda y mae'n bwydo i'r dysgu a'r addysgu;
- Sicrhau pontio llyfn o'r cynradd i'r uwchradd a bod cynlluniau pontio cadarn ar waith;
- Datblygu strategaethau i ddarparu darpariaeth dysgu ychwanegol yn y Gymraeg (mewn rhai Awdurdodau Lleol).

DYSGU PROFFESIYNOL

- ***A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?***

Dyma'r anghenion dysgu proffesiynol sydd wedi'u nodi mewn ysgolion uwchradd:

- Cwricwlwm i Gymru: dyfnhau dealltwriaeth; 'datgloi' dylunio'r cwricwlwm; hyrwyddo dysgu ac addysgu da; datblygu a deall asesu a chynnydd;
- Deall sut i ddatblygu'r sgiliau sy'n sail i'r cwricwlwm newydd, e.e. rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol;
- Gweithredu diwygiadau ADY, gan gynnwys Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion/gwaith mapio darpariaeth ac edrych ar bontio ar draws clwstwr;
- Diwygio ADY - diweddarau staff a llywodraethwyr yn rheolaidd a thargedu DP i Gydgyssylltwyr ADY a staff perthnasol;
- Strategaethau gwahaniaethu effeithiol;
- Datblygu ymhellach arweinwyr presennol a darpar arweinwyr drwy raglenni arweinyddiaeth cenedlaethol, e.e. paratoi am CPCP, uwch arweinwyr, arweinwyr canol, arweinwyr ôl-16;
- Cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol (egwyddorion addysgegol);
- Datblygu cymell a mentora i uwch arweinwyr;
- Darparu hyfforddiant a chymorth i arweinwyr pynciau craidd newydd;
- Llywodraethwyr - hunan arfarnu ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- Cymorth gyda hunan arfarnu, prosesau monitro a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- Cymorth i ddatblygu ac adfer sgiliau Cymraeg;



- Cymorth arbenigol i ddatblygu lles ac agweddau at ddysgu.

ATEBOLRWYDD

- *Sut ddylai atebolrwydd edrych?*
- *Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?*
- *Sut fydd adrodd yn edrych?*

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn bryderus am y diffyg eglurder ynghylch defnyddio mesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer atebolrwydd a'r ansicrwydd ynghylch dyluniad a chynnwys y gyfres newydd o gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Mae cymorth ac arweiniad gyda deall y gofynion asesu a chofnodi cynnydd disgyblion ar gyfer y cwricwlwm newydd yn flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o ysgolion.

Mae rhai ysgolion, yn enwedig y rheiny sydd â nifer uwch o PYD yn anghyfforddus efo'r 'gwagle' sydd wedi'i greu drwy dynnu data meincodi ac yn pryderu y gallai perfformiad yr ysgol gael ei gamddechongli os na rhoddir ystyriaeth briodol i ffactorau cyd-destunol.

Ar y cyfan, mae ysgolion uwchradd yn gyfforddus efo symud at fodel atebolrwydd mwy deallus, gyda phwyslais ar 'wella' yn hytrach na 'phrofi'. Mae defnydd ysgolion o brosesau cadarn i olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn allweddol yn yr un modd ag y mae adnabod a rhoi sylw i amrywiad mewn ysgol.

Mae ysgolion yn dra ymwybodol o'r angen i ail sefydlu prosesau gwella ansawdd ac maent yn ymwybodol o'r heriau presennol wrth wneud hyn. Mae llawer o ysgolion wedi cynnal gweithgareddau gwella ansawdd i raddau wrth ddysgu o bell yn ystod cyfnodau clo. Mae rhai ysgolion wedi gwahodd YCG cyswllt GwE ac YCG pynciol i gefnogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol gyda gweithgareddau gwella ansawdd e.e. arylwi gwersi, adolygu dogfennau, craffu ar lyfrau, mynd i gyfarfodydd bugeiliol ac adolygu pynciol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach yn symud yn ôl at system gadarnach o brosesau Sicrhau Ansawdd ac mae ganddynt ddarlun gliriach o ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau.

Mae bron pob ysgol wrthi'n trafod efo partneriaid i sefydlu Cynghreiriau ac maent yn awyddus i gydio neu ail-gydio ag adolygu cymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Derbynnir bod rôl a chyfraniad adolygu cymheiriaid a dilysu cadarn yn dyngedfennol wrth symud ymlaen.

Cryfhawyd y broses o wrando ar lais dysgwyr yn ystod y pandemig ac erys yn elfen bwysig a dylanwadol o fesurau mewnol i bron bob ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu ym mron pob ysgol wedi cael diweddariad ar ddatblygiadau yn ymwneud ag amrywiol agweddau ar wella ysgolion gan gynnwys dysgu ac addysgu, Cwricwlwm i Gymru a'i effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau.



Tud. 103



CRYNODEB O GYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GWE I YSGOLION

Drwy ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol effeithiol, cefnogwyd ysgolion ar draws y ddau sector i ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm cychwynnol. Mae arweinwyr ac athrawon ar draws mwyafrif helaeth yr ysgolion wrthi'n arbrofi gyda dulliau i ddatblygu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau i'w disgyblion. Mae cynllunio ar lefel ysgol a chwstwr yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o'r datganiadau o'r 'hyn sy'n bwysig' a sut y dylai'r 12 egwyddor addysgegol ategu'r dulliau addysgu.

Mae rhwydweithiau a fforymau lleol a rhanbarthol yn effeithiol o ran cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm. Mae mwy na 700 o staff ac ymarferwyr ysgolion y rhanbarth yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i roi sylw i hyn ar lefel ysgol gyfan a MDaPh. Mae GwE hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach datblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I'r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r consortia rhanbarthol wedi buddsoddi'n fawr mewn darparu dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd. Egwyddor graidd y cynnig fu datblygu cynhwysedd sefydliadol fel 'sefydliad sy'n dysgu' a chaniatáu i arweinwyr fyfyrion'n fwy effeithiol ar yr heriau a ddaw wrth arwain newid. Mewn llawer o ysgolion ar draws rhanbarth GwE cyn y cyfnod clo, bu athrawon wrthi'n dechrau treialu gyda'r Cwricwlwm i Gymru, drwy ddod yn gyfarwydd yn gyntaf oll â'i gynnwys. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon wedi dechrau arbrofi gyda ffyrdd newydd o gynllunio, dysgu ac addysgu. Yn ystod y pandemig, mae athrawon ar draws y rhan fwyaf o ysgolion wedi bod yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau yn gysylltiedig â'r pedwar diben. Er enghraifft, parhawyd â'r pwyslais cryf ar sgiliau a lles drwy gydol cyfnod y clo a chwyldrowyd sgiliau digidol dysgwyr, rhieni a staff ysgolion. Mae arweinwyr ar draws y rhanbarth eisoes wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE i ddatblygu sgiliau staff wrth iddynt gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Ble defnyddiwyd yr adnoddau hyn yn effeithiol, mae arweinwyr wedi cynllunio ffyrdd ymarferol a difyr i'w defnyddio e.e. Papurau Procio, cyflwyniadau PowerPoint a gweminarau i brocio trafodaethau ysgogol mewn cyfarfodydd staff wythnosol, yn aml gyda chymorth yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant. Ar draws y rhanbarth, bu llawer o athrawon mewn gweithdai Cwricwlwm i Gymru GwE ac mae amryw o ysgolion bellach yn gweithredu'r syniadau a'r dulliau a rannwyd. Manteisiodd ein cydweithwyr o ranbarthau eraill a swyddogion awdurdodau lleol Gogledd Cymru ar y cyfleoedd Dysgu Proffesiynol hyn hefyd.

Amlinellir isod Cynnig Proffesiynol GwE i ysgolion a chlystyrau:

- mae egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi'u gwreiddio yn yr holl hyfforddiant, ac mae pedwar diben y cwricwlwm wastad yn allweddol wrth i ddarparwyr fynd ati i gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfoes a heriol.
- rydym wedi cynnwys yr holl agweddau ar y diwygio ehangach yn ein cynnig DP, gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- mae adnoddau a meysydd dysgu proffesiynol yn cynnwys y deuddeg Egwyddor Addysgegol yng nghydestun ehangach dysgu ac addysgu, asesu, rhwydweithiau MDaPh rhanbarthol, a dylunio a chynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol.
- bwriad y cynnig ar draws y rhanbarth yw cefnogi holl ymarferwyr ysgolion, ond canolbwyntiwyd yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr efo'r themâu hyn: Arwain newid; Arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm newydd; Datblygu gweledigaeth a rennir; Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm - i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu; Arwain addysgeg; Creu amser a lle i ddysgu'n broffesiynol. Mae'r



sesiynau hyn yn rhai clwstwr ac yn galluogi i grwpiau llai o ysgolion cynradd, a'u hysgol uwchradd leol, i drafod y cwricwlwm newydd ar draws y continwrm dysgu 3-16. Ar draws y rhanbarth, bu 832 o Uwch Arweinwyr yn y sesiynau Arwain Newid hyn. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, bu GwE yn cynnal cyfres o sesiynau dros gyfnod o dair wythnos i uwch arweinwyr, yn canolbwyntio ar themâu datblygu gweledigaeth gyffredin a chynllunio ar gyfer newid cwricwlwm, gan gynnwys dylunio'r cwricwlwm. Cynhaliwyd y sesiynau hyn yn ddigidol fesul clwstwr a bu modd rhannu'n grwpiau llai i ysgolion draffod y gwaith hwn o fewn eu rhwydweithiau lleol. Bu mwy na 1150 o uwch arweinwyr yn y sesiynau ar draws y rhanbarth.

- Yn rhan o'r paratodau, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau ble mae ysgolion mewn clwstwr yn cael cyfle i gydweithio er mwyn cynllunio'n strategol i weithredu'r cwricwlwm. Adnabuwyd gweithgareddau i gefnogi'r paratodau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae llawer o'r clystyrau hefyd wedi datblygu Cynllun Datblygu Clwstwr ar gyfer gweithredu'r daith ddiwygio.
- Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol a nodir uchod, mae cymorth penodol ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Gellir cael y cymorth hwn ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, gan gynnwys cymorth unigryw ble bydd angen.
- Mae adnoddau ategol yn cynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' a ddatblygwyd gan dîm GwE, yn rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol efo'r Athro Graham Donaldson. Rhannwyd a mireiniwyd y papurau hyn, sydd yn edrych ar agweddau allweddol ar daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, drwy ymgynghori â phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Gwahoddwyd yr holl uwch arweinwyr i weminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu'r gwaith hwn ar y 'Papurau Procio'.
- Mae'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru a sefydlwyd ar lefel ranbarthol a lleol yn agwedd allweddol ar y cynnig cymorth. Mae ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cydweithio â rhwydwaith o gymheiriaid yn cefnogi datblygiad y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh), asesu a dylunio'r cwricwlwm. Bydd ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn rhaedru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws ysgolion ym mhob awdurdod lleol, ac yn cyfrannu at ddatblygu modelau cynllunio a dylunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf. Bydd grŵp strategol ranbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr traws sector o'r wyth grŵp ALL, yn darparu cyfeiriad a throsolwg o'r gwaith. Mae gan rhwydweithiau fynediad i Ddysgu Proffesiynol a byddant yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALL yng Ngogledd Cymru. Yn ystod Tymor yr Hydref 2021, cynhaliwyd pedwar cyfarfod rhwydwaith ranbarthol a mwy na 80 o gyfarfodydd lleol gyda 272 o ysgolion ac ymhell dros 700 o ymarferwyr. Caiff yr holl adnoddau a gynhyrchir eu rhannu â phob ysgol drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a rhennir gwybodaeth â phob grŵp clwstwr cynradd/uwchradd.
- Mae GwE hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach datblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I'r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.
- Mae gan ysgolion fynediad at gyfres o gerrig milltir o fewn system rheoli gwybodaeth y rhanbarth sydd yn rhoi modd iddynt fyfyrion ar eu cynnydd ar hyd y daith ddiwygio. Croesawyd y cerrig milltir hyn yn fawr gan ysgolion.
- Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i fod yn fan cyfeirio i bob lleoliad, ac rydym wrthi'n gweithio ar wella a chyfoethogi'r casgliad o adnoddau ymhellach. Hyd yma, cafwyd mwy nag 75,000 ymweliad â'r wefan.
- Mae GwE hefyd yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid ehangach i ddatblygu fframwaith o ddangosyddion ansoddol a fydd yn rhoi modd i ysgolion feddwl a gwerthuso sut maent yn gweithredu



Tud. 105

20


www.gwegogledd.cymru


0300 500 8087

pedwar diben y cwricwlwm newydd.



Tud. 106





STRATEGAETH RANBARTHOL

Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr

CYD-DESTUN

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UauCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu pwrpasol trwy ddull dysgu cyfunol llawn creadigedd. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu'n sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda ddiwygio.

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ddeunaw mis yn ôl. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn gallu dysgu yn effeithiol. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol.

Byddwn yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ystyrlon yn eu dysgu. Mae rhoi ffocws ar ddilyniant yn flaengar, gan bwysleisio'r hyn sydd ar ddysgwyr ei angen i gyflawni'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae hyn yn osgoi model ar sail diffyg, sy'n canolbwyntio ar 'ddal i fyny'. Mae trefniadau asesu priodol yn sail i'r dilyniant hwn, gan ein helpu i adnabod, gweld a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu asesu ffurfiannol a chrynodol wrth iddynt gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Bydd GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen efo'u cynlluniau presennol i weithredu'r cwricwlwm newydd efo blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn parhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

Y tu hwnt i 2023, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru fesul blwyddyn, a dyfernir y cymwysterau cyntaf sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y flwyddyn academiaidd 2026-27, fel y bwriadwyd. Bydd diwygio cymwysterau yn chwarae rhan greiddiol yn llwyddiant y cwricwlwm, a bydd GwE yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru dros y flwyddyn nesaf i helpu i siapia set o gymwysterau o'r safon uchaf sy'n cyd-fynd ag athroniaeth y cwricwlwm newydd.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn credu'n gryf ei bod yn hynod bwysig bod arweinwyr a staff ym mhob sefydliad yn cael eu hannog a'u cefnogi i greu partneriaethau cryf ac effeithiol o fewn ac ar draws y system addysg. Mae ein dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio clwstwr/cynghrair i weithredu ar feysydd diwygio gweddnewidiol allweddol, megis datblygu'r cwricwlwm, ADY a'r Gymraeg. Fe'i defnyddiwyd yn effeithiol hefyd i rannu adnoddau ac arferion effeithiol yn ystod pandemig COVID-19. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i barhau â'r gwaith hwn ac i ddatblygu a gwreiddio rhaglenni partneriaeth strwythuredig a threfnus, seiliedig ar dystiolaeth. Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn parhau i gefnogi ysgolion ac UauCD i sicrhau bod ymgysylltu â chymheiriaid a chydweithio yn greiddiol wrth i ni fynd ati i ddatblygu system hunan wella gadarn, gynaliadwy ac effeithiol.

Rydym yn llwyr gefnogi gweledigaeth y Gweinidog, fel yr amlinellir yn '*Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*', sef creu dinasyddion dwyieithog sy'n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth efo'r chwe Awdurdod Lleol i sicrhau bod ysgolion ac UauCD wedi'u cefnogi'n llawn i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'r dysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r ddogfen '*Cwricwlwm i Gymru: y daith at 2022*', sy'n nodi'r disgwyliadau ar ysgolion i ddiwygio'r cwricwlwm. Bydd GwE yn cefnogi rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm o'r hydref ymlaen. Bydd ysgolion y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol i ddatblygu arferion effeithiol i ddatgloi potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a datblygu dylunio ac asesu cwricwlwm ysgol gyfan.

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol. Bydd pob ysgol a nodir yn ysgol sy'n destun pryder yn cael cynllun cefnogaeth 360 cyfannol yn nodi'n glir natur a dwyster y cymorth a roddir naill ai gan GwE neu'r gwasanaeth Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu. Amlinellir y broses hon yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng bob Awdurdod Lleol a'i

ysgolion. Bydd pob ysgol sy'n destun pryder yn rhan o weithio clwstwr/cynghrair a fydd hefyd yn cyfrannu tuag at eu taith wella.

Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, Estyn a Cymwysterau Cymru i ddylanwadu ar bolisi, Fframwaith newydd Estyn a diwygio cymwysterau i sicrhau ein bod yn cyfrannu at weithredu blaenoriaethau'r Gweinidog.

THEMÂU

Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwranddo arnynt, rydym wedi adnabod y themâu canlynol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n UauCD.

Y Daith Ddiwygio / Gwireddu Cwricwlwm

- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.
- Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn dda, neu'n well, ym mhob ysgol
- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol ac ymchwil weithredu.
- Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth ysgolion o egwyddorion allweddol y canllawiau asesu newydd.
- Sicrhau cymorth i ysgolion mewn perthynas â Dylunio'r Cwricwlwm ysgol gyfan ac o fewn MDaPh.

Ailgydio mewn dysgu (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau) [RRRS]

- Gweithredu rhaglenni sy'n ceisio lleihau effaith cau ysgolion ar gyrhaeddiad disgyblion yn eu darllen a'u hysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.
- Strategaeth addysgu yn seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd i helpu disgyblion i wella'u rhuglder a'u cynnydd mewn mathemateg.
- Datblygu adnoddau ar-lein sy'n addas i staff ysgolion a rhieni fel bod modd defnyddio'r ymyraethau hyn i helpu gyda datblygiad darllen plant.
- Parhau i ddatblygu a chynhyrchu cyfres o ddeunyddiau cymorth cyffredinol ar gyfer rhifedd a llythrennedd uwchradd

Strategaeth i gefnogi rhieni / gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu

- Datblygu pecyn cyfannol sydd yn cefnogi ac yn helpu rhieni a gofalwyr i drawsffurfio eu dealltwriaeth o'r dysgu, a'r hyn gallant ei wneud i helpu eu plentyn.
- Datblygu cwrs cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n rhoi iddynt yr holl adnoddau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i helpu eu plant i ddysgu gartref.
- Rhoi canllawiau ysgrifenedig sydd yn cynnwys strategaethau a thechnegau y gall rhieni / gofalwyr eu defnyddio i gefnogi eu plentyn i ddysgu.
- Darparu strategaethau, gweithgareddau a thechnegau ymarferol y gall rhieni a gofalwyr eu defnyddio i helpu eu plant i ddysgu

- Datblygu ac addasu adnoddau yn briodol i fodloni anghenion grwpiau penodol o rieni a gofalwyr.
- Adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod yr adnoddau presennol yn llwyr gefnogi a bodloni anghenion lleol a rhanbarthol yn effeithiol.

Lles dysgwyr a lles ysgol gyfan

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion ar adnabod, cefnogi ac ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghymesur arnynt.
- Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.
- Datblygu dull llesiant ysgol gyfan, gan hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodys yng Nghymru'.
- Cyd-greu adnoddau llesiant ysgol gyfan efo ysgolion ar draws y rhanbarth

Lles y gweithlu (GwE ac ysgolion)

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Cynnal lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun ei rôl broffesiynol
- Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.
- Defnyddio fframwaith hyfforddi (*coaching*) mewn sgysiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth o ddydd i ddydd i ddatgloi potensial ac annog unigolion i ddatblygu.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol:

- Cefnogi'r broses o adolygu ansawdd darpariaeth ADY
- Datblygu cynnig dysgu proffesiynol sy'n bodloni anghenion y gweithlu.
- Parhau i gefnogi clystyrau i ddatblygu cynlluniau arloesol i gyflawni nodau trawsnewid ADY.
- Parhau i gefnogi gyda darparu'r rhaglen gymorth a hyfforddiant i ysgolion

Y Gymraeg

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol byddwn yn gweithredu '*Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*' Llywodraeth Cymru:

- Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg trwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.
- Darparu cynnig proffesiynol ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth.
- Cynnig dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Rhoi cymorth i ysgolion a lleoliadau sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf i wella sgiliau Cymraeg iaith Gyntaf eu dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny o gartrefi di-Gymraeg.

- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pob Awdurdod Lleol gyda'i flaenoriaethau CSCA.

Datblygu arweinyddiaeth

- Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arferion a chydweithio ar bob lefel er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.
- Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
- Parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i ddatblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol:
 - Arweinwyr Canol
 - Uwch Arweinwyr
 - Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)
 - Penaethiaid Newydd a Phenathiaid Dros Dro
 - Penaethiaid Profiadol

Digidol


- Sicrhau bod dealltwriaeth ysgolion y rhanbarth o gadernid digidol yn gyfredol, a bod dysgu ac addysgu am faterion diogelwch digidol yn bwrpasol ac yn effeithiol.
- Datblygu arweinyddiaeth ddigidol effeithiol yn ysgolion y rhanbarth i gryfhau dulliau strategol o gynllunio gwelliant, rheoli newid a monitro effaith.
- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i holl staff ysgolion i'w hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb, a sut i ddefnyddio'r adnoddau yn effeithiol i wella ansawdd y dysgu.

Dysgu Proffesiynol

- Darparu dysgu proffesiynol, cymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni'r Daith Ddiwygio, a pharatoi at y cwricwlwm newydd.
- Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau, sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora.

ESBLYGU'R MODEL RHANBARTHOL


Mae rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn dal i esblygu wrth i ni barhau i fodloni anghenion a disgwyliadau ein holl randdeiliaid. Bydd ein dull gweithredu yn cefnogi lles a chynnydd dysgwyr drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y system er mwyn galluogi adnewyddu a diwygio. Gyda'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn, bydd ymgynghorwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi Llywodraeth Cymru i adnewyddu addysg ar ôl y pandemig a sicrhau bod y daith ddiwygio yn aros ar drac.



Yn sail i'r ddwy agwedd graidd ar ein gwaith wrth symud ymlaen, sef y daith ddiwygio a gwella ysgol, y mae pum maes gwaith:

- Cydweithredu
- Data Cyfoethog i lywio Hunan Arfarnu
- Cymorth Dwys pan fydd angen
- Dysgu Proffesiynol
- Cyfathrebu

Bydd Swyddogaeth Graidd y gwaith yn cynnwys dull partneriaeth rhanbarthol, gydag ysgolion yn cydweithio ac ysgolion yn gweithio'n unigol. Rhydd hyn hyblygrwydd lleol o ran y model darparu.



Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fodloni gofynion a disgwyliadau rhanddeiliaid, bydd angen i'n model partneriaeth ysgol esblygu ymhellach. Gydag ysgolion, clystyrau a chynghreiriau ar wahanol bwyntiau ar y continwmm hunan wella, bydd angen defnyddio dull fwy gofalus.

Y prif ffocws yw galluogi ysgolion i wella trwy ddatblygu system hunan wella o safon uchel, sy'n sicrhau'r gorau i bob plentyn.

Bydd y trefniadau ar bob lefel yn drylwyr, cadarn a chydlynol. Yn sail i'r trefniadau hyn y mae'r egwyddor o annog a chefnogi ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gymryd perchenogaeth ac atebolrwydd cynyddol am eu taith wella.

Byddwn yn sicrhau bod y dull rhanbarthol ar gyfer partneriaeth ysgol yn:

- Deg: ble byddwn yn hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, a byth yn colli golwg ar y dysgwr.
- Cydlynol: ble bydd ysgolion a GwE yn gweithio gyda'i gilydd gyda dyletswyddau craidd, rolau a disgwyliadau a bennir yn lleol.
- Cymesur: ble byddwn yn sicrhau bod gennym ni fodel hylaw sy'n gwneud gwahaniaeth i bob ysgol. Bydd ein dull yn cefnogi mwy o ymreolaeth i'r ysgolion, y clystyrau a'r cynghreiriau hynny sydd â'r gallu i hunan wella, ar yr un pryd â chytuno ar becyn cymorth mwy cynhwysfawr a dwys i ysgolion sy'n wynebu heriau penodol ar adeg benodol, ac am gyfnod penodol.
- Ar y cyd: ble nad oes yr un ysgol yn gweld ei hunan fel ynys. Trwy weithio gyda'i gilydd mewn dull strwythuredig, gall ysgolion wella'n gynt ac yn fwy cynaliadwy. Bydd cydweithio â chymheiriaid ac ymgysylltu â chymheiriaid yn nodwedd ganolog o'n model. Bydd pob partner allweddol yn mynd ati i ddatblygu cyd-ffeithiolrwydd yn seiliedig ar dryloywder, gonestrwydd, bod yn agored ac ymddiriedaeth uchel. Mae a wnelo â phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i greu capasiti yn y system drwy brosesau a gweithgareddau cyfoethogi ansawdd.
- Tryloyw: ble byddwn yn cydnabod ehanger profiadau dysgu ar draws y rhanbarth a gwerth ychwanegol ysgolion, arweinwyr, athrawon, staff cymorth ac ymgynghorwyr, sy'n gweithio gyda'i gilydd at ddiben cyffredin cytûn.

Wrth i ni symud ymlaen gyda chynllunio a chyflwyno'r daith ddiwygio, bydd ein dull partneriaeth ysgol yn creu hyblygrwydd i ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gytuno ar ddyletswyddau craidd ar gyfer:

- gwaith datblygiadol ar y cyd
- dulliau o gefnogi gwelliannau mewn ysgolion unigol o fewn eu clwstwr / cynghrair
- prosesau adrodd ac atebolrwydd

Rhoddir hyblygrwydd hefyd i gystyrau a chynghreiriau gytuno ar swyddogaeth graidd a chyfraniad GwE i'r tair agwedd a nodwyd uchod. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod ganddo'r gallu i gyflawni nifer o'r swyddogaethau craidd, darperir adnoddau i gefnogi gyda'r gwaith hwn a bydd cyfraniad GwE yn gymesur. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod angen i GwE gyflawni cyfran uwch o'r swyddogaethau craidd, bydd lefel yr adnoddau a neilltuir yn gymesur. Gallai cyfraniad GwE gynnwys:

- Arwain neu gymryd rhan mewn cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gyfoethogi ansawdd
- Arwain neu gyfrannu i waith datblygiadol
- Hyfforddi neu fentora grwpiau neu unigolion
- Hwyluso gweithgareddau cydweithredol clystyrau / cynghreiriau
- Arwain ar ddatblygiad proffesiynol ysgol gyfan neu glwstwr / cynghrair
- Darparu pecyn cymorth fwy dwys ar gyfer ysgolion unigol o fewn clwstwr / cynghrair
- Cyfraniadau rôl arbenigol
- Cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu
- Cyfeirio a rhannu arferion gorau

Diffinnir rolau a chyfraniadau o fewn 'cytundeb partneriaeth' clwstwr / cynghrair, a fydd yn cael ei adolygu a'i werthuso ar ddiwedd y flwyddyn (gweler y Ffeithlun isod).

CYNLLUN PARTNERIAETH YSGOLION

Diben Craidd	Cyd-ddatblygu		Cefnogi Gwelliant		Atebolrwydd ac Adrodd	
	Be?	Sut?	Be?	Sut?	Be?	Sut?
Clwstwr						
Ysgolion Unigol						
GwE						

DEILLIANNAU DISGWYLIEDIG SYDD WEDI EU HADNABOD GAN Y BARTNERIAETH

ADNODD CYTUNEDIG GWE AR GYFER Y BARTNERIAETH

£xxxx


Er mwyn cryfhau datblygiad y cwricwlwm newydd, fe sefydlir rhwydweithiau datblygu MDaPh yn rhanbarthol ac yn lleol. Bydd arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr yn cydweithio i ddatgloi potensial bob MDaPh drwy fodelu, cynllunio a rhannu arferion cwricwlwm.

Bydd rhwydweithiau cydweithredol yn gweithio ar y meysydd a ganlyn:

- 1 Datgloi potensial un o'r MDaPh
 - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
 - Mathemateg a Rhifedd
 - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
 - Y Dyniaethau
 - Iechyd a Lles
 - Y Celfyddydau Mynegiannol

- 2 Asesu
- 3 Cynllunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan

Bydd ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cael cyfle i gydweithio â rhwydwaith o gymheiriaid, yn cefnogi cynllunio cwricwlwm a datblygu MDaPh yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn rhoadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws ysgolion ym mhob awdurdod lleol, ac yn cyfrannu i ddatblygu modelau cynllunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf. Bydd egwyddor isreolaeth yn sicrhau cyd-destun lleol i'r gwaith hwn.



Fe sefydlir wyth rhwydwaith MDaPh lleol ym mhob Awdurdod Lleol, un ar gyfer bob un o'r meysydd a nodwyd uchod. Bydd unigolion o'r grwpiau lleol hyn yn cynrychioli'r ALI mewn wyth rhwydwaith MDaPh rhanbarthol, gan sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarth. Bydd grŵp strategol rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr traws sector o'r wyth grŵp ALI, yn darparu cyfeiriad a throsolwg o'r gwaith.

Bydd gan rwydweithiau fynediad i Ddysgu Proffesiynol a byddant yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALI yng ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDaPh effeithiol a fydd yn cefnogi ysgolion ar eu Taith Ddiwygio.

Adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol

Credwn yn gryf yma yng ngogledd Cymru y dylai adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol fod yn sbardun allweddol ar gyfer gwelliant parhaus mewn ysgolion wrth iddynt gynllunio ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd a'r diwygio cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion ac UauCD i wreiddio rhaglen o adolygu gan gymheiriaid ar sail y prosesau a ganlyn:

- **Hunan adolygiad** : dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda y mae'r ysgol yn adnabod ei hunan, a chael ei arwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwyr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o sefydliad sy'n dysgu, lles disgyblion a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at wireddu'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar ei thaith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.
- **Adolygiad gan gymheiriaid** : mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau, a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu â'r ysgol. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwmpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.
- **Cymorth Ysgol i Ysgol** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad ei hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Pan fo staff yn berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu capasiti ymhellach a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r partneriaethau a ddatblygir felly fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

Ysgolion sy'n Destun Pryder

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol.

Bydd **Grŵp Amlasiantaethol** yn cyfarfod yn rheolaidd (yn fisol, neu fel bo'r angen) i:

- Adnabod yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o achosi pryder
- Cytuno â'r ysgol ar y cynllun cymorth 360 unigryw. Bydd cynlluniau yn nodi'n glir pa wasanaeth a fydd yn darparu cymorth ac adnoddau yn erbyn camau gweithredu penodol.
- Cytuno ar drefniadau monitro'r cynlluniau 360.
- Arfarnu effeithiolrwydd y cynlluniau cymorth 360 a gweithio efo ysgolion i fonitro cynnydd ac effaith
- Rhannu unrhyw arferion effeithiol o fewn ac ar draws awdurdodau lleol y rhanbarth
- Pan fo pryderon yn dwysáu, bydd y Grŵp Amlasiantaethol yn adrodd i'r Bwrdd Ansawdd fel y gall y Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth wneud penderfyniad gwybodus ac amserol ynghylch defnyddio pwerau ymyrraeth statudol.

Bydd **Bwrdd Ansawdd yr ALI** yn cyfarfod bob hanner tymor, a'r Prif Swyddog Addysg fydd y Cadeirydd. Dylid cofnodi penderfyniadau gweithredu'r Bwrdd a'u rhannu â'r Grŵp Amlasiantaethol neu'r gwasanaeth cefnogi fel y bo'n berthnasol.

Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio fwyaf ar:


- Asesu cynnydd yr ysgolion hynny sy'n destun pryder a gafodd eu hadnabod gan Estyn neu brosesau lleol.
- Asesu ansawdd y cynllunio cymorth ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder a wneir gan y Grŵp Amlasiantaethol
- Sicrhau bod y Grŵp Amlasiantaethol yn cyflawni ei ddyletswyddau monitro yn effeithiol.
- Gweithredu'n briodol pan fydd y Grŵp Amlasiantaethol yn rhannu bod pryderon wedi'u huwchgwyfeirio, ac yn benodol am allu arweinyddiaeth a llywodraethiant ysgol i wella ar gyflymder digonol.
- Ystyried defnyddio pwerau ymyrraeth statudol pan fo pryderon am gynnydd, neu gyflymder cynnydd
- Adnabod yr arferion gorau i'w rhannu o fewn ac ar draws awdurdodau lleol

Lle mae angen, gallai'r awdurdod lleol hefyd sefydlu **Bwrdd Gwella Carlam** i gefnogi ysgolion unigol ar eu taith wella. Bydd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, GwE, y pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol. Pwrpas y BGC fydd:

- Darparu cymorth ar gyfer gwella ysgolion
- Darparu fforwm her, mewnol ac allanol
- Adnabod unrhyw bryderon
- Adnabod unrhyw weithredu i'w flaenoriaethu
- Hysbysu'r Pennaeth Addysg ymhellach a oes angen i'r ALI ddefnyddio ei bwerau ymyrraeth

Ceir crynodeb isod o'r strwythurau a'r prosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder:

Strwythurau a phrosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi YAC.



Dyletswyddau Statudol ac Atebolrwydd

Bydd Arweinydd Craidd GwE a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio mewn partneriaeth efo swyddogion Awdurdod Lleol i weithredu'r *Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol-Ysgol*. Arweinydd Craidd GwE ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant fydd yn monitro ac arfarnu safonau cyffredinol ac ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth, gan weithio mewn partneriaeth efo ysgolion a chlystyrau. Fodd bynnag, bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio efo ysgolion i esblygu'r system atebolrwydd bresennol er mwyn galluogi ysgolion a chlystyrau i gael mwy o ymreolaeth. Bydd adolygu gan gymheiriaid yn elfen allweddol wrth gefnogi ysgolion i arfarnu eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwelliant, a'u helpu i ganolbwyntio ar feysydd gwelliant penodol wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm newydd a'i ddarparu.

Wrth symud tuag at system sy'n hunan wella, bydd mwy o bwyslais ar atebolrwydd moesol a phroffesiynol. Bydd perthnasau atebolrwydd ysgol yn cynnwys y rheiny gyda disgyblion, rhieni, cyd-weithwyr a'r gymuned leol. Yr her i ni dros y blynyddoedd nesaf fydd creu diwylliant ble mae ysgolion yn teimlo bod ganddynt fwy o berchenogaeth ar atebolrwydd, a newid y syniad bod atebolrwydd yn seiliedig ar ddata ac arolygiad yn unig a'i fod yn cael ei weithredu gan rywun uwch eu pen.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion i ddatblygu system atebolrwydd gadarn, system sydd gan randdeiliaid allweddol ffydd ynnddi ac sydd yn dal bob partner yn gwbl atebol am ei rôl yn datblygu ein dysgwyr i ddod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; ac
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Disgwyliadau system yng ngogledd Cymru

Erbyn mis Medi 2024:

- Bydd bob ysgol yn bodloni gofynion statudol *Cwricwlwm i Gymru*, a bydd gan bob ysgol berthynas gref efo'i chymuned ac yn datblygu ystod eang o sgiliau dysgwr a fydd yn eu gwneud yn barod ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Bydd cynllunio ar sail pedwar diben y cwricwlwm newydd yn darparu cynnig cytbwys i fodloni anghenion pob dysgwr.
- Bydd strategaeth sgiliau sylfaenol sydd yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sail i gwricwlwm bob ysgol.

- Bydd strategaeth i blant bregus i ddysgu yn weithredol, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, eu lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, a bydd y strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.
- Byddwn wedi cydweithio gyda ysgolion ac awdurdodau lleol i fabwysiadu model atebolrwydd newydd, a fydd yn cynnwys prosesau grymus i sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar bob lefel ar gyfer gwelliannau a datblygiadau ysgol rhanbarthol.
- Bydd strategaeth effeithiol ar waith ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder, gyda'r capasiti priodol i adnabod a mynd i'r afael ag angen.
- Bydd gwella addysgu wrth wraidd pob gwelliant.
- Bydd cydweithio aeddfed rhwng ysgolion mewn clystyrau a chynghreiriau ar draws y rhanbarth, a byddant yn cymryd cyd-berchnogaeth dros wella ysgolion ei gilydd i sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.
- Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg grymus ar waith i lwyr gefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwella sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr a'r gweithlu.
- Bydd cynllun dysgu proffesiynol cadarn mewn lle sy'n bodloni anghenion arweinwyr a staff addysgu, a hynny er mwyn helpu ysgolion i weithredu bob agwedd ar y daith ddiwygio a galluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm newydd.
- Bydd GwE yn gweithredu'n effeithiol fel sefydliad sy'n dysgu, yn unol â'r saith dimensiwn 'gweithredu' fel y nodir gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD], a bydd gennym bartneriaethau cryf ac aeddfed gyda'n randdeiliaid allweddol, a fydd yn cynnwys strategaeth gyfathrebu glir.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE – Adroddiad monitro chwarter 4

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 4 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

2.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth.

2.3 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynglwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 4.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

3.2 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

3.3 Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 4.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 4

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol Chwarter 4

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



Cynllun Busnes GwE 2021-2022 Adroddiad Cynnydd Chwarter 4



www.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru

CYNNWYS

1. Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2021-2022

- Blaenoriaethau rhanbarthol a darpariaeth sy'n cyfrannu at flaenoriaethau awdurdodau lleol – Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 4

2. Atodiad: Data Rhanbarthol

BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022

Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 4 (01/01/2022 – 31/03/2022)

AMCAN 1 – CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol gyda thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n gosod safon uchel i bob dysgwr

CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, y 12 egwyddor addysgegol ac ymchwil gweithredol.

Cyflwynwyd hyfforddiant ymestynnol ar lefel uchel ar y Daith Ddiwygio i arweinwyr ysgolion ar draws y rhanbarth ac mae hyn wedi parhau y tymor hwn (cyfeirier at Gwireddu'r Cwricwlwm). Cynigiwyd gweithdai i holl arweinwyr ysgolion ar weledigaeth a chynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cwricwlwm i Gymru (CiG) sydd wedi cynnwys dechrau meddwl am gynllunio ar gyfer cynnydd a lle y 12 egwyddor addysgegol yn y cwricwlwm.

Mewn ysgolion uwchradd, bu arweinwyr dysgu ac addysgu mewn ysgolion yn rhan o drafodaethau drwy fforymau ar ble maen nhw'n gweld eu cryfderau a'u hanghenion datblygu ar gyfer gwella addysgeg yn eu hysgolion, a fydd yn bwydo i'r cynnig o fis Medi ymlaen. Gofynnodd rai ysgolion am fewnbwn ar yr hyn sy'n gwneud dysgu ac addysgu da er mwyn gwneud cynnydd, a datblygwyd hyfforddiant yn seiliedig ar y 12 egwyddor. Mae'r cynllunio yn parhau ar gyfer y Cynnig Dysgu ac Addysgu.

Ym mis Ionawr, tynnwyd sylw pob ysgol uwchradd at y cynnig gan y Grŵp Dysgu ac Addysgu uwchradd i gael cymorth gyda dysgu proffesiynol yng nghyd-destun Dysgu ac Addysgu, megis cwestiynu, gwahaniaethu a herio. Mae deuddeg ysgol wrthi'n cael cefnogaeth gyda naill ai model 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' neu gyflwyniad DP uniongyrchol i staff gan ymgynghorwyr cefnogi GwE.

Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol

Prosiect Ymchwil Gweithredol GwE a Shirley Clarke

Fel parhad i'r prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) sydd wedi bod ar waith yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017, cynhaliwyd dwy weminar yn ystod oriau gwylly yn nhymor yr Hydref 2021 gyda Shirley Clarke ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth:

- 28/09/2021 - adolygu egwyddorion asesu ffurfiannol ac ymchwil diweddar
- 12/10/2021 - 'Adborth'

Roedd dros 1000 o athrawon o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol yn y ddwy sesiwn. Cafodd yr holl athrawon fynediad at negeseuon uniongyrchol gan Shirley Clarke er mwyn adennill momentwm ac adolygu eu harferion ar sail yr ymchwil diweddaraf. Mae hyn wedi bod o gymorth i'r holl ymarferwyr ac arweinwyr dysgu gyda datblygiad pellach ac gwreiddio ymarfer addysgegol da a chyson wrth baratoi ar gyfer y CiG. Mae hefyd wedi cefnogi gwaith ysgolion y rhanbarth wrth iddynt ystyried ac esblygu addysgeg ymhellach mewn paratoad at Gwricwlwm i Gymru.

Cynnydd ac Asesu: Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth ysgolion o egwyddorion allweddol y canllawiau asesu newydd - tri diben asesu - o ddydd i ddydd, nodi a chofnodi cynnydd a deall cynnydd grŵp

Cyflwynwyd prif negeseuon Canllaw Asesu Cwricwlwm i Gymru a chanllaw Estyn i Arolygwyr ar gynnydd ac asesu i YCG GwE er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r gofynion allweddol.

Cynhaliwyd 6 sesiwn ar gynnydd ac asesu i ysgolion cynradd y rhanbarth gyda 649 o unigolion a/neu grŵp o staff yn mynychu un o'r sesiynau. Ffocws y sesiynau oedd prif negeseuon Canllaw Asesu Cwricwlwm i Gymru a chanllaw Estyn i Arolygwyr yn ogystal ag ambell enghraifft o ysgolion ar hyd a lled y rhanbarth.

Cynhaliwyd 4 sesiwn ar asesu a chynnydd i ysgolion uwchradd y rhanbarth. Ffocws y sesiynau oedd prif negeseuon Canllaw Asesu Cwricwlwm i Gymru a chanllaw Estyn i Arolygwyr yn ogystal ag ambell enghraifft o ysgolion ar hyd a lled y rhanbarth. Bu presenoldeb ar y sesiynau hyn yn dda iawn ac fe'u croesawyd yn fawr gyda nifer o ysgolion uwchradd yn cyfeirio at eu buddioldeb ac yn gofyn am garreg saf y cymorth oherwydd y sesiynau hyn. Mae YCG yn

cynnig cymorth ychwanegol yn yr ysgol neu'r Cynghreiriau i ddatblygu eu dealltwriaeth, yn benodol i anghenion ysgolion. Mae'r cyflwyniadau a recordiad o'r sesiynau ar gael ar wefan GwE gyda nifer o ysgolion yn gwneud cais amdanynt gyda rhai am eu defnyddio gyda'r staff cyfan neu gyda'r Llywodraethwyr.

Mae nifer o ysgolion y rhanbarth yn rhan o'r Grwpiau Rhanbarthol / Lleol sydd yn trin a thrafod y gofynion newydd. Rhannwyd rhagflas o'r cyflwyniadau i ysgolion gyda'r grwpiau rhanbarthol a lleol.

Mae 15 o gynrychiolwyr o ysgolion GwE – cynradd, uwchradd ac arbennig wedi bod yn rhan o 4 sesiwn Prosiect Camau (Prifysgol Glasgow a'r Drindod) er mwyn datblygu adnodd i ysgolion ar gynnydd ac asesu.

Crëwyd Cofnod Cynnydd ar ffurf Excel gyda nifer o ysgolion ar draws y rhanbarth yn ei dreialu a cynnig adborth defnyddiol. Y bwriad yw y bydd yn barod erbyn y Sulgwyn.

Mae ychydig o glystyrau wedi derbyn sesiynau penodol ar y traciwr ac mae rhai ysgolion wedi derbyn sesiynau unigol ar asesu mewn cyfarfodydd staff.

Trosglwyddo/Pontio: Cefnogi a chyd-lunio darpariaeth ac arweinyddiaeth ar gyfer trosglwyddo efo clystyrau. Datblygu cydweithio ar draws sectorau ar drosglwyddo a rhannu arferion da

Darparwyd canllawiau LIC ar asesu ar gyfer CiG i bob ysgol drwy'r gweithdai dysgu proffesiynol ar gynllunio'r cwricwlwm, sesiwn 2. Mae'r rhain ar gael ar y ganolfan cefnogaeth ac mae ysgolion yn parhau i droi at y cyngor drwy'r adnodd hwn. Darparwyd rhagor o ganllawiau i ffederasiynau penaethiaid ar draws y rhanbarth. Darparwyd canllawiau wedi'u diweddarau gan y tîm asesu drwy'r gweithdai asesu a chynnydd.

Mae clystyrau yn dechrau rhannu arferion llwyddiannus o ran trosglwyddo ac yn cydweithio ar draws a rhwng ysgolion er mwyn datblygu cwricwlwm 3-16. Mae lleiafrif bach o glystyrau wedi cynllunio i rannu'r addysgu drwy hyn rhwng staff ysgol uwchradd ac ysgol cynradd, sy'n cynnwys grwpiau oedran cymysg wrth gynllunio a gweithredu.

Mae arferion llwyddiannus yn dechrau cael eu rhannu yn rhanbarthol drwy'r rhwydweithiau - bydd hyn yn digwydd ymhellach tymor nesaf. Mae rhai ysgolion yn cefnogi hyblygrwydd cynnydd drwy ddefnyddio iaith y continwmm 3-16.

Diweddarwyd tîm llawn GwE ar y canllawiau Cwricwlwm i Gymru perthnasol ar gyfer ysgolion a chlystyrau.

Bydd rhagor o ganllawiau i ysgolion i ddilyn yn 2022-23 gan gynnwys canllawiau ar ddatblygu cynllun pontio clwstwr i gyd-fynd â gofynion Cwricwlwm i Gymru.

Mae staff GwE wedi gweithio 3-16 ar gynllunio'r Cwricwlwm i Gymru. Mae clystyrau CiG wedi cydweithio drwy hyfforddiant 3-16 CiG sydd wedi paratoi'r ffordd ar gyfer rhagor o gydweithio. Mae YCG wedi hwyluso trafodaethau i gefnogi'r cynllunio hwn mewn amryw o glystyrau yn y rhanbarth. Bu rhwydweithiau asesu a chynnydd a gweithdai GwE yn rhannu arferion llwyddiannus o ran trosglwyddo ac yn tanlinellu'r angen am gynllun trosglwyddo newydd. Dechreuwyd ar y broses ac mae rhai adnoddau eisoes yn barod. Bydd rhagor o'r rhain ar gael dros y tymor nesaf.

Mae bron pob ysgol wedi bod mewn hyfforddiant neu gyfarfodydd ble rhoddwyd sylw i agweddau ar drosglwyddo. Uwch sgiliwyd tîm GwE mewn agweddau ar drosglwyddo fel strategaethau llwyddiannus i drosglwyddo gwybodaeth ansoddol a diweddiadau am Cwricwlwm i Gymru. Cymerwyd camau cychwynnol i roi sylw i'r meini prawf llwyddiant, er hynny, bydd angen rhoi sylw pellach i'r rhain yn Nhyrnor yr Haf 2022 i sicrhau effaith ar ddysgwyr. Rhoddwyd cyllid i glystyrau er mwyn cynllunio ar gyfer trosglwyddo a thynnyd eu sylw y bydd hyfforddiant i ddilyn tymor nesaf ac yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Unwaith y bydd y cynlluniau cychwynnol ar waith, bydd angen ymestyn y trosglwyddo i gynnwys 3-25, trosglwyddo o fewn ysgol, pontio ADY, pontio mewn cyflogaeth/AB/AU ac ati a rhannu arferion arloesol llwyddiannus ar draws y rhanbarth. Fel hyn, gall dysgwyr wneud cynnydd yn gyflymach, yn enwedig dysgwyr bregus, a bydd cefnogaeth i blant a phobl ifanc y rhanbarth ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, cyfrifol, arloesol, iach a mentrus drwy gydol eu hoes.

Cymorth i'r uwchradd ar gyfer datblygu dysgu ac addysgu

Rhoddwyd cynnig at ei gilydd eleni i ysgolion uwchradd ynghylch datblygu addysgeg, yn canolbwyntio ar agweddau

fel cwestiynu effeithiol, gwahaniaethu a herio, er enghraifft. Cafodd nifer o ysgolion gymorth drwy ddarparu HMS i bob aelod staff ar feysydd fel hyn, sydd wedi'u datblygu ar y cyd dan arweiniad yr ysgol ac yna'u gwerthuso a'u monitro wedyn i weld eu heffaith. Mae'r cynnig wedi gwella'r pwyslais ar addysgeg mewn nifer o ysgolion ac wedi bodloni'r angen clir a nodwyd ym mhrosesau AHA/CGY llawer o ysgolion.

GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)

Sicrhau cefnogaeth i ysgolion mewn cysylltiad â Dylunio Cwricwlwm yr ysgol gyfan ac o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)

Cefnogi'r ysgolion ar hyd y daith at 2022 gan ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd

Wrth i ysgolion a GwE gydweithio ar gyd-lunio enghreifftiau a modelau diriaethol, mae ysgolion wedi gallu dychmygu a deall agweddau ar ddylunio cwricwlwm lefel uchel/crynhoi cwricwlwm yn well. Mae defnyddio sgiliau technoleg ddigidol wedi galluogi nifer cynyddol o ysgolion a'u staff i ddilyn y sesiynau DP yn bersonol fel bod deialog mwy cyfoethog o fewn ysgolion. Gellir addasu sesiynau dysgu proffesiynol, a drefnir ac a gynigir i gynulleidfaoedd llai ar draws cyfres o sesiynau, i weddu i gyd-destunau unigryw clystyrau ac maent yn arwain at lefel uchel o bresenoldeb ac ymroddiad gan ysgolion. Drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i greu padledi a gwefannau, gall ysgolion gofnodi eu trafodaethau yn ystod sesiynau DP a mynd ati i drafod ymhellach o fewn eu lleoliadau ysgol eu hunain. Mae nifer cynyddol o ysgolion yn rhannu'u gwaith ag eraill o ganlyniad i ddefnyddio deunyddiau o sesiynau i UDA gyda'u staff eu hunain e.e. datblygu gweledigaeth a rennir, crynodeb dylunio cwricwlwm.

Trosolwg byr o weithgareddau dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael

Bu'r Gweithdai Cwricwlwm i Gymru yn sylfaen i uwch dimau arweinyddiaeth gefnogi eu paratodau ar arwain newid, datblygu gweledigaeth a rennir a chynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm.

- Cynhaliwyd sesiynau Arwain Newid ym mis Chwefror 2021 gyda 30 o sesiynau a 732 o ymarferwyr UDA yn bresennol.
- 54 sesiwn yn ystod mis Mehefin - Gorffennaf 2021 ar sesiynau gweledigaeth a rennir, cynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm (108 awr o ddysgu proffesiynol).
- Y % sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu ragor ym mis Mehefin/Gorffennaf oedd 80.3%
- Mynychodd 1155 y sesiynau = 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion.
- Mae gan bob clwstwr fynediad at ddolen i wefan benodol efo padledi a dogfennau cydweithredol sydd yn ganolfan adnoddau ganolog i waith DP, cofnodi trafodaethau ac adnabod meysydd ar gyfer mwy o drafodaethau lleol.

Cynhaliwyd Gweithdai Dylunio'r Cwricwlwm yn ystod tymor y Gwanwyn 2022:

- Y gynulleidfa darged oedd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rithiol dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 101 o aelodau UDA uwchradd, 504 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 16 ac 8 consortia arall/Estyn yn bresennol.
- Defnyddiodd lawer o'r UDA y sesiynau hyn i gael mwy o staff i ymuno â'r weminar i drafod.
- Cafodd bob ysgol fynediad at y deunydd hwn a chynhaliwyd sesiynau dilynol efo UDA yn y rhan fwyaf o ysgolion/clystyrau.
- Gall rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol fwydo i ddysgu proffesiynol gydag enghreifftiau o grynodedau cwricwlwm lefel uchel ac egwyddorion dylunio yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru: y daith at gyflwyno.

Cynhaliwyd Gweithdai Cynnydd ac Asesu yn ystod tymor y Gwanwyn 2022.

- Targedwyd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rithiol dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 141 o aelodau UDA uwchradd, 620 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 18 ac 11 consortia eraill/Estyn yn bresennol.
- Mae Rhwydweithiau CiG yn bwydo i enghreifftiau a rennir ar bwrpas asesu, ynghyd â Phenathiaid yn rhannu eu profiadau nhw.
- Cafwyd sylwadau hynod gadarnhaol e.e. "roedd y sesiwn yn taro'r hoelen ar ei phen! Cyflwynwyd negeseuon mewn ffordd glir a syml".
- Mae'r holl ddeunyddiau a'r recordiadau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, safle sydd yn cael nifer cynyddol o ymweliadau a dogfennau yn cael eu lawr lwytho.

Egwyddorion Gweithdai Cynllunio i ddilyn mis Ebrill 2022 (ail-drefnwyd yn sgil sylwadau gan ysgolion ynghylch eu cynhwysedd).

Gwahaniaeth a wnaed:

- Lefelau ymwneud yn uwch ar draws y rhanbarth ymysg aelodau UDA ac athrawon ers Haf 2021 - pob ysgol yn ymwneud â'r cynnig DP.
- Aelodau UDA ac athrawon yn fwy hyderus o ran deall egwyddorion y fframwaith CiG ac wrth gynllunio i gyrraedd y gofynion statudol newydd.
- Bu pob YCG yn rhan o ddeialog broffesiynol gyson ag aelodau UDA ar draws pob ysgol fel dilyniant i'r cynnig DP lleol, ac yn cynnig DP unigryw i anghenion ysgolion unigolion ble'n briodol.
- Mwy o ysgolion 'ar drac' i fodloni'r gofynion statudol newydd erbyn mis Medi 2022 (adroddiad chwe cham).
- Mae nifer cynyddol o enghreifftiau o Uwch Arweinwyr mewn ysgolion yn defnyddio adnoddau DP i ymwneud ymhellach â'r holl staff e.e. arwain newid, datblygu enghreifftiau o weledigaeth a rennir, efo GwE.
- Mae rhaglen glir ar gyfer dysgu proffesiynol rheolaidd i YCG gyda'r Athro Graham Donaldson wedi arwain at wella dealltwriaeth a chodi hyder ar draws y tîm - gan arwain at gydweithwyr cynradd ac uwchradd yn dod i ddeall y continwmm 3-16 yn well.
- Drwy rannu negeseuon integredig ar draws y tîm, gall yr YCG ddilyn hyn mewn dosbarthiadau ac ystafelloedd athrawon e.e. DP CiG - llawer o enghreifftiau o ysgolion yn rhannu eu gweledigaeth ac yn defnyddio map ffordd i gynllunio blaenoriaethau gweithredu ar gyfer 2020-21, gwaith dilynol ar ddylunio cwricwlwm lefel uchel.
- Mwy o glystyrau yn gofyn am ragor o DP yn ystod eu dyddiau HMS i sicrhau bod y prif negeseuon yn cael eu rhannu â phob aelod staff, nid yn unig yr UDA.

TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDPh)

Trosolwg byr o'r gweithgareddau

- Gwahoddwyd pob ysgol i fod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Cymru rhanbarthol a lleol. Dangosodd 300+ ddi-ddordeb erbyn Gorffennaf 2021, a chododd hyn i 700+ erbyn mis Hydref 2021. Erbyn mis Mawrth 2022, mae 804 o aelodau o blith ysgolion, YCG GwE, cydweithwyr o'r ALL, a staff CABAN.
- Sefydlwyd 48 rhwydwaith lleol - 6 MDaPh, dylunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu.
- Sefydlwyd un rhwydwaith rhanbarthol ble mae rhwng 115 a 130 o ymarferwyr yn bresennol yn rheolaidd.
- Sefydlwyd trefn gyda chyfarfodydd rhanbarthol misol ble mae'r Athro Graham Donaldson yn bresennol ac yn cynnig arweiniad/sylwadau.
- Bydd pob cyfarfod lleol ar draws y chwe ALL yn gyfarfod misol rhwng y cyfarfodydd rhanbarth.
- Mae cyfathrebu yn agwedd allweddol ar rannu gwaith gyda phob ysgol drwy YCG GwE, y wefan, diweddariadau rheolaidd mewn fforymau Penaethiaid.
- Sefydlwyd isadeiledd TEAMS ble mae gan bob rhwydwaith rhanbarthol a lleol rhywle penodol ble gallant rannu gwaith a chydweithio.

Gwahaniaeth a wnaed:

- Gyda 117-130 o aelodau'r grŵp Rhwydwaith yn cyfarfod pob mis, mae dealltwriaeth o fframwaith ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi dyfnhau'n sylweddol.
- Yn ôl cadeiryddion rhanbarthol, sydd yn ymarferwyr ysgol, mae eu hyder a'u perchnogaeth wedi codi o ran sefydlu sianeli cyfathrebu, arwain trafodaethau mewn fforymau lleol ac ar draws clystyrau o ysgolion.
- Mae mwy o ysgolion yn datblygu ac yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau dylunio a chynllunio'r cwricwlwm.
- Nifer cynyddol o ymweliadau â'r wefan i gael gfael ar ddeunyddiau ac enghreifftiau sydd wedi'u rhannu gan rwydweithiau ac ysgolion - 3923 o ymweliadau ar y dudalen Rhwydweithiau o fewn Cwricwlwm i Gymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022.
- Mwy o ddefnydd a chyfathrebu ar draws TEAMS ble mae unigolion o fewn rhwydweithiau yn rhannu negeseuon allweddol ac enghreifftiau o rannu pellach o fewn eu clystyrau a'r cynghreiriau uwchradd.
- Hyder yn y system bod strategaeth glir a thryloyw i ymateb i'r gofynion statudol erbyn Medi 2022.
- Mwy o gydweithio efo GwE ac ysgolion drwy gynnwys YCG yn y grwpiau lleol - YCG yn gallu hwyluso a bod yn bresennol mewn cyfarfodydd lleol, rhannu'r arferion gorau a sicrhau cysondeb negeseuon ar draws y rhanbarth.
- Enghreifftiau unigol o glystyrau yn amlwg yn perchnogi ac yn sicrhau bod pob ysgol yn rhan o'r rhwydweithiau, yn creu newyddlenni ac yn rhannu negeseuon allweddol.
- Wrth i athrawon arwain cyfarfodydd a rhannu gwaith mewn cyfarfodydd rhanbarthol i egluro prosesau a

rhannu'r dysgu,

mae hyn yn cefnogi cydweithwyr i adnabod sut i ddatblygu eu gwaith eu hunain a modelu ymddygiad.

- Mwy o berchnogaeth ar gyfarfodydd lleol gan Gadeiryddion lleol, yn cydweithio gyda chyd-gadeiryddion a chydweithwyr GwE i osod agenda, adrodd yn ôl o gyfarfodydd rhanbarthol ac arwain trafodaethau lleol, gan ddatblygu prosesau i'w rhannu o fewn ysgolion lleol.
- Mae isadeiledd wrthi'n cael ei sefydlu fel bod modd i ysgolion ar draws y rhanbarth gydweithio a chyfathrebu â'i gilydd er mwyn rhannu a datblygu dyfnder y ddealltwriaeth wrth ddylunio'r cwricwlwm.
- Mae enghreifftiau a modelau wedi'u cyd-lunio gan ysgolion a GwE wedi arwain at sylwadau cadarnhaol, ac yn fodd i ysgolion ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o ddylunio'r cwricwlwm, gan weld enghreifftiau diriaethol.
- Defnyddio sgiliau digidol gwell i sefydlu isadeiledd fel bod modd cyfathrebu'n fwy hwylus ar draws y 49 grŵp lleol a rhanbarthol.

AMCAN 2- DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu ac addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)

Cefnogi ysgolion cynradd i gynllunio eu darpariaeth leithoedd Rhyngwladol (IRh)

Mae'r Ysgolion Arweiniol ac YCG GwE yn darparu cymorth uniongyrchol yn gyson i'w clystyrau ac maent ar gael i gefnogi unrhyw ysgol sy'n gofyn am gymorth ychwanegol. Bellach, mae rhai clystyrau yn ychwanegu leithoedd Rhyngwladol at yr agenda ac wedi holi am gael rhagor o gymorth. Mae gwahanol arferion yn cael eu hystyried a'u datblygu i weddu i gyd-destun y clwstwr. Mae ysgolion unigol wedi defnyddio'r cynnig o gymorth ac mae trafodaethau buddiol wrthi'n digwydd. Teimla staff fod cymorth iddynt a'u bod yn datblygu dealltwriaeth ddofnach o'r leithoedd Rhyngwladol yn eu cwricwlwm. Mae'r dull gweithredu a'r negeseuon yn gyson ac yn unol â rhaglen gymorth GwE ar gyfer cyflwyno. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ysgolion sy'n ymwneud ag leithoedd Rhyngwladol dros y flwyddyn: Mae 163 o ysgolion (+153%) wedi mynegi diddordeb neu wedi cymryd rhan yn y Cynnig Dyfodol Byd-eang.

Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol

Trefnwyd sesiynau galw heibio ac mae'r athrawon sydd wedi bod yn bresennol yn gwerthfawrogi'r trafodaethau anffurfiol ac yn gweld bod yr wybodaeth yn fuddiol iawn. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi mynd i'r afael â Dyfodol Byd-eang o ganlyniad. Cafodd 80 ysgol gyllid ar gyfer cyfleoedd hyfforddiant neu adnoddau eleni. (Power Language, Y Brifysgol Agored.) Mae pob ysgol wedi cael y 5 sesiwn hyfforddiant i ysgolion cynradd naill ai drwy fynd i'r sesiynau byw neu drwy ddefnyddio'r recordiadau. Hyd yma, mae 69 ysgol wedi gwneud cais am y tanysgrifiad newydd am ddwy flynedd i adnoddau Power Language. Mae 2 ysgol wedi manteisio ar daith Awdur o'r Almaen (a fydd yn digwydd mis Mai 2022). Hyrwyddwyd sesiynau Trafod Addysgeg ILICh IRh a bydd ysgol arweiniol GwE yn arwain y drydedd sesiwn ym mis Ebrill.

Datblygu canolfan cefnogaeth GwE ar gyfer leithoedd Rhyngwladol yn y cynradd ac ar gyfer ITM/IRh yn yr uwchradd

Canolfan Cefnogaeth GwE yw'r lle cyntaf y mae athrawon Gogledd Cymru yn mynd bellach ac aethpwyd ati i greu a diweddarau adrannau ITM leithoedd Rhyngwladol ers mis Gorffennaf 2021 (cynradd ac uwchradd). Gall pob athro fynd at y wefan i gael yr adnoddau cyfoes a pherthnasol, y deunyddiau hyfforddiant, y dolenni a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnynt i godi hyder, arbenigedd a chefnogi eu taith at 2022 a thu hwnt. Mae ysgolion yn ei defnyddio mwyfwy.

Darparu cymorth uniongyrchol i athrawon cynradd drwy raglen Athrawon yn dysgu i Addysgu leithoedd (TELT) y Brifysgol Agored.

Cofrestrodd 9 o athrawon ar gwrs TELT y Brifysgol Agored ar gyfer 2021-2022 (7 rhan 1, 2 rhan 2). Ers 2018 ac erbyn mis Mehefin 22, bydd 31 o athrawon ar draws y rhanbarth wedi cwblhau'r cwrs hyfforddiant blwyddyn i ddysgu ac addysgu IRh yn y cynradd. Bydd wyth o'r rheiny wedi cwblhau'r ail flwyddyn hefyd. Mae'r cwrs hwn wedi galluogi'r athrawon hyn i:

- ddatblygu eu harbenigedd a'u hyder yn ystod ysgolion Rhyngwladol ac wrth gyflwyno IRh yn y cynradd.

- rhannu egwyddorion addysgegol a methodoleg efo cydweithwyr
- dechrau datblygu'r ddarpariaeth IRh yn eu hysgolion ac arbrofi efo cynllunio a dylunio'r cwricwlwm
- datblygu annibyniaeth ysgolion cynradd i gynllunio a chyflwyno IRh.

Cyfarfodydd Rhwydwaith Pynciol: (uwchradd)

Mae trafodaethau a gwaith rheolaidd ynghylch cynhyrchu strategaeth Dysgu ac Addysgu GwE wedi digwydd. Mae gwaith cydweithredol Grwpiau Rhanbarthol a Lleol GwE wedi galluogi dealltwriaeth ddofnach o fframwaith GwE ac wedi bod yn fodd i fireinio'r cymorth i ysgolion. Drwy fod yn rhan o grŵp CDP Pynciol GwE,

Rhaglen Dylunio Cwricwlwm Draws-ranbarthol dros 12 diwrnod efo Lucy Crehan (Rhag 21 - Mawrth 22): mae'r sgysiau a'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn y gweithdai hyn wedi bod yn fodd i fireinio a chefnogi datblygiadau'r rhaglenni rhanbarthol a lleol, ac fel arall. Cynigir negeseuon cyson, arweiniad a chymorth sy'n gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar bob lefel.

Darperir arweiniad a chymorth cyson a chydlynol i ysgolion. Gyda'r rhaglen dysgu proffesiynol dros 6 sesiwn i gefnogi'r symud tuag at Cwricwlwm i Gymru, daeth y cyfle i holl athrawon y rhanbarth (cynradd ac uwchradd) ddatblygu eu dealltwriaeth o'r continwmm ieithoedd a'r egwyddorion a'r cynllunio ar gyfer IRh yn y CiG.

Oherwydd y pwysau a'r cyfyngiadau ar ysgolion eto eleni, trefnwyd pob sesiwn ar ôl ysgol felly nid oeddent wastad yn addas i athrawon. Er hynny, recordiwyd a rhannwyd pob sesiwn DP â phob ysgol er mwyn iddynt allu mynd at y DP.

Parheir i drafod, rhannu arferion da, a chymryd camau datblygol i baratoi ar gyfer CiG.

Prosiect LIC: Creu ar draws ieithoedd

Mae'r ddwy ysgol sy'n treialu ac yn datblygu'r prosiect/uned bellach wedi creu a chyflwyno eu huned waith. Gwneir cynnydd yn unol â'r amserlen a'r cynllun gweithredu. Mae'r prosiect hwn wedi gwella dealltwriaeth a hyder ymarferwyr wrth gynllunio ar gyfer CiG. Mae hyn yn rhoi enghraifft o ddylunio cwricwlwm, fframwaith cynllunio ac adnoddau ar gyfer uned ymarferol i'w defnyddio o fewn ILIC.

Prosiect: Cystadleuaeth Farddoniaeth 'Translation Exchange' Rhydychen

Ychwanegwyd adnoddau Cymraeg GwE at wefan Cystadleuaeth TE Coleg y Frenhines, Rhydychen ac fe'u dosberthir i ysgolion sy'n gofyn amdanynt yng Nghymru. Mae llinyn Cymraeg y gystadleuaeth wedi codi nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan. (Cystadleuaeth gyfieithu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel y DU bellach yn bosibl ac adnoddau dwyieithog ar gyfer Ffrangeg CA3).

- 18 ysgol yn GwE yn cymryd rhan yn 2021-2022 (+160%)
- 36 ar draws Cymru. (+ 200%)

Mae hyn hefyd wedi codi proffil y Gymraeg ar lefel y DU.

Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan wedi cyflwyno profiad newydd cyffrous a chyfoethogol i daith ddysgu eu myfyrwyr.

Darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion uwchradd drwy brosiect mentora Prifysgol Caerdydd ar gyfer 2021-22

Roedd 18 ysgol yn GwE yn cymryd rhan yn y cynlluniau yn 2021-2022 (18 tymor cyntaf, 12 tymor 2). Ar y cyfan, mae'r sylwadau gan ysgolion yn galonogol iawn ond mae rhai problemau ymarferol oherwydd Covid a chyflwyno'n rhithiol weithiau wedi llesteirio'r effaith. Cynhyrchwyd adroddiad i bob ysgol yn y Consortiwm sy'n ceisio rhoi data ysgolion unigol mewn cyd-destun ochr yn ochr ag ymatebion ar draws Cymru i ddeall yr heriau sy'n wynebu IRh. Rhoddodd hyn wybodaeth werthfawr o ran agweddau dysgwyr a'u bwriadau o ran dysgu iaith. Gallai hyn lywio strategaethau posibl i roi sylw i ffactorau sy'n effeithio ar niferoedd yn CA4.

Arweinwyr Hwb a chyfarfodydd rhwydwaith (Uwchradd)

Llais athrawon oedd yn llywio'r galw am gyfarfodydd rhwydwaith, eu hamlder a'u natur. O ganlyniad, lluniwyd y rhaglen ddysgu a'r cynnig cymorth i anghenion athrawon. Recordiwyd pob sesiwn hyfforddiant i leddfu'r pwysau trwm ac amryfal ar ysgolion ac athrawon, y problemau efo rhyddhau a'r amserlen, a rhoi mwy o hyblygrwydd i

athrawon a mynediad at yr holl DP. Drwy gyfrwng y rhaglen DP efo'r siaradwyr gwadd Gillian Campbell-Thow a Rachel Hawkes, roedd athrawon yn gallu datblygu a rhannu syniadau i gefnogi eu paratoadau at gyflwyno'r CiG. Rhannwyd pob recordiad hefyd ag Arweinwyr Consortia eraill a'r Bartneriaeth i rannu efo'u hysgolion. Mae'r holl negeseuon yn unol ag arweiniad a gwaith a ddatblygwyd drwy grwpiau rhanbarthol GwE.

Mae archwiliadau yn nhymor yr Haf a'r Hydref wedi bod yn fodd i weld y sefyllfa o ran niferoedd yn CA4. Wrth drafod a chymharu â thueddiadau cenedlaethol, gwelir darlun tebyg i'r hyn sydd yng ngweddill y wlad.

Mae IRh yn dal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rhennir strategaethau ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo ieithoedd yn ysgolion GwE yn rheolaidd. Crëwyd Teams Uwchradd ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer y rhwydwaith cyfan i'w ddefnyddio gan ymarferwyr ITM GwE fel fforwm i drafod, rhannu adnoddau a syniadau am y gwahanol agweddau ar ddysgu ac addysgu ieithoedd mewn ysgol. Mae'r fforwm wedi helpu i gyfathrebu'n gyflymach efo rhai athrawon.

Cymorth/rhwydwaith ANG

Cyfarfodydd rhwydwaith ANG rheolaidd i ITM - trefnwyd 3 cyfarfod ANG gyda niferoedd da ynddynt. Datblygodd 7 o athrawon hyder a hyfedredd yn eu harferion. Mae athrawon wedi elwa o'r rhwydwaith i rannu syniadau a chefnogi'r naill a'r llall.

Cefnogi cyfarfodydd Cynghrair a chlwstwr/datblygu adnoddau

Bu arweinwyr Hwb ac athrawon GwE yn cydweithio i greu 18 tiwtorial i gefnogi gwaith adolygu CA4 i bob ysgol yn y rhanbarth mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Mae gan bob ysgol yn y rhanbarth fynediad atynt ac yn gallu eu defnyddio fel adnoddau dysgu cyfunol. Mae hyn hefyd wedi darparu adnoddau ar gyfer cymorth ysgol i ysgol.

Gwaith i leihau ymleiddio ieithoedd

Rhoddir sylw i IRh yn rheolaidd mewn trafodaethau cefnogol ac mae ceisiadau gan Benaethiaid am gymorth yn codi. Trafodir y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn ysgolion ac ystyrir ei bod yn cyd-fynd â gweledigaeth CiG. O ganlyniad, mae'r Consortiwm wedi helpu i ddatblygu ac wedi bod yn rhan o sesiynau rheolaidd am IRh drwy Teams Trafod Addysgeg. O ganlyniad, mae hyn yn codi proffil a phresenoldeb IRh yn y cwricwlwm ac yn rhoi modd i ymarferwyr ddatblygu eu harferion a chymryd rhan mewn sgysiau proffesiynol buddiol.

Gweithio gyda Cymwysterau Cymru i ddatblygu gwahanol fathau o arholiad/achrediad.

Drwy gymryd rhan yn y Gweithgor Lefel Pynciol (SLWG) ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol (Tach21-Meh22) bu modd cydweithio i lywio cynigion ar gyfer y cynnwys lefel uchel ac asesu cymwysterau o fewn y maes pynciol (isafswm gofynion cymhwyster).

- 5 allbwn yn cael eu datblygu ar gyfer ymgynghori.
- Myfyrio ar y ddarpariaeth bresennol
- Cynigion ar gyfer pwrpas, nodau ac amcanion cymwysterau
- Cynigion ar gynnwys
- Cynigion ar Asesu
- Effaith a rheoli newid

Cydweithio ar draws consortia

Drwy gydweithio a gweithio'n rheolaidd ac yn effeithiol gydag Arweinwyr eraill, bu modd rhannu a chynnig DP mwy effeithiol a chadarn (rhannwyd gweminarau/recordiadau). Datblygwyd gwaith gydag Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a Trafod Addysgeg ac o ganlyniad, mae'r negeseuon yn gyson a'r rhwydwaith yn ehangach.

CALU - LIDCD

Cefnogi datblygiad proffesiynol cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

Darparwyd yr hyfforddiant hwn eleni yn gyfan gwbl ar ffurf rhestr chwarae cenedlaethol ar sail 4 Modiwl drwy Hwb. Cofrestrwyd 77 cymhorthydd ar yr hyfforddiant Ymsefydlu yn ystod y flwyddyn 2021-22. Mae 47 cymhorthydd wedi cwblhau'r pedwar modiwl hyd yn hyn. Drwy'r rhaglen hon gwelwyd cynnydd mewn sgiliau digidol cymorthyddion a'u defnydd o'u cyfrif Hwb gan ei bod yn raglen drwy restr chwarae digidol dros 4 modiwl.

Cefnogi datblygiad proffesiynol cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith

Bu i'r rhaglen hyfforddiant yma gael ei rhewi o Fawrth 2020 hyd at ddiwedd yr Haf 2021 oherwydd pandemig Covid. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'n Grŵp LIDGA Cenedlaethol ar y ffordd ymlaen gan addasu'r rhaglen hon ar gyfer ei chyflwyno yn rhithiol yn y lle cyntaf, gan gyflwyno'r rhaglen yn ddigidol. Bu i ni ail ddechrau'r rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer cymorthyddion addysgu profiadol y rhanbarth yn ystod tymor yr Hydref 2021 a thros dymor yr hydref 2021 a thymor y Gwanwyn 2022 bu i 23 cymorthydd addysgu gymryd ran yn y rhaglen. Trwy ddilyn y rhaglen hon bu i'r cymorthyddion addysgu ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Cynorthwyo Addysgu. Wrth i gyfyngiadau Covid iacio, sicrhawyd pedair canolfan hyfforddi clwstwr newydd er mwyn darparu'r hyfforddiant ar lefel lleol (wyneb yn wyneb, digidol a chyfuniad) gyda chyfanswm o 62 cymorthydd. Fel canlyniad i'r rhaglenni hyn, gwelwyd cynnydd pellach yn niferoedd ymgeiswyr o safon uchel sy'n gwneud cais am fynychu hyfforddiant Darpar CALU.

Cefnogi datblygiad proffesiynol cymorthyddion addysgu profiadol drwy weithredu'r rhaglen Darpar CALU

Cynhelir y rhaglenni Darpar CALU cyfrwng Cymraeg ar-lein yn genedlaethol gyda'r consortia eraill oherwydd niferoedd cymharol fychan, tra cynhelir yr hyfforddiant cyfrwng Saesneg ar y cyd gyda chonsortium Partneriaeth. Yn ystod y flwyddyn darparwyd cyfleoedd addysgu proffesiynol ar gyfer darpar CALU drwy Gylch 2, 3 a 4. Darparwyd hyfforddiant ar gyfer 52 cymorthydd ar y rhaglen Darpar CALU Cylch 2, gyda 50 ohonynt wedi cwblhau y rhaglen hyfforddi gyflawn, sef 8 sesiwn ddigidol.

Dechreuodd Darpar CALU Cylch 3 ym mis Medi 2021. Cafwyd 50 cais gan dderbyn 47 ohonynt. Cynhaliwyd sesiwn dechnegol cyn cychwyn y rhaglen, er mwyn sicrhau fod y cymorthyddion yn gyfforddus wrth ddefnyddio TEAMS. Bydd y rhaglen yn gorffen ddechrau Ebrill 2022, a bydd asesiadau statws CALU Cylch 3 yn cael eu cynnal rhwng Mai 23 a Mehefin 17, 2022.

Mae 33 cymorthydd wrthi'n cwblhau Darpar CALU Cylch 4 gyda'r rhaglen yn rhedeg rhwng Ionawr a Mehefin 2022. Roedd safon y ceisiadau yn uwch yn gyffredinol, ac roedd ansawdd a gwell dyfnder yn eu myfyrdodau ynghylch pam mai statws CALU yw eu cam nesaf.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwylyswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a sut i'w defnyddio yn eu rôl o ddydd i ddydd. Mae ganddynt hefyd well dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd bod eu mewnbwn i drafodaethau yn broffesiynol ac yn frwdfrydig o ran datblygu CiG yn eu hysgolion. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda'r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr gyda hyn. Mae amryw o'r cymorthyddion wedi mynychu rhaglenni blaenorol o'r Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu e.e. Ymsefydlu a Chymorthyddion wrth eu Gwaith.

Cefnogi cymorthyddion addysgu profiadol drwy'r broses o dderbyn asesiad a statws CALU

Yn dilyn mynychu hyfforddiant Darpar CALU Cylch 2, bu i 67% o'r mynychwyr wneud cais am asesiad statws CALU. Dyfarnwyd fod 29/30 cymorthydd wedi bodloni'r gofynion. Effeithiwyd ar allu 33% ohonynt i fynd ymlaen am asesiad oherwydd naill ai nad oedd modd iddynt gael digon o brofiad addysgu dosbarth, oherwydd effaith Covid ar ysgolion, effaith salwch neu oherwydd na fu iddynt lwyddo i ennill cymhwyster Llythrennedd/Rhifedd lefel 2 mewn pryd. Bydd y rhain yn derbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 3 neu 4.

Cynhaliwyd sesiynau diweddarau gorfodol ar gyfer aseswyr cyn pob cylch asesu er mwyn sicrhau cysondeb yn y drefn ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol. Hyfforddwyd 18 o aseswyr newydd yn ystod y flwyddyn, sy'n rhoi cyfanswm o 35 aseswr - 30 aseswr Cynradd, 0 Uwchradd a 5 Aseswr ar gyfer y sector Arbennig. Cynhaliwyd sesiynau cymedroli rhanbarthol a chenedlaethol. Trwy'r rhain fe sicrhawyd ansawdd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ymgeiswyr, ynghyd a'r prosesau asesu a ddilynwyd gan yr aseswyr.

Darpariaeth ychwanegol

Crëwyd hyfforddiant cenedlaethol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cymorthyddion yn dilyn cais gan y grŵp Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod tymor yr haf 2022. Erbyn Mawrth 2022 roedd 1884 aelod o'r Dosbarth Google ar gyfer Cymorthyddion. Caiff adnoddau a gwybodaeth eu diweddarau'n rheolaidd. Cynhaliwyd sesiwn Dathlu Llwyddiant CALU Cylch 2 yn genedlaethol (20 yn mynychu o GwE), a sesiwn Datblygu CALU rhanbarthol (59 yn mynychu o GwE).

Parhau i ddatblygu tîm hyfforddi'r LIDCA

Cynhaliwyd 2 gyfle ar gyfer datblygu a diweddarau hyfforddwyr presennol. Hefyd llwyddwyd i recriwtio a hyfforddi 2 hyfforddwr newydd cyfrwng Cymraeg i hwyluso'r Llwybr uchod. Mae uwch-sgilio y tîm hyfforddi hyn wedi sicrhau ddarpariaeth o ansawdd a gaiff ei gyflwyno mewn dull cyson ar draws y rhanbarth.

Y Gymraeg

Gwaith clwstwr

- **Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg**
- **Datblygu sgiliau iaith y gweithlu**

Mae cyllid ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn anffurfiol a datblygu sgiliau iaith Cymraeg y gweithlu yn cael ei ddarparu yn flynyddol, ers 3 mlynedd, yn uniongyrchol i'r clystyrau er mwyn cefnogi ysgolion i gynnal gweithgareddau sy'n rhan o'r Siarter Iaith ac er mwyn gallu cefnogi unrhyw staff i ddatblygu ei sgiliau ieithyddol personol ar y lefel briodol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd, adeiladol gyda swyddogion awdurdodau lleol er mwyn cyd-weithio ar y gefnogaeth i ysgolion. O ganlyniad, mae cytundeb ar yr egwyddorion ar gyfer rhaglen waith y cydlynwyr clwstwr er mwyn cynllunio ar gyfer cyllid grant y Gymraeg. Mae hyn wedi arwain yn llwyddiannus at gysondeb gweithredu ar draws y gogledd.

Mae'r cydlynwyr yn cynllunio yn bwrpasol ac yn diweddarau taenlen 'dangosfwrdd' ar gyfer cyllid y Gymraeg mewn ymgynghoriad â Swyddogion yr Awdurdodau er mwyn coladu'r wybodaeth cynllunio, costau ac adrodd ar gynnydd. O ganlyniad i'r cyd-weithio agos, mae'r broses yn mynd rhagddo yn hwylus a phwrpasol gyda chyllid wedi'i ddyrannu i'r 54 clwstwr yn 2021-22. Mae'r cydlynwyr yn adrodd ar gynnydd ac effaith y gwaith mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ac yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gallu enghreifftio arferion da ac adnabod camau datblygu nesaf.

Siarter iaith

Mewn ambell glwstwr, mae'r hyn gynlluniwyd wedi cael ei addasu yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i heriau staffio neu oherwydd nad oedd modd gweithredu yn ôl yr hyn fwrriadwyd. Fodd bynnag, mae enghreifftiau gwerth chweil lle mae dysgwyr wedi cael profiadau cyffrous o fod yn cynllunio a pharatoi ar gyfer datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg e.e. cydweithio efo llu o artistiaid wrth wneud amrywiol weithgareddau fel cyfansoddi anthemau ysgol a chreu hen alawon newydd, gemau iaith, creu podlediadau er mwyn dathlu'r ardal leol. O ganlyniad, mae wedi arwain at ddyfnhau'r ymdeimlad o falchder yn yr hunaniaeth Gymreig ac ysgogi defnydd o'r iaith llafar. Mae yna enghreifftiau yn ogystal o gyd-weithio llwyddiannus rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd gydag adran Cymraeg yr ysgol uwchradd yn gosod heriau cerddorol i ysgolion cynradd y clwstwr. Mae'r cydlynwyr yn y broses o ddiweddarau'r wybodaeth am gynnydd ac effaith ar eu 'dangosfwrdd' clwstwr gan ystyried y camau nesaf ar gyfer cynllunio ar gyfer cyllid 2022-23.

Datblygu sgiliau iaith y gweithlu

Derbyniwyd data gan y Ganolfan Iaith Genedlaethol o ran hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg (Rhan 1 a Rhan 2 tua 5 awr yr un). Mae 94 wedi cofrestru; 52 wedi cwblhau Rhan 1 (uned 1 – 5); a 43 wedi cwblhau Rhan 2 (uned 6 – 10).

- Cynlluniau Sabothol – mae cwrs Cymraeg mewn blwyddyn yn cael ei gynnig mewn 2 ran yn y Gogledd eleni.
- 12 wedi cwblhau Rhan 1 (Medi – Rhagfyr)
- 9 wedi parhau i Rhan 2 (Ionawr – Ebrill) ac 8 ychwanegol wedi ymuno efo nhw.
- 5 ar y rhestr aros ar gyfer Rhan 2.

I grynhoi:

- 12 ar y cwrs Sylfaen (rhan 1)
- 17 ar y cwrs Canolradd (rhan 2)
- 20 unigolyn yn cael mynediad i'r cyrsiau efo 5 wrth gefn

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, mae'r Cwrs mewn Blwyddyn wedi cael ei gynnig i'r ysgolion ar gyfer y flwyddyn addysgol nesaf. Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda Canolfan Bedwyr a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg (Prifysgol Bangor) er mwyn hyrwyddo cyrsiau sydd eisoes ar waith ac i gyd-weithio ar ddatblygu cyrsiau penodol i Awdurdodau neu i ymarferwyr addysg e.e. cwrs i gymorthyddion dysgu. Mae'r angen i dargedu'r sector

uwchradd yn cael ei drafod ymhellach gan fod bwlch yn y ddarpariaeth honno.

Cefnogaeth i staff GwE

Mae 8 aelod o'r tîm wedi bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant dysgu Cymraeg gan wneud Uned 5 o'r cwrs Canolradd, ac yn ymarfer at yr arholiad. Mae 4 wedi ymrwymo â'r Cynllun Siarad trwy'r Ganolfan Genedlaethol sef sesiynau i gael cyfle i sgwrsio gyda partneriaid o fewn GwE yn Gymraeg am awr yr wythnos, fel arfer am oddeutu 10 sesiwn. Mae cais newydd ei gyflwyno 'Cymraeg Gwaith' am fynediad i hyfforddiant pellach drwy'r cynllun.

Ein Llais Ni

Prosiect cyd-weithredol (wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru) yn datblygu arferion a strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhwng ysgolion GwE, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill. Bwriad y prosiect yw:

- Canolbwyntio ar ddatblygu llafaredd Cymraeg dysgwyr mewn cyd-destun cyfoes sy'n berthnasol i Gymru
- Plethu strategaethau addysgu llafaredd traddodiadol gyda strategaethau digidol
- Rhoi'r pwyslais ar gynnig profiadau 'byw' sy'n berthnasol i fywyd go-iawn
- Datblygu addysgeg sy'n plethu'n naturiol i egwyddorion cynllunio a gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru
- Datblygu athrawon fel ymchwilwyr gweithredol - myfyrion ar ymchwil gyfoes, modelu'r strategaethau ar waith ac arfarnu llwyddiant
- Athrawon yn rhannu astudiaethau achos o'r hyn sydd wedi ei gweithio'n dda
- Cynhyrchu gwerthusiad o'r prosiect a chyfeirlyfr i athrawon gan ymchwilwyr o Brifysgol Bangor
- Datblygu pecyn cefnogol ar gyfer dysgu proffesiynol

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys cynrychiolaeth o UDA GwE, Tîm Prosiect Ein Llais Ni, Pennaeth o'r sector cynradd ac uwchradd, Prifysgol Bangor, yr Academi Arweinyddiaeth, Awdurdodau Lleol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae'n cyfarfod yn chwarterol er mwyn gosod cyfeiriad strategol i gefnogi'r prosiect a sicrhau gweithrediad effeithiol o flaenoriaethau'r prosiect. O ran y broses, gofynnwyd i ysgolion wneud cais i gael eu derbyn ar y prosiect, cwblhau holiadur o fan ffocws eu ymholiad, mynychu'r gynhadledd er mwyn derbyn cefndir i'r gwaith, mynychu rhwydweithiau a sesiynau i ddatblygu eu gwybodaeth a rhannu arferion, rhannu holiadur gyda'u dysgwyr ac ymchwilio a threalu'r strategaethau yn eu ddsbarth. Er mwyn sicrhau ymrwymiad, eglurder o ran cyfeiriad y gwaith a chefnogaeth rydym wedi cynnig cyswllt cyson gydol y prosiect ac mae ysgolion wedi ymateb yn llwyddiannus i hynny ac yn trafod eu gwaith gyda brwdfrydedd. Rhoddwyd cyfle i bob ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog y Rhanbarth fod yn rhan o'r Prosiect, a cafodd y 100 o ysgolion a ymgeisiodd eu derbyn.

Ymrwymiad i'r sesiynau:

Rhanbarthol	Pryd?	Unigolion	Ysgolion	Canran ysgolion
Cynhadledd	Medi	22	16	76%
Ar Alw 1	Tachwedd	9	5	
Rhwydwaith 1	Tachwedd	15	11	85%
Ar Alw 2	Rhagfyr	2	2	
Rhwydwaith 2	Chwefror	16	11	85%
Ar Alw 3	Mawrth	4	4	
Gweithdy Digidol 1	Mawrth	15	11	
Gweithdy Digidol 2	Mawrth	11	9	
Rhwydwaith 3	Mawrth	11	9	69%

Mae amgylchiadau heriol iawn o ran staffio wedi golygu nad ydy pob ysgol wedi gallu ymrwymo fel yr oeddent wedi fwriadu am eleni, ond bwriad y Tîm Prosiect ydy i'w cynnwys yn ngwedd 2 y gwaith pan ddaw'r prosiect yn ei ffurf presennol i ben.

Mae'r athrawon sydd wedi ymrwymo i'r prosiect yn datblygu yn effeithiol fel athrawon sy'n ymchwilwyr gweithredol ac yn dechrau rhannu eu canfyddiadau hyd yma. Maent oll yn gweithio tuag at cyflwyno astudiaeth achos erbyn diwedd tymor yr Haf 2022 yn manylu ar lwyddiant strategaethau i hyrwyddo a hybu sgiliau llafar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r rhwydwaith wedi cael cyfleoedd i rannu eu profiadau a'r adborth yn gadarnhaol o ran effaith cynnar treialu'r strategaethau yn eu dosbarthiadau. Maent wedi gwerthfawrogi clywed gan ysgolion eraill gan gynnwys derbyn syniadau a'u haddasu i'w dosbarthiadau.

Mae anogaeth cyson drwy'r prosiect i athrawon rannu unrhyw adnoddau neu wybodaeth sydd wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn cefnogi aelodau eraill y prosiect ac o ganlyniad, amlygwyd fod un athrawes o ysgol gynradd ym Môn â chefnidir yn y maes o ddatblygu llafaredd ac mae bellach wedi cyflwyno sesiwn yn y rhwydwaith ddiweddaraf ar strategaethau i datblygu sgiliau gwrando a chefnogi plant mewnblyg neu sydd ag anhwylderau iaith neu ADY.

Mae GwE a Phrifysgol Bangor wedi cyd-weithio yn datblygu adnoddau cefnogol cynhwysfawr iawn i'r athrawon er mwyn eu cynorthwyo gyda'r ymchwil. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwefan Ein Llais Ni – holl gyflwyniadau o'r gynhadledd lansio gychwynnol, papurau a dogfennau ymchwil, enghreifftiau o arfer lwyddiannus, awgrymiadau ar gyfer addysgu a dysgu, mynediad i Drysorfa Llais 21 (CCD), astudiaethau achos, enghreifftiau o raglenni ac apiau digidol ar gyfer hybu gwaith llafar ayyb
- Podleisiau – cyfres o sgysiau yn ymwneud â llafaredd a dwyieithrwydd
- Newyddlenni – rhannu diweddariadau er gyda'r ysgolion ar unrhyw ddatblygiadau gan gynnwys ymateb i gwestiynau ac enghreifftiau gan ysgolion
- Gweminarau – cyfres o sesiynau sy'n hybu'r defnydd o arfau digidol i gefnogi a chyfoethogi gwaith llafar
- Rhwydweithiau – cyfle i rannu gwybodaeth a phrofiadau gydol y flwyddyn
- Sesiynau Ar Alw – cyfnod anffurfiol i unrhyw ysgol sy'n rhan o'r prosiect i'w fynychu er mwyn trafod eu gwaith a derbyn diweddariadau
- Ymchwil – mewnbwn gan ymchwilwyr profiadol i'r ymchwil cysylltiedig ac unrhyw argymhellion defnyddiol i gefnogi dewisiadau'r athrawon wrth gynllunio ar gyfer y gwaith.

O'r cyswllt uniongyrchol gydag athrawon sy'n rhan o'r prosiect naill ai mewn galwadau ffôn/Teams ymgysylltiol, mewn cyfarfodydd ar alw neu ystafelloedd trafod yn y rhwydweithiau, nodwyd fod bod yn rhan o'r prosiect wedi caniatáu ffocws benodol a llwyddiannus ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando Cymraeg, sydd wedi gweld dirywiad yn dilyn y cyfnodau clo, a bod cynllunio'n fwriadus ar gyfer cynnydd yn y sgiliau hynny'n dechrau dwyn ffrwyth yn enwedig o ran brwdfrydedd a hyder tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r prosiect hefyd wedi codi hyder yr athrawon i fod yn datblygu dulliau digidol, mwy cyfoes i ddatblygu sgiliau llafar sy'n cyplysu yn effeithiol gyda'r broses asesu ffurfiannol, yn enwedig yr agwedd o fyfrio ar waith a gwella ansawdd y siarad. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn dangos brwdfrydedd tuag at gwblhau eu tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyswllt cryf rhwng y prosiect a pharatoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac mae'r agwedd Gymreig, lle mae anogaeth i ysgolion gynnig profiadau 'byw' yn rhoi pwrpas a chyd-destun lle mae'r dysgwyr yn gweld yr iaith y tu hwnt i furiau'r dosbarth ac yn weithredol yn eu cymuned. Mae'r gweminarau digidol wedi arfogi'r athrawon yn effeithiol gyda syniadau ar gyfer cynllunio i gyfoethogi'r gwaith llafar gan ddefnyddio rhaglenni neu apiau perthnasol ac wedi cynnig awgrymiadau a syniadau ar gyfer gwella ansawdd y siarad a'r gwrando.

Datblygu Partneriaethau

Mae cyfarfodydd cynllunio wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau sydd wedi arwain at rymuso'r cyd-weithio a rhannu adnoddau ymhellach gan amlygu'r anghenion ar draws yr awdurdodau. Yn ogystal, mae'r cydweithio wedi bod yn effeithiol o ran rhannu gwybodaeth a dulliau gweithredu ar draws awdurdodau er mwyn lleihau baich cynllunio. Mae amserlen yn ei le ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn ac mae hyn wedi arwain at sicrhau fod llif yr wybodaeth yn gyson ac fod dealltwriaeth gytûn o'r hyn sy'n digwydd yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae YCG cyswllt y Gymraeg yn parhau i fynychu fforymau lleol e.e. CSGA, Fforymau Iaith, cyfarfod swyddogion i wyntyllu anghenion lleol.

Mae partneriaeth gryf iawn gyda Phrifysgol Bangor wrth baratoi a chynllunio ar gyfer 'Ein Llais Ni' sydd wedi arwain yn effeithiol at gynllunio gynhadledd amrywiol a phwrpasol yn seiliedig ar ymchwil.

Mae'r cyfarfodydd misol rhwng y rhanbarthau a Llywodraeth Cymru yn gyfle i wyntyllu unrhyw ddatblygiadau ac anghenion penodol cyffredin.

LEFEL A

Sicrhau bod gan pob Arweinydd Chweched Dosbarth fynediad at hyfforddiant arweinyddiaeth priodol a grymus i'w harfogi â'r sgiliau i arwain eu Chweched Dosbarth i lefelau uwch o lwyddiant.

Llwyddwyd i symud y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 Genedlaethol i fformat ar-lein. Roedd y nifer a gofrestrodd yn genedlaethol yn uchel (gan gynnwys 10 o ranbarth GwE). Bu'r sylwadau gan yr aelodau ar ddiwedd

y rhaglen yn galonogol iawn. Ni fu cynhadledd arweinyddiaeth oherwydd cyfyngiadau Covid a'r heriau sy'n wynebu ysgolion.

Cefnogi gwaith monitro cynnydd yn Safon Uwch/BTEC/THS drwy ddefnyddio ALPs yn rhanbarthol.

Defnyddiwyd ALPS gan rai ysgolion. Er hynny, yn sgil arholiadau yn 2021, prin iawn y defnyddiwyd yr adnodd hwn.

Parhau i ddatblygu arfer dda wrth ddatblygu dysgu annibynnol, i gefnogi datblygiad y sgiliau hyn yn y Flwyddyn 12 nesaf yn benodol yn sgil y tarfu ar eu dysgu.

Cynhaliwyd tair sesiwn VESPA yn nhymor yr Hydref yn rhanbarthol. Rhannwyd a dosbarthwyd holl adnodau dysgu o bell CBAC ar gyfer Safon Uwch â phob ysgol yn y rhanbarth. Mae'r adborth yn gadarnhaol.

Ehangu rhaglen addysgu rithiol e-ysgol ar draws pob ysgol yn y rhanbarth.

Parhau i gefnogi'r chwe ysgol beilot e-sgol ac ehangu eu cwricwlwm ym mlwyddyn 12:

Trefnwyd amserlen a phynciau newydd efo'r chwe ysgol ac mae'r darparwr allanol, Mudiad Meithrin, yn darparu'r cwrs Cam wrth Gam hefyd.

Trefnu a gweithio gyda'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol a'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol i weithredu, a fydd yn codi yn sgil cyfarfod â chyfarwyddwyr ALL y chwe awdurdod i dynnu themâu cyffredin.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ar draws y chwe awdurdod. Cyfarfu'r bwrdd strategol eto a datblygir hyn ymhellach tymor nesaf. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhanbarthol i ddatblygu gwaith gyda'r bwrdd gweithredol rhanbarthol yn ogystal â phrosiectau peilot posibl eraill.

Parhau i ddatblygu rhwydweithio ar draws fforymau rhanbarthol ar lefel Penaethiaid Chweched Dosbarth, a hynny yn yr wyth pwnc mwyaf poblogaidd

Adnabod ysgolion sydd â dysgwyr sy'n perfformio'n gryf a dysgwyr sy'n cyflawni'n dda, a rhannu arferion da ar sail ysgol-i-ysgol

Cynhaliwyd fforymau i arweinwyr ôl-16 gyda thri/pedwar cyfarfod ar draws y flwyddyn. Ni fu rhwydweithiau pynciol; bydd y rhain yn ail-gychwyn yn nhymor yr Haf.

YMCHWIL A GWERTHUSO

Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn efo'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Warwick i hyrwyddo defnyddio dulliau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion. Mae'r tri phrosiect isod, a ariennir gan GwE, yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ac yn hyrwyddo defnyddio strategaethau fwy seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion i wella deilliannau dysgwyr. Rydym hefyd yn gweithio ar hybu cysylltiadau fwy cadarn rhwng ymchwilwyr addysg mewn SaAU ac ysgolion, er mwyn sicrhau trosglwyddo gwybodaeth drwy gyfrwng yr 'hwyluswyr' drwy weithgareddau ailadroddol (Gorard, 2020).

Dyma'r gwaith ymchwil ac arfarnu sydd ar y gweill eleni:

1. Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith ac Ymchwil Plentyndod: Roedd prosiectau penodol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol/Hyrwyddo defnyddio mwy o strategaethau sydd â thystiolaeth yn sail iddynt ar draws rhanbarth GwE/Hybu cysylltiadau cryfach rhwng ymchwilwyr addysg mewn SAU ac ysgolion, er mwyn sicrhau trosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel drwy gyfrwng yr 'hwyluswyr' drwy weithgareddau ailadroddol (Gorard, 2020)
2. Clystyrau Ymchwil CIEREI
3. Rôl strategol mewn datblygu model Canolfan/Sefydliad Ymchwil yng Nghymru
4. Clystyrau Ymholi AGA
5. Uwch arweinwyr/Cyllid Rhaglen Feistr
6. Dysgu Proffesiynol
7. Prosiectau ymchwil rhanbarthol

Cyfeirier hefyd at y Cynllun Busnes Ail-gydio mewn dysgu am fwy o fanylion am brosiectau penodol.

Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2

Mae ein prosiect RILL cydweithredol yn enghraifft lwyddiannus o sut mae ymchwilwyr CIEREI a swyddogion GwE yn gallu cydweithio i greu ymyrraeth arloesol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu dysgwyr, yn enwedig i gefnogi sgiliau

yn y Gymraeg.

Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamsol/anghydamsol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020, ac mae'r rhain bellach yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig i'w defnyddio yn y dosbarth a hefyd i rieni a gofalgwyr. Ym mis Mehefin 2021 anfonwyd gwahoddiad i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr Haf a'r Hydref 2021.

Hyfforddwyd yr ysgolion i ddefnyddio RILL yn nhymor yr Hydref 2021. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn, rydym yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol ar hyn o bryd i gefnogi athrawon. Rydym hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (er enghraifft, tiwtorialau a fideos esboniadol), holi cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau efo'r tîm ymchwil/athrawon eraill. Mae'r tîm ymchwil hefyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth dilynol ar-lein mewn grwpiau bach. Mae'r tîm ymchwil hefyd wrthi'n helpu ysgolion i gynnal profion gwaelodlin er mwyn cael data effaith ar gyfer RILL. Cynhelir profion dilynol yn ystod tymor yr Haf. Yn ystod tymor y Gwanwyn, mae'r tîm ymchwil wedi canolbwyntio ar ddarparu cymorth parhaus i'r rheiny gafodd hyfforddiant yn ystod tymor yr Hydref. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn i aelodau staff newydd o'r ysgolion hyn, maent hefyd yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol a chymorth unigryw i bob ysgol yn unigol. Yn ogystal â rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gwybodaeth a deunyddiau hyfforddiant, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau, crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogol i ysgolion, athrawon a rhieni. Ar y wefan ceir hefyd deunyddiau newydd i rieni eu defnyddio gartref gyda'u plant. Bwriedir i'r deunyddiau hyn gael eu gosod yn waith cartref gan yr athro ac maent yn cynnwys disgrifiadau Saesneg i rieni di-Gymraeg, yn ogystal â fideos i gefnogi darllennwyr llai hyderus. Mae'r tîm ymchwil hefyd wedi datblygu a pheilotu batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL ac mae'r tîm wrthi'n datblygu modiwl bach ar-lein ar gefnogi plant sydd ag anawsterau llythrennedd yn y dosbarth gan ddefnyddio technoleg. Yn y modiwl, rhoddir sylw i'r sgiliau gwaelodol sy'n cefnogi datblygiad llythrennedd a sut i gefnogi'r sgiliau hyn yn y dosbarth gan ddefnyddio technoleg Saesneg a Chymraeg. Bydd y modiwl ar gael i addysgwyr ar Blackboard maes o law.

Prosiect Doethuriaeth cydweithredol ar Dysgu Manwl a SAFMEDS

Bu ein gwaith ymchwil rhifedd SAFMEDS yn rhan arloesol a hynod lwyddiannus o'n darpariaeth CIEREI gydweithredol. Atgyfnerthwyd y gwaith hwn mewn ysgolion drwy gyfrwng cymorth gweithredu parhaus, gwefan SAFMEDS newydd ac wrth benodi myfyriwr Doethuriaeth SAFMEDS newydd i barhau â'r gwaith hwn a'i ymestyn.

Hyd yma, mae'r adnoddau SAFMEDS a ganlyn wedi'u creu a'u rhannu ag ysgolion:

- Bu sesiynau galw heibio ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth, ar gais
- Darparwyd hyfforddiant unigryw i ysgolion rhanbarthol ac UCD
- Hyrwyddo SAFMEDS drwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE
- Creu adnoddau dwyieithog fel a ganlyn:
 - Tiwtorial SAFMEDS ar-lein (lansiwyd)
 - Gwefan unigryw SAFMEDS ar-lein (lansiwyd)
 - Hyfforddiant SAFMEDS diwygiedig ar gardiau gaiff eu dal â llaw (yn barod i'w lansio)
 - Cyflwyniad i hyfforddiant Dysgu Manwl (yn barod i'w lansio)
 - Cardiau SAFMEDS Cam Ychwanegol i roi sylw ehangach i'r Fframwaith Rhifedd (lansiwyd)
 - Comisiynwyd creu deunyddiau Dysgu newydd - gellir defnyddio'r rhain fel darpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol, gan dargedu ymarfer adalw rheolaidd a datblygu rhuglder. (yn barod i'w lansio)
 - Gweminar yn amlinellu diweddariadau wedi'i ffrydio mis Ionawr 22.

Mae Prifysgol Bangor wedi penodi myfyriwr Doethuriaeth i gyflwyno'r prosiect dros y tair blynedd nesaf. Y nod yw meithrin capasiti i GwE gefnogi ysgolion.

Ym mis Ionawr 2022 ail-lansiwyd prosiect SAFMEDS yn ffurfiol ochr yn ochr â'n gwefan SAFMEDS newydd, sy'n fodd i ddisgyblion feithrin rhuglder gartref neu yn yr ysgol. Rhyddhawyd gweminar hefyd gyda ffeiliau wedi'u diweddarau ar y ganolfan adnoddau, ynghyd â meddalwedd trwsio ar y wefan. Dyma'r ffigyrau gwyllo ar gyfer y wefan newydd:

- *Hyfforddiant cyfrwng Saesneg: 36 ymwel*

- *Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg: 21 ymweliad*
- Ers 14/03/22, gwelwyd cyfartaledd o 332.83 sgôr y diwrnod (amrediad: 300 i 931), gyda phob disgybl yn chwarae cyfartaledd o 3 i 4 'gêm' y diwrnod.

Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (i-FOR)

Mae ein gwaith Rhuglder Darllen hefyd yn rhan o'n darpariaeth arloesol, yn seiliedig ar dystiolaeth, a gyflwynir gan ymchwilyr CIEREI ar y cyd â staff GwE. Prif ffocws prosiect iFOR ers 2021 fu creu a threalu deunyddiau newydd ac unigryw, drwy gyfrwng y Gymraeg i gyd-fynd â'r deunyddiau Saesneg parod. Credwn fod y prosiect hwn yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth i wella rhuglder darllen i ddarllenwyr sy'n cael trafferth neu'n cychwyn arni.

Cofrestrodd 42 ysgol i gael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Mae 10 ysgol o ganlyniad wedi mynychu sesiwn holi ac ateb dilynol ar-lein. Gwahoddir pob ysgol yn awr i fynychu pedwar sesiwn gymorth i weithredu o bell ym mis Tachwedd 2021, Ionawr, Mawrth a Mai 2022, a gallant gysylltu â'r tîm ymchwil i gael unrhyw gymorth yn y cyfamser. Cynhaliwyd y cyntaf o'r sesiynau cymorth hyn ym mis Ionawr 2022. Mae datblygu'r deunyddiau Cymraeg ymhellach hefyd ar y gweill, gan eu gwneud yn gydnaws â'r deunyddiau Saesneg. Gwahoddir ysgolion hefyd i ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar yn ogystal â chadw golwg ar ddefnydd rhieni o'r deunyddiau rhuglder hyn gartref. Dyma niferoedd athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Mae dwy ysgol wedi mesur cynnydd gan ddefnyddio adnoddau sgrinio DIBELS ac mae un ysgol yn monitro cynnydd. Mynegodd chwe ysgol arall ddiddordeb mewn mesur cynnydd disgyblion gan ddefnyddio DIBELS. Gwahoddir ysgolion ychwanegol i gymryd rhan yn y prosiect yn nhymor yr Haf. Erbyn hynny bydd banc cyflawn o hyfforddiant a gweminarau cymorth wedi'u recordio ar gael.

Gwella Safonau drwy Adolygu Effeithiol (iStER)

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil Doethuriaeth hon yn ei thrydedd flwyddyn, y flwyddyn olaf (2020-21), ac mae'r myfyriwr wrthi'n llunio papurau i'w cyhoeddi, yn canolbwyntio ar ddefnyddio strategaethau ymarfer adalw ac ymarfer profi. Mae'r myfyriwr bellach wedi cyflwyno cynnig i barhau â'r gwaith hwn gydag ystod o ysgolion uwchradd mewn cymunedau mwy difreintiedig.

Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L)

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil Doethuriaeth hon yn ei hail flwyddyn (2020-21), ac mae'r myfyriwr yn parhau gyda'i harfarniad o effaith strategaethau ysgol gyfan i gefnogi ymddygiad yn gadarnhaol mewn dwy ysgol sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig.

Prosiect Lles Cydweithredol Warwick

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil Doethuriaeth gydweithredol hon yn ei hail flwyddyn (2021-22), ac mae'r myfyriwr yn parhau gyda'i harfarniad o ddarpariaeth les ysgol gyfan. Cwblhawyd y prif dasgau a ganlyn:

- adolygiad systematig o'r ddogfennaeth ar ymyraethau a rhaglenni lles ysgol gyfan. Cyflwynwyd hwn i'w gyhoeddi.
- Arolwg rhanbarthol ar ddefnydd ysgolion o raglenni lles yng ngogledd Cymru.

Bydd y drydedd agwedd ar y prosiect hwn, sef yr agwedd olaf, yn dechrau yn nhymor yr Hydref 2021. Arfarniad fydd hwn o raglen les addawol ysgol gyfan o'r enw Connect. Gwneir y gwaith hwn ochr yn ochr â dau fyfyrwr Meistr newydd dan nawdd KESS ym Mhrifysgol Bangor, a bydd yn golygu arfarniad o Connect ochr yn ochr â chyfieithu fersiwn iaith Gymraeg.

Astudiaeth KiVa UK

Mae GwE yn gyd-ymgeisydd ar y prosiect ymchwil hwn ar raddfa fawr i arfarnu effaith rhaglen gwrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn atal y prosiect oherwydd pandemig COVID-19, mae 30 ysgol yng ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Dewiswyd 15 ohonynt ar hap i gael KiVa yn 2021-22, a'r 15 arall yn 2022-23. Cafodd yr ysgolion ymyrraeth hyfforddiant yn nhymor yr Haf 2021, ac maent wedi bod yn cyflwyno KiVa er mis Medi 2021.

Clystyrau Ymchwil CIEREI

Bu GwE yn gweithio efo Llywodraeth Cymru ar gam cychwynnol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) yn 2021, a lansiwyd hyn ym mis Gorffennaf 2021. Mae GwE wedi bod yn gweithio efo Llywodraeth Cymru i adnabod chwe ysgol yng Ngogledd Cymru i fod yn rhan o beilot 2021-22 y fenter hon i greu rhagor o ysgolion a lywir gan dystiolaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau ochr yn ochr â chydweithwyr o Brifysgol Bangor yn nhyrnor yr Hydref.

AGA

ANG

Cwblhawyd rhaglen Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol safonol i ANG gyda 321 o ANG GwE yn mynd i sesiwn 1 (92%) a 255 ANG yn mynd i sesiwn 2 (73%).

Bu presenoldeb yn y Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol (Sesiwn 3 - 6) yn gymysg oherwydd Covid a'r diffyg athrawon cyflenwi tymor byr sydd ar gael ar gyfer DP ar draws ysgolion. Rydym wedi ymateb i hyn drwy addasu'r Rhaglen DP i ANG a chynnig sesiynau yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol yn ogystal â recordio'r sesiynau hyn. Rhoddwyd y rhain ar lwyfan G6 ac ar wefan GwE. Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn am y pedair sesiwn a gyflwynwyd gan staff GwE.

- *'Bu pob sesiwn yn fuddiol. Er hynny, fe ddaru'r sesiwn Cwricwlwm i Gymru a sut i ddefnyddio'r camau cynnydd a sut mae'r pedwar diben wedi'u cynnwys yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gryfhau fy nealltwriaeth o'r CiG newydd'.*
- *'Darparwyd enghreifftiau o Brofiadau Dysgu Proffesiynol yn y sesiwn ac am beth mae gwirwyr allanol yn chwilio. Mae dolen at enghreifftiau wedi bod yn fodd i mi ysgrifennu fy Mhasbort Dysgu Proffesiynol a chael adborth rhagorol gan fy mentor.'*
- *Rydw i bellach yn treialu gwahanol ddulliau o AagD ar draws fy nosbarth. Rydw i bellach wastad yn meddwl am asesu ar gyfer dysgu a sut y gallaf ei wella yn fy nosbarth.*
- *Roedd y sesiynau ar reoli ymddygiad yn hynod o fuddiol a byddaf yn parhau i ddefnyddio hyn wrth i mi symud ymlaen.*
- *Bu pob sesiwn yn fuddiol i mi fel ANG. Buont yn llawn gwybodaeth ac yn werthfawr i fy natblygiad i fel ymarferydd. Mae'r sesiynau wedi rhoi syniadau ymarferol i mi allu'u defnyddio yn y dosbarth ac i werthuso fy arferion dysgu ac addysgu.*
- *Gwyliais y rhan fwyaf o'r arferion ar alw fel ysgol oherwydd nad oeddem ni'n gallu cael llanw i fy nosbarth oherwydd y dyddiadau gwahanol. Ond, mae'r sesiynau yr ydw i wedi llwyddo i ddal fyny â nhw wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac wedi dylanwadau'n bositif ar fy natblygiad proffesiynol.*
- *Mae'r sesiynau wedi helpu i glirio unrhyw gamsyniadau am ddisgwyliadau ANG ac wedi fy helpu i ddefnyddio strategaethau yn fy arferion gwaith. Cyngor ar gwblhau Profiadau Dysgu Proffesiynol a Lles disgyblion ac athrawon.*

Rhaglen Ddatblygu i Fentoriaid Sefydlu

Crëwyd tair sesiwn 2½ yr un gan y Grŵp Sefydlu Rhanbarthol gyda chymorth cydweithwyr AGG yn Aberystwyth, Bangor a Phrifysgol De Cymru. Yn genedlaethol, mae 738 o MS wedi bod mewn o leiaf un o'r sesiynau efo 223 yn dod o ranbarth GwE (30%).

Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y Mentoriaid Sefydlu newydd;

- *"Syniadau hyfryd i gefnogi lles ANG ac awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu adolygiad terfynol effeithiol."*
- *"Y cyfle i roi sylwadau ar sesiynau ANG flwyddyn nesaf, edrych ar enghraifft o adolygiad MS, cael dweud sut mae proffil da yn edrych"*
- *"Hyfforddiant buddiol diolch yn fawr. Braf cael y cyfle i wrando ar brofiadau mentoriaid eraill a diolchgar iawn o'r amser i ymholi cwestiynau ar y diwedd"*

Cynllun lleoli ANG Llywodraeth Cymru

Mae rhai ANG mewn lleoliad ysgol am y tymor/flwyddyn - mae'r symudiad arloesol hwn yn sicrhau eu bod nhw wedi gallu llwyddo i addysgu a chefnogi eu sefydlu. Mae dros 100 o ANG cynradd a 30 ANG uwchradd yn ysgolion GwE yn elwa o'r cynllun hwn gan LC. Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn unwaith eto gan Benaethiaid ac ANG.

Gwirwyr Allanol GwE

Mae nifer y Gwirwyr Allanol a gyflogir gan GwE yn dal yn eithaf cyson gyda rhyw 70 a charfan newydd yn cael ei recriwtio pob blwyddyn, yn bennaf drwy gwrs Arweinyddiaeth GwE i Reolwyr Canol. Yn 2021/22, trefnwyd nifer o sesiynau galw heibio i'r Gwirwyr Allanol gwestiynu a hefyd trafod materion penodol gyda Gwirwyr Allanol eraill yn ogystal â chydweithwyr GwE a'r ALI.

Cymraeg

Mae gwybodaeth myfyrwyr ac ANG o'r Gymraeg a Chymraeg o fewn Cwricwlwm i Gymru yn gwella yn unol â'r cynllun. Parheir i gydweithio â Phrifysgol Bangor i sicrhau bod addysgeg yn gwreiddio a bod disgwyliadau, yn enwedig o ran diwylliant ac etifeddiaeth Cymru, ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn cael sylw. Mae'r cwrs/llwybr TAR Cynradd cyfrwng Cymraeg yn gwbl weithredol.

Mae Ein Llais Ni, sef prosiect ymchwil cydweithredol yn seiliedig ar ymchwil, wedi'i gynllunio a'i weithredu'n dda. Cynhelir cyfarfodydd pob wythnos rhwng GwE a thîm ymchwil Prifysgol Bangor. Mae 100 o ysgolion cynradd ac uwchradd o bob ALI wrthi'n ymchwilio i addysgeg effeithiol i ddatblygu sgiliau siarad a gwranddo yn y Gymraeg. Bu bron i bob ysgol yn y Gynhadledd ac mae 60 yn ymwneud yn agos iawn ag agwedd ymchwil y prosiect drwy gwblhau holiaduron ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect, ac maent hefyd yn cyfrannu at drafodaethau rhwydwaith rheolaidd am yr hyn a ddatblygir. Mae'r tîm ymchwil yn gweithio'n agos gyda nifer penodol o ysgolion i werthuso effaith y strategaethau. Mae dau aelod staff o Brifysgol Bangor ar y Bwrdd Llywio ac felly yn cyfrannu at ddatblygiad strategol y prosiect. Mae tîm ymchwil Prifysgol Bangor wedi cynhyrchu drafft cyntaf llawlyfr cyfeirio ar ddatblygiad sgiliau llafaredd.

AGA

Mae cyfathrebu a gwefan wrthi'n cael eu diweddarau. Mae newyddlen a gweminar ar y gweill a darparwyr gwybodaeth i ysgolion ble'n briodol. Rhoddwyd gwybodaeth i'r YCG am y datblygiadau diweddaraf i ysgolion; byddir yn ail-ymweld â hyn yn fuan. Mae hyn wedi sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteision darpariaeth AGG lwyddiannus.

Mae dysgu proffesiynol ar y cyd wedi parhau ar draws y bartneriaeth ar sawl lefel, er enghraifft, drwy raglen feistr efo staff GwE/CaBan, hybu rhaglen feistr genedlaethol drwy gyfathrebu efo ysgolion drwy fwletin GwE, staff CaBan yn rhan o rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru, staff allweddol GwE yn mynd i ddigwyddiadau dysgu proffesiynol CaBan, staff GwE yn darparu dysgu proffesiynol i staff a myfyrwyr CaBan, cynllun dysgu proffesiynol ar y cyd.

Bydd staff GwE yn mynd i gyfarfodydd a HMS staff CaBan ble bo hynny'n briodol, a bydd staff CaBan yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol GwE - e.e. Shirley Clarke, cyflwynwyd sesiwn CiG gyda 2 o staff GwE (gan gynnwys Uwch Arweinydd) i staff CaBan, staff GwE yn cyflwyno ar raglenni BA a TAR. Mae cyfanswm o 24 o staff GwE wedi cynnig sesiynau:

- 2020-21: Cyflwynwyd 17 sesiwn.
- 2021-22: Cyflwynwyd 11 sesiwn.
- Hwyluswyd 10 sesiwn seminar.

Bydd staff perthnasol o GwE ac ysgolion yn mynd i gyfarfodydd strategol a sicrhau ansawdd efo CaBan. Mae staff GwE, ysgol arweiniol a CaBan wedi cydweithio'n ddiweddar ar gais i Cyngor y Gweithlu Addysg.

Gwella ansawdd a rhannu arferion llwyddiannus - datblygwyd cysylltiadau â llwybrau CD ar y cyd drwy ddsbarth CD, rhannu llwybrau at addysgu a diweddarau LIC drwy Addysgwyr Cymru. Cynlluniwyd a gweithredir gweithdrefnau sicrhau ansawdd CaBan - bydd hyn yn nodwedd yn 2022-23. Llwyddwyd i wella cysondeb rhanbarthol a chenedlaethol drwy gyfrannu at drafodaethau a chysondeb cenedlaethol drwy UCET, cyfarfodydd rhanbarthol y Brifysgol Agored, cyfarfodydd diweddarau a rhanddeiliaid Estyn, rhan o ymweliad Estyn â CaBan ac ymweliad ymgysylltu Estyn â CaBan yn chwarter 1, cyfraniad staff GwE at arolygiad AGG Prifysgol Metropolitan Caerdydd drwy gydol 2021-22 a bod yn rhan o dreial Estyn gyda'r Brifysgol Agored ym mis Hydref 2021.

Ail-ymweld â chynnig staff AGG i ddatblygu dealltwriaeth staff GwE o addysgeg i ddsygwyr hŷn/oedolion - mae hyn ar y gweill, bydd y sesiwn yn rhoi sylw i hyn yn rhan o addysgeg a dysgu 3-6 Cwricwlwm i Gymru.

Datblygu llwybrau newydd ar gyfer ADY i sicrhau bod y proffesiwn yn cael ei uwch sgilio ar gyfer y diwygio mewn ADY a sicrhau bod prinder athrawon yn y rhanbarth ar gyfer Darparwyr Dysgu Ychwanegol yn cael sylw - crëwyd gweithgor gyda chymorth gan ddwy ysgol arweiniol rhanbarthol. Ymgynghorwyd â LIC sydd yn gefnogol o'r llwybrau. Cyflwynwyd dau lwybr i Cyngor y Gweithlu Addysg i'w hysbysu gyda'r bwriad o uwch sgilio'r proffesiwn addysgu

yn gyffredinol, AGG ac ANG. Parheir i fodloni anghenion Deddf Diwygio ADY a'n dysgwyr mwyaf bregus, yn enwedig recriwtio i ysgolion arbennig, rhagor o weithio ar y cyd, a hynny dros y tymor nesaf ac i gynnwys staff perthnasol o CaBan, GwE, ysgolion, ALI ac AB i ddatblygu'r rhaglenni ymhellach.

DIGIDOL

Cadernid Digidol

Mae GwE wedi recordio a rhyddhau tair pennod sy'n rhan o gyfres o bodlediadau yn trafod cadernid digidol. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd 'Camwybodaeth', 'Aros yn driw i chi'ch hun ar-lein' a 'Chwarae gemau ar-lein'. Mae'r podlediadau wedi'u cydnabod yn genedlaethol, gyda Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio fel podlediad answyddogol i gefnogi eu tudalennau cymorth i ysgolion drwy wefan Hwb.

Datblygu Arweinyddiaeth Ddigidol

Mae'r rhaglen hwyluswyr digidol clwstwr wedi datblygu'n dda yn ystod chwarter 4. Rydym bellach wedi cyfarfod gyda'r hwyluswyr digidol 4 gwaith ac wedi rhannu banc o adnoddau defnyddiol er mwyn iddynt eu defnyddio i gefnogi ei gwaith yn y clwstwr. Mae'r 4 diwrnod wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Yr achos dros newid – pam fod dysgu digidol yn bwysig mewn addysg / cymdeithas / ein bywydau bob dydd?
- Creu gweledigaeth a rennir – datblygu cyd-gyfrifoldeb am ddysgu digidol yn y clwstwr
- Cynllunio yn strategol
- Hunan-werthuso
- Arddulliau arwain a sefydlu tîm effeithiol
- Addysgeg digidol effeithiol

Mae'r mwyafrif o'r clystyrau yn y broses o sefydlu gweithgor dysgu digidol yn eu clwstwr, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob ysgol. Mae rhai clystyrau wedi cyfarfod fel gweithgor nifer o weithiau yn barod ac wedi creu gweledigaeth a rennir yn y clwstwr. Mae rhai wedi mynd ymlaen i ffurfio cynllun strategol fydd yn helpu pob ysgol o'r clwstwr i ddatblygu ac i ymgorffori'r weledigaeth. Hyd yma mae 353 o athrawon wedi bod yn rhan o weithgaredd sy'n ymwneud a'r rhaglen. Nod y rhaglen yn ystod y tymor nesaf yr sicrhau fod pob clwstwr yn:

- Datblygu gweledigaeth a rennir ac yn creu cynllun strategol i ddatblygu pob ysgol sy'n seiliedig ar y weledigaeth
- Creu cynllun dysgu proffesiynol sy'n targedu anghenion y clwstwr
- Sefydlu'r gweithgor yn llawn gan sicrhau cyfathrebu cyson a phenaethiaid y clwstwr

Hwb

Mae'r data ynghylch y defnydd o Hwb yn y rhanbarth yn parhau i fod yn uchel. Roedd nifer cyfartalog ysgolion y rhanbarth a ymgysylltodd â Hwb yn ystod chwarter 4 yn 98.06%. Roedd y cyfartaledd ar gyfer pob mis fel a ganlyn:

- Ionawr – 98.17%
- Chwefror – 98%
- Mawrth - 98%

Mae data mewngofnodi Hwb dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos cynnydd yn y defnydd. Roedd y data yn amlwg am ddangos cynnydd dros y cyfnod clo ond mae'n dangos fod y defnydd o wasanaethau Hwb wedi cael ei gynnal yn dilyn dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnodau clo.

Nifer o fewngofnodion gan ddysgwyr y rhanbarth:

(Blynyddoedd ariannol)

2019/20 – 1,554,874 - Cyn y pandemig

2020/21 – 3,610,216 - Cyfnodau clo

2021/22 – 3,547,499 - Dychwelyd i'r ysgol

Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol

I gefnogi ysgolion gyda'u defnydd o Hwb, crëwyd cyfres o gyrsiau ar-lein sy'n canolbwyntio ar ddefnydd effeithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael; Google for Education, J2E, Flipgrid, Adobe Spark. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio ar sawl lefel i sicrhau bod defnyddwyr newydd a phrofiadol yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygu. Cynigir yr hyfforddiant hwn fel cwrs sydd ar gael yn ôl y galw er mwyn sicrhau bod athrawon a chynorthwyrwyr dysgu yn gallu ymgysylltu ar amser sy'n gyfleus iddynt. Hyd yn hyn, mae'r cynnwys wedi'i wyllo 9693 o weithiau – cynnydd o 2634 o weithiau ers chwarter 3.

Rhannwyd citiau o offer rhaglennu rhwng ysgolion ar draws y rhanbarth er mwyn rhoi cyfle iddynt arbrofi gyda gofynion o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Y bwriad yw bod yr ysgolion hyn yn gallu darparu / rhannu eu profiadau gydag ysgolion eraill a bwydo eu profiadau i mewn i rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru Lleol a rhanbarthol. Comisiynwyd 2 ymarferydd i baratoi adnoddau sy'n addas i arddangos ac ateb gofynion o fewn y llinyn cyfrifiadurol yng Nghwricwlwm i Gymru. Mae 10 adnodd wedi ei greu a'u rhannu hyd yma.

Hunan-adolygu

Roedd lansiad yr offeryn hunan-adolygu newydd, 360 Digi Cymru, wedi ei ohirio eleni. Rhyddhawyd y fersiwn prawf o'r offeryn yn mis Ionawr 2022 gyda'r fersiwn llawn i ddilyn yn Mehefin 2022. Rydym wedi cychwyn codi ymwybyddiaeth o'r offeryn drwy ein rhaglen hwyluswyr digidol, gan greu 3 gweminar i'r hwyluswyr rannu gydag ysgolion eu clwstwr er mwyn trafod ac ymglyfarwyddo â'r cynnwys.

MATHEMATEG A RHIFEDD

Cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder:

- Cynradd: Mae cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn yn parhau i gael effaith gyflym ar y dysgu a'r addysgu mewn ysgolion sydd yn cael y cymorth hwn ac yn ymateb iddo. Pan wneir hyn mewn ffordd strwythuredig a chyson, gyda staff yn cael eu rhyddhau o'r dosbarth i weithio gyda'r YCG rhifedd, mae'r gwelliannau yn fwy effeithiol a chynaliadwy.
- Uwchradd: Mae cymorth ar gael i unrhyw ysgol sydd wedi'i hadnabod gan yr YCG yn y Cynllun Cymorth Ysgol. Rhoddir blaenoriaeth i ysgolion sydd mewn categori Estyn neu ysgolion ble mae Penaethiaid Adran newydd eu penodi.

O ran yr ysgolion hynny a gefnogwyd i wella'r dysgu a'r addysgu mewn Mathemateg a Rhifedd, mae bron pob un wedi dangos effaith sylweddol yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn ôl YCG, arweinwyr ac athrawon ysgolion. Mae ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i naill ai gael eu tynnu o gategori Estyn/cymorth 360 neu symud tuag at y nodau hyn o fewn amserlen dderbyniol.

Project Braenaru ar gyfer Dysgu Proffesiynol mewn Addysg Ariannol yng Nghymru: Cyflwynir ar y cyd ag YE/Prifysgol Caeredin ac fe'i ariennir yn allanol gan MaPS, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg ariannol ar draws y rhanbarth (hyfforddiant e-ddysgu ac wyneb yn wyneb). Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar allu yr aelodau i gefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym meysydd allweddol addysg ariannol, yn cyd-fynd ag agweddau allweddol ar y Cwricwlwm i Gymru newydd. Bwriedir rhannu arferion effeithiol/gweminarau ysgolion prosiect yn y flwyddyn academaidd nesaf. YCG Rhifedd yn aros am adroddiad arfarnu o'r prosiect cenedlaethol.

Oherwydd gweithdai rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol, ni ddarparwyd ystod o Ddysgu Proffesiynol penodol ar rifedd (fel y nodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol). Mae athrawon sydd wedi bod ar weithdai CiG wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gynllunio at y cwricwlwm newydd ac arwain aelodau rhwydweithiau lleol eraill yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio. Rhannwyd y cynlluniau a'r teithiau dysgu hyn ar y dudalen TEAMS rhanbarthol, yn barod i gyfrannu at y gweithdai cynllunio generig rhanbarthol. Byddant hefyd yn bwydo i hyfforddiant a gweithdai MDaPh rhifedd penodol yn y cynllun busnes nesaf.

Darparwyd gweithdy Dysgu Proffesiynol ar-lein gan Aelod Arloesi Cwricwlwm o un o ysgolion uwchradd y rhanbarth ym mis Tachwedd 2021. Roedd y gweithdy yn agored i holl ymarferwyr y rhanbarth ac fe'i recordiwyd a'i rannu er hwylustod. Nod y gweithdy oedd crynhoi'r newidiadau yn y maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, cyn awgrymu tasgau a thechnegau i ddatblygu'r hyfedreddau mathemategol sydd yn rhan allweddol o'r cwricwlwm newydd. Cafodd yr aelodau ddealltwriaeth ddofnach o'r maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, a'r newidiadau sydd eu hangen mewn addysgeg.

Mae'r YCG Rhifedd wedi parhau i gefnogi ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru. Llwyddodd hyn i ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sut i'w defnyddio'n effeithiol fel adnodd Asesu ar gyfer Dysgu a mesur cynnydd dysgwyr. Rhannodd ysgolion y rhanbarth eu harferion gorau yn genedlaethol.

Mae'r YCG Rhifedd wedi parhau i ddatblygu adnoddau Dysgu Manwl a SAFMEDS ar y cyd â Phrifysgol Bangor a'r YCG Mathemateg a Rhifedd Uwchradd.

Maths.Cymru

Datblygwyd y wefan i gynnwys cymorth i ddysgwyr CA4 efo enghreifftiau sydd â gogwydd Rhifedd. Mae'r rhain bellach ar gael ar dair haen yn y ddwy iaith. Yn CA3, mae'r cynnwys ar gyfer Rhif ar gael ac yn dal i gael ei ddatblygu.

SAESNEG A LLYTHRENNEDD

Cynradd:

Mae cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn, yn parhau i gael effaith gyflym ar y dysgu a'r addysgu mewn ysgolion sydd yn cael y cymorth hwn ac yn ymateb iddo. Pan wneir hyn mewn ffordd strwythuredig a chyson, gyda staff yn cael eu rhyddhau o'r dosbarth i weithio gyda'r YCG rhifedd, mae'r gwelliannau yn fwy effeithiol a chynaliadwy.

Gwelwyd bod gweithdai mewn person efo athrawon ac/neu aelodau'r rhwydweithiau rhanbarthol/lleol yn goresgyn rhwystrau o ran cynhyrchu a rhannu modelau a theithiau dysgu, ac wedi bod yn fodd i'r YCG lenwi'r dudalen TEAMS gyda'r modelau hyn.

O ran yr ysgolion hynny a gefnogwyd i wella'r dysgu a'r addysgu mewn iaith a llythrennedd, mae bron pob un wedi dangos effaith sylweddol yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn ôl YCG, arweinwyr ac athrawon yr ysgolion. Mae ysgolion sy'n achosi pryder neu mewn categori Estyn wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i naill ai gael eu rhyddhau o gymorth 360, categori Estyn neu symud tuag at y nodau hyn o fewn amserlen dderbyniol.

Ni chafodd gweithdai na hyfforddiant llythrennedd penodol eu cynnal, fel y nodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol. Roedd hyn oherwydd mai gweithgareddau'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol oedd yn cael blaenoriaeth. Mae athrawon sydd wedi bod ar y gweithdai hyn wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gynllunio at y cwricwlwm newydd ac arwain aelodau rhwydweithiau lleol eraill yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio. Rhannwyd y cynlluniau a'r teithiau dysgu hyn ar y dudalen TEAMS rhanbarthol, yn barod i gyfrannu at y gweithdai cynllunio generig rhanbarthol. Byddant hefyd yn bwydo i hyfforddiant a gweithdai MDAph llythrennedd penodol yn y cynllun busnes nesaf.

Mae'r YCG Llythrennedd wedi parhau i gefnogi ysgolion y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru. Llwyddodd hyn i ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sut i'w defnyddio'n effeithiol fel adnodd Asesu ar gyfer Dysgu a mesur cynnydd dysgwyr. Rhannodd ysgolion y rhanbarth eu harferion gorau yn genedlaethol.

Uwchradd:

O ran yr ysgolion hynny a gefnogwyd i wella'r dysgu a'r addysgu mewn iaith a llythrennedd, mae bron pob un wedi dangos effaith sylweddol yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn ôl YCG, arweinwyr ac athrawon yr ysgolion. Mae ysgolion sy'n achosi pryder neu mewn categori Estyn wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i naill ai gael eu tynnu o gymorth 360, categori Estyn neu symud tuag at y nodau hyn o fewn amserlen dderbyniol.

Ni chafodd gweithdai na hyfforddiant llythrennedd penodol eu cynnal i'r cynradd, fel y nodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol. Roedd hyn oherwydd mai gweithgareddau'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol oedd yn cael blaenoriaeth. Mae athrawon sydd wedi bod ar y gweithdai hyn wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gynllunio at y cwricwlwm newydd ac arwain aelodau rhwydweithiau lleol eraill yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio. Rhannwyd y cynlluniau a'r teithiau dysgu hyn ar y dudalen TEAMS rhanbarthol, yn barod i gyfrannu at y gweithdai cynllunio generig rhanbarthol. Byddant hefyd yn bwydo i hyfforddiant a gweithdai MDAph llythrennedd penodol yn y cynllun busnes nesaf.

Bu Arweinwyr Llythrennedd mewn tair sesiwn hyfforddiant gwyll efo Kate Jones yn canolbwyntio ar Ymarfer Adalw. Rhoddwyd cynnig ar y strategaethau a drafodwyd mewn ysgolion, ac yna rhannwyd arferion da. Darparwyd hyfforddiant penodol ar Lythrennedd Disgyblaethol yn ystod cyfarfodydd fforwm i Arweinwyr Llythrennedd. Mae athrawon sydd yn mynd i'r cyfarfodydd hyn yn defnyddio'r strategaethau a drafodwyd wrth gynllunio ar gyfer CiG ac yn arwain ar y trafodaethau parhaus yn eu hysgolion.

Mae cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn, yn parhau i gael effaith gyflym ar y dysgu a'r addysgu mewn ysgolion sydd yn cael y cymorth hwn ac yn ymateb iddo. Pan wneir hyn mewn ffordd strwythuredig a chyson, gyda staff yn cael eu rhyddhau o'r dosbarth i weithio gyda'r YCG rhifedd, mae'r gwelliannau

yn fwy effeithiol a chynaliadwy.

Treialwyd pecyn 'Building Reading Power' mewn saith ysgol oedd yn destun pryder. Rhoddwyd pecyn hyfforddiant arbenigol ac adnoddau i bob ysgol a'u cefnogi gyda chyfarfodydd pob hanner tymor. Mae'r peilot yn parhau.

Rhoddwyd cyflwyniad llythrennedd a rhifedd ar y cyd i ystod o ysgolion i gefnogi'r angen i ystyried gweithrediad y sgiliau trawsgricwlaidd hyn wrth iddynt gynllunio am y cwricwlwm newydd.

Cynhyrchwyd rhagor o fideos ar gyfer safle Herio - mae hyn yn parhau ac fe'u defnyddir yn helaeth ar draws adrannau Saesneg uwchradd y rhanbarth.

Gwelwyd bod gweithdai mewn person efo athrawon ac/neu aelodau'r rhwydweithiau rhanbarthol/lleol yn goresgyn rhwystrau o ran cynhyrchu a rhannu modelau a theithiau dysgu, ac wedi bod yn fodd i'r YCG lenwi'r dudalen TEAMS gyda'r modelau hyn.

Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

Rhwydweithiau Y Gymraeg

Bu 2021-22 yn flwyddyn heriol ddiwethaf bu i gyfarfodydd rhwydwaith penaethiaid adrannau y Gymraeg fod yn fodd i arweinwyr gynnal ei gilydd a pharhau i ddatblygu'n broffesiynol. Yn fuan yn ystod cyfnod y pandemig, symudwyd i gyflwyno'r cyfarfodydd yn rhithiol gan gynnig hyfforddiant i'r penaethiaid ar ddefnydd o arfau digidol a dulliau dysgu ac addysgu cyfunol. Cynyddodd lefel hyder yr arweinwyr a'r athrawon yn eu hadrannau yn eu sgiliau digidol personol yn ogystal â'u haddysgeg ar lwyfannau digidol byw ac adeiladwyd eto ar waddol datblygiadau cyfnodau clo y pandemig eleni yn modd y bu i athrawon barhau i ryngweithio a rhannu adnoddau ar draws ein llwyfannau digidol. Trwy'r rhwydweithiau rhoddwyd mynediad i adnoddau cyfoethocach ac erbyn hyn, bydd adrannau'r Gymraeg yn creu a datblygu llyfrgelloedd o adnoddau digidol i'w rhannu o fewn eu hadran a thu hwnt. Bu ymweliadau ag adrannau unigol yn ystod y flwyddyn yn agoriad llygad i'r modd y rheolir gweithdrefnau adrannau ar lwyfannau digidol yn ogystal â'r modd y bydd dysgwyr yn rhyngweithio â'u hathrawon. Tyfodd y rhwydweithiau yn fforymau i'r arweinwyr rannu syniadau a datblygiadau yn ogystal â chyfleon i drafod cynnwys sesiynau DPP cenedlaethol (a gynhelir yn rhithiol erbyn hyn) gan fod yn fodd iddynt rannu negeseuon pwysig yn ogystal â chefnogi ei gilydd yn broffesiynol. Gwelwyd llwyddiant hyn yn parhau mewn rhwydweithiau a gynhaliwyd i gefnogi'r arweinwyr wrth iddynt gynllunio ar gyfer addasiadau arholiadau eleni ac mae'r egwyddor hon o gydweithio'n rhithiol bellach wedi'i sefydlu. Mewn cyfnodau heriol eleni trefnwyd sesiynau rhithiol agored, 'Ar alw', i'r arweinwyr eu mynychu os oedd angen cefnogaeth benodol neu ychwanegol arnynt a manteisiodd nifer fawr ohonynt ar y cyfleon hyn i dderbyn cefnogaeth wedi'i deilwra'n arbennig ar eu cyfer (ac mae'r model hwn yn parhau). Bydd sesiynau agored 'Ar alw' a chyfarfodydd yn cael eu recordio a'u gosod o fewn y Teams isod gan greu llyfrgell ddigidol o adnoddau chofnod o gyfarfodydd. Yn ychwanegol at hyn, bydd adrannau hefyd yn rhannu 'dosbarthiadau' neu 'dimau' rhithiol â'i gilydd gan greu cymunedau neu rwydweithiau proffesiynol rhithiol bychain a fydd yn targedu meysydd penodol a'r rhai hynny'n lleol yn aml e.e. clwstwr o ysgolion dalgylch yn cynnwys yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd, a bydd hwn yn fodel pwysig i'w ddatblygu ymhellach eto wrth feithrin cysylltiadau ar y daith i weithredu CiG yn ogystal â gwaith adrannau y Gymraeg o fewn eu cynghrair.

Eleni, defnyddiwyd model y gynghrair i gynnig cefnogaeth i Gydlynwyr Llythrennedd e.e. Cydlynwyr Llythrennedd Cynghrair Môn a fu'n fodd iddynt rannu'n rhithiol eu llwyddiannau'n lleol yn ogystal â syniadau er mwyn cydweithio ar gynlluniau yn y dyfodol. O safbwynt y Gymraeg yn arbennig, nodwyd pwysigrwydd ymyraethau llafaredd a bu i nifer o'r ysgolion ailedrych ar gynlluniau presennol a'u plethu â rhai o'r prosiectau a oedd eisoes ar waith gan greu ymyraethau penodol ar gyfer eu dysgwyr hwy, a'u cyflwyno'n draws ysgol trwy eu llwyfannau digidol. Buom yn rhan o'r datblygiadau hyn ac mewn ymweliadau ag ysgolion unigol cafwyd cyfle i drafod llwyddiant yr ymyraethau. Bu i gydlynwyr hefyd fynychu sesiynau 'Ar alw' dilynol yn unigol i drafod datblygiadau cynlluniau ymhellach yn lleol a gwelwyd pwysigrwydd creu a datblygu ymyraethau sy'n targedu anghenion dysgwyr ar lefel ysgolion unigol ond bod y gynghrair o ysgolion yn cynghori a chyfeirio'r datblygiadau trwy werthuso profiadau a hynny yn ei dro yn arwain at alluogi'r ysgol i hunan wella'r ddarpariaeth. Sefydlwyd llwyfan digidol ar gyfer rhyngweithio ac mae'r cydlynwyr yn awyddus iawn i barhau â'r cydweithio hwn gan ddatblygu cynlluniau traws ysgol ar y cyd.

Datblygu llwyfannau digidol 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd'

Rhennir gwybodaeth a rhwydweithio ar lwyfannau digidol ac mae'r rhwydweithiau digidol hyn bellach yn datblygu a'r athrawon yn ymgysylltu a chyfrannu tuag atynt. Yn ystod Chwarter 3 sefydlwyd Teams ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn ogystal â 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd - CS (Cyfrwng Saesneg)' ac mae aelodaeth y Teams hwn yn parhau i gynyddu. Yn ystod Chwarter 4 sefydlwyd Google Classroom yn ogystal er mwyn ein galluogi i ymgysylltu'n haws ag athrawon sy'n gweithio o ddydd i ddydd ar lwyfan digidol

Google a chaiff cynnwys y llwyfannau digidol eu diweddarau'n gyson, gan eu cysoni a'u cadw'n gyfredol, hylaw a pherthnasol. Mae 'ffrwd' ymgysylltu'r llwyfannau digidol hyn yn bwysig ac yn cadw egwyddor y 'cylchlythyr' yn 'fyw' a chyfredol o fewn y Teams a'r Google Classroom a bydd athrawon yn cyfrannu tuag atynt.

Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG

Yn dilyn cyflwyno'r rhaglen uchod (a'r rhaglen genedlaethol sydd ar y gweill) yn ystod Chwarter 3 mae'r sgysiaid ynglŷn â'r modd y gellir rhaeadru'r wybodaeth i Benaethiaid Adrannau'r Gymraeg y rhanbarth wedi dechrau o fewn rhwydweithiau a'r gobaith yw y bydd y PAau yn cyfrannu tuag at gynllun i gyflwyno agweddau penodol o yn cael sesiynau agored 'Ar alw' â plethu â'r rhaglen Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG. Y nod yw y bydd y sesiynau hyn yn creu banc o adnoddau i gefnogi PAau Y Gymraeg 'ar daith ddiwygio' eu hysgolion.

Prosiect 'Ein Llais Ni'

Mae'r prosiect rhanbarthol (sy'n brosiect ar y cyd â Phrifysgol Bangor) bellach yn weithredol – gweler 'Y Gymraeg' uchod. O ganlyniad i haen 'Strategaethau Byw' egwyddor prosiect 'Ein Llais Ni', parhawyd i greu cysylltiadau â phartneriaid a sefydliadau a allai gynnig cyfleon a phrofiadau unigryw i ysgolion uwchradd y prosiect a fydd yn eu tro yn datblygu'n gyfleon a phrofiadau y gellir eu rhannu'n rhanbarthol gan gryfhau'r berthynas a'r partneriaethau hyn. Yn ystod Chwarter 4 datblygodd haen 'Strategaethau Digidol' y prosiect i gynnwys cyfres o weithdai digidol yn canolbwyntio ar apiau a strategaethau hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando ar lwyfannau digidol a manteisiodd cynrychiolaeth o ysgolion uwchradd y prosiect ar y cyfle i ymuno â'r gweithdai hyn. Erbyn Chwarter 4 cafwyd tystiolaeth bod y prosiect bellach yn cael ei ymgorffori'n rhan o ymyraethau Llythrennedd traws ysgol ysgolion uwchradd unigol i dargedu blaenoriaeth hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando, ac egwyddorion y prosiect yn rhan o HMS ysgol gyfan. Bydd yr ysgolion uwchradd yn cyflwyno astudiaeth achos ar eu canfyddiadau terfynol maes o law a fydd yn rhan o'r pecyn hyfforddiant DPP a gaiff ei rannu'n rhanbarthol a chenedlaethol (gweler 'Adroddiad Monitro Chwarter 4 - Y Gymraeg')

'Y Stordy' - Canolfan Cefnogaeth GwE

Yn ystod Chwarter 4 mae'r gwaith o ddatblygu gwefan 'Y Stordy' er mwyn creu cartref hylaw a chyfleus ar gyfer adnoddau 'Y Gymraeg a Llythrennedd' yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a'r nod yw y bydd y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau digidol 'byw' Teams a Google Classroom maes o law, gyda'r naill yn gartref parhaol a'r llall yn llwyfan datblygol.

Y Gweithgorau Cenedlaethol

Yn ystod Chwarter 4 parhaodd y drafodaeth traws-ranbarthol ynghylch dyfodol y Gweithgorau Cenedlaethol a'r modd y gellir eu datblygu. Bu cynrychiolaeth gref o ysgolion y rhanbarth ar y gweithgorau hyn a chartref ffrwyth gwaith y gweithgorau hyn yw'r 'Y Pair', sef rhwydwaith adnoddau uwchradd Y Gymraeg ar Hwb. Yn ystod Chwarter 4, bu cyfraniad tri o benaethiaid adrannau'r rhanbarth i gynhadledd Y Gymraeg consortiwm 'Partneriaeth' yn brawf o'r cyswllt agos a'r cydweithio traws-ranbarthol sy'n parhau a'r sylfaen sydd gennym i adeiladu arni.

Cynhaliaeth ar gyfer ANG Y Gymraeg 2021-22

Yn dilyn llwyddiant y gweithgor a sefydlwyd llynedd rhannwyd y syniad o sefydlu gweithgor cenedlaethol tebyg gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn y consortia eraill, esgorodd hyn ar gynhadledd traws-ranbarthol 'Athrawon Cymraeg Yfory', a byddwn yn cyfrannu tuag at y gynhadledd hon yn ystod Chwarter 4. Eleni, yn y rhanbarth roedd nifer ANG Y Gymraeg yn isel ond gwelwyd enghraifft effeithiol iawn o gynhaliaeth unigryw, gydag ANG llynedd yn cydweithio a chefnogi ANG eleni mewn un ysgol.

GWYDDONIAETH

Gwella ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu (addysgeg): mae'r tîm wedi parhau i ymhél â gwaith ymchwil, ac wedi cynnal DP drwy fynychu/edrych ar weminarau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ddylunio'r cwricwlwm a dysgu ac addysgu effeithiol ac ati. Mae hyn wedi dylanwadu ac effeithio ar ein gwaith gydag ysgolion ac wrth rannu'r arferion gorau. Mae hyn wedi:

- codi hyder arweinwyr ac athrawon Gwyddoniaeth wrth gynllunio a datblygu sgiliau o fewn Gwyddoniaeth (yn enwedig sgiliau llythrennedd disgyblaethol).
- mae mwy o hyder o fewn y gweithlu (y rheiny sydd wedi gallu gweithio gyda'r rhwydweithiau a chyfleoedd DP), mwy o hyder wrth addysgu a datblygu cwricwlwm Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy'n gyfoes, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymateb i anghenion dysgwyr.
- mae'r Rhwydweithiau lleol a grëwyd ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi gweithredu fel CDP a bu gwaith a chydweithio rhagorol ar lu o agweddau ar y CiG

Parhawyd i gefnogi athrawon a dysgwyr drwy wefan www.tanio.cymru ac mae ysgolion wedi croesawu a defnyddio'r wefan fel adnodd addysgu yn y dosbarth a thu allan. Mae'r wefan yn adnodd dwyieithog safonol a ddefnyddir gan ysgolion a dysgwyr ar draws Cymru ac sydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar hyder dysgwyr a dysgu disgyblion yn y cartref a'r dosbarth. Mae'r 'traffig' ar y safle wedi bod yn gyson a gwelwyd mwy yn defnyddio'r wefan wrth i fyfyrwyr ddechrau paratoi ar gyfer tymor yr arholiadau.

Cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder: mae'r tîm wedi darparu cymorth unigryw i'r ysgolion hyn ac wedi cefnogi gweithdrefnau sicrhau ansawdd ym mwyafrif yr ysgolion sy'n achosi pryder gan gynnwys arsylwi gwersi, llais y disgybl, craffu ar lyfrau. Mae'r tîm wedi darparu cynlluniau gweithredu a thargedau gwella i'r ysgolion hyn o ganlyniad i ymweliadau/adolygiadau ar-lein ac ati. Dilynwyd y cynlluniau gweithredu a bodlonwyd mwyafrif y targedau. Gwelwyd bod arweinwyr ac athrawon yn fwy hyderus a bod y safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu mewn Gwyddoniaeth yn well (drwy sicrhau ansawdd arferion). Cafodd y tîm hyfforddiant ar Hyfforddi a Mentora ac maent wedi rhoi'r technegau a'r arferion ar waith wrth weithio gydag arweinwyr ac athrawon, sydd wedi cael effaith positif ar y berthynas rhwng YCG a'r rheiny a gefnogir.

Cefnogi ysgolion sy'n achosi pryder, yn enwedig y rheiny mewn categori Estyn: cafodd yr ysgolion hyn gryn gefnogaeth gan y tîm Gwyddoniaeth, ac mae arweinwyr yr adrannau hynny wedi magu hyder yn eu harweinyddiaeth. Tynnwyd 3 o 6 ysgol o gategoriâu Estyn, maent i gyd bellach yn cael cymorth gan y tîm ac mae 3 o 6 wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio ar gyfer CiG.

Cefnogi datblygiad a gweithrediad y CiG gan gynnwys: y wefan gwyddoniaeth a thechnoleg, datblygu mapiau llwybr cynnydd ac adnoddau enghreifftiol i gefnogi gwaith cynllunio'r CiG newydd - croesawyd a defnyddiwyd hyn oll gan lawer o ysgolion ar draws y rhanbarth, yn ogystal â'r adnoddau hyfforddiant a ddatblygwyd gan y tîm Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Y CYFNOD SYLFAEN

Darparu cymorth unigryw i ysgolion sy'n achosi pryder, fel bod modd iddynt fwrw ati gyda'u taith welliant eu hunain.

Mae bron pob un o'r 32 ysgol sydd yn cael cymorth unigryw yn rhoi sylw i gamau gweithredu a nodwyd gan YCG y CS, sydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi llwyddo i weithredu i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gan leihau amrywiad o fewn ysgol mewn rhai ysgolion a mwy o gysondeb yn y dysgu a'r addysgu ar draws y rhanbarth. Mae'r cymorth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddofnach o egwyddorion ac addysgeg y CS sy'n cyd-fynd â'r addysgeg o fewn canllawiau Galluogi Dysgu a fframwaith CiG.

Gwella ymhellach y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ym mhob ysgol yn y rhanbarth wrth baratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae 25 ysgol yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil gweithredol gwaith coed. Mae'r pwyslais ar gynllunio profiadau dysgu cyfoethog i gefnogi dysgwyr tuag at wireddu'r pedwar diben. Byddant hefyd yn corffori llawer o'r 12 egwyddor addysgegol, sgiliau cyfannol, sgiliau trawsgwricwlaidd ac yn datblygu sgiliau ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad. Ers bod ar yr hyfforddiant cychwynnol, mae athrawon wedi cael dysgu proffesiynol, wedi cynnal darpariaeth gwaith coed newydd, wedi uwch sgilio'r tîm addysgu ac wedi cyflwyno sgiliau newydd i'r disgyblion. Mae athrawon wedi edrych ar effaith a deilliannau'r ddarpariaeth o ran y Fframwaith CiG, cynnydd disgyblion, ac wrthi'n cwblhau astudiaeth achos ar effaith a deilliannau. Yn rhan o hyn, maent wedi cwblhau gwaelodlin yn canolbwyntio ar agweddau at ddysgu, gan gynnwys sgiliau creadigol a meddwl yn feirniadol disgyblion a lefelau ymwneud (graddfa Leuven). Mae YCG y CS wedi cefnogi pob ysgol sy'n rhan o'r cynllun, gan gynnal ymweliadau safle, sesiynau galw heibio, darparu cymorth ar-lein, a chreu Google Classroom er mwyn annog cydweithio ar draws y rhanbarth. Mae YCG y CS wrthi'n cefnogi ysgolion i gynhyrchu astudiaeth achos sy'n amlygu effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion ac agweddau at ddysgu. Gofynnwyd i ysgolion gymryd rhan yn 'The Big Bang Research Project' yn ystod tymor yr Haf.

Cyfarfod Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen

Roedd 303 yn bresennol yng nghyfarfod Rhwydwaith Tymor y Gwanwyn (recordiad hefyd ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE)

Ffocws ar:

- ddiweddariadau i'r canllawiau 'Galluogi Dysgu' a gyhoeddwyd mis Ionawr 2022, yn rhan o Fframwaith CiG
- diweddariadau ar fodiwlau cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi Fframwaith Cwricwlwm i Gymru
- camau allweddol o ran datblygu ysgrifennu cynnar i gyd-fynd â 'Galluogi Dysgu', Fframwaith CiG.

Cyflwynwyd hyfforddiant penodol i ysgolion unigol a chlystyrau yn targedu yr agweddau hynny sydd angen eu blaenoriaethu e.e. 'Rôl yr oedolyn', 'Amgylcheddau Dysgu Effeithiol', 'Dysgu Dilys a Phwrpasol' (Galluogi Dysgu). Mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu'r elfennau hyn o fewn addysgeg sy'n briodol o ran datblygiad.

Darparwyd hyfforddiant ANG ar draws y rhanbarth. Ffocws ar yr amgylchedd dysgu effeithiol a'r oedolyn sy'n galluogi (rôl yr oedolyn).

Prosiect 'Ein Llais Ni' - darparwyd hyfforddiant ar strategaethau llafaredd effeithiol o fewn addysgeg y CS i ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol ar draws pob maes dysgu. Cymorth ac ymweliadau unigryw i ysgolion.

Uwch sgilio YCG y CS i gyflwyno Modiwlau Hyfforddiant Cenedlaethol i gefnogi Fframwaith y CiG. Defnyddiwyd ac addaswyd modelau i ddarparu cymorth unigryw i gystyrau ac ysgolion unigol. Rhannwyd modiwlau yn ystod rhwydweithiau rhanbarthol a chyfarfodydd tîm GwE.

Mae sesiynau hyfforddi wedi:

- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o elfennau allweddol y canllawiau 'Galluogi Dysgu' i'w helpu wrth ddyllunio, cynllunio ac asesu eu cwricwlwm.
- Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblygiad ac yn corffori'r sgiliau cyfannol sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr.
- Mae ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth well o'r camau allweddol mewn ysgrifennu cynnar a sut mae darpariaeth sy'n briodol i gamau datblygiad yn cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd.
- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd amgylcheddau dysgu effeithiol a rôl yr oedolyn sy'n galluogi i:
 - wella dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion
 - gadael i ymarferwyr weld ym mha ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi dysgu, a sut orau i'w cymell i gymryd rhan yn y broses ddysgu.
 - adnabod y dysgwyr hynny allai fod angen mwy o gymorth arnynt i'w helpu i gyflawni eu llawn botensial.
- Mae ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn rhoi modd iddynt gynllunio darpariaeth sydd yn cefnogi mwynhad dysgwyr yn eu dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud i gam nesaf y dysgu.
- Deall bod angen i'r asesu fod yn broses barhaus sydd yn rhan o arferion pob dydd, mewn ffordd ble na ellir ei gwahaniaethu rhwng y dysgu a'r addysgu.

Mae gan ysgolion fynediad at yr holl hyfforddiant/rhwydweithiau/astudiaethau achos ar arferion llwyddiannus (o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE/Google Classrooms, Teams a Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen GwE ar HwB). Mae nifer fawr o ysgolion y rhanbarth yn defnyddio'r gweminarau ac ati o fewn cyfarfodydd staff a HMS i uwch sgilio'r gweithlu. Noda YCG fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar ddeilliannau disgyblion.

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol.

ARWEINYDDIAETH

Cyffredinol/pob rhaglen

Yn ôl sylwadau ffurfiol ac anffurfiol gan aelodau, hwyluswyr a Mentoriaid Arweinyddiaeth, mae'r holl arweinwyr sydd wedi cymryd rhan ym mhob rhaglen ar draws y Llwybr Arweinyddiaeth wedi dangos:

- mwy o hyder ac effeithiolrwydd yn eu rôl.
- mwy o arweinyddiaeth gydweithredol ac arweinyddiaeth system yn datblygu ar draws y rhanbarth.

- yr agenda diwygio cenedlaethol yn cael sylw llawn.
- gwell dealltwriaeth o arweinyddiaeth ysgol sydd wedi paratoi mwy o unigolion yn well ar gyfer swyddi arweinyddol ar draws y rhanbarth.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu effeithiol ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel. Mae'r Grŵp wedi llwyddo i oresgyn heriau o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig ac wedi parhau i sicrhau tegwch o ran mynediad i bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth -h.y. Dull cyfunol/rhithiol a diweddarau cynnwys yn rhithiol i fodloni anghenion arweinwyr ble mae'r anghenion hynny'n newid yn gyson.

Yn sgil cyflwyno pob modiwl, bydd yr hwyluswyr yn hunan fyfyrio ar gynnwys ac ymroddiad yr aelodau. Drwy werthuso a mireinio cynnwys y rhaglenni fel hyn, sicrhawyd bod modd addasu i anghenion perthnasol arweinwyr ysgolion, o ran yr Agenda Cenedlaethol, a CiG yn benodol. Fel hyn, rydym wedi gallu bod yn fwy ystyriol o anghenion arweinwyr ysgolion yn ystod y pandemig byd-eang, gan sicrhau eu bod yn datblygu'r adnoddau a'r gwytnwch i arwain mewn cyfnodau heriol.

RhDAG a RhDUA

Llwyddodd bron i'r holl unigolion a gofrestrodd ar y rhaglenni RhDAG a RhDUA yn 2020-21 i gwblhau a chyflwyno'r effaith ar eu Tasg Profiad Arweinyddiaeth.

Yn ôl y sylwadau gan YCG a fu yn y sesiynau cyflwyno, roedd yr aelodau yn gallu disgrifio'n glir y datblygiad yn eu sgiliau arweinyddiaeth. Bu'r rhaglenni yn fodd i'r aelodau gyfrannu'n fwy effeithiol at systemau hunan-wella yn eu hysgolion.

Er gwaethaf yr heriau cyson oherwydd Covid, calonogol fu gweld cynifer o ymgeiswyr o bob sector/cyfnod yn gwneud cais am Ddysgu a Datblygiad Proffesiynol mewn Arweinyddiaeth yng ngharfan 2021-22.

Yn ôl gwerthusiadau/sylwadau gan yr aelodau ar y rhaglenni, gwerthfawrogir y defnydd o dasgau rhyng-sesiynol/rhyng-fodylol - yn enwedig felly i wneud rhywfaint o waith darllen ac ymchwil annibynnol cyn y sesiynau datblygol. Teimla'r aelodau eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer y sesiynau ffurfiol, ac mae hyn wedi arwain at drafodaethau grŵp safonol ac wedi rhoi mwy o bwyslais ar arferion myfyriol unigolion a pherchnogaeth ar eu dysgu proffesiynol eu hunain.

Bu'r sylwadau ffurfiol ar ffurflenni gwerthuso yr aelodau yn galonogol iawn. Mae bron pob aelod wedi dweud bod y rhaglenni yn dda iawn neu'n rhagorol. Yn gyffredinol, noda'r aelodau eu bod yn gwerthfawrogi'r cyflwyniadau manwl, difyr yn seiliedig ar dystiolaeth, y cyfle i rwydweithio a chreu cymuned o bobl broffesiynol o'r un meddylfryd, agweddau rhithiol fel trafodaethau grŵp a sesiynau dwy-awr hylaw. Maent wedi mwynhau'r sesiynau ac yn gweld gwerth y cyfle i hunan fyfyrio, dysgu sut i arwain pobl a chanolbwytio ar yrru tasg arweinyddiaeth ysgol gyfan. Maent hefyd wedi elwa o gymorth mentoriaid sydd yn arweinwyr ysgol effeithiol wrth eu gwaith ac yn ymarferwyr cyfoes sydd wedi cyflwyno ar y modiwlau datblygu.

RhDDA (CPCP)

Llwyddodd bron i gyd o'r 74 unigolyn a wnaeth gais am Garfan 2020-21 i gwblhau'r rhaglen.

O'r unigolion hyn, dewisodd 57 fynychu'r Ganolfan Asesu CPCP ym mis Mawrth 2022 ble bu 65% yn llwyddiannus. Mae'r gyfradd llwyddo tua 10% yn llai na'r blynyddoedd blaenorol ac yn llai na'r targed o 80% osodwyd yn y Cynllun Busnes gwreiddiol. Mae tri unigolyn arall wedi mynegi diddordeb i gael eu hasesu yn y Ganolfan Asesu ym mis Mehefin 2022.

Cyflwynwyd y cwrs am y tro cyntaf eleni ar ôl iddo gael ei addasu i'w gyflwyno'n rhithiol/gyfunol. Cafwyd niferoedd da yn y sesiynau a llwyddwyd i gadw at yr amserlen.

Dengys gwerthusiadau ffurfiol bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cofnod cadarnhaol iawn o gymorth y Mentor Arweinyddiaeth. O'r sylwadau cadarnhaol hynny, nododd yr ymgeiswyr:

- roedd yr agwedd cefnogi cymheiriaid yn amhrisiadwy
- cymorth effeithiol wrth baratoi am y Ganolfan Asesu

- cymorth effeithiol ar gyfer mireinio'r Adolygiad Safonau Arweinyddiaeth
- buddiol cael tynnu rhywun o leoliad ysgol ymgeisydd i drafod agweddau datblygol
- cymorth effeithiol gan unigolion sydd â chyfoeth o brofiad amrywiol yn y rôl
- cymorth effeithiol gan rywun sydd â phrofiad o sector penodol profiad

Dengys gwerthusiadau ffurfiol bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a aseswyd wedi cytuno bod y ganolfan asesu wedi'i threfnu'n dda a bod y paneli asesu yn heriol ac yn gefnogol. Roedd pawb bron yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf, bod strwythur y cyfweiliad, mewn dwy ran a dau gyflwyniad ar wahân, yn gefnogol a bod cydbwysedd y cwestiynau a'r cyflwyniadau a gafwyd yn rhoi cyfle i gyfleu gwybodaeth, sgiliau a chredoau yn fanwl gywir.

Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Dros Dro

Mae gan bob Pennaeth Newydd a Phennaeth Dros Dro fynediad at gymorth cyffredin, generig neu benodol, gan ddibynnu ar yr angen, yr amgylchiadau a'r math o ysgol. Mae'r cymorth hwn yn ategu'r cymorth unigol gan bob ALL. Ar y cyfan, cafwyd niferoedd da yn y sesiynau datblygu.

Ar gyfer 2021-22 (Carfan 4), mae strwythur newydd a gwell y rhaglen hon eisoes wedi sicrhau bod Penaethiaid yn cyfrannu fwy e.e. trafodaethau grŵp llai sy'n berthnasol i anghenion lleol.

Eleni, addaswyd y rhaglen i ddarparu ystod eang a chymysgedd o gyflwyniadau cenedlaethol gan siaradwyr gwadd ar draws y byd a chyflwyniadau gan benaethiaid profiadol ac effeithiol yn lleol. Mae meysydd fel arwain cydweithio, arloesi, lles a datblygiad proffesiynol yn themâu cyson yn y sesiynau.

Yn ôl arwyddion a sylwadau cynnar, awgrymir bod carfan eleni wedi gwerthfawrogi'r rhaglen 'ar ei newydd wedd' yn fawr iawn - credant fod cydbwysedd y cyflwyniadau cenedlaethol a rhanbarthol yn llawn mwynhad a gwybodaeth.

Rhaglen i Benaethiaid Profiadol

Rhoddyd saib ar y rhaglen hon dros dro, a gyflwynir gan asiantaeth allanol, oherwydd yr heriau parhaus sy'n wynebu penaethiaid.

LLYWODRAETHWYR

Mewn cytundeb â'r AauLL, cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn Diwygio Addysg.

Yn rhan o'r cymorth parhaus ar gyfer Dysgu Proffesiynol i Lywodraethwyr, gwnaed nifer o gyflwyniadau ar draws y rhanbarth gyda'r nod o gyflwyno fframwaith Cwricwlwm i Gymru i Lywodraethwyr. Cafwyd niferoedd da yn y sesiynau hyn ym mhob Awdurdod Lleol, fel bod modd i lywodraethwr sy'n mynychu gael gwell dealltwriaeth o'r agweddau a gyflwynir, bod yn fwy hyderus wrth gefnogi eu hysgolion a gallu cyfrannu'n fwy strategol at drafodaethau'r corff llywodraethu.

Darparu hyfforddiant cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn yn ystod arolygiad.

Ni ddarparwyd hyfforddiant cyn-arolygiad yn ystod y chwarter hwn. Roedd cymorth ychwanegol ar gael i ysgolion mewn categori. Nawr bod arolygiadau peilot ar y gweill, bydd cynrychiolwyr GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran paratoi at arolygiad.

Targedu cynhaliaeth i Lywodraethwyr ar agweddau y nodwyd yn eu Hunan Arfarniad fel rhai sydd angen eu gwella.

Ni wnaethpwyd cais am dargedu cynhaliaeth y chwarter hwn. Bydd GwE yn cefnogi llywodraethwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r agwedd i'w gwella, a'r hyder i hunan wella.

CYNGHREIRIAU / RHWYDWEITHIAU / CLYSTYRAU

Mae bron pob ysgol uwchradd wedi mynd i'r afael yn effeithiol â chynghreiriau lleol i gydweithio gyda chyfoedion i ddatblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol a chefnogi partneriaid gyda phrosesau o ran paratoi at ddyfarnu graddau yn 2021. Cafodd y gwaith hwn effaith sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth a'r cymorth i ddisgyblion yn ystod y pandemig.

Yn ogystal, mae pob ysgol uwchradd yn weithgar yn y cydweithio clwstwr ar y CiG gydag ysgolion cynradd eu dalgylich ac wedi ymwneud yn dda mewn gweithdai a gweminarau CiG. Targedir cynhaliaeth i sicrhau bod pob ysgol

wrthi'n dylunio ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd o 2022 neu 2023. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach, mae Rhwydweithiau MDaPh ar lefel ranbarthol a lleol yn weithredol ac yn maent yn defnyddio TEAMS a Chanolfan Cefnogaeth GwE yn effeithiol i gyfleu a rhannu'r dysgu a'r arferion llwyddiannus ar draws y rhanbarth. Mae arweinwyr yn dangos mwy o hyder wrth baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm yn 2022 [neu 2023 i'r rheiny sydd wedi dewis hynny].

Mae nifer o gynghreiriau yn datblygu arferion cryf cynnar o ran cynllunio gweithgareddau ar y cyd i gefnogi'r daith ddiwygio ac agweddau ar wella ysgol.

Mae mwyafrif y cynghreiriau uwchradd wedi mabwysiadu'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion fel cyfrwng ar gyfer eu prosesau gwella ansawdd a sicrhau ansawdd. Er hynny, mae'r pandemig wedi cyfyngu ar weithgareddau a'u llesteirio yn arw. Bydd angen parhau i roi sylw i gefnogi'r cynghreiriau i ail-godi a datblygu systemau a phrosesau cadarn yn 2022-23. Mae arweinwyr wedi dangos parodrwydd cryf i ail-gydio yn y rhaglen ac maent wrthi'n cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi.

AMCAN 4 – YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

Wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles

GDD PMG

**Datblygu'r strategaeth GDD genedlaethol ymhellach a'i gweithredu ar draws y rhanbarth.
Gwreiddio'r model clwstwr/cynghrair GDD PMG ar draws y rhanbarth.**

PDG

Gweithredwyd y strategaeth ranbarthol GDD ar draws y rhanbarth gyda phob ysgol/leoliad yn manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol 'Meddwl yn Wahanol' ar ben y cymorth gan yr YCG. Mae pob ysgol/leoliad yn defnyddio'r dangosfwrdd GDD fel tystiolaeth o gronfeydd. Mae tystiolaeth bod y cyllid ychwanegol dan reolaeth y consortia yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r prosiectau dysgu carlam ychwanegol yn unol â'r tîm ymchwil yn CIEREI/iechyd a lles ysgol gyfan a thargedu cynhaliaeth. Mae'r GDD yn cyd-fynd â chefnogi dull gweithredu ysgol gyfan tuag at les a thargedu cynhaliaeth/ymyraethau. Elfen GDD Blynyddoedd Cynnar y strategaeth ranbarthol - cynhaliwyd nifer o sesiynau Talk Boost i ysgolion targed; mae wyth ysgol wedi cael yr hyfforddiant hyd yma. Rydym hefyd wedi datblygu ffurflen monitro blynyddol ALL sydd yn dangos sut y bwriedir defnyddio'r grant yn unol â'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

GDD PMG a Llesiant

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau'r broses o newid diwylliant/ethos a meddylfryd yr ysgol drwy fframwaith ysgol gyfan Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS)/Dull Adferol ac Annog.
- Mae bron pob ysgol wedi bod cael hyfforddiant DP TIS ysgol gyfan ar draws y rhanbarth.
- Mae bron pob ysgol wedi bod mewn o leiaf un o'n sesiynau DP ar Lesiant.
- Mae pob clwstwr ble mae nifer uchel o PMG wedi bod ar y DP TIS neu Rhestr Wirio Arsylwi.
- Mae mwy o bolisiau a strategaethau sydd yn seiliedig ar berthynas mewn ysgolion o ganlyniad i'r DP TIS.
- Mae tystiolaeth o ddatblygu arferion cydweithredol rhwng ysgolion/clystyrau/CAMHS a gwasanaethau plant.
- Mwy o leoliadau yn hyderus i ddefnyddio ystod o fesurau effaith ac arfarnu o safbwynt lles.
- Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio yn gryfach gyda'r awdurdodau lleol ac lechyd o ran y targedu cynhaliaeth a'r cymorth cyffredinol.
- Cwblhawyd y mapio Rhanbarthol ac ALL ar gyfer Llesiant.
- Mwy o ysgolion yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar niwro-wyddoniaeth yn y dysgu a'r addysgu, gyda
 - Staff yn fwy hyderus yn eu dulliau
 - Dysgwyr yn gallu hunan-reoleiddio/myfyrio ar eu hymddygiad a'u teimladau yn well.
 - Newidiadau mewn Ymddygiad Dysgwyr a Gwaharddiadau
 - Agweddau at ddysgu wedi newid - dysgwyr a staff
 - Dysgwyr yn hapusach yn yr ysgol
- Pecyn TIS ymarferol i ysgolion ei ddefnyddio drwy'r dull cyffredinol
- Ffurfiwyd Rhwydwaith Cymuned sy'n Ystyriol o Drawma/Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n dod ag addysg a gwasanaethau plant ynghyd i gefnogi dysgwyr

- Staff yn defnyddio 'Lle i fyfyrion' a sesiynau cymorth.
- Mae'r GDD PMG yn cyd-fynd â'r ffocws ysgol gyfan a CiG gyda bron pob clwstwr wedi cwblhau'r dangosfwrdd.
- Mae pob All/ysgol wedi manteisio ar y Cynnig DP i Arweinwyr Dynodedig.
- Gwelwyd cynnydd yn yr ysgolion sydd â PMG sydd wedi manteisio ar ein Cynnig Dysgu Proffesiynol.
- Cefnogwyd ysgolion/lleoliadau i weithredu'r dysgu proffesiynol yn y cwricwlwm a'r addysgeg yn ogystal â'r ymyraethau ychwanegol.
- Cynhaliwyd 3 sesiwn DP i ANG ar draws y rhanbarth i fod yn wybodus am drawma a gwreiddio arferion yn y dysgu a'r addysgu.
- Dyfarnwyd statws TIS i dair ysgol gynradd yn y rhanbarth.
- Mae gennym ddau hyfforddwr sydd yn gymwys i gyflwyno hyfforddiant TIS ysgol gyfan yn y Gymraeg.
- Dros y chwe mis diwethaf, mae'r YCG wedi cyflawni statws ymarferdd TIS ac wedi plethu eu sgiliau a'u gwybodaeth â'u rôl cefnogi ysgolion.

Cefnogi lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun eu rôl broffesiynol.

Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfau digynsail fu diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn. Canolbwyntiwyd ar amrywiaeth o agweddau ar yr agenda llesiant e.e. gwytnwch, addasu i amgylchedd sy'n newid, myfyrion personol, dysgu gweithredol ac ati:

- Darparu 'Lle i Fyfyrion' - darparu bloc o sesiynau efo Dr Coral Harper neu Mike Armiger. Mae Dr Coral Harper a Mike Armiger wedi ymrwngwng i weithio ar draws y rhanbarth o fis Medi 2021 ac wedi dyblu faint o Lefydd i Fyfyrion sydd ar gael i Uwch Arweinwyr.
- Sesiwn grŵp i ymarferwyr TIS efo Coral Harper. 1 sesiwn pob tymor. Chwe grŵp drwy gydol y flwyddyn.

Parheir i ddefnyddio 'Lle i Fyfyrion' ar draws y rhanbarth a cheir sylwadau calonogol gan yr hyfforddwyr a'r hyfforddeion.

Mae Dr Coral Harper neu Mike Armiger yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Yn ôl data mis Hydref, mae Mike Armiger yn gweithio gyda saith arweinydd ysgol am 12 mis gyda chyfarfodydd pob hanner tymor.

Mae Coral yn cyflwyno cyfanswm o 43 sesiwn efo 10 arweinydd ar draws y rhanbarth sydd yn golygu eu bod yn cael cyfanswm o chwe sesiwn yr un. Bydd hyn yn parhau hyd at fis Chwefror 2022 ac adeg hynny cynhelir adolygiad i gynllunio sut i ymestyn y cynnig i fwy o bobl. Mae GwE hefyd wedi creu lle i rywfaint o gymorth 'brys' ble mae ysgolion yn wynebu her benodol. Mae sesiynau grŵp ar y gweill ar gyfer tymor y Gwanwyn 2022. Trefnir rhagor o gyfarfodydd efo Mike Armiger a Coral Harper i ymestyn y cynnig Cymorth Lles i arweinwyr ar draws y rhanbarth.

Defnyddio fframwaith hyfforddi (*coaching*) mewn sgysia, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth o ddydd i ddydd i ddatgloi potensial ac annog unigolion i ddatblygu.

Mae hyn yn parhau gyda staff yn gwneud y cwrs ILM Lefel 7 mewn Hyfforddi a Mentora Gweithredol. Mae 'Lle i Fyfyrion' Cenedlaethol wedi dechrau gyda staff GwE yn cefnogi cydweithwyr o Dde Cymru. Bydd Shane Fletcher, Rheolwr Tîm Rygbi y 'Crusaders', yn dechrau sesiynau grŵp i 11 o arweinwyr y tymor hwn yn seiliedig ar sgysia adeiladol, sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad. Bydd hyn ar sail cylch pedair wythnos a'r grŵp fydd yn pennu cynnwys y sesiwn.

LLES YSGOL GYFAN (MDPh)

Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus yng Nghymru'

Datblygu Ymagwedd Ysgol Gyfan at les

Cyd-greu adnoddau Lles Ysgol Gyfan gydag ysgolion ar draws y rhanbarth

Menter TEDxGwE

Fel gwasanaeth, ymunwyd â Chynllun Carbon Niwtral Nawr y CU ddwy flynedd yn ôl i wrthbwysu allyriadau teithio GwE. Datblygwyd y berthynas hon ymhellach drwy gefnogi'r 'Her 100 Ysgol'. Wrth i ni symud yn agosach at Gynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, Cynhadledd y Pleidiau (COP26) yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021, rydym wedi penderfynu gweithredu ymhellach drwy ddatblygu menter TEDxGwE.

Menter fyd-eang yw TEDx i hyrwyddo a chyflwynu datrysiadau o ran argyfwng yr hinsawdd gan weithredu ar

syniadau. Cynhaliodd GwE ddigwyddiad TEDxGwE ar 1 Tachwedd 2021 i blant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru gan ddatblygu partneriaeth Gogledd Cymru a chysylltiadau efo Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Theatr Clwyd, Do Well Ltd, Tales to Inspire ac Adfywio Cymru (RENEW Wales).

Yma yng Ngogledd Cymru, rydym eisiau defnyddio TEDxGwE i sbarduno trafodaethau ag arweinwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, mewn cymunedau ac efo'n blant a'n pobl ifanc ynghylch yr her sydd yn wynebu pawb ohonom a gweithredu ar syniadau plant a phobl ifanc Gogledd Cymru. Ein nod yw dod â'n rhanbarth at ei gilydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd gan fod hyn yn gyfrwng perffaith i fod yn datblygu'r agwedd Egwyddorol Gwybodus ar y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym am weithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu llais i danio trafodaeth ar draws y rhanbarth a fydd yn arwain at weithredu drwy ddod â phobl ynghyd i ddeall yr her, edrych ar y datrysiadau mwyaf effeithiol ar y cyd ac sydd yn seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod pawb ohonom yn ymateb i'r her. Nod digwyddiadau TEDx byd-eang yw ateb pum cwestiwn sy'n gysylltiedig â'i gilydd sydd yn helpu i gyfrannu at gynllun ar gyfer dyfodol glanach:

Ynni - Pa mor sydyn allwn ni symud at bŵer glân 100%?

Trafnidiaeth - Sut allwn ni uwchraddio'r ffordd yr ydym yn symud pobl a phethau?

Defnyddiau - Sut allwn ni ail-feddwl ac ail-greu y pethau o'n cwmpas ni?

Bwyd - Sut allwn ni danio symudiad byd-eang tuag at systemau bwyd iachach?

Natur - Sut ydym ni'n amddiffyn ac ail-wyrddu'r ddaear yn well?

Cofrestrodd ysgolion ar y digwyddiad gan gyflwyno fideo 60 eiliad yn defnyddio Flipgrid. Casglwyd y fideos a'u rhannu â chynulleidfa ehangach. Cafodd yr ysgolion becyn cymorth i gefnogi'r aelodau i ddatblygu sgwrs TED fel bod modd iddynt rannu eu hanesion, eu materion, eu syniadau a'r camau gweithredu sydd yn angenrheidiol i greu dyfodol gwell.

Bu TEDxGwE yn ddigwyddiad llwyddiannus gyda 12 ysgol ar draws y rhanbarth yn bresennol. Fel dilyniant, rhoddwyd y cyfle i'r holl ysgolion gymryd rhan mewn Ymchwil Gweithredol yn rhan o'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP). Derbyniodd bedair ysgol y cynnig. Rydym yn parhau i weithio gyda Phrifysgol Glyndŵr a phartneriaid allweddol eraill fel Adfywio Cymru i hybu'r gwaith. Mae'r holl fideos TEDx ar wefan GwE.

Mae pob ysgol wedi cael teirawr o fentora gan Do-Well Ltd a Tales to Inspire, i'w cefnogi wrth baratoi'r sgwrs TED. Mae GwE wedi gweithio mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adfywio Cymru, Do-Well (UK) Ltd a Tales to Inspire i wireddu'r digwyddiad hwn.

Yn rhan o'r grŵp Llesiant Cenedlaethol, mae GwE yn cydweithio â Mind Cymru i gynnig cyfle dysgu proffesiynol rhithiol wedi'i hwyluso (yn y Gymraeg a'r Saesneg) O fis Medi 2021, mae ysgolion wedi cael mynediad at Sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Rheoli Iechyd Meddwl yn y gwaith a chefnogi staff. Mae'r niferoedd o ysgolion yn brin ar hyn o bryd oherwydd cynhwysedd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol i drefnu digwyddiad TEDx yn y dyfodol ar gyfer 2022/2023.

Mae Prifysgol Glyndŵr yn cefnogi gwaith recordio cân ar gyfer ysgolion TEDx.

Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer creu Panel Ieuenctid Ymgynghorol i lywio gwaith sy'n ymwneud ag iechyd a lles a dinasyddion moesol gwybodus.

STRATEGAETH I GEFNOGI RHINIEN / GOFALWYR

Arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Sicrhau cyflwyno "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn effeithiol i ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.

Sicrhau cydlyniant a chapasiti addas i ddarparu adnoddau rhanbarthol o safon uchel yn y maes hwn.

Sefydlwyd y grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth gan GwE a phob ALL i arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn.

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi gweithio gyda'r ysgolion â GwE, gan rannu gwybodaeth ag ysgolion ac

mae wedi cytuno i ymestyn y cyfnod trwyddedu 2-flynedd o fis Medi 2022 am ddwy flynedd.

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn i Ddysgu (HYCTL) ar gyfer disgyblion Cynradd a Blynyddoedd 7 a 8.
- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu (HYTTL) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, 10 ac 11. Lanswyd HYTTL ym mis Ionawr 2022.
- Rhannwyd pecynnau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer HYCTL a HYTTL ag ysgolion.
- Bydd datblygwr yr Adnodd yn gweithio ochr yn ochr â GwE, gan rannu gwybodaeth mewn fforymau Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd.
- Datblygwyd pecynnau hyfforddi i gymorthyddion dysgu eu defnyddio efo rhieni (HYCTL a HYTTL) - un sesiwn i gyflwyno rhieni i wefan HYCTL a HYTTL ac ati.
- Datblygwyd pecyn adolygu i ysgolion uwchradd gan ddatblygwr yr Ymchwil, a rhannwyd hwn â 54 ysgol uwchradd.
- Mae'r Grŵp Rhanbarthol wedi cyfarfod pob tymor i drafod cynnydd - roedd datblygwr yr Ymchwil yn bresennol i rannu diweddariadau.
- Cytunodd y Grŵp Rhanbarthol bod angen trafod ymhellach efo ysgolion ar y ffordd orau ymlaen wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn gyda rhieni. Mae cynrychiolwyr yr ALL wedi adnabod ysgolion posibl i gymryd rhan yn y cynllun peilot efo'r pecyn hyfforddi i gymorthyddion dysgu.
- Iechyd, Lles a Gwytnwch Emosiynol (EHWR) - cyflwynodd Donna Jones a Richard Hatwood wybodaeth am y rhaglen, sy'n addas i blant 0 i 18 oed.
- Crëwyd llwyfan ar wefan GwE gyda gwybodaeth i Rieni, Gofalwyr ac Ysgolion - mae hyn yn sicrhau mynediad hawdd i bawb.
- Mae COVID wedi golygu y bu'n rhaid gohirio hyfforddiant CD oherwydd prinder staff a chynhwysedd mewn ysgolion - darperir erbyn hanner tymor mis Mai 2022.

AILGYDIO MEWN DYSGU

Mathemateg uwchradd

Datblygwyd gwefan Maths.Cymru i gynnwys adnoddau i gefnogi ymyraethau yn CA3 a CA4. Yn CA4, mae digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r haenau sylfaen a chanolradd, a'r haen uwch ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys fideos efo cyfarwyddiadau, taflenni gwaith ac atebion yn addas ar gyfer dysgu TGAU ac enghraifft o gwestiwn TGAU yn cael ei gwblhau mewn clip fideo.

Yn CA3, datblygwyd adnoddau a fydd ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r rhain yn cynnwys PowerPoint cyn ac ar ôl asesu, adnoddau i gefnogi'r dysgu sy'n cynnwys dolenni i glipiau fideo efo cyfarwyddiadau, cwestiynau enghreifftiol a thasgau i ddysgwyr eu cwblhau a'u marcio eu hunain.

Rhannwyd gwybodaeth am y wefan a'r adnoddau ar gyfer CA4 gyda'r Pennaeth Mathemateg yn rhanbarthol yn ystod 2020 ac ar gyfer CA3 gyda'r Cydlynwyr Rhifedd yn rhanbarthol yn ystod 2020/21. Gwelwyd bod defnyddio'r fforymau a sefydlwyd wedi bod yn effeithiol.

Mae rhai ysgolion yn gweithio ar deialu'r defnydd o adnoddau Maths.Cymru i gefnogi dysgwyr gyda'u rhaglenni RRRS. Darparwyd cymorth fel yr oedd angen ac mae'r prosiectau hyn yn eu camau cyntaf. Bydd angen adolygu cynnydd yn Nhymor yr Hydref. Mae dwy ysgol yn datblygu'r prosiect - y ddwy yng Ngwynedd.

Llythrennedd uwchradd

Datblygwyd yr adnoddau ar wefan Herio i gefnogi sgiliau llythrennedd sylfaenol dysgwyr. Defnyddir y rhain ar draws y rhanbarth. Mae 11 ysgol wrthi'n gweithredu'r rhaglen ymyrraeth 'Building Reading Power'. Cynhaliwyd pum sesiwn hyfforddiant a bu pob ysgol ar y sesiynau hyn. Datblygwyd deunyddiau cefnogol ac adolygir cynnydd yn nhymor yr Haf.

Mae ysgolion yn parhau efo'r cynllun peilot hwn ac mae un nofel arall yn cael ei darparu.

Cyfeirier hefyd at Amcan 2 - Ymchwil ac arfarnu

AMCAN 5 – CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu a gwella'u harferion yn

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Datblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.

Datblygu'r gallu i arwain ledled y system.

Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.

Cyn dyfodiad y pandemig COVID, cytunwyd ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. At hyn, fe ddosbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a gafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn Mawrth 2022 mae 29 o Ymgynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Derbyniodd holl aelodau staff GwE ddiweddiariad ar hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ar Fedi 17eg 2021. Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar Hydref 4ydd 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant gallant bellach gyflwyno hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau. Golyga hyn erbyn Mawrth 2022 fod un ar hugain o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a'r gallu i gyflwyno'r rhaglen partneriaethau ysgolion yn llwyddiannus.

Erbyn Mawrth 2022, mae deunaw clwstwr/ cynghrair (105 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr haf / cychwyn tymor yr hydref 2022. Mae 161 o benaethiaid/uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 154 o uwch arweinwyr/arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel 'hwyluswyr gwelliant'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r haen gyntaf o ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm dderbyn yr hyfforddiant ar gychwyn tymor yr Haf 2021. Oherwydd effaith y pandemig fe gynigwyd hyfforddiant ychwanegol i'r ysgolion hynny hyfforddi staff ychwanegol a chynyddu eu cynhwysiant ar gyfer y Gwaith yn Ionawr 2022. Mae'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ysgolion uwchradd/y clystyrau sydd ynghlwm wedi'i gyflwyno yn ystod Mis Mawrth 2022. Cafodd yr holl ysgolion arbennig yn y rhanbarth gyflawni hyfforddiant llawn yn ystod tymor yr haf 2021.

Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i bob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 ac yna 2022-23. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl yma mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith diwygio wedi eu ffurfio i gyd fynd a'r broses cymheiriol.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Cafwyd cyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth yn mynegi diddordeb, a oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Mae 33 o ysgolion wedi derbyn yr hyfforddiant yn Fis Mawrth 2022 ac fe drefnwyd bellach i weddiill y clystyrau dderbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* yn ystod Tymor yr Haf / Hydref 2022. Tri chlwstwr / cynghrair o ysgolion wedi eu hadnabod i'w cynnwys mewn astudiaeth achos ag ymchwil i effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2022-23.

CYMELL A MENTORA

Darparu hyfforddiant ar Gymell a Mentora

Cafodd ddeg o aelodau staff GwE wyth sesiwn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster ILM Lefel 7 'Certificate for Executive and Senior Level Coaches and Mentors' ac mae mwy na hanner y tîm wedi cyflwyno eu dau aseiniad cyntaf i'w hachredu. Rydym wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd i'r Tîm Craidd hwn rannu gwybodaeth a chefnogi gwaith a datblygiad personol y naill a'r llall.

Mae sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' Cenedlaethol ar gyfer 2021-22 wedi cael eu darparu gyda dau o'r Tîm craidd yn cyflwyno'r sesiynau cyfrwng Cymraeg. Mae holl staff GwE wedi derbyn yr hyfforddiant ynghyd â nifer fechan o Gydlynwyr ADY, Mentoriaid ANG ac Arweinwyr ysgolion rhanbarth GwE.

Adolygwyd y gweithgareddau 'Lle i Fyfyrio' gan fod enghreifftiau o gam-adnabod y rheiny oedd i gael eu mentora. Mae ail rownd y ddarpariaeth wrthi'n cael ei chynnal gydag amryw o enghreifftiau ble mae'r gwasanaeth wedi bod

yn fuddiol.

Mae sesiynau diweddarau carfan 2020-21 wedi eu darparu yn ystod tymor yr Hydref.

YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

Rhaglen Beilot Genedlaethol i Ysgolion sy'n Destun Pryder

Cryfhau strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder

Gofalu bod pob YCG yn mynd i'r afael yn effeithiol â rhaglenni cymorth cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer CiG ac ymgysylltu â chymheiriaid, rhwydweithio cynghrair/clwstwr ac ehangach.

Yn gynnar yn 2021, ffurfiodd ymgynghorwyr GwE ac uwch swyddogion pob awdurdod lleol grŵp gorchwyl a gorffen, dan arweiniad y Bwrdd Rheoli, i adolygu a datblygu ymhellach y strwythurau a'r prosesau ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder. Gan ystyried y dull cenedlaethol esblygol gydag ysgolion sy'n destun pryder, roedd y grŵp am sicrhau bod y dull gweithredu rhanbarthol yn ddigon cadarn a grymus i adnabod a chefnogi'r cymorth i'r ysgolion hyn a bod mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol.

Mae rhaglen waith y grŵp gorchwyl a gorffen wedi sicrhau'r effaith a'r camau a nodir isod:

- mabwysiadu iaith a geirfa fwy adeiladol i'w defnyddio wrth drafod pryderon a chymorth dilynol efo ysgolion. Er mwyn symud oddi wrth y stigma o gategoreiddio a chyhoeddusrwydd, ystyrir bod pob ysgol ar gontinwmm o annibyniaeth tuag at hunan wella.
- Mae'r dull sydd wedi'i fabwysiadu yn un 'hawl a haeddiant' i ysgolion ac yn canolbwyntio ar yr elfen gymorth a sut mae angen i natur a ffocws y pecyn cymorth fod yn benodol ac yn agored i ble mae ysgolion arni ar eu taith. Mae hyn wedi arwain at ddeialog broffesiynol sy'n fwy agored a thryloyw rhwng ymgynghorwyr a swyddogion ALL ac efo arweinwyr ysgolion, gan feithrin perthynas iachach.
- Diffiniwyd set gyffredin o egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau sy'n sail i'r gwaith ym mhob awdurdod lleol. Unwaith eto, mae hyn wedi cyfrannu at berthynas sy'n fwy agored, gonest, tryloyw a cholegol efo ysgolion.
- Cytunwyd ar set gyffredin o ysgogwyr a throthwyon i adnabod pryderon yn yr agweddau hyn ar wella ysgol - Safonau, Dysgu ac Addysgu, Arweinyddiaeth, Cyllid, AD, Rheoli Gwasanaethau, Cynhwysiant, Presenoldeb, Llesiant ac ADY. Mae hyn wedi sicrhau dull gweithredu mwy cyson ar draws y rhanbarth wrth adnabod ysgolion sy'n destun pryder.
- Diffiniwyd sut allai ac y dylai cymorth edrych pan fydd pryder wedi'i adnabod. Mae hyn wedi arwain at gysondeb wrth ddarparu cymorth i ysgolion sy'n destun pryder ar draws y rhanbarth.
- Cynhaliwyd gweithdai hyfforddiant efo ymgynghorwyr a swyddogion i sicrhau bod yr ysgogwyr a'r trothwyon hyn yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyffredin a chyson. Bu'r gweithdai hyfforddiant yn fodd i grisialu ac atgyfnerthu nifer o faterion ynghylch cyfres o gwestiynau allweddol e.e. Beth yw 'pryder'? Pa mor fuan ydym ni'n tynnu sylw at bryder? Sut wnawn ni sicrhau ansawdd y pryder cyn rhannu efo'r ysgol? Sut wnawn ni reoli'r ffordd y cyfathrebir pryderon i'r ysgol? Beth ddylai lefel ofynnol y dystiolaeth atodol fod ar gyfer pryder? Pryd mae 'cyfuno' pryderon yn arwain at adnabod ysgol sy'n destun pryder?
- Gweithredwyd strwythurau a phrosesau diwygiedig ym mhob awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys 'grŵp aml-asiantaethol' gyda'r aelodau yn cynnwys aelodau tîm GwE a'r swyddogion arweiniol o dîm cymorth yr awdurdod ar gyfer cynhwysiant, ymddygiad, presenoldeb, ADY ac AD. Mewn cyfarfodydd, rhennir yr wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion fel bod modd cael trosolwg holistaidd o bryderon ac/neu gynnydd. O ganlyniad, ceir mwy o eglurder ynghylch beth sydd angen ei wneud a phwy sy'n gyfrifol amdano.
- Mae gan bob ysgol sy'n destun pryder gynllun 360 holistaidd cynhwysfawr. Mae hyn yn sicrhau bod modd i bob ysgol gael y cymorth gofynnol yn amserol.
- Bydd GwE a Swyddogion yr ALL yn monitro cynnydd ac effaith. Y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr Addysg perthnasol sydd yn atebol am effeithiolrwydd y broses yn y pendraw, a fydd yn cadeirio Bwrdd Ansawdd yr ALL ac yn cadarnhau'r cynlluniau 360. Bydd Bwrdd Ansawdd yr ALL yn cael diweddiariad cyson ar gynnydd ac mae bellach mewn gwell sefyllfa, ble a phryd bo angen, i benderfynu a oes angen addasu neu gryfhau cynllun cymorth neu, ble nad yw ysgol yn gwneud y cynnydd gofynnol ar y cyflymdra disgwylidig, penderfynu a oes gofyn defnyddio ei bwerau statudol i ymyrryd.
- Rhwng 2019 a 2021, roedd 14 ysgol uwchradd mewn categori dilyniant Estyn [7 o'r rheiny mewn categori statudol]. Mae'r nifer bellach wedi gostwng i 3. Dros yr un cyfnod, mae nifer yr ysgolion cynradd mewn dilyniant wedi gostwng o 10 i 1.

YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)

Sicrhau fod GwE a'i holl weithlu yn parhau i arddel holl ofynion a gwerthoedd Sefydliad sy'n Dysgu.

Cynorthwyo ysgolion ar draws y rhanbarth sydd i'w ymgysylltu ag YSD i ailgydio yn y broses yn llwyddiannus ac

drwy hynny cefnogi eu taith diwygio ar gyfer CiG

Sicrhau fod ysgolion y rhanbarth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Adnodd Cenedlaethol Gwerthuso a Gwella i gefnogi gwerthoedd YSD.

Yn dilyn dadansoddiad o ymatebion staff GwE i'r holiadur Sefydliad sy'n Dysgu amlygwyd mai 'Sefydlu diwylliant ymholi, ymchwilio ac arloesi' oedd y dimensiwn oedd angen ei ddatblygu ymhellach. Yn ystod y cyfnod pandemig mae'r agwedd yma wedi cryfhau yn sylweddol a'r gwasanaeth wedi ail bwrpasu a datblygu ei hun 7 gwaith dros y cyfnod yma er mwyn ymateb i anghenion ysgolion. Yn sgil hyn, mae YCG GwE wedi gorfod cynnal ymchwil er mwyn darganfod dulliau amgenach i gefnogi ysgolion dros y cyfnod ansicr yma ac wedi arwain at waith arloesol yn y defnydd o TGCh. Mae'r 4 thema trawsliniol o Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl gyda'n gilydd wedi bod yn hanfodol yn ystod y cyfnod yma er mwyn cryfhau ymhellach partneriaeth y gwasanaeth gyda'r ysgolion.

Mae'r ymgysylltu gyda'r ysgolion yn ystod cyfnod y pandemig wedi gorfod bod yn sensitif iawn oherwydd yr holl bwysau rheolaethol o sicrhau fod iechyd a lles eu disgyblion a staff yn dod gyntaf. Sgill effaith hyn yw fod ysgolion wedi datblygu yn naturiol mewn nifer o'r dimensiynau e.e. sefydlu diwylliant o ymchwilio, ehangu defnydd o systemau, hyrwyddo dysgu mewn tîm a datblygu gweledigaeth a rennir. Mae'r 4 thema trawsliniol hefyd wedi datblygu'n sylweddol – yn enwedig yr elfen technoleg.

Mae ysgolion GwE sydd yn rhan o'r peilot wedi cyflwyno rhestrau chwarae ar gyfer yr adnodd cenedlaethol fydd yn cael ei rannu fel arfer effeithiol ar wefan Hwb y llywodraeth.

Mae amgylchiadau'r pandemig wedi golygu nad yw'r adnodd wedi ei lansio yn swyddogol ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth ac ni fydd hynny yn digwydd hyd Mai 21ain. Bydd cyfle wedyn i sicrhau fod ysgolion yn datblygu gwell dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r adnodd pe dymument wneud hynny.

FFRAMWAITH GWELLA ANSAWDD

Datblygu defnydd ysgolion o'r Pedwar Diben fel rhan o'r Fframwaith Gwella Ansawdd i arfarnu'r arferion a'r blaenoriaethau cyfredol.

Er bod y fframwaith wedi'i gydnabod yn gyffredinol, bu'r gweithredu yn dameidiog ac yn wannach o lawer oherwydd y pandemig. Bydd y cyfeirio yn yr hyfforddiant ar asesu a chynnydd yn rhoi hwb ychwanegol ac yn rhoi cyd-destun i'w ddefnydd. Bydd ysgolion yn gallu ail-ymweld â'r broses a mesur cynnydd ac ail-ddiffinio anghenion datblygu wrth symud ymlaen. Bydd yr hyn sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn creu mwy o fomentwm felly hefyd y cyfleoedd i ysgolion wella'u gwaith cynghrair/clwstwr.

AMCAN 6 – BUSNES

Sicrhau bod GwE yn meddu ar drefn llywodraethu gryf a chefnogaeth busnes a gweithredol effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian.

Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd eglur a chadarn yn gryfder allweddol o fewn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn ymwneud â'r holl lefelau cynllunio yn mynd i'r afael â holl agweddau gwaith GwE ac yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid yn glir. Mae'r cynlluniau wedi'u prisio'n llawn gyda meini prawf o ran llwyddiant a cherrig milltir eglur ar gyfer cyflawni amcanion.

Mae yna drefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n chwarterol gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae'r staff ar yr holl lefelau'n deall eu cyfrifoldebau o ran gwelliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae pob Awdurdod Lleol yn meddu ar gynllun busnes manwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff y cynnydd tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt ar lefel awdurdod lleol eu monitro'n chwarterol. At hyn, bydd yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol yn eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Caiff problemau parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunanwerthuso'n nodwedd gref yng ngwaith GwE ac mae'r broses hunanwerthuso'n gylchol ac yn barhaus. Mae cryn bwyslais ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ynghyd â phwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn mynd ati'n gywir i adnabod meysydd perfformiad da a meysydd i'w datblygu, neu feysydd lle mae elfen o risg o ran gwella profiadau a deilliannau addysgol i'r dysgwyr.

Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheoli cyllid effeithiol ar waith. Mae'r gwaith cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol penodol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant o ran grantiau'n rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ategu'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Yn sgil defnydd cynyddol effeithiol o'r data i adnabod y blaenoriaethau allweddol, caiff y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a'r penderfyniadau ynghylch cynllunio ariannol ei gryfhau, gan fod y ffrydiau gwaith sy'n ategu'r cynllun busnes yn nodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio'n glir.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r rhanddeiliaid i gyd o'r un farn erbyn hyn ynghylch sut i asesu gwerth am arian yng nghyswllt gweithgareddau GwE o fewn strwythurau ac amcanion y cynllun busnes.

Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau'n gywir ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r cofnod risgiau yn ddogfen fyw ac fe gaiff ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn adnabod risgiau cynyddol neu risgiau nad ydynt mwyach yn risgiau lefel uchel. Caiff y ddogfen ei hadolygu pob mis mewn cyfarfod arweinyddiaeth uwch. At hyn, mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cofnod pob chwarter.

Mae GwE yn rheoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol ac mae hyn yn ei dro yn sicrhau modd iddynt gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio'r adnoddau'n effeithiol a bodloni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Systemau rhannu gwybodaeth

Cafodd effeithiolrwydd 'Tableau /Analytics' fel adnodd dadansoddi ar gyfer G6 ei rannu gyda'r Uwch Dîm Rheoli. Sefydlwyd cyfrifon ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ac mae cyfrifon ar gyfer yr Arweinwyr Craidd wedi eu creu yn ystod tymor yr Hydref 2021. Caiff gwybodaeth o'r adnodd dadansoddi ei defnyddio'n effeithiol eisoes i lywio adroddiadau system fel y rhaglen trawsnewid ADY a hefyd ymgysylltiad ysgolion â chynnig dysgu proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru. Dangosfyrddau ychwanegol i ddadansoddi canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi eu llwytho a'u rhannu ac yn bwriadu datblygu mwy o ddangosfyrddau yn ystod y flwyddyn i rannu gwybodaeth.

Bu i'r tîm ADY a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt gyflawni gwaith effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i ail-ymwneud â G6 yn dilyn cyfnodau clo'r pandemig. Bu hyn yn canolbwyntio'n arbennig ar gerrig milltir trawsnewid ADY gan arwain at gynnydd mewn ysgolion sy'n cymryd rhan ac yn cwblhau statws eu cynnydd cyfredol. Arweiniodd hyn at well dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer y meysydd lle mae angen cefnogaeth bellach. Cynnydd wedi bod yn y defnydd o'r modiwl ADY gan ysgolion i gefnogi adroddiadau gwaelodlin ac yn ystod ymweliad Estyn. Cynhaliwyd adolygiad cyflawn o ddefnydd o fodiwlau G6 yn ystod Mis Chwefror 2022 ac fe gyflwynwyd am ystyriaeth gan yr Uwch dîm Rheoli.

Cafodd rhaglen dreigl o ran sefydlu a chefnogaeth ei chynnig i Benaethiaid newydd ac aelodau'r Uwch Dîm Reoli ledled y rhanbarth, a hynny'n rhithwir a drwy ymweliadau wyneb yn wyneb. At hyn, mae mwy a mwy o ysgolion wedi caffael hawliau gweinyddol dros eu cyfrifon staff G6 eu hunain. O ganlyniad, erbyn hyn, mae modd i'r ysgolion reoli strwythurau eu cyfrifon eu hunain ar ran eu mynediad.

Cydweithiodd unigolion arweiniol yn effeithiol gyda'r tîm digidol i ddatblygu potensial Canolfan Cefnogaeth GwE ymhellach. Nifer bresennol yr ymweliadau â thudalennau yw 65,000 gyda 12,500 yn cael eu lawr lwytho. Mae Prif Wefan GwE wedi ei datblygu i gynnwys adnoddau CiG fydd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd pan ddaw adnoddau i law gan y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.

Gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru a'r angen i adnabod a mesur cynnydd dysgwyr mae offeryn wedi ei ddatblygu sy'n galluogi ysgolion i olrhain amrediad o wybodaeth i asesu a mesur cynnydd. Mae'r offeryn wedi ei dreialu gan garfan o ysgolion. Bwriedir i hwn fod ar gael am ddim i ysgolion yn y dyfodol agos.

Rydym eisoes yn rhannu gwybodaeth gydag ysgolion drwy boblogi Office 365 a rhannu ffolderi. Rydym yn edrych i ehangu'r ddarpariaeth yma a hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd i aelodau staff o'r awdurdodau lleol gael mynediad hefyd. Ar hyn o bryd rydym yn rhannu dangosfyrddau Grantiau, Fframwaith Cyfoethogi ansawdd gyda'r bwriad o rannu'r offeryn i fesur y cynnydd mae ysgolion yn ei gwneud i wireddu'r Cwricwlwm Newydd. Cyflwynwyd

papur yn amlinellu ein defnydd o Office 365 i'r Uwch Dîm a'r Bwrdd Rheoli gyda'r bwriad i adolygu addasrwydd ein systemau i'r dyfodol.

2. ATODIAD

Data Rhanbarthol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



Cynllun Busnes GwE 2021-2022 Data rhanbarthol Chwarter 4



www.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru



CYNLLUN BUSNES 2021-2022

BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2021-2022

Data Rhanbarthol

AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.

CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

Data rhanbarthol:

Prosiect GwE a Shirley Clarke

Cyfanswm ysgolion ar draws y rhanbarth sydd wedi cymryd rhan yn Haenau 1, 2 a 3

	Ysgolion	Athrawon
Haen 1	27	54
Haen 2	193	386
Haen 3	140	261
Cyfanswm	260	701

- 89% o ysgolion y rhanbarth
- 96% Cynradd
- 80% Uwchradd
- 70% Arbennig

Mynychodd dros 1000 o athrawon ar draws y rhanbarth sesiwn gwyll Shirley Clarke ar 12/10/2022. Methu cael nifer pendant gan fod ysgolion cyfan yn mynychu o dan un enw er mwyn sicrhau y gallai pawb fynychu ar Zoom.

GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)

Data rhanbarthol:

Curriculum design sessions	- Secondary attendees: 101 - Primary attendees: 504 - Special schools and PRUs: 16 - Others e.g. LA, ESTYN, other consortia: 8
Progression & Assessment	- Secondary attendees: 141 - Primary attendees: 620 - Special schools and PRUs: 18
Principles of Planning	- Others e.g. LA, ESTYN, other consortia: 11 - Taking place post Easter

Canolfan Cefnogaeth GwE (ar 24/3/22)

- Nifer wedi edrych ar y dudalen 122k
- Ffeiliau wedi'u lawr lwytho 23k

Adran Cwricwlwm i Gymru (ar 24/3/22)

- Nifer wedi edrych ar *Curriculum for Wales*
- Nifer wedi edrych ar Cwricwlwm i Gymru 2,674

- Nifer wedi edrych ar *Curriculum Design* 856
- Nifer wedi edrych ar Dylunio Cwricwlwm 1002

Timau MDaPh

Data rhanbarthol:

Ar 8/4/22, niferoedd ymarferwyr sydd yn rhan o rwydweithiau rhanbarthol a lleol CiG. Mae'r niferoedd hyn yn dal i godi wrth i ysgolion barhau i fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o grwpiau lleol.

Disgrifiad	Nifer
Asesu	120
Dylunio Cwricwlwm	153
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	89
Iechyd a Lles	88
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	118
Mathemateg a Rhifedd	86
Y Celfyddydau Mynegiannol	81
Y Dyniaethau	69

Presenoldeb mewn cyfarfodydd Rhanbarthol

- 21/9/21 - 132 yn bresennol
- 6/10/21 - 115 yn bresennol
- 16/11/21 - 117 yn bresennol
- 14/12/21 - 130 yn bresennol
- 2/3/22 – 116 yn bresennol
- 5/4/22 – 112 yn bresennol

Mae'r adran fideo yn TEAMS wedi cynyddu nifer y rhai sy'n ymweld - gan symud o 214 yn ymweld ym mis Tachwedd 2021 at 601 yn ymweld ym mis Mawrth 2022.

Canolfan Cefnogaeth GwE (ar 24/3/22)

- Nifer wedi edrych ar y dudalen 122k
- Ffeiliau wedi'u lawr lwytho 23k

Adran Cwricwlwm i Gymru (ar 24/3/22)

- Nifer wedi edrych ar *Curriculum for Wales* 2,845
- Nifer wedi edrych ar Cwricwlwm i Gymru 2,674
- Nifer wedi edrych ar *Curriculum Design* 856
- Nifer wedi edrych ar Dylunio Cwricwlwm 1002

AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN

Data rhanbarthol

Cerdd Iaith - Cynradd/nifer ysgolion: 5

22.6.21

Tanysgrifiad newydd Power Language - cynradd	Hyd 22 /nifer yr ysgolion newydd: 35	Mawrth 22 nifer yr ysgolion: 69
--	--	---------------------------------------

Gweminar Power Language Cynradd Nifer yr ysgolion: 23	22/11/21
--	----------

Gwobr Anthea Bell - Cystadleuaeth Gyfieithu - uwchradd:	Nifer yr ysgolion/: 18
--	------------------------

Rhaglen Mentora Blwyddyn 8/9: nifer yr ysgolion: 18 Tiwtora tyrbo	Hyd 21 - Mawrth 22
--	--------------------

DP: Rachel Hawkes	20.1.22: 55	17.2.22: 13	17.3.22: 11
	Uwchradd Cynradd	Uwchradd Cynradd	Uwchradd Cynradd
Cyfarfod Rhwydwaith ITM - uwchradd/	1/7/21 Nifer yr ysgolion: 26	14.10.21 33 ysgol - 46 athrawon	Sesiwn galw heibio 28.3.22 11 athro

CALU - LLDC

Data rhanbarthol:

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

	2021-22
Rhanbarthol	77

Cymorthyddion wrth eu Gwaith

Rhanbarthol	85
-------------	----

Darpar CALU Cylch 3

Rhanbarthol	39
-------------	----

Darpar CALU Cylch 4

Rhanbarthol	33
-------------	----

Asesiadau Statws CALU Cylch 2

Rhanbarthol	30
-------------	----

Aseswyr CALU

Rhanbarthol	35
-------------	----

Y Gymraeg (DP)

Data rhanbarthol:

Ein Llais Ni - 100 ysgol yn rhan o'r prosiect

Darpariaeth tymor yr Hydref i ysgolion sy'n rhan o'r prosiect:

Cynhadledd: 111

Ar alw: 1: 41

Rhwydwaith: 67

Cynllun Sabothol: Rhanbarthol 12

Cwrs y Gymraeg mewn Gwaith - canolraddol i GwE: 8

SAFON UWCH

Data rhanbarthol:

- Presenoldeb yn y cyfarfod rhwydwaith ôl-16 mwyaf diweddar i arweinwyr (Gwanwyn 2022)
- Rwydweithio a rhannu arferion ar draws Penaethiaid Chweched - rhwydweithiau ar draws awdurdodau ar y cyd: 17

Ymchwil ac Arfarnu

Diweddariad RILL Ionawr 2022:

Yn sgil hysbysebu ym mis Mehefin 2021, mae 33 o ysgolion wedi'u hyfforddi mewn RILL (58 o athrawon) yn 2021-22). Daw'r mwyafrif o athrawon o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Diweddariad SAFMEDS Mawrth 2022:

Dyma'r ffigyrau sydd yn edrych ar ddeunyddiau ar-lein:

- *Gweminar Ionawr 22: Saesneg = 100 wedi edrych, Cymraeg = 43 wedi edrych
- Gweminar Hydref 20 Saesneg = 1153 wedi edrych, Cymraeg = 490 wedi edrych
- Hyfforddiant SAFMEDS Hydref 20: Saesneg = 424 wedi edrych, Cymraeg = 76 wedi edrych
- *Hyfforddiant SAFMEDS 2022: Saesneg = 25 wedi edrych, Cymraeg [yn aros i gael ei lwytho i YouTube]
- *Hyfforddiant Dysgu Manwl 2022: Saesneg = 36 wedi edrych, Cymraeg = 21 wedi edrych

*Sylwch: nid yw'r adnoddau hyn wedi'u llwytho ar Ganolfan Cefnogaeth GwE hyd yma. Rydym yn rhagweld y bydd y niferoedd sy'n edrych yn codi maes o law.

AGA

ANG - Presenoldeb ar gyfer y Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol (Sesiwn 3 - 6)

Sesiwn Ranbarthol i ANG	Nifer yr ANG yn bresennol	Cynnwys y sesiwn
Sesiwn 3	139	Cwricwlwm Cymru
Sesiwn 4	193	ANG a Llesiant Disgyblion
Sesiwn 5	150	Ymddygiad Heriol yn y Dosbarth
Sesiwn 6	126	Asesu ffurfiannol (Prosiect Shirley Clarke)

DIGIDOL

Data rhanbarthol:

Hwb

Tud. 164

Roedd nifer cyfartalog ysgolion y rhanbarth a ymgysylltodd â Hwb yn ystod chwarter 4 yn 98.06%.

- Ionawr – 98.17%
- Chwefror – 98%
- Mawrth - 98%

MATHEMATEG A RHIFEDD

Data rhanbarthol:

Cyflwyniad i'r MDAph Mathemateg a Rhifedd

Rhanbarthol - Ymarferwyr cynradd

- Sesiwn cyfrwng Cymraeg - 39
- Sesiwn Cyfrwng Saesneg - 56

Addysg ariannol

- Nifer yn cwblhau e-ddysgu - 48
- Nifer wedi hyfforddi 'wyneb yn wyneb' – 69

Cyfarfod Rhwydwaith Penaethiaid Mathemateg (Mawrth 2022)

Nifer yr aelodau: 34

Gofynnodd amryw am recordiad gan nad oeddent yn gallu dod, ffigyrau sydd wedi edrych ar y recordiad hyd yma: 12

Gweithdy Ymgysylltydd â'r 5 Hyfedredd Mathemategol (CiG)

Diweddariad ar ffigyrau gwyllo presennol:

Cyfrwng Cymraeg: 493, Cyfrwng Saesneg: 527

Gweithdai ar-lein

- Dydd Iau 9/12/21 4pm – 5pm Gweithdy 1: Datblygu meddwl algebraidd drwy rif - 15 aelod uwchradd, ffigyrau gwyllo ar hyn o bryd: 139
- Dydd Iau - 13/1/22, 4yp - 5yp - Gweithdy 2: Deall ystyr a strwythur mynegiadau. 10 o'r Uwchradd, ffigyrau gwyllo ar hyn o bryd: 52
- Dydd Iau - 3/2/22, 4yp-5yp Gweithdy 3: Darganfod yr anhysbysyn - cyflwyniad i hafaliadau llinol - 12 o'r uwchradd, ffigyrau gwyllo ar hyn o bryd: 35

SAESNEG A LLYTHRENNEDD

Data rhanbarthol:

- Cymorth llythrennedd i ysgol sydd naill ai mewn categori Estyn/Mesurau Arbennig, yn destun pryder neu angen arweiniad. Uwchradd = 20 ysgol wedi cael cymorth unigol
- Mynychodd bob ysgol uwchradd y Fforwm Penaethiaid Saesneg

CYMRAEG A LLYTHRENNEDD

Data rhanbarthol:

- Cyfarfodydd rhwydwaith ac 'Ar alw' (Chwe '22) = 14
- PA a fynychodd hyfforddiant DPP CBAC (Ysgolion unigol fydd yn cyllido'r hyfforddiant hwn) - Chwe '22 + Maw '22 = 16
- Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd' = 27
- Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg – Uwchradd YCS' = 18

- Cynhadledd Y Gymraeg Safon Uwch (GwE/Partneriaeth) = 10
- Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE) - nifer yr ysgolion uwchradd sy'n aelodau o'r prosiect = 13
- Prosiect 'Creu ar draws ieithoedd' - prosiect MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ar y cyd â YCG Ieithoedd Rhyngwladol ac YCG Saesneg, yn ogystal â Phrifysgol Bangor) = 2

GWYDDONIAETH

Data Rhanbarthol

- Ni chynhaliwyd rhwydweithiau penodol i wyddoniaeth oherwydd datblygiad y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol ar gyfer MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
- Nifer yr ysgolion uwchradd gafodd gymorth penodol i'r ysgol: 27

Y CYFNOD SYLFAEN

Data rhanbarthol:

- Nifer yr ysgolion gafodd gymorth penodol: 32
- Prosiect gwaith coed: 26
- Cyfarfod Rhwydwaith y Gwanwyn: 303

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol

ARWEINYDDIAETH

Data rhanbarthol:

	2020-21	2021-22
1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol	98	102
2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr	61	72
3. Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP)	71	35
4. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro	46	32
5. Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol	17	17
CYFANSWM	294	258

LLYWODRAETHWYR

Data Rhanbarthol:

Mae cynrychiolydd o GwE wedi mynychu cyfarfodydd CCAC/SCLI cenedlaethol a Grŵp Gogledd Cymru

- Cyfarfod CCAC (ADEW)/SCLI (GSO) 18/06/21 (cenedlaethol)
- Cyfarfod SCLI rhanbarth GwE 23/06/21 (rhanbarthol)
- Cyfarfod CCAC/SCLI 14/10/21 (cenedlaethol)

- Cyfarfod SCLI rhanbarth GwE 21/10/21 (rhanbarthol)
- Cyfarfod CCAC/SCLI 17/02/22 (cenedlaethol)
- Cyfarfod SCLI rhanbarth GwE 31/03/22 (rhanbarthol)

CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU

Data rhanbarthol:

- Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio cynghrair: 51
- Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr: 331
- Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG: 54
- Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG: 331

AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

GDD PMG

Data rhanbarthol:

Dysgu Proffesiynol:

- Cyflwyniad i Ymddygiad Gwarchodol i Helpu Llesiant = 68
- MODEL TIS PACE = 45
- Ysgolion sy'n wybodus ynghylch Trawma, Blynyddoedd Cynnar = 700
- A lleoliadau BC nas cynhelir = 15
- Dull gweithredu Trawma ysgol gyfan = 91
- TIS i UDA = 25
- Biofilia = 90
- Talk Boost = 9
- Gwneud Llun a Siarad = 20
- Person dynodedig ar gyfer hyfforddiant PMG = 25
- Hyfforddiant PMG i Lywodraethwyr = 10

AILGYDIO MEWN DYSGU

Data rhanbarthol:

Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2:

Mae 54 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant rhwng mis Medi 2021 a thymor y Gwanwyn 2022.

Addysgu Manwl a SAFMEDS:

Cynhaliwyd wyth sesiwn hyfforddi rhanbarthol yn hyntor 15 Hydref 2021, a bellach gall holl ysgolion GwE gael

mynediad i wefan fyw SAFMEDS i ddisgyblion, gweminarau ac adnoddau ar-lein.

- Saesneg: Gwylodd 1023 y weminar ailgydio mewn dysgu, a 391 y fideo hyfforddiant SAFMEDS.
- Cymraeg: 474 ar gyfer y weminar a 70 ar gyfer yr hyfforddiant SAFMEDS.
- Disgyblion yn cwblhau oddeutu 677 gweithgaredd mathemateg yn yr wythnos lansio gyntaf.

Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR):

Mae 42 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant rhwng mis Medi 2021 a thymor y Gwanwyn 2022.

Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio Google Classroom:

- Mae 62 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Prosiect Lles Cydweithredol Warwick

Ym mis Ionawr 2022, cafodd 33 ysgol gynradd eu recriwtio i gymryd rhan yn nau linyr iaith ein hastudiaeth les Connect.

Astudiaeth Gwrth-fwlio KiVa y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd

Er 2020 rydym wedi bod yn gweithio efo 29 ysgol gynradd i arfarnu effaith KiVa.

Prosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP)

Yn nhymor yr Hydref 2022, cafodd 52 ysgol gynradd eu recriwtio.

Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP)

Rydym wrthi'n cefnogi 40 o ysgolion cynradd ac uwchradd.

AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Data Rhanbarthol:

- Nifer o ysgolion/clystyrau sy'n rhan o'r rhaglen: 105/18
- Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd: 161
- Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 154
- Nifer o ysgolion/ clystyrau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer yr haen nesaf: 154/20

YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

Data rhanbarthol:

- Nifer yr ysgolion uwchradd mewn categori statudol: 3
- Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n achosi pryder [yn ogystal â'r uchod]: 8
- Nifer yr ysgolion cynradd mewn categori statudol:
- Nifer yr ysgolion cynradd sy'n achosi pryder [yn ogystal â'r uchod]:



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	13 Gorffennaf 2022
TEITL	Cyfrifon Terfynol GwE 2021/22 – Alldro Refeniw
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
AWDUR	Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. PENDERFYNIAD

- 1.1 **Nodi a derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2021/22 yma fel Atodiad 1**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant a gyflwynir er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro".
- 1.2 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2021/22 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn sydd eisoes wedi eu cynhyrchu, ardystio a chyhoeddi gan Adran Gyllid yr awdurdod lletya cyn y dyddiad statudol o 31 Mai.
- 1.3 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant 2021/22 o £230,128.

2. CEFNDIR

- 2.1 Adroddir ar sefyllfa terfynol o orwariant net o £230,128 yn erbyn y gyllideb, sydd bennaf yn sgil blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol penodol.
- 2.2 Bu symudiad o £246,417 i'r hyn adroddwyd yn chwarter 3, sef amcangyfrif tanwariant o (£16,289), gyda'r rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 Gweithwyr:

Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£154,111) Chwarter 3: Tanwariant (£70,371)

Tanwariant yn bennaf oherwydd trosiant staff gan gynnwys staff ar secondiad gyda'r cynlluniau yn cael eu hariannu drwy grantiau. Gwariant ar brosiectau wedi ei flaenoriaethu eleni, gyda'r tanwariant o dan y pennawd hwn yn cael ei glustnodi i'r pwrpas hwnnw.

3.2 Adeilad:

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £50,388 Chwarter 3: Gorwariant £56,833

Y sefyllfa terfynol yw gorwariant oherwydd diffyg incwm rhent am ddefnydd adeiladau GwE yn sgil yr argyfwng Covid. Mae GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael ei ariannu drwy grantiau. Gyda staff bellach yn dychwelyd i'r swyddfa bydd disgwyl i'r ffrwd incwm yma wella yn ystod 22/23.

3.3 Cludiant:

Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£102,734) Chwarter 3: Tanwariant (£102,751)

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 3, sef tanwariant oherwydd diffyg teithio yn ystod y cyfnod clo. Mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn, ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid. Bydd y pennawd yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio i'r dyfodol.

3.4 Prosiectau Penodol:

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £433,369 Chwarter 3: Gorwariant £100,000

Mae'r gwasanaeth yn fwriadol wedi blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol yn y flwyddyn ariannol hon er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion. Mae'r gorwariant yn y pennawd yma yn cael ei ariannu drwy dan wariannau ar benawdau eraill a nodir uchod yn ogystal â defnydd o'r gronfa wrth gefn.

4. CRONFA TANWARIANT

- 4.1 Cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd (£563,530).
- 4.2 Mae'r gorwariant net o £230,128 i'w ariannu o gronfa wrth gefn, ac yn dilyn trosglwyddiadau eraill i'r gronfa yn ystod y flwyddyn, y balans terfynol ariannol 2021/22 yw (£437,503).

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021/22.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad

CYD-BWYLLGOR GwE
CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2021/22

	Cyllideb	Gwariant	Gor / (Tan) Wariant Net
	£	£	£
Gwariant			
Gweithwyr			
Cyflogau			
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	864,534	782,953	(81,581)
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	3,851,471	3,717,859	(133,612)
- Staff ar Secondiad	138,020	138,020	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,751,256)	(1,685,687)	65,569
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	42,588	38,101	(4,487)
Adeilad			
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	173,245	166,500	(6,745)
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(58,833)	(1,700)	57,133
Cludiant			
Costau Teithio	137,264	34,530	(102,734)
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	82,125	71,301	(10,824)
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	16,496	16,496	0
Ffioedd archwilio	11,454	11,454	0
Cyfraniad ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn	159,789	159,789	0
Broceru	292,898	307,480	14,582
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd			
Cyfreithiol	5,726	5,726	0
Adnoddau Dynol	9,818	9,818	0
Cyllid	42,456	42,456	0
Technoleg Gwybodaeth	46,957	46,957	0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948	469,948	0
Prosiectau Penodol			
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	13,835,039	14,231,899	396,860
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	1,125,254	1,139,396	14,142
Grant Datblygu Disgyblion - Cyngorydd Strategol	102,787	113,002	10,215
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	195,847	207,999	12,152
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	450,295	450,295	0
Trawsnewid Y System Ady	68,912	68,912	0
Fin-Ed Pathfinder Project	14,250	14,250	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	207,720	207,720	0
Ein Llais Ni	97,050	97,050	0
Kiva Trail	5,113	5,113	0
Prosiect Pr4I	17,500	17,500	0
Cyfanswm Gwariant	20,654,467	20,885,137	230,670

Tud. 172

	Cyllideb	Gwariant	Gor / (Tan) Wariant Net £
Incwm	£	£	£
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd			
- Cyngor Ynys Môn (20/21: 10.15% - 21/22: 10.16%)	(429,054)	(429,054)	0
- Cyngor Gwynedd (20/21: 17.63% - 21/22: 17.63%)	(744,676)	(744,676)	0
- Cyngor Conwy (20/21: 15.30% - 21/22: 15.28%)	(645,228)	(645,228)	0
- Cyngor Dinbych (20/21: 15.30% - 21/22: 15.36%)	(648,732)	(648,732)	0
- Cyngor Fflint (20/21: 22.68% - 21/22: 22.72%)	(959,440)	(959,440)	0
- Cyngor Wrecsam (20/21: 18.94% - 21/22: 18.86%)	(796,418)	(796,418)	0
Prosiectau Penodol			
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(13,811,991)	(13,811,991)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(1,125,254)	(1,125,254)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyngorydd Strategol	(102,787)	(102,787)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	(195,847)	(195,847)	0
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	(450,295)	(450,295)	0
Trawsnewid Y System Ady	(68,912)	(68,912)	0
Fin-Ed Pathfinder Project	(14,250)	(14,250)	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	(207,720)	(207,720)	0
Ein Llais Ni	(97,050)	(97,050)	0
Kiva Trail	(5,113)	(5,113)	0
Prosiect Pr4l	(17,500)	(17,500)	0
Incwm Secondiadau	(138,020)	(138,020)	0
Incwm Arall	(36,391)	(36,391)	0
Cyfraniad o Gronfa Gofynion Pensiwn	(159,789)	(159,789)	0
Llog ar Falansau	0	(542)	(542)
Cyfanswm Incwm	(20,654,467)	(20,655,009)	(542)
Cyfanswm Cyllideb Net	0	230,128	230,128
Memorandwm -			
Y Gronfa Gyffredinol			
	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2021		(563,530)
	Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2021/22		230,128
	Trosglwyddiadau		(104,101)
	Llai - Defnydd o'r Gronfa		0
	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2022		(437,503)

Eitem 10

GwE: Cyd-Bwyllgor 13/07/22



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	13 Gorffennaf 2022
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
PWRPAS	Cyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad
ARGYMHELLIAD	Derbyn a nodi'r wybodaeth
AWDUR	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2. CYFRIFON 2021/22

- 2.1 Cyflwynwyd adroddiadau "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2021/22 i Gyd-Bwyllgor y GwE ar 13 Gorffennaf 2022. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.
- 2.2 Mae'r gorwariant net terfynol am 2021/22 yn £230,128. Roedd yr adroddiad "alldro" cyflwynwyd i'r Cyd-Bwyllgor ar 13 Gorffennaf 2022 yn manylu ar y rhesymau dros y gorwariant net hwnnw.
- 2.3 **Yn Atodiad A, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2021/22 (yn amodol ar archwiliad), wedi'i ardystio** gan Dewi Aeron Morgan, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt llywodraethu.
- 2.4 Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon eisoes yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd wedi'u penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yna bydd yr archwilwyr yn cynhyrchu adroddiad "ISA 260", sy'n manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru, ac wedi'i gyhoeddi yn enw'r Archwilydd Cyffredinol, i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 23 Tachwedd 2022.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2021/22.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cyngorau Conwy, Dinbych, Flint, Gwynedd,
Môn a Wrecsam)

DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2021/22
(Yn amodol ar Archwiliad)

MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 – 6
Datganiad Cyfrifoldebau	7
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	8
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	9
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	10
Y Fantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	13 – 36
Geirfa	37 – 38

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cyngorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2021/22 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 36. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2021/22*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2021/22 :

Conwy	15.28%
Dinbych	15.36%
Fflint	22.72%
Gwynedd	17.63%
Ynys Môn	10.16%
Wrecsam	18.86%
Cyfanswm	100%

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2022.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2021/22 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE

Gweledigaeth GwE yw:

- Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.
- Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein ysgolion i ddod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau'r hinsawdd a'r addysg y mae pob dysgwr yn ei haeddu er mwyn bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial.

Mae Cynllun Busnes y GwE, yn adnabod amcanion sefydlwyd i gyfarfod eu blaenoriaethau, ac mae ar gael yn: <https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/>

Ar ddiwedd Mawrth 2020 gwelwyd argyfwng Covid-19 sydd yn parhau i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar ein bywydau. Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid gan rhoi sylw i'r agweddau a ganlyn:

- Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Cefnogi ysgolion i ail agor – cydweithio â'r Awdurdodau Lleol i sicrhau dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisiâu priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.
- Cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell.
- Darparu ystod o ddysgu proffesiynol ystyrllon gan ganolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol.
- Parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Gymraeg.
- Darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.
- Defnyddio dull cyflymu dysgu yn rhanbarthol.
- Gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd.
- Cymorth cyfunol i ysgolion ac ALI – sefydlu Canolfan Cefnogaeth GwE
- Darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw sefyllfaoedd clo yn y dyfodol.
- Cydweithio gyda'r Athro Graham Donaldson i ddatblygu ystod o ddarnau meddwl i gefnogi ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd, gan blethu'r Cwricwlwm i Gymru yn naturiol â'r arferion presennol.

Strategaeth Ariannol

Mae Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor a Chyllideb 2021/22 a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2021 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru cyflawni'r blaenoriaethau gwella, tra'n ceisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anrffod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn:

<https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/llywodraethu/cyd-bwyllgor/>

Bydd newidiadau yn sgil pandemig Covid-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor fel cynghorau Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir.

Perfformiad 2021/22

Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynnyddol ar gael yn (Cyd-Bwyllgor 13 Gorffennaf 2022): <https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/llywodraethu/cyd-bwyllgor/>

Perfformiad Ariannol 2021/22

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant referniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £21,798k yn ystod 2021/22, gyda'r sefyllfa net yn £1,313k.
- Adroddir sefyllfa alldro ariannol 2021/22 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2022. Gofynnir am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo £230k o reserf penodol i ariannu gorwariant eleni.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant ar Weithgareddau Incwm	20,644	20,875	231
Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer gwasanaeth craidd:			
Conwy	(645)	(645)	0
Dinbych	(649)	(649)	0
Fflint	(959)	(959)	0
Gwynedd	(745)	(745)	0
Ynys Môn	(429)	(429)	0
Wrecsam	(796)	(796)	0
Incwm Arall	(16,421)	(16,422)	(1)
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	230	230

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro) £'000	Addasiad Trawsddodiad £'000	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	*Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000	Datganiad Incwm a Gwariant £'000
Gwariant	20,875	(16)	20,859	939	21,798
Incwm	(20,645)	160	(20,485)	0	(20,485)
Cost Gwasanaethau Net	230	144	374	939	1,313

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- (£4,508k) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £20,485k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).

Materion Eraill

- Mae risgiau ariannol gyda sefyllfa'r economi byd-eang ac mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ansicrwydd economaidd yn parhau yn sgil terfynu aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.
- Mae'r argyfwng Covid-19 cyfredol yn parhau yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a chanolog.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor reserfau defnyddiadwy o £437k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi lleihau (£3,317k) i £9,056k yn 2021/22. Gweler Nodyn 24 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf ar gyfer cyfrifon 2022/23 yn seiliedig ar 31 Mawrth 2022.

Llywodraethu

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiâu Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 13.

Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Gwion Elis Jones
Uwch Gyfrifydd
01286 679060

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2022 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dewi Aeron Morgan CPFA
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

30 Mai 2022

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2020/21				2021/22		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
4,808	336	5,144	Gweithwyr	5,177	939	6,116
153	0	153	Eiddo	168	0	168
15	0	15	Cludiant	46	0	46
826	0	826	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,795	0	1,795
7,445	0	7,445	Trydydd Parti	13,673	0	13,673
0	0	0	Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0
(13,347)	0	(13,347)	Incwm	(20,485)	0	(20,485)
(100)	336	236	Cost Gwasanaethau	374	939	1,313
0	199	199	Gwariant ac Incwm Arall	0	256	256
(100)	535	435	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	374	1,195	1,569
(711)			Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(811)		
(100)			(Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	374		
(811)			Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	(437)		

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2020/21			2021/22			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
5,144	0	5,144	Gweithwyr	6,116	0	6,116
153	0	153	Eiddo	168	0	168
15	0	15	Cludiant	46	0	46
826	0	826	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,795	0	1,795
7,445	0	7,445	Trydydd Parti	13,673	0	13,673
0	0	0	Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0
0	(13,347)	(13,347)	Incwm	0	(20,485)	(20,485)
13,583	(13,347)	236	Cost Gwasanaethau	21,798	(20,485)	1,313
199	0	199	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	256	0	256
13,782	(13,347)	435	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	22,054	(20,485)	1,569
		3,541	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)			(4,508)
		3,541	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(4,508)
		3,976	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			(2,939)

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cyngorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau		
Nodyn	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor	
	£'000	£'000	£'000	
Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen	(711)	8,396	7,685	
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2020/21</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	435	0	435	
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	3,541	3,541	
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	435	3,541	3,976	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(535)	535	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(100)	4,076	3,976	
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21	(100)	4,076	3,976	
Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen	(811)	12,472	11,661	
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2021/22</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	1,569	0	1,569	
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	(4,508)	(4,508)	
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,569	(4,508)	(2,939)	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(1,195)	1,195	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	9	374	(3,313)	(2,939)
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22	374	(3,313)	(2,939)	
Balans 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen	(437)	9,159	8,722	

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwmiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwmiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisi), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2021 £'000	Nodyn	31 Mawrth 2022 £'000
0	Dyledwyr Tymor Hir	0
0	Asedau Tymor Hir	0
509	Dyledwyr Tymor Byr	1,177
5,959	Arian a Chyferwerthoedd Arian	1,587
6,468	Asedau Cyfredol	2,764
(4,114)	Credydwyr Tymor Byr	(1,712)
(3)	Darpariaethau Tymor Byr	0
(1,639)	Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	(718)
(5,756)	Ymrwmiadau Cyfredol	(2,430)
(12,373)	Ymrwymiad Pensiwn	(9,056)
(12,373)	Ymrwmiadau Tymor Hir	(9,056)
(11,661)	Asedau Net	(8,722)
(811)	Reserfau Defnyddiadwy	(437)
12,472	Reserfau na ellir eu defnyddio	9,159
11,661	Cyfanswm Reserfau	8,722

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

2020/21		Nodyn	2021/22
£'000			£'000
435	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		1,569
(3,837)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (<i>credydwyr, dyledwyr a pensiwn</i>)	16	2,803
(3,402)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		4,372
0	Gweithgareddau Buddsoddi		0
0	Gweithgareddau Ariannu		0
(3,402)	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian		4,372
(2,557)	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(5,959)
(5,959)	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd		(1,587)

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2021/22 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2022. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiau perthnasol yn unig.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyferthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

I.4 Buddiannau Gweithwyr

I.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei Gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau croniedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

I.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i pensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa pensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Pensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

I.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Pensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

I.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymïadau Cronfa Pensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymïadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.0% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Pensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymïad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

NODYN I – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniodol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

NODYN 1 – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)

1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Còd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Còd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22.

NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côt 2022/23:

Gwelliannau Blynyddol i SAARh 2018–2020. Mae'r rhaglen wella SAARh blynyddol yn nodi 4 newid i'r safonau:

- SAARh I (Mabwysiadu am y tro cyntaf) – mae'r gwelliant yn ymwneud â gweithrediadau tramor is-gwmnïau caffaeledig sy'n trosglwyddo i IFRS.
- SCRh 37 (Contractau beichus) – yn egluro bwriad y safon.
- SAARh 16 (Prydlesau) – mae'r gwelliant yn dileu enghraifft gamarweiniol nad oes cyfeiriad ato yn neunydd y Côt.
- SCRh 41 (Amaethyddiaeth) – un o nifer fach o SAARh y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i'r awdurdodau lleol mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig.

Eiddo, Offer a Chyfarpar: Enillion cyn y Defnydd Bwriedig (Diwygiadau i SCRh 16).

Mae'n ofynnol fod y Côt yn weithredol o 1 Ebrill 2022 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2021/22, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côt Ymarfer 2022/23 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÄU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafuniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn dilyn i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau. Tra bod effeithiau'r argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er hynny, mae'r Cyd-Bwyllgor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyd-Bwyllgor.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2022 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

Ymrwymiad Pensiwn - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 23 a 24.

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- (£4,508k) yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £20,485k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2021/22				
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU				
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)	Gwahaniaethau Eraill (ii)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Gweithwyr	0	935	4	939
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	935	4	939
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	256	0	256
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	1,191	4	1,195

2020/21				
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU				
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)	Gwahaniaethau Eraill (ii)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Gweithwyr	0	329	7	336
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	329	7	336
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	199	0	199
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	528	7	535

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi**, y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am Groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi**, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am breimymau a disgownt.

NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2021/22	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU		
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(2,006)	2,006
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	815	(815)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(4)	4
Cyfanswm Addasiadau	(1,195)	1,195

2020/21	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU		
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(1,336)	1,336
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	808	(808)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(7)	7
Cyfanswm Addasiadau	(535)	535

NODYN 9 – TROSSLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda lleihad net o (£374k).

Reserfau Defnyddiadwy

	Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE £'000
Balans 31 Mawrth 2021	811
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Mewn	16
Allan	(390)
Balans 31 Mawrth 2022	437

NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2020/21		2021/22
£'000		£'000
199	Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	256
199	Cyfanswm	256

NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Symiau dyledus masnach	46	37
Blaendaliadau	75	57
Symiau dyledus eraill	388	1,083
Cyfanswm	509	1,177

NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Arian mewn Banc a ddelir gan yr Awdurdod Lletya	5,959	1,587
Arian a Chyferthoedd Arian	5,959	1,587

NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Symiau taladwy masnach	568	410
Symiau taladwy eraill	3,546	1,302
Cyfanswm	4,114	1,712

NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadu penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

	Balans ar 31 Mawrth 2021 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2022 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd	(3)	3	0	0
	(3)	3	0	0

Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2022
£'000		£'000
(12,373)	Reserf Pensiynau	(9,056)
(99)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(103)
(12,472)	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(9,159)

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynnyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2020/21		2021/22
£000		£000
(8,304)	Balans 1 Ebrill	(12,373)
(3,541)	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau) (Nodyn 24)	4,508
(1,336)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(2,006)
808	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	815
(12,373)	Balans 31 Mawrth	(9,056)

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy Gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2020/21 £000		2021/22 £000
(92)	Balans 1 Ebrill	(99)
(7)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronïadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(4)
(99)	Balans 31 Mawrth	(103)

NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2020/21 £'000		2021/22 £'000
(3,342)	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwy	3,326
33	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwy	668
(528)	Ymrwymiad Pensiwn	(1,191)
(3,837)		2,803

NODYN 17 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 30 Mai 2022. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2022, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith.

NODYN 18 – TALIADAU I SWYDDOGION

18a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd), yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

2020/21			Uwch Swyddogion	2021/22		
Cyfraniadau Pensiwn				Cyfraniadau Pensiwn		
Cyflog £	Cyflogwr £	Cyfanswm £		Cyflog £	Cyflogwr £	Cyfanswm £
103,545	23,815	127,360	Prif Swyddog	105,029	24,157	129,186

18b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd yna unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2021/22 na 2020/21.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:			
Nifer yn 2020/21		Nifer yn 2021/22	
Cyfanswm		Cyfanswm	
5	£60,000 - £64,999	12	
6	£65,000 - £69,999	8	
4	£70,000 - £74,999	3	
0	£75,000 - £79,999	1	

NODYN 19 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2020/21		2021/22
£'000		£'000
11	Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	11
11	Ffioedd Net	11

NODYN 20 – INCWM GRANT

20a. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2020/21		2021/22	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru -				
Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - Plant Mewn Gofal	1,029		1,135	
GDD - Cynghorydd Strategol	97		103	
GDD - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	142		196	
Arall	115		374	
		1,383		1,808
Grant Gwella Ysgolion Consorita Rhanbarthol - Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA)		4,561		10,801
Grant Gwella Addysg (GGA)				
Llywodraeth Cymru	1,283		1,386	
Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau	1,587		1,625	
		2,870		3,011
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall				
Cyngor Gweithlu Addysg	276		450	
		276		450
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd				
Conwy	637		645	
Dinbych	637		649	
Fflint	944		959	
Gwynedd	734		745	
Ynys Môn	422		429	
Wrecsam	789		796	
		4,163		4,223
Grantiau a Chyfraniadau eraill		94		192
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau		13,347		20,485

NODYN 20 – INCWM GRANT (parhad)

20b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Byr</u>		
Cyngor Gweithlu Addysg	631	718
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	997	0
Arall	11	0
Cyfanswm	1,639	718

NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y ddiffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cyngorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

	Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
	£'000	£'000	£'000	£'000
Awdurdod Lleol				
Cyngor Bwrdeistef Sirol Conwy	2,150	99	955	6
Cyngor Sir Ddinbych	1,738	59	1,062	70
Cyngor Sir y Fflint	2,690	180	1,037	20
Cyngor Gwynedd	2,624	336	1,057	32
Cyngor Sir Ynys Môn	1,329	226	920	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	2,295	97	316	464

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiâu ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y'u diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2021/22 a'r balansau ar 31 Mawrth 2022 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£'000	£'000	£'000
125	209	27

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cyngorwyr.

Swyddogion

Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, diddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2021/22, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrrff a nodwyd.

NODYN 22 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna unrhyw becyn terfynu gwaith yn ystod 2021/22. Roedd yna ddau becyn terfynu gwaith yn ystod 2020/21, roedd y staff ar gcontractau dros dro, ond gyda gwasanaeth yn cario drosodd o'i cyflogaeth blaenorol.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band	
	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22
£							£'000	£'000
0 - 20,000	1	0	0	0	1	0	8	0
20,001 - 40,000	1	0	0	0	1	0	34	0
Cyfanswm	2	0	0	0	2	0	42	0

NODYN 23 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Nid oes unrhyw athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwysu'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwnau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiwnau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Pensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiwnau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2021			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2022		
	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	17,622	0	17,622	23,243	0	23,243
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(25,926)	(25,926)	0	(35,616)	(35,616)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu Hariannu	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	17,622	(25,926)	(8,304)	23,243	(35,616)	(12,373)
Addasiad pensiwn cyfnod blaenorol**	(180)		(180)			
Sefyllfa Agoriadol Addasiedig ar 1 Ebrill	17,442	(25,926)	(8,484)	23,243	(35,616)	(12,373)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(1,137)	(1,137)	0	(1,750)	(1,750)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(1,137)	(1,137)	0	(1,750)	(1,750)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	408	0	408	471	0	471
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(607)	(607)	0	(727)	(727)
Cyfanswm Llog Net	408	(607)	(199)	471	(727)	(256)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	408	(1,744)	(1,336)	471	(2,477)	(2,006)
Llif Arian						
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	279	(279)	0	293	(293)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	797	0	797	807	0	807
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	(453)	453	0	(473)	473	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwyilir	18,473	(27,496)	(9,023)	24,341	(37,913)	(13,572)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	(434)	(434)	0	182	182
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	(7,950)	(7,950)	0	2,727	2,727
Profiadau Eraill	0	264	264	0	(65)	(65)
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	4,770	0	4,770	1,672	0	1,672
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	4,770	(8,120)	(3,350)	1,672	2,844	4,516
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	23,243	0	23,243	26,013	0	26,013
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(35,616)	(35,616)	0	(35,069)	(35,069)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	23,243	(35,616)	(12,373)	26,013	(35,069)	(9,056)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

**Addasiad i ffigyrau 2019/20, yn dilyn derbyniad adroddiad diwygiedig gan Hymans am 2019/20.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2.734bn ar 31 Mawrth 2022, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond elfen o hwn sydd yn berthnasol i GwE.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2021				Ar 31 Mawrth 2022			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	1,445	1,445	6	0	1,466	1,466	6
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	0	1,843	1,843	8	0	2,231	2,231	9
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	0	0	0
Cronfeydd								
Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	0	14,892	14,892	64	0	16,532	16,532	64
Is-adeiladwaith	0	410	410	2	0	508	508	2
Eraill	0	4,519	4,519	19	0	5,195	5,195	20
Arian a Chyferwerthoedd Arian								
Y cyfan	134	0	134	1	81	0	81	0
Cyfanswm	134	23,109	23,243	100	81	25,932	26,013	100

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.5% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.85	3.20
Cyfradd Codiad Cyflogau	3.15	3.50
Cyfradd Chwyddiant	2.85	3.20
Cyfradd Ddisgownt	2.00	2.70
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau	2.00	2.70
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hyd oes ar 65 oed am bensynwyr cyfredol		
Dynion	21.5	21.3
Merched	23.9	23.7
Hyd oes ar 65 oed am bensynwyr y dyfodol		
Dynion	22.7	22.4
Merched	25.9	25.7

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2022 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraid diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2022	
	%	£'000
0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	2	745
Cynnydd o l flwyddyn yn nisgwylad oes aelodau	4	1,403
0.1% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog	0	98
0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	2	641

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwylad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwylad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwylad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn).

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2022 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraid 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2022	
	£'000	%
Aelodau Gweithredol	22,052	62.9
Aelodau Gohiriedig	3,763	10.7
Aelodau Pensiynwyr	9,254	26.4
Cyfanswm	35,069	100.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £808k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2023.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £8k yn 2021/22, (£191k yn 2020/21), i ddod â'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a ddiffinnir yn y Fantolen.

Geirfa

Amhariad – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid croes mewn amgylchedd statudol).

Ased - Eitem o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall gollu gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu menterion diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Costau Gwasanaeth Cyfredol – Cynnydd mewn gwerth cyfredol ar ymrwymadau cynllun pensiwn diffiniedig a ddisgwyllir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwyr - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau Llywodraeth.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig – Pensiwn neu fudd ymddeoliad arall sydd ddim yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Darpariaeth – Rhwymedigaeth sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i'w gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Eiddo Buddsoddi – Eiddo sydd yn bwrpasol ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer arbrisiant cyfalaf, neu'r ddau.

Enillion a Cholledion Actiwaraid - Ar gyfer cynllun pensiwn diffiniedig, mae'r newidiadau mewn gwarged actiwaraid sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraid a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu mae'r rhagdybiaeth actiwaraid wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Offerynnau Ariannol - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol, o fasnach

dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb i'w casglu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewtblannu.

Partïon Cysylltiedig - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu i ymarfer dylanwad penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Reserfau - Swm a bennir i un ochr ar gyfer pwrpas penodol mewn un flwyddyn gaiff ei gario ymlaen i gyfarfod ymrwymadau'r dyfodol.

Rhestr Eiddo - Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categorio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu defnyddio gan bob endidau sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o safle ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiad cyllidol endidau eraill.

Ymrwymadau – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau fydd yn orfodol i'w dalu ar ryw ben yn y dyfodol.

Cynllun Archwilio 2022 – Cyd-bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2951A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân, pob un â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi sut i ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

Ynglŷn â'r ddogfen hon 4

Fy nyletswyddau 4

Effaith COVID-19 4

Archwilio datganiadau ariannol 4

Swyddogaethau archwilio statudol 6

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 6

Cynllun Archwilio 2022

Ynglŷn â'r ddogfen hon

- 1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Fy nyletswyddau

- 2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

Archwilio datganiadau ariannol

- 3 Bob blwyddyn, byddaf yn archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE (y Cyd-bwyllgor) i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.

Gwerth am arian

- 4 Mae'n rhaid i'r Cyd-bwyllgor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

Effaith COVID-19

- 5 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig a gwaith sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- 6 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd Coronafeirws 0 ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

Archwilio datganiadau ariannol

- 7 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adrodd ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:
 - barn ar 'wirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022; ac
 - asesiad ynghylch a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn cael eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol ac mae'n gyson â'r datganiadau ariannol a chyda'm gwybodaeth am y Cyngor.
- 8 Yn ogystal â'm cyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau am y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os oes angen).

- 9 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond yn mabwysiadu cysyniad o faterion. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai arwain at gamarwain darlennydd o'r cyfrifon. Bydd y lefelau lle rwy'n barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn cwblhau'r archwiliad.
- 10 Unrhyw gamddatganiadau o dan lefel ddibwys (wedi'u gosod ar 5% o'r deunydd) Rwy'n barnu nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddant yn eu hadrodd.
- 11 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.
- 12 Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion sydd wedi'u nodi'n fanylach yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), ynghyd â rhagor o wybodaeth am ein gwaith.

Archwilio datganiadau ariannol

- 13 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau sylweddol rwyf wedi'u nodi ar gyfer archwilio y Cyd-bwyllgor.

Arddangosyn 1: risgiau archwilio datganiad ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi risgiau archwilio'r datganiad ariannol allweddol a nodwyd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau sylweddol	
Mae'r risg o reoli rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol.	<p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; ac • gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau archwilio eraill	
<p>Effaith COVID-19</p> <p>Er bod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi'u dileu, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Mae perygl y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol e.e. o amgylch amcangyfrifon a phrисиadau, gael eu peryglu gan arwain at fwy o achosion o wallau. Gall trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau.</p>	<p>Byddwn yn trafod eich proses cau a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i nodi meysydd lle y gall fod bylchau yn y trefniadau.</p>

Swyddogaethau archwilio statudol

- 14 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod yr archwiliad; a
 - Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau wrth archwilio.
- 15 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

- 16 Mae fy ffioedd a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen i'w chytuno gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd a ddisgwylir ac wedi bod yn destun adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
 - mae'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen archwilio y cytunwyd arni;
 - darperir cyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflwyno'r archwiliad mewn modd effeithlon;
 - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;

- mae gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Cyfrifyddu i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Cynrychiolaeth a gyfeiriwyd ataf; ac
 - mae rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau, ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.
- 17 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi

- 18 Fel y nodwyd yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23 mae ein cyfraddau ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus mewn ansawdd archwilio ac mewn ymateb i bwysau cost cynyddol.
- 19 Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2022 yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) ¹	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwilio Cyfrifon 2020-21 ²	11,393	11,000
Cyfanswm y ffi	11,393	11,000

- 20 Bydd cynllunio'n parhau, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os daw unrhyw risgiau newydd allweddol i'r amlwg. Ni wnafr unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda'r Cyd-bwyllgor.
- 21 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn fy [Nghynllun Ffioedd 2022-23](#).

¹ Nodiadau: Mae'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn gyfyngedig i TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

² Taladwy Tachwedd 2021 i Hydref 2022.

Tîm archwilio

- 22 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt

Enw	Swydd	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Matthew Edwards	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	029 20320663)	matthew.edwards@archwilio.cymru
Yvonne Thomas	Rheolwr Archwilio	029 22677830)	yvonne.thomas@audit.cymru
Sioned Owen	Archwilydd Arweiniol	029 20829338)	sioned.owen@archwilio.cymru

- 23 Mae rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen imi dynnu eich sylw atynt mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio sy'n gyfarwydd â chyn-aelod o'r Cyd-bwyllgor a ymadawodd yn dilyn etholiadau mis Mai. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2021-22 yn cael ei reoli.
- 24 Ac eithrio hyn, gallaf gadarnhau bod pob aelod arall o'm tîm yn annibynnol ar y Cyd-bwyllgor.

Amserlen

- 25 Dangosir y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 4**.
- 26 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau i gyfrifon y Cyd-bwyllgor i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau mewn archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i archwilio'r cyfrifon a nodir hefyd yn Neddf 2004.

Arddangosyn 4: Amserlen archwilio

Allbwn wedi'i gynllunio	Gwaith a wnaed	Yr adroddiad wedi'i gwblhau
Cynllun Archwilio 2022	Mawrth i Ebrill 2022	Mai 2022
Archwilio datganiadau ariannol <ul style="list-style-type: none">• Archwilio datganiadau ariannol• Barn ar y datganiadau ariannol	Gorffennaf i Awst 2022	Medi 2022



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Website: www.archwilio.cymru/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR 13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol.

2.0 Cefndir

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyffwrdd cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4.0 Goblygiadau ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith o ran cydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Atodiadau

8.1 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi cydweithio gydag awdur yr adroddiad ar y Datganiad Llywodraethu, ac yn hapus gyda'i gynnwys. Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE yn 2021/22, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Mae'r datganiad yn cwrdd â'r gofyn i ddisgrifio fframwaith llywodraethu GwE, ac i asesu pa mor effeithiol mae'n gweithredu.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2022, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2021/22.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu yn barhaus mewn ffordd ddisgybledig, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac atodol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Ar gyfer pob egwyddor llywodraethu, arfarnwyd yn seiliedig ar gyfuniad o:

- Adolygiad o adroddiadau a dogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes;
- Trafod â swyddogion, yr UDA a'r Bwrdd Rheoli a sylwadau a gafwyd ganddynt hwythau;
- Myfyrion barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith, yn fewnol ac yn allanol h.y. Estyn, Steve Munby, Education Development Trust, Yr Athro Graham Donaldson, OECD, Llywodraeth yr Alban, a'r Consortia Rhanbarthol eraill.

3.5 Ers mis Mawrth 2020, hyd at ddyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2021/22, bu GwE yn ymateb i argyfwng pandemig Covid-19. Ble cafodd hyn effaith sylweddol ac amlwg ar drefniadau llywodraethu GwE, nodwyd hyn isod.

Egwyddor A	Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
 - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
 - Ymrwymiad a Chymhelliant
 - Sgiliau a Chreadigedd
 - Perthnasau Effeithiol
 - Datblygu ac Addasu
 - Enw Da
 - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
 - Caniatâd Angenrheidiol
 - Ymrwymadau Aelodau a Swyddogion

- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.
- Adolygwyd gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Yn rhan o'r Cynllun Busnes Rhanbarthol, mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
 - Parch
 - Ymddiriedaeth
 - Lles
 - Arloesi ac ysbrydoli
 - Cefnogi a chydweithio
 - Cymru a'r Gymraeg
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2021-22 yn rhithiol ar Zoom. Rhoddwyd canllawiau at ei gilydd i'r Aelodau mewn perthynas â Mynychu Cyfarfodydd Rhithiol.

Egwyddor B	Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Sefydliad partneriaeth yw GwE, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y pandemig ac wrth symud ymlaen.
- Ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy amrywiol fforymau o fewn y drefn lywodraethu ffurfiol, a thu allan iddi.
- Yn ystod 2021/22, bu GwE yn gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisiau a pharhad dysgu. Mae GwE hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau. Cryfhawyd hefyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.
- Mae GwE yn annog i'w rhanddeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws Gogledd Cymru yw'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg a llywodraethu'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er

sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

- Cynhyrchodd GwE gyfres o adroddiadau a rannwyd â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn yr adroddiadau hyn, ceir safbwyntiau ysgolion, staff a'r awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion y rhanbarth. Mae pob adroddiad yn disgrifio ansawdd y ddarpariaeth ac yn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant i yrru'r agenda ddysgu ymlaen.
 - Cyd-ymdrech a gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
 - Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
 - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
 - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
 - Cyfarfodydd â'r Bwrdd Rheoli a'r Deilyddion Portffolio Addysg - penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol.
 - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
 - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALI/Aelodau Etholedig.
 - Diweddarau rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
 - Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
 - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
 - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
 - Paratoi a chydlyn cyfarfodydd rhanbarthol, er enghraifft y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor.
 - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.
- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arferion llwyddiannus. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.
- Cyn dyfodiad y pandemig COVID, cytunwyd ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. At hyn, fe ddsbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a gafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i bob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio

Egwyddor C	Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Nodir gweledigaeth gyffredinol GwE yn y cynllun busnes tair blynedd ac fe'i cryfheir ymhellach yn y cynllun busnes blynyddol.
- Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaeithiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorwyr allweddol.

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Egwyddor Ch	Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.
- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.
- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.
- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:
 - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;
 - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gydag unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.

- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
 - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;
 - cysylltu â chyrrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;
 - cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
 - goruchwyllo gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;
 - cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;
 - cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;
 - monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
 - cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gyngorau unigol;
 - cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
 - penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;
 - penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;
 - ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.
- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:
 - Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALL unigol;
 - Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
 - Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
 - Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
 - Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.
- Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith ac wedi ail bwrpasu amryw o weithiau yn ystod pandemig COVID i ddarparu gwasanaethau a chymorth i'w holl gymunedau ysgolion. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.

Egwyddor Ch	Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae GwE wedi ailgyfeirio amryw o weithiau yn ystod pandemig Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid.
- Yn ystod pandemig Covid-19, bu'r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir.

Tud. 232

- Gwnaethpwyd penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol gyda eglurder a hyder. O ganlyniad, cafwyd negeseuon cyson gan yr awdurdodau lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sydd yn gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.
- Mae'r Deilyddion Portffolio Addysg wedi cael sawl cyfarwyddyd a diweddariad ar yr holl ddatblygiadau drwy gyfrwng adroddiadau a diweddariadau llafar.
- Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystywyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.
- Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar foddelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod.
- Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.
- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol Blyneddol yn ystod y flwyddyn.
- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.
- Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson ers dechrau Gwanwyn 2021 i ddatblygu ei staff er mwyn iddynt allu cefnogi ysgolion yn effeithiol efo'r cwricwlwm newydd.

Egwyddor Dd	Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnl cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:


- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.
- Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Egwyddor E	Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae gan GwE atebolrwydd blynyddol i amrywiol randdeiliaid ar draws y flwyddyn, fel y gwelir yn y diagram hwn.

HUNAN ARFARNU AC ATEBOLRWYDD GwE



- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.
- Mae'r broses ganlynol i adnabod yr angen am archwilio mewnol a gweithredu ar yr argymhellion mewn lle:
 - Nodi'r angen am archwiliad mewn meysydd penodol. Lle bo'n bosibl, bydd y cynllun gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy ystyried cofrestris risg, adroddiadau perfformiad, cynlluniau busnes ac ati.
 - Cyfarfod rhwng Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.
 - Cytuno ar y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn efo'r Bwrdd Rheoli.
 - Rhannu cynnwys y rhaglen â'r Cydbwyllgor

- Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i gynnal yr archwiliadau.
 - Rhannu adroddiadau archwilio drafft â rheolwyr perthnasol GwE er cywirdeb a chytuno ar gamau gweithredu i roi sylw i unrhyw risg.
 - Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i anfon adroddiadau archwilio at Reolwr Gyfarwyddwr a rheolwyr perthnasol GwE.
 - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar y camau gweithredu (materion gweinyddol ble nad oes angen cynnwys y Cyd-Bwyllgor).
 - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i rannu adroddiadau archwilio unigol â'r Bwrdd Rheoli.
 - Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyd-bwyllgor ar unrhyw archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.
 - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar benderfyniadau'r Cyd-Bwyllgor.
 - Swyddogion GwE i adrodd am gynnydd i'r Cyd-bwyllgor fel bo angen.
- Mae GwE wedi llwyddo i reoli a gwerthuso ei hun yn rheolaidd. O ganlyniad, bu barn cyrff atebolrwydd allanol yn gadarnhaol.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.

4.2 Mae pob maes llywodraethu wedi'u hadolygu yng nghyd-destun pandemig Covid-19 ac rydym yn fodlon bod GwE wedi gallu addasu ei drefniadau gweithio er mwyn delio gyda'r argyfwng hwn.

Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU

5.1 Ni adnabuwyd Materion Llywodraethu yn 2021/22.

Rhan 6: BARN

Rydym o'r farn y bydd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda ar y cyfan. Er hynny, rydym yn bwriadu gweithredu i ddelio gyda'r materion a nodir uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y mesurau hyn yn delio gyda'r angen i wella fel y nodir yn yr adolygiad effeithlonrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Swyddog Arweiniol GwE

Cadeirydd Cydbwyllgor GwE

Dyddiad: _____

Dyddiad: _____

ARWYN LLOYD THOMAS

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

Pwnc: Cynllun Busnes GwE 2022 – 2023

1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Cyflwyno Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022 – 2023 i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Ynglwm mae'r Cynllun Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2022 - 2023. Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth, ynghyd â chofrestr risg strategol lefel uchel.

2.2 Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel y bo'n briodol.

2.3 Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

2.4 Cytunwyd ar y blaenoriaethau lefel uchel am 2022-2023 â'r Cyd-bwyllgor ar 16 Chwefror 2022.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae'r blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân.

3.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd. Bwriad ein blaenoriaethau yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.

3.3 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor.

3.4 Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Amlinellir y cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth a sut maent yn cyfrannu at flaenoriaethau'r awdurdod lleol yn unol â'u Cynlluniau Corfforaethol a'u rhaglennu craffu. Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel y bo'n briodol, a sydd o fewn cylch gwaith GwE. Adroddir ar gynnydd yn chwarterol i'r Awdurdodau Lleol ar y blaenoriaethau rhanbarthol gan hefyd rhoi trosolwg awdurdod lleol penodol.

3.5 Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Adroddir ar gynnydd yn chwarterol o ran y gweithredu, deilliant / effaith a'r proffil gwariant.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2022 – 2023.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori â Wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Byrddau Ansawdd Sirol, Tîm GwE, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a Chydbwyllgor GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022 – 2023

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r Cynllun Busnes yn nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut bydd GwE yn gwneud defnydd o'i gyllideb yn ystod 2022/23, ac rwyf yn cadarnhau'r sylw ym mharagraff 5 o'r adroddiad blaen sy'n datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol.



Cydweithio • Dysgu • Llwyddo

Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE

2022-2023




CYNNWYS

1. Ein Gweledigaeth, Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad
2. Cyd-destun Rhanbarthol
3. Cyflwyniad
4. Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE:
 - Amcanion Strategol 2022-2023
 - Blaenoriaethau Rhanbarthol 2022-2023
5. Llywodraethu: Monitro ac Arfarnu
6. Cofrestr Risg
7. Cyllid
8. Dogfennau Ategol Ychwanegol

EIN GWELEDIGAETH

- Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.
- Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein ysgolion i ddod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau'r hinsawdd a'r addysg y mae pob dysgwr yn ei haeddu er mwyn bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial.

EIN GWERTHOEDD



EIN YMDDYGIAD

Byddwn yn gyson, yn wrthrychol ac yn deg wrth ein gwaith, gan werthfawrogi ymdrech, cyfraniad a chyflawniad pawb.

Byddwn yn broffesiynol, yn onest ac yn agored yn ein gwaith gyda phawb. Mae hyn yn greiddiol i gydweithio llwyddiannus.

Byddwn yn arddangos gofal, empathi a chonsyrn am les pawb.

Byddwn yn barod i fentro gyda'n hysgolion, gan groesawu her, chwilfrydedd, dyncwch a'r parodrwydd i ddysgu o lwyddiannau a methiannau. Drwy fod yn wybodus a rhannu arfer dda anelwn at rymuso a chymell ysgolion i ymchwilio a datblygu.

Byddwn yn ddibynadwy, yn hyblyg a sensitif yn ein cefnogaeth. Byddwn yn barod i gydweithio ac i annog cydweithio mewn partneriaeth gydag eraill gan gydnabod bod lle i bawb ohonom wella, datblygu a dysgu.

Byddwn yn arddel ac yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ym mhob rhan o'n gwaith.

2. CYD-DESTUN RHANBARTHOL

Mae GwE yn darparu gwasanaethau gwella ysgol i ranbarth o chwe awdurdod lleol: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Yn 2021, roedd 82,432 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn 21.7% o holl ddisgyblion Cymru. Mae 401 ysgol a gynhelir yn y rhanbarth, sy'n 27.2% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2021).

Cynyddodd canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i dderbyn prydu ysgol am ddim unwaith eto, o 18.2% yn 2020 i 20.4%, sy'n is na'r ffigwr cenedlaethol o 22.9%. Mae'r lefel hon yn dal i fod yr isaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol (Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2021).

Yn y rhanbarth, mae 41.6% o'r rheiny sy'n dair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 29.5% (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

O 30 Medi 2021, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.2% o'r boblogaeth yn y rhanbarth, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 4.8%. (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

O 31 Mawrth 2021, mae 1,465 o blant yn y rhanbarth yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n 20.2% o blant mewn gofal yng Nghymru. (Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth)

Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru, a thu hwnt, tra sicrhau bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrandod'n barhaus ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector.

Mae gan GwE gynllun clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, ac yn codi'r dyhead i gael effaith ar safonau.

3. CYFLWYNIAD

Mae ein cynllun busnes rhanbarthol yn amlinellu'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaeithiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.



Yng Ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i sicrhau bod gennym systemau a phrosesau cadarn a phwrpasol yn eu lle i gadw at ddisgwyliadau cenedlaethol mewn perthynas â'r 'Canllawiau Cenedlaethol Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd'. Bydd ein dull gweithredu yn sicrhau ffydd a chefnogaeth pob rhanddeiliad allweddol a bod pob partner yn cymryd atebolrwydd llawn am gyflawni ei rôl a chyfrannu gyda thryloywder, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau mewn ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Fe'i hystyrir o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i fod yn cyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodolau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu effeithiol gan gymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation' .

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella. 'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin capasiti ar draws y rhanbarth i wynebu heriau'r diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws clystyrau o ysgolion.

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. O ystyried disgwyliadau'r system a gweithio ar y cyd â phartneriaid, adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion.

4. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GwE

Mae ein cynllun busnes, ochr yn ochr â'r Strategaeth Ranbarthol 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr', yn corffori sut y bydd GwE yn ymateb i effaith y cyfnod ar ôl Covid yng nghyd-destun addysg. Trwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwranddo arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob disgybl yng ngogledd Cymru yn elwa ar ddarpariaeth o'r safon uchaf. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol. Yn ogystal, ffocws ymweliadau cychwynol Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ag ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd oedd anghenion ysgolion, gan ystyried effaith Covid. Mae gwybodaeth gyfansawdd sy'n deillio o'r ymweliadau hyn yn llywio cynlluniau cymorth ysgolion, ac rydym wedi mireinio ein cynllun busnes i amlygu hyn.



Cytunwyd ar y blaenoriaethau lefel uchel am 2022-2023 â'r Cyd-bwyllgor ar 16 Chwefror 2022. Cytunwyd ar y Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023 yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol ar xxxxxxxx.

AMCANION STRATEGOL

Mae ein hamcanion strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

EIN HAMCANION STRATEGOL AM 2022-2023

- 1 Cwricwlwm ac Asesu** - cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr
- 2 Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion
- 3 Arweinyddiaeth** - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol
- 4 Ysgolion cryf a chynhwysol** yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant
- 5 Cefnogi system sy'n hunan wella** - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson
- 6 Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL 2022 - 2023

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; ac
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad ein blaenoriaethau isod yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.


Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau gweithredol manwl y gwasanaeth, sy'n amlinellu sut a phryd y bydd yr agweddau ar bob blaenoriaeth yn cael eu cyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.



EIN BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL AM 2022-2023

DYSGU PROFFESIYNOL

PWYNTIAU
CYNNYDD



Cydweithredu

Sefydliad sy'n Dysgu

Cyfoethogi Ansawdd

Datblygu arweinyddiaeth a chefnogi llesiant y gweithlu

CYFOETHOGI

BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL 2022-2023

AMCAN 1: CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.

1.1 Cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru

- » Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni pob agwedd ar y Daith Ddiwygio a gweithredu'r cwricwlwm newydd.
- » Cefnogi pob aelod staff a llywodraethwr i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru drwy sicrhau bod pob ysgol yn barod ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf a bodloni gofynion gorfodol ar gyfer Medi 2022.
- » Darparu cymorth i ysgolion a lleoliadau uwchradd baratoi at y cwricwlwm newydd ym Mlynnyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023 drwy:
 - Ddarparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol gydag arweiniad pendant ar ddyunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm;
 - Cefnogi ysgolion i sicrhau y caiff dysgwyr gyfle i ddefnyddio, cymhwyso ac ymestyn y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a hynny mewn ystod o gyd-destunau gwreiddiol;
 - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
 - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant i ymateb yn effeithiol i'r arweiniad a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru a chynllunio'n effeithiol ar gyfer Dysgu Proffesiynol;
 - Sicrhau bod pob lleoliad yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi crynodeb i randdeiliaid allweddol;
 - Parhau i annog ysgolion i ddatblygu a mireinio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu fel rhan o arfarnu parhaus.
- » Annog ysgolion i ddatblygu dulliau o gofnodi ac arfarnu cynnydd a llwyddiannau pob dysgwr yn holistaidd, a hynny tuag at berwyl cytûn sy'n cwmpasu'r Pedwar Diben o fewn cymuned eu hysgol.

1.2 Asesu ac Atebolrwydd

- » Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i helpu i ddatblygu sail resymegol effeithiol ar gyfer asesu, sy'n rhoi sylw i'r rhesymau pam a'r hyn a asesir, ac sy'n adnabod anghenion gwahanol randdeiliaid o ran gwybodaeth asesu berthnasol.
- » Cefnogi egwyddorion ac arferion Cwricwlwm i Gymru, a chreu'r newid sylweddol mewn system a diwylliant sydd yn angenrheidiol er mwyn i'r Cwricwlwm lwyddo.
- » Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i hwyluso sgwrs broffesiynol effeithiol o fewn a rhwng ysgolion er mwyn datblygu dealltwriaeth a rennir o gynnydd ar draws y cwricwlwm, a bod yn fodd i ymarferwyr adnabod, cofnodi a myfyrio ar gynnydd

Tud. 248



dysgwyr dros amser.

- » Cefnogi ysgolion i adrodd yn effeithiol am gynnydd dysgwyr i rieni/gofalwyr.
- » Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu dangosyddion perfformiad meintiol ac ansoddol, sy'n cofnodi'n effeithiol gynnydd ysgolion a lleoliadau yn erbyn pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- » Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i fabwysiadu model atebolrwydd newydd, a fydd yn cynnwys prosesau grymus i sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar bob lefel ar gyfer gwelliannau ysgol rhanbarthol.

AMCAN 2: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

2.1 Gwella Addysgu

Tud. 249

- » Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.
- » Sicrhau bod egwyddorion a strategaethau asesu ffurfiannol yn cael eu gweithredu'n effeithiol a chyson ar draws ac o fewn ysgolion.
- » Sicrhau cysondeb negeseuon yng nghynnig Dysgu Proffesiynol GwE a'r cymorth i ysgolion o ran y 4 diben ac addysgeg, gan gynnwys y 12 egwyddor addysgegol.
- » Cefnogi ysgolion i weithredu egwyddorion allweddol y canllawiau asesu.
- » Cefnogi cydweithredu ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr

2.2 Y Gymraeg

- Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol:
- » Cefnogi ysgolion i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg
 - » Cefnogi ac ysgogi datblygiad twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg
 - » Datblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg er mwyn paratoi at y Cwricwlwm i Gymru (3-16) a chryfhau cydweithredu / pontio o'r sector cynradd i'r uwchradd
 - » Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi at y Cwricwlwm i Gymru a tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr
 - » Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'
 - » Datblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn ymestyn y gyfran sydd yn gallu addysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.



AMCAN 3: ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol

- Tud. 250
- 3.1 Cefnogi arweinwyr i weithio ar y cyd i hyrwyddo safonau uchel ac uchelgais i bawb
- » Parhau i gefnogi cydweithredu ar bob lefel o arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei botensial. Yn benodol:
 - Gofalu bod clystyrau a chynghreiriau yn cyfrannu'n effeithiol i waith datblygiadol o fewn ac ar draws sectorau.
 - Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid ym mhob clwstwr a chynghrair er mwyn sicrhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant grymus a thrylwyr.
 - Cefnogi arweinwyr mewn clystyrau a chynghreiriau gyda phrosesau Cyfoethogi Ansawdd sydd yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion wrth i ni symud i'r cwricwlwm newydd.
 - Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
 - » Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at gymell a mentora i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.

AMCAN 4: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

- 4.1 Cymorth pwrpasol ac wedi'i dargedu ar gyfer llesiant ac ADY
- » Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth llesiant i ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
 - » Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i blant sy'n fregus i ddysgu, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol i gael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.
 - » Datblygu dull llesiant ysgol gyfan, gan hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus yng Nghymru'.
 - » Cefnogi'r Awdurdodau Lleol i gyflwyno Trawsnewid ADY trwy ddarparu Dysgu Proffesiynol i wella'r dysgu a'r addysgu.
- 4.2 Cefnogi ysgolion i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a gosod safon uchel i bawb
- » Cefnogi ysgolion i gyflwyno'r rhaglen diwygio addysg tymor hir, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a safonau yn codi.
 - » Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys

- y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghyfartal arnynt. Cymorth hefyd i adnabod a chefnogi'r dysgwyr hyn.
- » Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.

4.3 Strategaeth i gefnogi ymwneud rhieni a'r gymuned

- » Datblygu strategaeth i gefnogi rhieni a'r gymuned, i helpu rhieni a gofalgwyr ar sut orau i gefnogi eu plant i ddysgu. Annog ysgolion i wrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.
- » Cefnogi ysgolion i wreiddio dull ysgol gyfan o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.
- » Annog ysgolion i ddatblygu partneriaethau cymunedol a gwaith amlasiantaethol er mwyn cryfhau ymgysylltiad teuluoedd, gwella safonau a chael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu i'r dysgwyr hynny o gefndiroedd tlotach.
- » Cefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol i fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol er mwyn sicrhau ymgysylltu fwy cadarn â rhieni a gofalgwyr y tu allan i oriau traddodiadol.

AMCAN 5: CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson

Yd. 251

Cryfhau dulliau amlasiantaethol o weithio gydag ysgolion sy'n destun pryder

- » Mewn partneriaeth efo'r Awdurdodau Lleol, cryfhau ymhellach a datblygu'r prosesau ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder.
- » Gofalu bod gan bob ysgol sydd mewn categori statudol, neu a adnabuwyd yn lleol fel ysgol sy'n destun pryder, fynediad i gynllun cymorth cynhwysfawr y cytunwyd arno i'w helpu ar ei llwybr gwella.
- » Sicrhau y cyflwynir y pecyn cymorth yn effeithiol ac yn amserol, a'i fod yn cael ei fonitro yn rymus er mwyn sicrhau effaith ar safonau a darpariaeth.

5.2 Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid yn aeddfedu

- Cryfhau ein cyd-ymdrech i wella ysgolion drwy:
- » Barhau i weithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau er mwyn dyfnhau'r gwaith cymheiriaid sydd eisoes ar waith i gynllunio, datblygu ac arfarnu blaenoriaethau a rhannu dysgu proffesiynol.
 - » Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu adolygiad gan gymheiriaid ymhellach.
 - » Parhau i ddatblygu ein gwaith mewn clystyrau, cynghreiriau a phontio rhwng sectorau i wella ansawdd a datblygu agenda Cwricwlwm i Gymru.
 - » Parhau i weithredu ein memorandwm cyd-ddeallt-wriaeth gyda Phrifysgol Bangor er mwyn datblygu ymhellach ein harferion yn seiliedig ar dystiolaeth.
 - » Parhau i weithio ar y cyd â Rhanbarthau eraill i geisio cyflwyno dull fwy cyson o gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol.

AMCAN 6: BUSNES


Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson

- 6.1 **Busnes** » Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

5. LLYWODRAETHU: MONITRO AC ARFARNU

Mae fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE.

HUNAN ARFARNU AC ATEBOLRWYDD GwE



Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

Yn ein cynlluniau busnes manwl adroddir am gynnydd yn chwarterol, sy'n rhoi adroddiad cynnydd ar:

- Effaith yn erbyn camau gweithredu a deilliannau (gan gynnwys meini prawf meintiol ac ansoddol)
- Materion neu risgiau newydd gafodd eu hadnabod ar gyfer y cyfnod adrodd
- Data rhanbarthol

- Data Awdurdod Lleol
- Proffil gwariant

Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y cynllun busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu, fel y nodir uchod. Adroddir am y cynnydd yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.

6. COFRESTR RISG

Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-Bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Adnabuwyd amryw o risgiau all fod yn rhwystrau i weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn llwyddiannus. Dyma nhw:

- Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.
- Ansicrwydd ynglŷn â thoriadau grant a threfniadau cyllid gan LC sy'n amharu ar gynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol wrth gadarnhau lefelau cyllid yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol.
- Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd.
- Mae effaith pandemig Covid-19 wedi ei gwneud hi'n anoddach i ysgolion fwrw ymlaen efo'u paratodau gwreiddiol at y Cwricwlwm i Gymru.
- Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg.
- Cyflymder datrys materion mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori statudol Estyn.
- Cysondeb ac ystod y Daith Ddiwygio a'i effaith ar arweinyddiaeth systemig rhwng LIC, yr haen ganol ac ysgolion gyda lefel gynyddol o gyllid yn mynd yn uniongyrchol o LC i ysgolion.

7. CYLLID

Fel pawb arall, rydym yn byw mewn hinsawdd ariannol anodd iawn a rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Prif Weithredwyr y Rhanbarth, ac am gyngor a chefnogaeth Aelodau Etholedig y Cyd-Bwyllgor wrth wneud y penderfyniadau gorau i gefnogi ein dysgwyr a'n hysgolion.

Ar gyfer 2022-2023 mae ein cyllideb graidd yn £3,924,269. Mae ein cyllideb graidd bellach oddeutu 25% yn llai na'r cyfnod cyn sefydlu GwE. Bydd ein Grant Gwella Addysg yn £29,309,224 ar gyfer eleni (yn cynnwys cyllid cyfatebol). Mae hyn yn doriad o £7.5 miliwn ar gyllideb 2015. Ar yr un pryd, bu cynnydd o 22% mewn costau o ganlyniad i gyflwyno isafswm cyflog, cyflog byw a chyfraniadau pensiwn. Wrth reoli'r heriau ariannol hyn, rydym wedi parhau i gynyddu ein cyfraddau dirprwyo i ysgolion. Mae GwE yn cadw oddeutu 3% o'r GGA i ddarparu cefnogaeth i ysgolion.



		Grant a chyfateb	Grant a chyfateb	Grant a chyfateb
		Grant a chyfateb	Toriad (£)	Toriad (%)
11 Grant Unigol	14/15	£37,021,296		
GGA	15/16	£33,549,764	-£3,471,532	-9.38%
GGA	16/17	£31,902,703	-£1,647,061	-4.91%
GGA	17/18	£31,672,444	-£230,259	-0.72%
GGA	18/19	£29,124,247	-£2,548,197	-8.05%
GGA	19/20	£29,064,551	-£59,696	-0.20%
GGA	20/21	£28,776,349	-£288,202	-0.99%
GGA	21/22	£29,397,227	£620,878	2.16%
GGA	22/23	£29,309,224	-£88,003	-0.30%
		Cronnus	-£7,712,072	-22.39%

8. DOGFENNAU ATEGOL YCHWANEGOL

- Cynlluniau Busnes Manwl 2022-2023
- Cofrestr Risg GWE
- Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol
- Blaenoriaethau Strategol Awdurdodau Lleol 2022-2023
- Papurau Procio ar y Daith Ddiwygio



Collaborating • Learning • Succeeding

- ☎ 0300 500 8087
- ✉ post@gwegogledd.cymru
- 💻 www.GwEGogledd.Cymru
- 🐦 @GwEGogleddCymru





Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Cofrestr Risg GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau. Mae'r diwygiadau i'r gofrestr wedi eu hamlygu mewn coch.

3.3 Awgrymir tynnu risg 5,7,8,11 ac 14, ac ychwanegu risg 19, 20 a 21.

Dilynwyd y matrices risg canlynol wrth bennu statws y risg.

Matrics Risg					
Tebygolrwydd	Bron yn sicr	Isel (4)	Canolig (8)	Uchel (12)	Uchel (16)
	Tebygol	Isel (3)	Canolig (6)	Canolig (9)	Uchel (12)
	Posib	Isel (2)	Isel (4)	Canolig (6)	Canolig (8)
	Annhebygol	Isel (1)	Isel (2)	Isel (3)	Isel (4)
		Isel	Canolig	Uchel	Hynod uchel
Effaith					

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y gofrestr.
- 4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Mae Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel y bo'n briodol.

9.0 Atodiadau

9.1 Cofrestr Risg GwE

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Mae sistem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol. Mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Rwyf yn fodlon fod cynnwys y gofrestr yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa a byddaf yn cefnogi Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth reoli'r risgiau mae GwE yn eu wynebu.

RHIF RISG	CRYNODEB	AMCAN STRATEGOL GwE	RISG A NODWYD	TEBYGOLRW YDD RISG	EFFAITH RISG	TEBYGOLRW YDD X EFFAITH	GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU	RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL	TEBYGOLRW YDD X EFFAITH	PERCHENNOG RISG	CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL
1	Cyllidol	I GYD	Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.	C	C/U	2A	Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig a Fframwaith a Pholisi Gwerth am Arian ar waith. Datblygwyd cynlluniau ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaeod. Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. Cyhoeddwyd setliad grant drafft Llywodraeth Cymru eleni gyda amlinelliad cyllidebol 3 blymedd. Awgryma'r amlinelliad bod toriadau yn y gyllideb grant ar y gorwel.	C	2B	RhG / RhB	Yn dilyn adolygiad gwariant cynhywsfwr Llywodraeth San Steffan ac adnabod blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r pwysau cyllidebol erbyn 2022/23 a thu hwnt (gan gofio effaith posibl Covid-19). Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac ymgynghori â phrif swyddogion o awdurdodau cyfansodol ar effaith unrhyw doriadau cyllidol posibl. Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu i sicrhau bod GwE yn cynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau.
2	Cyllidol	I GYD	Ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LIC yn llesteirio cynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol o ran cadarnhau lefelau cyllido yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol.	C/U	U	2A	Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â'r Swyddog Adran 151. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys manylion ynghylch y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaeod. Gweithredir modelu ariannol i lywio penderfyniadau. Disgwylir am ddyraniadau grant terfynol a thelerau ac amodau gan Lywodraeth Cymru am y fwyddyn ariannol 2023/24 yn yr hydref a'r gwanwyn.	C/U	2C	RhG / RhB / Bwrdd Rheoli	Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn gyson. Cysylltu â swyddogion LIC, aelodau addysg Cabinet awdurdodau etholaethol a phenathiaid addysg, i gael mwy o dryloywder a sicrwydd o ran arian grant.
6	Safonau / Arweinyddiaeth	AS2 a 3	Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniadau uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg.	C	C	2C	Mae'r Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad sgiliau arwain ymarferwr trwy gydol pob carreg filltir o'r llwybr dysgu profesiynol. Mae'r holl Raglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol wedi'u hadolygu a'u haddasu ar gyfer dull cyflwyno Cyfunol/o Bell. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu effeithiol ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel. Mae'r Grŵp wedi llwyddo i oresgyn heriau o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig ac wedi parhau i sicrhau tegwch o ran mynediad i bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth -h.y. Dull cyfunol/rhithiol a diweddarau cynnwys yn rhithiol i fodloni anghenion arweinwyr ble mae'r anghenion hynny'n newid yn gyson. Drwy gydweithio â'r Awdurdodau, sicrhau mynediad i ystod o hyfforddiant i wella Sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg er mwyn cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor, Y Coleg Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau i ddarparu rhaglen gyfoethog ar gyfer datblygu medrau iaith a hyder staff Cydweithio gyda CABAN/Prifysgol Bangor yn sicrhau lleoliadau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr AGA. Adnabod y gweithlu sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg - cynllunio ar gyfer datblygu ymhellach (cymorthyddion, athrawon, arweinwyr) frwy gyd-weithio gyda'r ALL.	C/I	2D	RhG / CC	Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Profesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a datblygu sgiliau iaith y gweithlu er mwyn datblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol.
17	Safonau	AS1 - 5	Cyflymder datrys materion mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori Statudol Estyn.	U	U	2A	Mae 4 ysgol uwchradd mewn categori statudol ar hyn o bryd. Mae rhaglenni ymyrraeth a chymorth dwys ar waith yn yr ysgolion hyn sy'n canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu; datblygu systemau tracio ac asesu; gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwelliant grymus. Bydd GwE yn gweithio'n agos gyda'r ALL, Estyn a Llywodraeth Cymru i yrru'r gwelliannau angenrheidiol.	C/U	2B/C	RhG/CC/Uwch Arweinwyr	Mae LIC wedi atal dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2020 a 2021 ac ni fyddant yn rhyddhau unrhyw ddata cymharol neu feincnod. Trafodaethau yn parhau gydag Estyn i nodi'r ffordd orau o werthuso cynnydd yn erbyn argymhellion allweddol mewn ysgolion unigol. Er mwyn cynyddu cyflymder gwelliannau yn yr ysgolion dan sylw, mae strwythur a phrosesau rhanbarthol ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder wrthi'n cael eu hadolygu a'u cryfhau fel bod cysondeb gweithredu a chysondeb â'r model cenedlaethol.
18	Safonau	I GYD	Mae effaith pandemig Covid-19 wedi ei gwneud hi'n anoddach i ysgolion fwrw ymlaen â'u paratoadau Cwricwlwm i Gymru gwreiddiol.	U	U	2A	Mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau ar gyfer Y Daith Diwygio a Chwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn cwrrd ag anghenion amrywiol ysgolion yn ystod y pandemig. Mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru i nodi'r disgwyliadau ar ysgolion a lleoliadau o ran diwygio wrth i ni symud tuag at weithredu Cwricwlwm i Gymru. Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu profesiynol cenedlaethol sy'n integreiddio pob agwedd o'r daith d diwygio ehangach gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r cynnig traws-ranbarthol hwn wedi'i anelu at gefnogi pob ymarferwr ysgol trwy ystod o weithdai. Hefyd mae staff GwE wedi datblygu canllawiau a modelau enghreifftiol ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgol gyfan, cynllunio'r cwricwlwm ac asesu i gynorthwyo arweinwyr ac athrawon. Ym mis Mehefin 2021, gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb i fod yn rhan o'r Rhwydweithiau Rhanbarthol fyddai'n cyfrannu at raglen gymorth barhaus GwE i ysgolion. Bellach mae dros 700 o ymarferwr ysgol ar draws y rhanbarth wedi ymrwngwyo i fod yn rhan o'r gwaith hwn.	C	2B	Uwch Arweinydd - CIG	Parhau i gefnogi pob ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau'r system yn y Daith hyd at 2022. Parhau i hwyluso rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar lefelau rhanbarthol a lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALL yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arfer MDAph effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Diwygio. Holi ddeunyddiau a recordiadau cyfarfodydd rhanbarthol ar gael wefan GwE ynghyd ag adnoddau ac enghreifftiau o waith dylunio a chynllunio. Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar gael i gynnig cefnogaeth bwrsol ar lefel ysgol a chwstwr/cynghair. Parhau i ymgysylltu â phob ysgol trwy'r cynnig DP rhanbarthol a hwyluso cydweithredu ar draws y cwmwlwm 3-16 yn unol â chynllun gweithredu'r ysgol a'r clwstwr. Parhau â chyfarfodydd tîm llawn YCG rheolaidd i gefnogi gwneud synwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Datblygu negeseuon cyson ar draws yr holl rwydweithiau drwy gasglu negeseuon allweddol, adnoddau cymorth, enghreifftiau o sut all ysgolion ymgysylltu a chamsyniadau. Parhau i gydweithio â Phrifysgol Bangor ac ysgolion Ymholi Profesiynol Arweiniol i ddatblygu rôl ymholi profesiynol o fewn dysgu ac addysgu.
19	Safonau	I GYD	Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd.	U	C/U	2A	Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar fwradau cenedlaethol parthed datblygu fframwaith atebolrwydd newydd.	C	2B/2C	CC / Uwch Arweinydd Uwchradd	Byddwn yn gweithio'n agos hefo Llywodraeth Cymru, y consortia eraill, yr awdurdodau lleol ac Estyn i sicrhau bod prosesau a strwythurau rhanbarthol yn gydnaws hefo'r arweiniad cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gwella ysgolion [Fframwaith Arfarnu, Gwella ac Atebolrwydd].
20	Safonau	AS1-5	Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd.	U	C/U	2A	Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar gyfeiriad.	C	2B/2C	CC / Uwch Arweinydd Uwchradd	Parhau i gyfrannu i sesiynau ymgynghori ac i waith y rhwydweithiau a'r fforddau perthnasol er mwyn dylanwadu ar gyfeiriad.
21	Safonau	I GYD	Cysondeb ac ystod y Daith Ddiwygio a'i effaith ar arweinyddiaeth systemig rhwng LIC, yr haen ganol ac ysgolion gyda lefel gynnyddol o gyllid yn mynd yn uniongyrchol o LC i ysgolion.	U	C/U	2A	Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru a'r haen ganol yn cael eu cynnal i ddylanwadu ar gyfeiriad.	C	2B/2C	RhG / CC	Parhau i weithio'n agos hefo Llywodraeth Cymru, y rhanbarthau eraill, yr awdurdodau lleol ac Estyn i ddylanwadu ar gyfeiriad.

RHIF RISG	CRYNODEB	AMCAN STRATEGOL GwE	RISG A NODWYD	TEBYGOLRW YDD RISG	EFFAITH RISG	TEBYGOLRW YDD X EFFAITH	GWEITHGAREDDAU PRESENOL / LLINIARU	RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL	TEBYGOLRW YDD X EFFAITH	PERCHENNOG RISG	CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL
5	Safonau	I GYD	Nad yw sgôp sylweddol y Diwygio Addysg sy'n mynd rhagddo, sy'n cynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygiad cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, yn cael ei gynnwys yn llawn a'i weithredu'n llwyddiannus. Mae ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben Cwricwlwm i Gymru a datblygiad y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm yn amrywio ac mae rhywfaint o ansicrwydd mewn ysgolion. Mae newidiadau i'r cwricwlwm ac i gymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion. Mae pandemig Covid-19 wedi lleihau amserlen i ysgolion weithio ar ymgylltu â'u paratoadau Cwricwlwm i Gymru gwreiddiol.	U	U	2A	Cyhoeddwyd y Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2021 a roddodd gyfle i ysgolion fynd i'r afael â'r fframwaith a'r canllawiau. Llwyddodd bob clwstwr i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun dysgu proffesiynol traws ranbarthol ym mis Ionawr 2021. Er bod mwy na 300 o uwch arweinwyr wedi cofrestru ar y cychwyn, dim ond nifer bach o'r sesiynau hyn a gynhaliwyd. Wrth ymateb i Covid-19, rhoddwyd y gorau am y tro i'r gwaith ar gefnogi'r diwygio. Ym mis Medi 2020, ail-gydwyd yn y gwaith Dysgu Proffesiynol (DP) traws ranbarthol hwn. Ym mis Ionawr 2021, roedd y cynnig DP yn ail-gysylltu ag uwch arweinwyr ar y sesiynau arwain newid. Yn ystod mis Chwefror 2021, cofrestrodd fwy na 890 o aelodau am y 30 sesiwn cyntaf, er hynny rhoddwyd saib ar y DP yn sgil adorth ac i gydnabod y gwaith sydd gan ysgolion i'w wneud i ailagor. Yn ôl trafodaethau pellach ar draws y chwe AU, gwelwyd bod Penaeithiad yn awyddus i beidio â cholli momentwm a bod dymuniad cryf i ysgolion cynnig ac uwchradd weithio ar hyn gyda'r gilydd. Er hynny, mae cydnabyddiaeth glir o'r pwysau o ran Graddau a Bennis gan Ganolfannau i ysgolion uwchradd. O ganlyniad, bydd y cynnig DP yn ail-gychwyn ym mis Mai a mis Mehefin ac yn rhoi hyblygrwydd gyda weminarau wedi'u recordio ac yn cefnogi pob clwstwr ar lefel unigol i gyd-greu cynllun gweithredu. Bydd DP ar gynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm i ddilyn yn rhithiol ym mis Mehefin/Gorffennaf. Mae GwE wedi cefnogi pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) gyda DP. Mae'r Athro Graham Donaldson wedi bod yn bresennol i arwain a chynghori ac o ganlyniad, datblygir dealltwriaeth a negeseuon cyffredin drwy adnoddau h.y. Papurau Procio sy'n edrych ar arweinyddiaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm. Mae GwE yn parhau i drafod yn wythnosol gyda Llywodraeth Cymru, Estyn a chonsortia rhanbarthol eraill i gefnogi a chysoni'r dysgu wedi Covid-19 drwy ddiwygio.	C	2B	Uwch Arweinydd - DLI	Parhau i gefnogi pob ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau'r system yn y Daith hyd at 2022. Cyfnod Dylunio, Cynllunio a Threialu - Codi ymwybyddiaeth ac ymgylltu â phob ymarferydd ysgol o ganllaw Cwricwlwm Cymru a Dysgu Proffesiynol traws-ranbarthol i gefnogi. Gwneir hyn ar ffurf amrywiaeth o fforymau a rhydwethiau pwnc sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys cynllunio cymorth ar draws y 6 Maes Dysgu a Phrofiad. - Parhau i ymgylltu â phob ysgol trwy'r cynnig PL rhanbarthol a hwyluso cydweithredu ar draws y continwmm 3-16 yn unol â cynllun gweithredu'r ysgol a'r clwstwr. - Parhau i gefnogi pob ysgol i gynllunio ar gyfer disgwyliadau system a defnyddio cerrig milltir G6 Cwricwlwm Cymru, i gynnwys myfyrdodau ar unrhyw ddsygu ar ffyrdd newydd o weithio drwy Covid-19, cysoni'r dysgu drwy ddiwygio. - Parhau â chyfarfodydd tîm llawn YCG rheolaidd i gefnogi gwneud synwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Datblygu negeseuon cyson ar draws yr holl rwydweithiau drwy gasglu negeseuon allweddol, adnoddau cymorth, enghreifftiau o sut all ysgolion ymgylltu a chamsyniadau. - Parhau i gydwethio â Phrifysgol Bangor ac ysgolion Ymholi Proffesiynol Arweiniol i ddatblygu rôl ymholi proffesiynol o fewn dysgu ac addysgu. - Datblygu sianeli cyfathrebu effeithiol ymhellach ar gyfer rhannu datblygiadau cwricwlwm.
7	Safonau	I GYD	Mae toriadau i gyllidebau ysgolion yn effeithio ar allu ysgolion i barhau i godi safonau.	U	U	2A	Mae lefelau dirprwyo grantiau rhanbarthol ar ei uchaf ar hyn o bryd.	C/U	2B/C	AauL/Ysgolion	Parhau i sicrhau bod lefelau dirprwyo yn parhau i godi. Gweithio'n agos gyda LIC/AauL ac Ysgolion er sicrhau y targedir cyllid yn briodol a'i dirprwyo ymhellach.
8	Busnes	I GYD	Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol	U	U	2A	Cytunodd Bwrdd Rheoli GwE i gychwyn adolygiad o'r defnydd o'r EIG. Yn anffodus, oherwydd pandemig COVID-19, gohiriwyd yr adolygiad.	C	2B	Bwrdd Rheoli	Mae angen cytundeb ynghylch amserlenni diwygiedig ar gyfer yr adolygiad.
11	Safonau	AS3	Nad yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol/Perfformiad Disgyblion PYD.	C	C	3A	Yr YCG Llesiant sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a monitro'r cynllun busnes mewn perthynas â dysgwyr bregus a GDD. Parhau i weithio mewn partneriaeth efo'r AauL i ddatblygu ymhellach y monitro a'r gwerthuso i sicrhau cysondeb yn y rhanbarth. Mae'r Grwpiau Strategol Rhanbarthol yn cyfarfod yn dymhorol ac mae ganddynt gylich gwaith clir. Mae'r Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol bellach yn weithredol ac yn cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarth i helpu gyda chynllunio a monitro'r GDD ar draws pob lleoliad. Cynhaliwyd Wythnos Ffocws GDD Genedlaethol ym mis Mawrth 2021 gyda mwy na 2500 yn bresennol.	C/I	3B	YCG - Llesiant	Gweithredu'r camau o fewn y cynllun busnes a monitro cynnydd drwy gyfrwng y broses rheoli perfformiad. Mynychu cyfarfodydd dysgwyr Bregus GDD/PMG LIC er sicrhau cyfathrebu clir ac atebolrwydd rhanbarthol. Datblygu a gweithio gydag ysgolion i gwblhau'r Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol ar gyfer 2021/22.
14	Safonau	AS1	Amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau unigol yn CA4. Mae perfformiad disgyblion MATH mewn awdurdodau unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol.	U	C/U	2A	Cynllunio fwy cadarn ar waith er mwyn sicrhau cymorth cynhwysfawr i ysgolion sy'n achosi pryder. Datblygir y peilot rhanbarthol i sicrhau cysondeb. Mae modelau ymgylltu â chymheiriaid yn esblygu. Gwell gweithgareddau rhwydwaith a chynnig proffesiynol gyda phwyslais ar wella dysgu ac addysgu.	C	2B/2C	Bwrdd Rheoli	Mae LIC wedi atal dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2020 a 2021 ac ni fyddant yn rhyddhau unrhyw ddata cymharol neu feincnodi. Gwaith cychwynnol ar ddatblygu fframwaith ansodol. Trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid i adnabod y ffordd orau o werthuso cynnydd yn CA4.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnwys y canllawiau cenedlaethol a'r goblygiadau ar gyfer prosesau a systemau rhanbarthol.

2.0 Cefndir

Mae'r canllawiau cenedlaethol newydd yn cynnig pwynt cyfeirio i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, sy'n amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ganddynt, yng nghyd-destun eu dyletswyddau cyfreithiol ehangach.

Diben cyffredinol gwella ysgolion yw helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir, er mwyn sicrhau safonau uchel ac uchelgais i bawb. O dan y Cwricwlwm i Gymru, rhan sylfaenol o hyn fydd sicrhau bod ysgolion yn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd, gan gyfrannu at y pedwar diben.

Mae'r canllawiau yn cefnogi'r amcan hwnnw drwy nodi fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a fydd yn sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn ysgolion ac yn ysgogi ymddygiadau ac arferion sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu newydd. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae'n hollbwysig bod pob agwedd ar y system ysgolion yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion sy'n sail iddo, ac yn eu cefnogi.

Mae ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn i roi sylw i'r canllawiau wrth fynd i'r afael â threfniadau gwella ysgolion.

Mae'r canllawiau yn datgan mai ysgolion sydd â'r rôl ganolog wrth yrru gwelliannau ac mai cyrff llywodraethu yw cyrff atebol eu hysgolion. Yn y rôl hon, byddant yn cymryd cyfrifoldeb am arweinyddiaeth strategol eu hysgolion, am eu llywodraethu'n effeithiol ac, yn y pen draw, am lywio gwelliannau yn eu hysgolion er budd y dysgwyr. I'r mwyafrif o ysgolion, dylai cyrff llywodraethu fod yn rhydd i oruchwyllo'r broses gwerthuso a gwella, wedi'u cefnogi gan gyngor, adnoddau a gwasanaethau gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Fodd

bynag, pan fydd ysgolion yn achosi pryder, bydd disgwyl i awdurdodau lleol gymryd camau cyflym ac effeithiol, wedi'u cynghori a'u cefnogi gan gonsortia rhanbarthol.

O fewn y fframwaith hwn, ceir gwahaniaeth clir rhwng gweithgareddau gwerthuso a gwella; atebolrwydd; a thryloywder. Dylai'r rhan fwyaf o'r egni a'r ffocws yn y system fod ar wella ysgolion, wedi'i arwain gan waith hunanwerthuso, cynllunio gwelliannau a chymorth effeithiol ym mhob ysgol.

Wrth wraidd y trefniadau bydd amrywiaeth eang o wybodaeth o ansawdd da am ysgolion a'u hardaloedd lleol, a rhannau eraill o'r system, y bydd angen ei defnyddio mewn ffordd amserol, ddeallus a chefnogol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r canllawiau, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn 2022/23 a 2023/24, a'u cyhoeddi ar ffurf canllawiau statudol i ddod i rym ym mis Medi 2024.

Diffinnir y system atebolrwydd o fewn y canllawiau fel *'...y prosesau sydd ar waith i gadarnhau bod gwaith gwerthuso a gwella yn mynd rhagddo'n effeithiol a'r rhwyd ddiogelwch ar gyfer pan na fydd hynny'n digwydd.'* Fe'i gwneir yn glir yn y canllawiau na ddylai atebolrwydd lywio gweithgarwch gwella ysgolion, ond gall gyfrannu ato; a dylai sicrhau y caiff problemau eu nodi a'u datrys. Mae'r canllawiau yn diffinio dau linyr i'r system atebolrwydd:

- i. rôl trefniadau atebolrwydd a llywodraethu democrataidd effeithiol ar bob lefel o'r system ysgolion; a
- ii. rôl Estyn wrth gynnal arolygiadau rheolaidd, cyson, cynhwysfawr a chywir o ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Caiff ysgolion eu harolygu'n fwy rheolaidd gan Estyn. Bydd arolygiadau'n rhoi gwerthusiadau teg a thrwyadl o gynnydd dysgwyr, ansawdd arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu mewn ysgolion, cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru a lles ymarferwyr a dysgwyr.

Bydd pob rhan o'r system ysgolion yn gweld hunanwerthuso fel dull o wella ysgolion unigol a'r system ysgolion ehangach, a chefnogi cynnydd dysgwyr yn y pen draw, yn hytrach na fel ymarfer cydymffurfio o fewn y system atebolrwydd. Er mwyn cyfoethogi eu gwaith cynllunio gwelliannau ymhellach, anogir ysgolion i gynnwys cymheiriaid yn y broses hunanwerthuso er mwyn cael safbwynt allanol ar flaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae cynnydd dysgwyr yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru, felly mae angen rhoi'r un pwysigrwydd i gynnydd mewn gweithgareddau gwerthuso a gwella, a phrosesau atebolrwydd. Mae'r canllawiau hyn yn awgrymu bod ysgolion yn defnyddio'r 2 gwestiwn a ganlyn fel man cychwyn ar gyfer eu gweithgareddau gwella:

- a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd tuag at y pedwar diben ac yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd yn yr Egwyddorion Cynnydd?;
- a yw cyflymder cynnydd dysgwyr yn unol â disgwyliadau athrawon a'r cwricwlwm?

Bydd angen i amrywiaeth eang o wybodaeth a thystiolaeth lywio atebion ysgolion i'r 2 gwestiwn hyn, ac, yn eu tro, byddant yn pennu ffocws gwaith hunanwerthuso a gwella dilynol. O ystyried rôl ganolog cynnydd yn llwyddiant a nodau'r Cwricwlwm i Gymru, mae gan gyrff llywodraethu ac Estyn, sy'n chwarae rôl allweddol mewn system atebolrwydd ysgolion, ddiddordeb dilys yn y dystiolaeth sydd gan ysgolion am y cynnydd a wneir gan eu dysgwyr.

Wrth ddefnyddio gwybodaeth, dylai ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- beidio â dibynnu'n llwyr ar ffyrdd cyfyngedig o fesur cyrhaeddiad dysgwyr i ddod i gasgliadau ar berfformiad ysgolion. Mae dadansoddi data a gwybodaeth yn bwysig, ond ni ddylai fod yn bwysicach na ffynonellau tystiolaeth eraill ar gyfer hunanwerthuso e.e. gwrando ar ddysgwyr; arsylwi ar addysgu.
- Ni fydd data ar gymwysterau ac asesiadau crynodol neu gyrhaeddiad yn unig yn ddigon i ddod i farn ar gynnydd dysgwyr. Felly, bydd angen i ysgolion ddefnyddio ffynonellau ehangach o wybodaeth a thystiolaeth. Mae'n debygol y bydd y rhain yn cynnwys: gwybodaeth gan athrawon a fydd yn asesu cynnydd dysgwyr; gwybodaeth a chynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r Egwyddorion Cynnydd; data ar bresenoldeb, ymddygiad a lles; arsylwadau ar ddysgu ac addysgu; trafodaethau â dysgwyr ac athrawon.

Bydd angen i ysgolion ddangos sut mae eu disgwyliadau ar gyfer gwneud cynnydd yn cymharu â disgwyliadau ysgolion a lleoliadau eraill, er mwyn sicrhau cydlynid a thegwch ym mhob rhan o'r system addysg a chyflymder a her ddigonol yn eu dull o sicrhau cynnydd yn eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu. Dylai cydweithio i ddatblygu a chynnal cyd-ddealltwriaeth o gynnydd fod yn rhan barhaus o brosesau hunanwerthuso a gwella ysgol. Dylai'r ddeialog broffesiynol hon greu cyfoeth o wybodaeth yn cefnogi ystyriaeth ysgol o'r hyn sy'n gweithio'n dda wrth gefnogi cynnydd dysgwyr, a pha feysydd y gellid eu hatgyfnerthu ymhellach.

Mae canlyniad proses hunanwerthuso ysgol yn cynnig tryloywder mwy ystyrion ynglŷn â chryfderau a blaenoriaethau gwella, a gaiff eu hadlewyrchu yng nghynllun datblygu'r ysgol, na data cyrhaeddiad allan o gyd-destun. Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu ac ymroddiad iddynt, dylai'r ysgol gyhoeddi'r copi cryno ar ei gwefan. Dylai'r crynodeb hwn gynnwys:

- crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol;
- blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn bresennol;
- cynnydd yn erbyn y rheiny ar gyfer y flwyddyn flaenorol; a
- cymorth allanol a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.

O fis Medi 2022, bydd y 'blaenoriaethau cenedlaethol' a ddiffinnir yn y Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Ysgolion wedi'u diweddarau i fod yn gydnaws â Cwricwlwm i Gymru, gan felly bwysleisio pwysigrwydd cynnydd. Y 'blaenoriaethau cenedlaethol' newydd y bydd rhaid i ysgolion roi sylw iddynt wrth bennu eu blaenoriaethau ar gyfer gwella fydd:

- gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad; a
- lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Caiff blaenoriaethau gwella ysgolion, a'u cynlluniau datblygu, eu cyhoeddi ar ffurf gryno er budd dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn cefnogi diwylliant lle y bydd ysgolion yn agored am y cymorth sydd ei angen arnynt a lle y bydd partneriaid yn yr haen ganol yn gweithio gydag ysgolion mewn ffordd gefnogol heb eu barnu.

Gan ddechrau gyda hunanwerthusiadau a chynlluniau datblygu ysgolion, bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cytuno gyda phob ysgol ar y cymorth ychwanegol sydd ei angen arni i wella a meithrin ei gallu ei hun. Bydd y cymorth y cytunwyd arno a roddir i ysgolion gan y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol yn cael ei ymgorffori yn eu

cynlluniau datblygu, gan gynnwys crynodebau a gyhoeddwyd, gan ysgogi ysgolion i ofyn am y cymorth sydd ei angen arnynt a gwella tryloywder.

Mae'r amrywiaeth eang o wybodaeth a ddefnyddir ar lefel ysgol i werthuso gwelliant a nodi blaenoriaethau i'r dyfodol yn cefnogi consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i nodi anghenion cymorth ysgolion, yn ogystal â'u helpu i nodi eu blaenoriaethau gwella eu hunain er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir.

Yn ogystal, er mwyn cefnogi cyrff llywodraethu i gyflawni eu swyddogaeth atebolrwydd, dylai consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ddarparu adroddiad mewnol, byr i gyrff llywodraethu bob blwyddyn sy'n:

- rhoi adborth ehangach ar brosesau hunanwerthuso ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella;
- amlygu cryfderau'r ysgol y mae'n credu y gellid eu defnyddio, neu sydd eisoes yn cael eu defnyddio, i gefnogi ysgolion eraill;
- tynnu sylw'r corff llywodraethu at unrhyw faterion penodol y mae angen bod yn ymwybodol ohonynt a'u monitro yn yr ysgol, fel corff atebol yr ysgol;
- ar sail yr uchod, manylion ynghylch sut bwriedir cefnogi ac/neu frocera cymorth i fynd i'r afael â'i blaenoriaethau ar gyfer gwella, ac yn ehangach.

3.0 Ystyriaethau

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion er mwyn sicrhau bod gennym systemau a phrosesau cadarn a phwrpasol ar waith i arddel disgwyliadau cenedlaethol. Bydd ein dull gweithredu yn sicrhau ffydd a chefnogaeth pob rhanddeiliad allweddol a bod pob partner yn cymryd atebolrwydd llawn am gyflawni ei rôl a chyfrannu gyda thryloywder, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE, y Cyd-bwyllgor a chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol. Bydd ymgynghori a thrafod â Fforymau Strategol Penaethiaid rhanbarthol yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen ar 28 Mehefin, 2022.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Byddaf yn darparu unrhyw sylwadau yn y cyfarfod.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon nad oes ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd GwE yn gweithredu'r fframwaith o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

13 Gorffennaf 2022

Adroddiad gan: Rheolwr Archwilio Mewnol & Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Siarter Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol 2022-23

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Siarter Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23.

2.0 Cefndir – Siarter Archwilio Mewnol

2.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn diffinio Archwilio Mewnol fel *“gweithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig”*.

2.2 Daeth *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus* (“y Safonau”) i rym ar 1 Ebrill 2013, a chawsant eu diwygio yn Ebrill 2017. Un o ofynion y Safonau yw'r angen i lunio Siarter Archwilio Mewnol. Mae'r Safonau, yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, yn manylu ar yr hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol. Gellir weld y Siarter yn atodiad 1.

3.0 Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23

3.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weithredwr Archwilio (Rheolwr Archwilio) ddatblygu cynllun yn seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch Archwilio Mewnol.

3.2 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau a thrafodaeth gyda Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, awgrymir y canlynol fel cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2022/23:

Archwiliad	Cynllun (Dyddiau)	Rheswm
Hyfforddiant	7	Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar fodiwlau hyfforddiant sydd yn fandadol megis Cam-drin Domestig, Diogelu Plant ac Oedolion, Atal, Cydraddoldeb ayb. Bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio adroddiadau o'r system MoDS (Modiwl Datblygu Staff) ac unrhyw gofnodion pellach a gedwir gan GwE.
Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff	8	Gyda symudedd cynyddol gweithwyr a'r gallu i weithio o gartref neu yn hybrid gyda chyfleoedd cyflogaeth helaeth, mae cadw staff bellach yn fater dybryd ac mae'n hanfodol bod risgiau staff yn gadael yn cael eu hadnabod. Bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio strategaeth dargadw staff, cynlluniau olyniaeth ynghyd â ffactorau all effeithio ar recriwtio a dargadw megis cydnabyddiaeth ariannol, trefniadau grymuso staff a llesiant iechyd (meddyliol a chorfforol).
Rheoli Absenoldebau	8	Mewn arolwg a gynhaliwyd gan y "Chartered Institute of Personnel and Development" (CIPD), mae 26% o gyflogwyr bellach yn cynnwys covid hir (long covid) fel prif reswm dros absenoldeb salwch hirdymor. Mae'r pandemig wedi codi pryderon difrifol am les meddwl unigolion. Bwriad yr archwiliad yw gwirio lefelau absenoldebau swyddogion GwE a sicrhau bod fframwaith effeithiol i gefnogi iechyd meddwl swyddogion gan gynnig ffynonellau cymorth megis cwnsela, cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ynghyd â sicrhau bod gan reolwyr llinell gefnogaeth i gefnogi eu timau.
<i>Eraill:</i>		
Rheolaeth a Phwyllgorau	2	Amser wedi ei neilltuo i swyddogion Archwilio Mewnol fynychu pwyllgorau GwE ac i reoli gwaith.

Archwiliad	Cynllun (Dyddiau)	Rheswm
Cyfanswm	25	

3.3 Mae Cynllun Archwilio 2022-23 yn gynllun gyda hyblygrwydd er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Archwilio i gefnogi GwE gydag unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg ac i weithredu'n brydlon i unrhyw risgiau a ddeillir yn sgil y materion hynny.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Ystyried cynnwys y Siarter Archwilio (Atodiad A) a Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23, ac unai ddarparu argymhellion penodol perthnasol a/neu eu cymeradwyo a chefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Ni fydd oblygiadau ariannol ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Ni fydd oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Ni fydd oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghori â Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Siarter Archwilio Mewnol

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae gan Archwilio Mewnol rôl allweddol wrth roi sicrwydd annibynnol i'r Cyd-bwyllgor ac i'r Swyddog Cyllid Statudol. Rwyf wedi cydweithio gydag awdur yr adroddiad ar ddatblygiad y Siarter Archwilio Mewnol, ac yn hapus gyda'i gynnwys.

Credaf fod y cynllun sydd wedi ei gyflwyno ar gyfer 2022/23 yn addas er mwyn rhoi sicrwydd i GwE am y trefniadau sydd yn eu lle i liniaru risgiau arwyddocaol.



SIARTER

ARCHWILIO MEWNOL



SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

1. PWRPAS

1.1 Pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyd-Bwyllgor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r GwE trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i Reolwr Gyfarwyddwr GwE, y Pennaeth Cyllid a'r Cyd-Bwyllgor

2. RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN LLYWODRAETH LEOL

2.1 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn *“gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o’n materion ariannol ac yn sicrhau fod un o’u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn.”*

2.2 Mae Rheoliadau Cyrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan:

- (1) Rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o’i gofnodion cyfrifyddu a’i system o reoli mewnol.
- (2) Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o’r corff hwnnw, os yw’r corff yn ei gwneud yn ofynnol—
 - (a) trefnu bod unrhyw ddogfennau’r corff sy’n ymwneud â’i gofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill ar gael fel y mae’n ymddangos i’r corff hwnnw ei fod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad; a
 - (b) rhoi i’r corff y cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae’r corff hwnnw’n ystyried eu bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.
- (3) Rhaid i gorff perthnasol mwy, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn, gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei archwiliad mewnol.
- (4) Rhaid ystyried canfyddiadau’r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), fel rhan o’r ystyriaeth o’r system o reoli mewnol y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3), gan y pwyllgor neu’r corff y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

3. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

3.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol yn y sector gyhoeddus, boed yn fewnol, gwasanaethau a rennir neu allanol. Rhain a ddiffinnir fel *“ymarferion archwilio mewnol priodol.”*

3.2 Mae'r Safonau yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

“Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig.”

3.3 Tra bod Archwilio Mewnol yn anad dim yn sicrhau priodoldeb ariannol, mae cylch gwaith Archwilio Mewnol yn ymestyn i holl amgylchedd reolaeth GwE, ac nid yw wedi ei gyfyngu i risg ariannol yn unig.

4. CYFRIFOLDEBAU AC AMCANION

4.1 O dan Adran 151 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972, mae Swyddog “Adran 151” yr awdurdod lletyol yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer rheoli materion ariannol GwE.

4.2 Mae'r Safonau yn cynnwys terminoleg sydd angen ei ddiffinio'n glir o fewn y Siarter lleol, sef y “Bwrdd”, y “Pwyllgor Archwilio”, y “Prif Swyddog Archwilio” ac “Uwch Reolwyr”.

“Bwrdd” a “Pwyllgor Archwilio”

Mae'r safonau yn diffinio'r “Bwrdd” (*Board*) fel **“y lefel uchaf o gorff llywodraethol sydd â'r cyfrifoldeb i gyfarwyddo a/neu goruchwyllo gweithgareddau a rheolaeth y sefydliad. Gall ‘Bwrdd’ gyfeirio ar bwylgor archwilio y mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo swyddogaethau penodol iddo”**. Maent yn diffinio “Pwyllgor Archwilio” (*Audit Committee*) fel y **“grŵp llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg, yr amgylchedd reolaeth fewnol a hygredd adroddiadau ariannol”**. At bwrpasau'r Siarter Archwilio Mewnol yma, felly, mae Cyd-bwyllgor GwE yn ymgymryd â rôl “Bwrdd” a “Pwyllgor Archwilio” er mwyn diwallu gofynion y Safonau.

“Prif Swyddog Archwilio”

Y Rheolwr Archwilio sy'n gweithredu fel Prif Swyddog Archwilio (*Chief Audit Executive*) yn unol â'r derminoleg yn y Safonau.

“Uwch Reolwyr”

Lle mae'r Safonau yn cyfeirio at “Uwch Reolwyr” (*Senior Management*), yng nghyd-destun cyfathrebu canlyniadau gwaith archwilio mewnol a thrafod y cynllun gwaith, mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i Swyddog “Adran 151” yr Awdurdod Lletyol, ond mae ganddo/ganddi'r rhyddid i adrodd yn uniongyrchol i Reolwr Gyfarwyddwr GwE, y Swyddog Monitro neu aelodau'r Cyd-Bwyllgor pe bai ef/hi o'r farn fod hynny'n angenrheidiol.

- 4.3 Er mwyn diwallu'r angen i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd orau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael, mae defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel. Nod Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i Reolwr Gyfarwyddwr GwE, y Pennaeth Cyllid a Chyd-Bwyllgor GwE, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a'u defnyddio'n briodol gyda thryloywder.
- 4.4 Gwneir hyn drwy ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r Cyd-Bwyllgor ar yr amgylchedd reolaeth trwy gynnal archwiliadau ar systemau ariannol a threfniadau rheolaeth fewnol GwE, gan gynnal cyfuniad o archwiliadau risg, system, rheoleidd-dra, cyfrifiadurol a chontractau, yn unol â strategaeth a chynllun archwilio sydd yn seiliedig ar asesiad o anghenion archwilio GwE.
- 4.5 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod archwilio mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus cyn belled a bo hynny'n ymarferol. I'r perwyl hwn, bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi cynllun archwilio blynyddol wedi ei lunio drwy adolygiad gwrthrychol o'r risgiau a all amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau GwE mewn ymgynghoriad â Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

5.0 ANNIBYNNIAETH, CODE MOESEG A HAWL MYNEDIAD

- 5.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn pwysleisio annibyniaeth Archwilio Mewnol o ran trefn a hawl adrodd.
- 5.2 Bydd pob Archwiliwr Mewnol yn arwyddo Datganiad Annibyniaeth Archwiliwr yn flynyddol sydd yn cwmpasu y ddyletswydd i gydymffurfio â'r pedwar prif egwyddor sydd wedi eu hymgorffori yng Nghod Moeseg y Safonau:
- Integriti
 - Gwrthrychedd
 - Cyfrinachedd
 - Cymhwysedd
- 5.3 Mae gan GwE broses i adnabod yr angen am archwiliad mewnol a gweithredu ar yr argymhellion:
1. Adnabod yr angen am archwiliad mewn meysydd penodol. Bydd y cynllun gwaith hyn yn cael ei ddatblygu lle'n bosib trwy ystyried cofrestrau risg, adroddiadau perfformiad, chynlluniau busnes ayb.
 2. Cyfarfod rhwng Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.
 3. Cytuno ar y rhaglen archwilio am y flwyddyn gyda'r Bwrdd Rheoli.
 4. Cynnwys y rhaglen i'w rhannu gyda'r Cydbwyllgor.
 5. Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i gynnal yr archwiliadau.

6. Rhannu adroddiadau archwilio drafft gyda rheolwyr perthnasol GwE am gywirdeb ac i gytuno camau gweithredu i gyfarch unrhyw risgiau.
7. Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i anfon adroddiadau archwilio i Reolwr Gyfarwyddwr a rheolwyr perthnasol GwE.
8. Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar gamau gweithredu cytunedig (materion gweinyddol fydd ddim angen mewnbwn y Cydbwyllgor).
9. Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i rannu adroddiadau archwilio unigol gyda'r Bwrdd Rheoli.
10. Rheolwr Archwilio'r awdurdod lletyol yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cydbwyllgor ar unrhyw archwiliadau y cynhelir yn ystod y flwyddyn.
11. Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar benderfyniadau'r Cydbwyllgor.
12. Swyddogion GwE i adrodd ar gynnydd fel bo angen i'r Cydbwyllgor.

6. EGWYDDORION CRAIDD

6.1 Ar gyfer ystyried archwilio mewnol yn effeithiol, mae'r egwyddorion craidd canlynol yn mynnu bod yr archwiliwr mewnol/gweithgaredd archwilio mewnol yn:

- Arddangos integriti
- Arddangos cymhwysedd a gofal proffesiynol
- Yn wrthrychol ac yn rhydd o ddylanwad (annibyniaeth)
- Yn alinio i strategaethau, amcanion a rigiau y sefydliad
- Ei sefydlu'n briodol a gyda adnoddau digonol
- Yn arddangos ansawdd a gwelliant parhaus
- Cyfathrebu'n effeithiol
- Darparu sicrwydd yn seiliedig ar sail risg
- Yn craffu, rhagweithiol a ffocws ar y dyfodol
- Hyrwyddo gwelliant sefydliadol

7. PERTHYNAS GYDA'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU

- 7.1 Mae GwE wedi penderfynu mai'r Cyd-Bwyllgor yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu".
- 7.2 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyd-Bwyllgor ar archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

8. ADRODDIADAU

- 8.1 Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei baratoi ar gyfer y mwyafrif o archwiliadau a gwblheir, ar wahân i rai archwiliadau bychain ble na gafwyd gwendidau sylweddol ac nad oedd adroddiad archwiliad cyflawn yn angenrheidiol. Yn yr achosion hyn, anfonir memoranda i'w swyddogion perthnasol.
- 8.2 Lle'n briodol, bydd pob adroddiad wedi ei gosod mewn un o 4 categori lefel sicrwydd. Bydd y lefel sicrwydd a ddarperir yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg.

Bydd y sgôr risg cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGOR
UCHEL IAWN	20 - 25
UCHEL	12 - 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 8.3 Bydd lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod

UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

Mae defnyddio lefelau sicrwydd yn debygol o fod yn llai priodol ar gyfer adroddiadau sydd wedi eu paratoi yn dilyn archwiliad arbennig, neu waith sydd ag agwedd "ymgyngori".

- 8.4 Ar ôl cwblhau gwaith archwilio, caiff adroddiad drafft o'r darganfyddiadau ynghyd â unrhyw feysydd o risg a adnabuwyd ei baratoi ar gyfer y rheolwyr perthnasol er mwyn iddynt gael cyfle i ystyried y darganfyddiadau a datrysiaidau posib i liniaru'r risgiau. Rhoddir cyfnod o 2-3 wythnos i reolwyr ymateb i'r drafft, ond ystyrir cyfnod hirach pe derbynnir cais am estyniad. Os na dderbynnir ymateb erbyn y dyddiad a amlinellir, tybir fod yr adroddiad yn dderbyniol a caiff adroddiad terfynol ei ryddhau. Os derbynnir sylwadau, caiff rhain eu hystyried (a gellir addasu'r adroddiad drafft, neu beidio) cyn rhyddhau yr adroddiad terfynol. Os nad oes cytundeb i liniaru risg(iau), bydd hynny yn derbyn sylw yn yr adroddiad terfynol.
- 8.5 Wedi cyfnod priodol, mae Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilyniant er mwyn sicrhau bod yr hyn a gytunwyd yn weithredol.

9. BARN ARCHWILIO BLYNYDDOL

- 9.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion y Safonau.

10. HYFFORDDIANT

- 10.1 Caiff aelodau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol eu hannog i fynychu gwahanol seminarau a chyrсияu gan gynnwys derbyn gwybodaeth arbenigol mewn meysydd allweddol gan gynnwys twyll, llygredd ac afreoleidd-dra, TG, rheoli prosiect yn seiliedig ar egwyddorion PRINCE2, caffael a chontractau. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn fewnol neu drwy fynychu cyrsiau allanol gan ddarparwyr megis CIPFA.
- 10.2 Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn anelu at barhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r cymysgedd o sgiliau a phrofiad o fewn y gwasanaeth. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau gyda'i nod o sicrhau y bydd o leiaf 2 archwilwyr (heb gynnwys y Rheolwr Archwilio) yn gymwysedig â chorff CCAB neu'r IIA, yn ogystal â sicrhau y bydd o leiaf un archwiliwr yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster proffesiynol ar unrhyw un adeg.
- 10.3 I gydymffurfio â chymhwyster CIPFA a'r ACCA, mae'n ofynnol i'r Archwilwyr Mewnol sydd wedi ennill y cymhwyster i ymgymryd â isafswm oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn flynyddol.

11. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT

- 11.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol CIPFA sy'n gysylltiedig, yn mynnu bod y Rheolwr Archwilio (y "prif weithredwr archwilio" yn nherminoleg y Safonau) yn datblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cwmpasu pob agwedd o weithgareddau archwilio mewnol.

- 11.2 Bwriad y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yw galluogi gwerthusiad o gydymffurfiaeth gweithgareddau archwilio mewnol gyda'r Safonau ynghyd â gwerthusiad os yw'r archwilwyr mewnol yn gweithredu'r Côt Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau archwilio mewnol ac yn adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant.
- 11.3 Bydd y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol.
- 11.4 Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan adolygwr annibynnol, cymwys o du allan i'r sefydliad, un ai drwy asesiad allanol llawn neu drwy hunanasesiad wedi'i ddilysu gan adolygwr allanol.
- 11.5 Bydd y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant ynghyd â chanlyniadau'r asesiadau mewnol ac allanol yn cael eu cyflwyno gan y Rheolwr Archwilio i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd.